Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Cyfrifon Cyfunol Llywodraeth Cymru

2024-25









**llyw.cymru**

## Deddf Llywodraeth Cymru 2006

Paratoir cyfrifon Llywodraeth Cymru yn unol ag Adran 131 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 ar gyfer y flwyddyn hyd at 31 Mawrth 2025, ynghyd â Thystysgrif ac adroddiad Archwilydd Cyffredinol Cymru arnynt.

Fe'u gosodir gerbron Senedd Cymru yn unol ag Adran 131 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006.

© Hawlfraint y Goron 2025, Llywodraeth Cymru, WG52503, ISBN digidol 978-1-80633-824-5
Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg

# Trosolwg gan yr Ysgrifennydd Parhaol



**Dr Andrew Goodall CBE**
Ysgrifennydd Parhaol

Mae'n bleser gennyf gyflwyno fy mhedwaredd set o gyfrifon cyfunol ar ran Llywodraeth Cymru. Maent yn ymdrin â chyfnod sydd, yn ddi-os, wedi bod yn un prysur i ni fel sefydliad, ac sydd hefyd wedi bod yn un heriol – gyda chryn dipyn o newid gwleidyddol ar adeg o ansicrwydd sylweddol ynglŷn â'n rhagolygon ariannol.

Gallwch weld disgrifiad manwl o'r cyfnod hwn o gyfyngiadau ariannol ac ymarferion blaenoriaethu yn y naratif hwn. Fodd bynnag, llwyddwyd i roi cyllid ychwanegol yn y Gyllideb, gan leddfu'r pwysau gwaethaf ar gyllidebau ein rhaglenni. Yn dilyn trafodaethau helaeth gyda'r Prif Weinidog ac Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid ynglŷn â'r pwysau ar ein costau rhedeg, rydym hefyd mewn sefyllfa fwy cadarn o ran y gyllideb Gweinyddu Canolog.

Gyda'i gilydd, mae hyn yn golygu ein bod mewn sefyllfa ariannol lawer gwell, gan barhau i gyflawni ar gyfer ein Gweinidogion a phobl Cymru. Yma, mae cryn dipyn o waith wedi cael ei wneud eisoes, megis Bil Iechyd a Gofal Cymdeithasol Cymru – sy'n golygu mai ni yw'r gyntaf o wledydd y DU i gyflwyno gwaharddiad ar elw preifat o ofal plant yng Nghymru – a chyhoeddi'r Strategaethau Iechyd Meddwl a Llesiant Meddyliol ac Atal Hunanladdiad a Hunan-niweidio, a oedd yn ffrwyth dwy flynedd o ymgysylltu a chydweithio. Mae'r dull cynhwysol hwn sy'n seiliedig ar yr unigolyn yn gryfder enfawr, ac mae'n sicrhau bod pobl a'u llesiant wrth wraidd polisi cyhoeddus.

Mae hefyd yn dangos bod cyflawni pedair blaenoriaeth allweddol y Prif Weinidog (gwell iechyd, mwy o swyddi, mwy o gartrefi a gwell trafnidiaeth) yn dal wrth wraidd popeth a wnawn. Er mwyn ein helpu i aros ar y trywydd cywir, mae gan gam olaf ein rhaglen newid sefydliadol, sef LlC2025, ffocws penodol ar gyflawni. Mae Gweledigaeth Strategol wedi cael ei datblygu, sef 'Adeiladu Cymru Well drwy Gyflawni'n Rhagorol yn y Llywodraeth', sy'n canolbwyntio ar ddau faes yn unig:

- Cyflawni'n Rhagorol yn y Llywodraeth;
- Gweithredu'n Rhagorol yn y Llywodraeth.

Bydd hyn yn ein helpu i sicrhau y gallwn barhau i gefnogi ein Gweinidogion gan wneud gwelliannau i'n ffordd o weithio ar yr un pryd. Mae camau ymarferol a dulliau pwrpasol ar waith er mwyn ein helpu i wneud y newidiadau y bydd eu hangen arnom, yn ogystal â Chynlluniau Gweithredu ar gyfer LlC2025 a Chyflawni'n Rhagorol yn y Llywodraeth.

Ceir chwe maes blaenoriaeth ar gyfer y flwyddyn sydd i ddod, ynghyd â meysydd i ganolbwyntio arnynt ar unwaith er mwyn bwrw ymlaen â gwelliannau gwirioneddol:

1. Sicrhau ein bod yn barod ar gyfer Diwygio'r Senedd.
2. Gwella ein prosesau, ein systemau a'n data.
3. Creu lle gwell i bob un ohonom weithio.
4. Bod yn sefydliad sy'n galluogi newid ac yn annog gwelliant parhaus.
5. Ysgogi effeithlonrwydd, gwella llywodraethiant a grymuso;
6. Optimeiddio ein hystad.

Bydd hyn yn ein rhoi mewn sefyllfa gryfach i ymateb i Ddeddf Senedd Cymru (Aelodau ac Etholiadau) a'r newidiadau sylweddol a fydd yn deillio ohoni cyn etholiad y Senedd yn 2026. Bydd y ddeddfwriaeth hon yn effeithio nid yn unig ar ein hetholiadau a'n Senedd, ond hefyd ar y Gwasanaeth Sifil a'r sefydliad ei hun. Dyma'r newid cyfansoddiadol mwyaf sylweddol yng Nghymru ers datganoli – gan foderneiddio ein prosesau democrataidd, diwygio ein system etholiadol ac ehangu gallu'r Senedd i wneud ei gwaith.

I ni fel gweision sifil, mae'r newidiadau hyn yn arbennig o bwysig. Mae craffu yn chwarae rhan hollbwysig yn y gwaith o sicrhau y caiff y llywodraeth ei dwyn i gyfrif am ei phenderfyniadau. Mae'n ysgogi gwelliannau i bolisïau, deddfwriaeth, a'r ffordd y caiff ein swyddogaethau eu cyflawni. Ac mae ymateb i'r craffu hwn yn gyfrifoldeb craidd. Nid yw trefniadau craffu ac atebolrwydd y Senedd yn bethau sydd rywsut ar wahân i waith datblygu polisïau na chyflawni; maent yn rhan hanfodol o lywodraethiant da, oherwydd bydd craffu mwy effeithiol yn arwain at ganlyniadau gwell i Gymru yn y pen draw.

Dyma pam y bydd cam olaf LlC2025 hefyd yn ein helpu i ailystyried ein ffordd o wneud pethau, arloesi ac archwilio ffyrdd newydd a gwell o weithio – gan wella'r ffordd y byddwn yn rheoli busnes y Senedd a'r Llywodraeth, symleiddio ein prosesau, a defnyddio technoleg a deallusrwydd artiffisial i gefnogi ein gwaith o ddydd i ddydd.

Mae newid sylweddol o'n blaenau, ond rydyn ninnau'n newid hefyd, ac rwy'n ffyddiog y gallwn wynebu'r dyfodol yn hyderus.

**Dr Andrew Goodall CBE**
Yr Ysgrifennydd Parhaol

# Cyflwyniad gan Gadeirydd Archwilio a Sicrwydd Risg Llywodraeth Cymru

Diben Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg Llywodraeth Cymru (ARAC Llywodraeth Cymru) drwy gydol y flwyddyn fu parhau i roi cymorth a chyngor i'r Prif Swyddog Cyfrifyddu ar faterion sy'n ymwneud â rheoli risg, rheolaeth fewnol a llywodraethiant yn unol â'r egwyddorion a'r canllawiau yn Llawlyfr Pwyllgor Archwilio a Risg Trysorlys EF. Rôl cynghori yn unig sydd gan ARAC Llywodraeth Cymru ac nid oes ganddo unrhyw bwerau gweithredol.

Yn ystod 2024-25, cyfarfu ARAC Llywodraeth Cymru ar bum achlysur a pharhaodd i ystyried a chytuno ar ei flaenraglen waith bob chwarter. Hefyd, cefais drafodaethau rheolaidd gyda'r Prif Swyddog Cyfrifyddu, y Cyfarwyddwr Cyllid, y Pennaeth Archwilio Mewnol, uwch-swyddogion a chadeiryddion annibynnol ARACs y Grwpiau ar nifer o faterion er mwyn helpu i lywio rhaglen waith y pwyllgor.

Ym mhob cyfarfod, roedd yr eitemau sefydlog ar yr agenda yn cynnwys:

- Diweddariad a throsolwg gan y Prif Swyddog Cyfrifyddu;
- Materion llywodraethiant a risg, gan gynnwys y gofrestr risg gorfforaethol ac adroddiadau chwarterol gan ARACs y Grwpiau;
- Monitro'r ffordd y caiff argymhellion Archwilio Cymru a Phwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus y Senedd eu rhoi ar waith;
- Diweddariad gan y Pennaeth Archwilio Mewnol;
- Diweddariad gan Archwilio Cymru.

Yn ychwanegol at yr eitemau sefydlog hyn ar yr agenda, cynhaliodd y pwyllgor archwiliadau dwfn o sawl maes, gan gynnwys:

- Risgiau sy'n gysylltiedig â TG gan gynnwys hen raglenni corfforaethol, parhad busnes a seiberwydnwch;
- Cynnydd o ran rhaglen newid 'LlC2025';
- Rheoli a chofnodi achosion o wrthdaro buddiannau;
- Trefniadau rheoli rhaglenni a phrosiectau.

Hefyd, roedd aelodau o'r pwyllgor yn bresennol mewn cyfarfod briffio gan Archwilio Cymru a thîm cyllid canolog Llywodraeth Cymru ar y materion allweddol sydd ynghlwm wrth y gwaith o baratoi ac archwilio'r cyfrifon blynyddol, a arweiniodd at wella ansawdd y drafodaeth yn ein cyfarfodydd dilynol. Yn benodol, ystyriodd y Pwyllgor yr amgylchiadau sydd wedi arwain at yr Archwilydd Cyffredinol yn amodi ei farn 'wir a theg' mewn perthynas â balans 'gwerth teg' benthyciadau i fyfyrwyr ar 31 Mawrth 2025. Roedd y Pwyllgor yn fodlon bod hyn, yn ei hanfod, o ganlyniad i amseru'r trosglwyddo i fodel ystadegol newydd ar gyfer blwyddyn ariannol 2025-26, yn hytrach nag o ganlyniad uniongyrchol i unrhyw weithredu neu ddiffyg gweithredu ar ran Llywodraeth Cymru.

Yn bresennol fel mater o drefn ym mhob un o gyfarfodydd ARAC Llywodraeth Cymru roedd yr Ysgrifennydd Parhaol, y Prif Swyddog Gweithredu, yr holl Gyfarwyddwyr Cyffredinol, y Cyfarwyddwr Cyllid, y Pennaeth Archwilio Mewnol, Pennaeth y Ganolfan Ragoriaeth Llywodraethiant Corfforaethol, y Prif Gyfrifydd a chynrychiolwyr Archwilio Cymru. Byddai swyddogion eraill yn bresennol i gyflwyno papurau penodol ar gais y pwyllgor.

Rwy'n falch o nodi bod presenoldeb drwy gydol y flwyddyn yn dda iawn, a bod y pwyllgor wedi bod yn fforwm gwerthfawr ar gyfer trafodaeth agored a her adeiladol. Caiff cofnodion cyfarfodydd y pwyllgor eu cyhoeddi ar wefan Llywodraeth Cymru[1], er mwyn gwella tryloywder ac yn unol â'r arferion llywodraethiant gorau.

1 Cyfarfodydd y Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg | LLYW.CYMRU

Yn ystod 2024-25, comisiynais adolygiad gan y Pennaeth Archwilio Mewnol o effeithiolrwydd trefniadau ARACs y Grwpiau. Er bod y rhain wedi parhau i weithredu'n dda drwy gydol y flwyddyn, daeth yr adolygiad i'r casgliad bod achos cryf o blaid mabwysiadu'r model 'Byrddau Sicrwydd' roedd Llywodraeth yr Alban wedi'i roi ar waith yn ddiweddar. Cymeradwyodd y Pwyllgor Gweithredol y cynnig hwn ym mis Mawrth 2025, ac mae'r broses o bontio o ARACS y Grwpiau i Fyrddau Sicrwydd y Grwpiau wedi cael ei rheoli'n ddidrafferth yn ystod chwarter cyntaf 2025-26.

Mae'r Byrddau Sicrwydd eisoes yn sicrhau ffocws llywodraethiant cryfach ar y risgiau allweddol ym mhortffolio pob Grŵp, a dylai hyn, yn ei dro, wella'r sicrwydd a roddir gan Gyfarwyddwyr Cyffredinol i'r Prif Swyddog Cyfrifyddu.

Mae Llywodraeth Cymru yn ymdrin â phortffolio heriol ac amrywiol o gyfrifoldebau, gan gynnwys rhoi cymorth i Weinidogion, datblygu cyngor polisi cadarn, drafftio deddfwriaeth Cymru, goruchwylio a chefnogi amrywiaeth eang o gyrff cyhoeddus datganoledig, bodloni gofynion statudol a darparu rhai gwasanaethau cyhoeddus yn uniongyrchol.

Mae'n gweithredu mewn amgylchedd gwleidyddol cymhleth, ac yng nghyd-destun pwysau parhaus ar gyllid cyhoeddus y DU a Chymru. Llywodraethiant da sydd wrth wraidd gallu Llywodraeth Cymru i weithredu'n gyflym ac yn ddiogel, a chan roi sylw dyladwy i briodoldeb, rheoleidd-dra, a'r angen i sicrhau gwerth da am arian.

Felly, mae'n destun pryder imi nodi bod y Pennaeth Archwilio Mewnol, am y tro cyntaf, wedi penderfynu bod angen rhoi barn sicrwydd flynyddol 'hollt'. Fel yr esbonnir yn y Datganiad Llywodraethiant Blynyddol ar dudalen 98, rhoddwyd barn sicrwydd 'resymol' (fel mewn blynyddoedd blaenorol) ar y trefniadau i sicrhau llywodraethiant, rheoli risg a rheolaeth fewnol ar lefel y grwpiau. Fodd bynnag, ar lefel y sefydliad, mae dibyniaeth Llywodraeth Cymru ar 'hen' systemau TG corfforaethol sydd â gallu cyfyngedig i ryngweithredu yn effeithio ar ddigonolrwydd a dibynadwyedd gwybodaeth reoli. Felly, dim ond barn sicrwydd 'gyfyngedig' y gellid ei rhoi ar y trefniadau ar gyfer rheoli'r risgiau sy'n gysylltiedig â phrosesau a systemau corfforaethol.

Mae ARAC Llywodraeth Cymru wedi nodi'r gwaith y mae Llywodraeth Cymru wedi'i wneud hyd yma a bydd yn parhau i gadw golwg agos ar y rhaglen 'Trawsnewid Systemau Corfforaethol' y bwriedir iddi liniaru'r risgiau a nodwyd i systemau Adnoddau Dynol, Cyllid a Grantiau, gan gynnwys cefnogi prosesau busnes. Mae'n amlwg i mi y bydd angen buddsoddiad sylweddol yng nghyd-destun amgylchedd ariannol heriol dros y blynyddoedd sydd i ddod er mwyn mynd i'r afael â'r materion hyn wrth i'r amrywiol 'hen' systemau corfforaethol nesáu at ddiwedd eu hoes weithredol.

Yn yr un modd, bydd ARAC Llywodraeth Cymru yn cadw golwg agos yn ystod gweddill 2025-26 ar effeithiolrwydd trefniadau rheoli risg Llywodraeth Cymru wrth iddi baratoi i gefnogi gweithrediadau'r Senedd fwy yn dilyn etholiadau mis Mai 2026.

Hoffwn achub ar y cyfle hwn i ddiolch i'r Ysgrifennydd Parhaol, fy nghyd-Gyfarwyddwyr Anweithredol, holl swyddogion Llywodraeth Cymru, yr archwilwyr a'r ysgrifenyddiaeth am eu cymorth gyda gwaith parhaus ARAC Llywodraeth Cymru a Byrddau Sicrwydd newydd y Grwpiau.

**Mike Usher CPFA**
Cyfarwyddwr Anweithredol a Chadeirydd Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg Llywodraeth Cymru

# Cynnwys

Beth sydd yn yr Adroddiad a'r Cyfrifon: Ciplun 9
Trosolwg o Adroddiadau Llywodraeth Cymru 11

## Adroddiad Perfformiad

### Pwy ydym ni
Cyflwyniad i Lywodraeth Cymru 13
Y Cabinet 14
Y Gwasanaeth Sifil 17

### Yr hyn a wnawn
Y Rhaglen Lywodraethu 18
Cyflawni ein Hymrwymiad i Lesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 19
Rheoli ein Rhaglen Ddeddfwriaethol 23
Gweinyddu Cyllid Grant 26
Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru 30
Y Grŵp Gwasanaethau Corfforaethol ac Arolygiaethau 31
Grŵp yr Economi, Ynni a Thrafnidiaeth 35
Y Grŵp Addysg, Diwylliant a'r Gymraeg 40
Y Grŵp Iechyd, Gofal Cymdeithasol a'r Blynyddoedd Cynnar 44
Y Grŵp Llywodraeth Leol, Tai, Newid Hinsawdd a Materion Gwledig 48

### Sut rydym yn cael ein cyllido a sut rydym yn gwario'r cyllid
Llifoedd Cyllido Llywodraeth Cymru 51
Polisi Trethi Llywodraeth Cymru a Rhagolygon Cyllidol 52
Benthyca Gweinidogion Cymru 52
Cyd-destun Ariannol Llywodraeth Cymru 52
Prif Feysydd Gwariant Llywodraeth Cymru 53
Datganiad Llywodraeth Cymru o'r Sefyllfa Ariannol 56
Ffin Gyfrifyddu Llywodraeth Cymru 58
Y berthynas rhwng Cyfrifon Llywodraeth Cymru ac adroddiadau ariannol y sector cyhoeddus ehangach 62

### Sut rydym yn perfformio
Adrodd ar Berfformiad Llywodraeth Cymru 64
Mewnwelediadau Staff 75

### Sut rydym yn trefnu ein hunain i gyflawni
LIC 2025 79
Newid Hinsawdd – adroddiadau Llywodraeth Cymru ar yr ystad a chynaliadwyedd 84
Ein hymrwymiad i degwch a chynhwysiant 87
Gweithio'n ddwyieithog 92
Gohebiaeth a chwynion 93

## Adroddiad Atebolrwydd


Datganiad o Gyfrifoldebau'r Swyddog Cyfrifyddu 96

Datganiad Llywodraethiant 98

Colledion, Taliadau Arbennig a Rhoddion 136

Adroddiad Cydnabyddiaeth Ariannol a Staff 2024-25 138

Crynodeb o'r Alldro Adnoddau 160

Tystysgrif ac Adroddiad Archwilydd Cyffredinol Cymru i'r Senedd 169


## Y Datganiadau Ariannol


Datganiad Cyfunol o Wariant Net Cynhwysfawr 176

Datganiad Cyfunol o'r Sefyllfa Ariannol 177

Datganiad Cyfunol o Lifoedd Arian Parod 179

Datganiad o Newidiadau yn Ecwiti Trethdalwyr 181

Nodiadau i'r Cyfrifon 183

Atodiad A – Polisïau Cyfrifyddu 227

# Beth sydd yn yr Adroddiad a'r Cyfrifon: Ciplun

Hwn yw Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon Llywodraeth Cymru ar gyfer 2024-25. Mae'n nodi'n fanwl sut rydym wedi rheoli ein cyllid ac wedi cyflawni ein rhwymedigaethau statudol. Mae hefyd yn taflu goleuni ar Lywodraeth Cymru fel sefydliad drwy gydol y flwyddyn. Adroddiad Blynyddol Llywodraeth Cymru[2] yw'r cyfrwng adrodd ar y Rhaglen Lywodraethu sydd ar gael ar wefan Llywodraeth Cymru. Fel mewn blynyddoedd blaenorol, mae i'r Adroddiad Blynyddol a'r Cyfrifon dair adran wahanol.

## Yr Adroddiad Perfformiad

Mae'r Adroddiad Perfformiad yn ymdrin â Llywodraeth Cymru fel sefydliad. Mae'r Adroddiad Perfformiad yn canolbwyntio ar weithgarwch Llywodraeth Cymru yn helpu i gyflawni polisïau Gweinidogion Cymru, ac mae Adroddiad Blynyddol Llywodraeth Cymru yn adlewyrchu ar y cynnydd y mae Gweinidogion Cymru wedi'i wneud o ran y Rhaglen Lywodraethu a'r Amcanion Llesiant. Er hwylustod, mae wedi'i is-rannu'n bum maes.

**Ar gyfer 2024-25, y rhain yw:**

1. Mae **Pwy ydym ni** yn rhoi trosolwg o'n cyfrifoldebau, deddfwriaeth ategol ac yn rhoi gwybodaeth am aelodau'r Cabinet ac uwch-arweinwyr y Gwasanaeth Sifil.
2. Mae **Yr hyn a wnawn** yn ymdrin â chefnogi'r Gweinidogion i gyflawni amcanion polisi, a gweithgareddau i ymgorffori themâu trawsbynciol Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. Mae'n rhoi manylion am ein gweithgarwch deddfwriaethol drwy gydol y flwyddyn, a'n gweithgareddau rheoli grantiau. Mae'n rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru, gan dynnu sylw at raglenni'r UE sy'n dod i ben. Mae'n cynnwys sylwadau'r Grwpiau lle mae pob grŵp yn nodi ei brif flaenoriaethau ar gyfer y flwyddyn, gan roi croestoriad o'n gwaith i gefnogi'r Rhaglen Lywodraethu a chyflawni ein gweithgareddau statudol.
3. Mae **Sut rydym yn cael ein cyllido a sut rydym yn gwario'r cyllid** yn nodi ein polisi trethi, benthyca a phrif feysydd gwariant. Mae hefyd yn ymdrin â ffiniau cyfrifyddu ac yn cynnwys naratif sy'n esbonio'r cyd-destun ariannol rydym yn gweithredu ynddo.
4. Mae **Sut rydym yn perfformio** yn ymdrin â'r modd rydym yn bwrw ymlaen â Fframwaith Perfformiad Llywodraeth Cymru ac mae'n rhoi mewnwelediad o faterion o staff, gan gynnwys Gweithio'n Glyfar a chanlyniadau ein Harolwg Pobl
5. Mae **Sut rydym yn trefnu ein hunain i gyflawni** yn rhoi amrywiaeth eang o ddiweddariadau o Lywodraeth Cymru 2025 ac adroddiadau ar gynaliadwyedd, hyd at ein hymrwymiad i degwch a chynhwysiant a gweithio'n ddwyieithog. Ceir hefyd ddiweddariad ar y broses gwynion.

2 Adroddiad Blynyddol Llywodraeth Cymru 2025 LLYW.CYMRU

## Yr Adroddiad Atebolrwydd

Mae'r rhan hon o'r Adroddiad a'r Cyfrifon yn rhoi gwybodaeth am dâl Gweinidogion ac uwch-staff ac yn rhoi trosolwg o alldro ariannol Llywodraeth Cymru yn erbyn y gyllideb y pleidleisiwyd arni. Mae hefyd yn cynnwys y Datganiad Llywodraethiant blynyddol gan yr Ysgrifennydd Parhaol yn ei rôl fel Prif Swyddog Cyfrifyddu.

Mae'r Datganiad Llywodraethiant yn amlinellu'r prosesau rheoli, llywodraethiant a rheoli risg sydd ar waith i alluogi'r Prif Swyddog Cyfrifyddu a'r Swyddogion Cyfrifyddu Ychwanegol i gyflawni eu cyfrifoldebau i reoli adnoddau'r sefydliad.

## Datganiadau Ariannol

Mae'r Datganiadau Ariannol wedi eu paratoi yn unol â Llawlyfr Adrodd Ariannol y Llywodraeth[3] ac maent yn rhoi datganiad cynhwysfawr o'r costau y mae Llywodraeth Cymru wedi mynd iddynt ac yn manylu ar ei holl asedau a rhwymedigaethau. Mae'r Datganiadau Ariannol yn cynnwys y Prif Ddatganiadau, Nodiadau i'r Cyfrifon a manylion am Bolisïau Cyfrifyddu arwyddocaol.

3 Canllawiau ar adroddiadau blynyddol a chyfrifon (Saesneg yn unig)

# Trosolwg o Adroddiadau Llywodraeth Cymru

| Adroddiadau allweddol | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | Gweinidogol | | | Sefydliad | Data Ystadegol | |
| | **Proses y Gyllideb**[4] | **Adroddiad Alldro**[5] | **Adroddiad Blynyddol Llywodraeth Cymru**[6] | **Adroddiad blynyddol a Chyfrifon** | **Adroddiad Llesiant Cymru**[7] | **Adroddiad Tueddiadau'r Dyfodol**[8] |
| **Deddfwriaeth** | A125 a 126 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, Rheolau Sefydlog<br>20.7 – 20.24<br>20.25 – 20.37 | Amh. | Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 | Deddf Llywodraeth Cymru 2006 – a131-136 | Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 | Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 |
| **Swyddog Arweiniol** | Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a'r Gymraeg | Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a'r Gymraeg | Y Prif Weinidog | Yr Ysgrifennydd Parhaol | Y Prif Ystadegydd | Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyfiawnder Cymdeithasol, y Trefnydd a'r Prif Chwip |
| **Diben** | Cynnig y cynlluniau cyllid a chytuno arnynt, a symiau'r adnoddau a'r arian parod y mae'r llywodraeth yn bwriadu eu defnyddio ar gyfer y flwyddyn ariannol ganlynol (gyda symiau dros dro ar gyfer y ddwy flwyddyn ddilynol neu'r cyfryw gyfnod arall ag yr ystyria'r Gweinidog yn briodol) a diwygiadau i'r gyllideb honno yn ystod y flwyddyn ariannol bresennol. | Yn unol ag ymrwymiad Llywodraeth Cymru i weithio mewn modd agored a thryloyw, cytunodd Llywodraeth Cymru i ddarparu adroddiad ysgrifenedig i'r Pwyllgor Cyllid ar yr alldro terfynol. Mae'r adroddiad yn cynnwys cymhariaeth â'r cynlluniau gwario a nodwyd yng Nghyllideb Atodol olaf y flwyddyn ac esboniad o'r amrywiadau sylweddol. | Cynnydd tuag at gyflawni 10 amcan llesiant Llywodraeth Cymru. | Manylion ynglŷn â sut y caiff Llywodraeth Cymru ei rhedeg, gan gynnwys sut mae'n rheoli ei chyllid ac yn cyflawni ei rhwymedigaethau statudol. | Cynnydd a wnaed drwy gyfraniad cyfunol pob corff cyhoeddus, sefydliad ac unigolyn tuag at y saith nod llesiant drwy ddefnyddio'r dangosyddion llesiant cenedlaethol. | Mae'n amlinellu tueddiadau tebygol yn y dyfodol o ran llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol Cymru ac unrhyw wybodaeth ddadansoddol arall sy'n briodol ym marn Gweinidogion Cymru. |

4 Cyllidebau Llywodraeth Cymru | LLYW.CYMRU
5 Cyllid llywodraeth | Is-bwnc | LLYW.CYMRU
6 Adroddiad Blynyddol Llywodraeth Cymru 2025 | LLYW.CYMRU
7 Llesiant Cymru: 2024 | LLYW.CYMRU
8 Tueddiadau'r Dyfodol: 2021 | LLYW.CYMRU

| Adroddiadau allweddol | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | Gweinidogol | | | Sefydliad | Data Ystadegol | |
| | **Proses y Gyllideb**[4] | **Adroddiad Alldro**[5] | **Adroddiad Blynyddol Llywodraeth Cymru**[6] | **Adroddiad blynyddol a Chyfrifon** | **Adroddiad Llesiant Cymru**[7] | **Adroddiad Tueddiadau'r Dyfodol**[8] |
| Amseriadau | Dim byd penodol ond cyn toriad yr haf mae'n ofynnol i'r Gweinidog Cyllid ysgrifennu at y Pwyllgor Busnes i gytuno ar amserlen y gyllideb. | O fewn tair wythnos i gymeradwyo'r cyfrifon blynyddol. | Cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol ar ôl diwedd y flwyddyn ariannol. | Fe'i cyflwynir i Archwilydd Cyffredinol Cymru i'w archwilio erbyn 30 Tachwedd bob blwyddyn. | Cyn gynted ag y bo'n ymarferol ar ôl diwedd y flwyddyn ariannol. | O fewn 12 mis i etholiad – sleidiau'n cael eu diweddaru'n rheolaidd. |
| Amseriadau'r Flwyddyn Hon | Gosod y gyllideb ddrafft 19 Rhagfyr 2023<br>Cyllideb derfynol 27 Chwefror 2024<br>Cyllideb Atodol 1af 1 Hydref 2024<br>2il Gyllideb Atodol 18 Chwefror 2025 | O fewn tair wythnos i gymeradwyo'r cyfrifon blynyddol. | Gorffennaf 2025 | 3 Rhagfyr 2025 | 26 Medi 2024 | Cyhoeddi Adroddiad Tueddiadau'r Dyfodol 2021 Rhagfyr 2021 |
| Craffu | Pwyllgor Cyllid a Phwyllgorau Pwnc | Pwyllgor Cyllid | Dadl yn y cyfarfod llawn Pwyllgor Craffu ar Waith y Prif Weinidog | Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus | Amh. | Amh. |

# Pwy ydym ni

## Cyflwyniad i Lywodraeth Cymru




Llywodraeth Cymru yw llywodraeth ddatganoledig Cymru. Mae'n gweithio er mwyn helpu i wella bywydau pobl yng Nghymru a gwneud ein gwlad yn lle gwell i fyw a gweithio ynddo. Mae Llywodraeth Cymru yn cynnwys:

- Y Prif Weinidog
- Ysgrifenyddion y Cabinet a Gweinidogion
- Y Cwnsler Cyffredinol

Cânt eu cefnogi gan weision sifil sy'n gweithio mewn meysydd datganoledig sy'n cynnwys meysydd allweddol bywyd cyhoeddus, gan gynnwys:

- Addysg
- Iechyd
- Llywodraeth Leol
- Trafnidiaeth
- Cynllunio
- Datblygu economaidd
- Gwasanaethau cymdeithasol
- Diwylliant
- Y Gymraeg
- Yr Amgylchedd
- Amaethyddiaeth a materion gwledig

Mae Bwrdd Llywodraeth Cymru yn rhoi arweinyddiaeth ar y cyd i'r sefydliad cyfan.

Crëwyd Llywodraeth Cymru yn ffurfiol yn 2007 o dan Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 a rannodd swyddogaethau rhwng y ddeddfwrfa i Gymru a'r Llywodraeth weithredol. O dan Ddeddf Cymru 2014 newidiwyd enw'r ddeddfwrfa i Senedd Cymru (y Senedd fel arfer) a'r weithrediaeth i Lywodraeth Cymru.

Mae setliad datganoli Cymru wedi datblygu'n ddramatig ers sefydlu Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn 1999. O dan arweiniad y Prif Weinidog, mae Llywodraeth Cymru yn gwneud penderfyniadau ac mae'n gyfrifol am gyflawni yn y meysydd sydd wedi'u datganoli iddi, fel y'u nodwyd yn Neddf Llywodraeth Cymru 2006 a Deddfau Cymru 2014 a 2017. Mae hyn yn cynnwys datblygu polisïau a'u rhoi ar waith; sefydlu a chyfarwyddo trefniadau cyflawni a llywodraethiant; cynnig cyfreithiau i Gymru (Biliau'r Senedd): a gwneud is-ddeddfwriaeth, megis rheoliadau. Mae hefyd yn cyllido Cyrff Hyd Braich yng Nghymru.

Ceir rhagor o wybodaeth am gyfrifoldebau Llywodraeth Cymru ar ei gwefan.[9]

9 www.llyw.cymru/

# Y Cabinet

Y Cabinet yw prif gorff gwneud penderfyniadau Llywodraeth Cymru. Mae'n cynnwys y Prif Weinidog, holl Ysgrifenyddion y Cabinet a Gweinidogion a'r Ysgrifennydd Parhaol. Mae'r wybodaeth yn yr adran hon yn cwmpasu'r Prif Weinidog a threfniadau'r Cabinet sydd wedi bod ar waith o 1 Ebrill 2024 hyd at 31 Mawrth 2025.

Mae'r Prif Weinidog yn penodi Ysgrifennydd Cabinet dros bob un o'r portffolios craidd a ddisgrifir isod, yn ogystal â Gweinidogion ychwanegol i gefnogi gwaith Cabinet Cymru, a Swyddog y Gyfraith (Cwnsler Cyffredinol Cymru). Ar gyfer y cyfnod a gwmpesir gan y cyfrifon hyn o 1 Ebrill 2024 i 10 Medi 2024, gwasanaethodd y Cabinetau canlynol.

| | **Cabinet 1 Ebrill i 16 Gorffennaf 2024** | **Cabinet 17 Gorffennaf i 6 Awst 2024** | **Cabinet 7 Awst i 10 Medi 2024** |
|---|---|---|---|
| Eluned Morgan | Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd a Gofal Cymdeithasol | Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd, Gofal Cymdeithasol a'r Gymraeg | Prif Weinidog (o 6 Awst 2024) |
| Vaughan Gething | Y Prif Weinidog | Y Prif Weinidog | |
| Dawn Bowden | Y Gweinidog Gofal Cymdeithasol | Y Gweinidog Gofal Cymdeithasol | Y Gweinidog Gofal Cymdeithasol |
| Elisabeth Velina Jones | | | Y Darpar Gwnsler Cyffredinol |
| Hannah Blythyn | Y Gweinidog Partneriaeth Gymdeithasol hyd at 16 Mai 2024 | | |
| Huw Irranca Davies | Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd a Materion Gwledig | Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd a Materion Gwledig | Y Dirprwy Brif Weinidog ac Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd a Materion Gwledig |
| Jack Sargeant | | Y Gweinidog Partneriaeth Gymdeithasol | Y Gweinidog Partneriaeth Gymdeithasol |
| Jane Hutt | Y Prif Chwip a'r Trefnydd | Ysgrifennydd y Cabinet dros Ddiwylliant, Cyfiawnder Cymdeithasol, Trefnydd a'r Prif Chwip | Ysgrifennydd y Cabinet dros Ddiwylliant, Cyfiawnder Cymdeithasol, Trefnydd a'r Prif Chwip |

| | Cabinet 1 Ebrill i 16 Gorffennaf 2024 | Cabinet 17 Gorffennaf i 6 Awst 2024 | Cabinet 7 Awst i 10 Medi 2024 |
|---|---|---|---|
| Jane Bryant | Y Gweinidog Iechyd Meddwl a'r Blynyddoedd Cynnar | Ysgrifennydd y Cabinet dros Lywodraeth Leol a Thai | Ysgrifennydd y Cabinet dros Lywodraeth Leol a Thai |
| Jeremy Miles | Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi, Ynni a'r Gymraeg[a] | | |
| Julie James | Ysgrifennydd y Cabinet dros Lywodraeth Leol, Tai a Chynllunio[a] | | |
| Ken Skates | Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi, Trafnidiaeth a Gogledd Cymru | Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi, Trafnidiaeth a Gogledd Cymru | Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi, Trafnidiaeth a Gogledd Cymru |
| Lesley Griffiths | Ysgrifennydd y Cabinet dros Ddiwylliant a Chyfiawnder Cymdeithasol[a] | | |
| Lynne Neagle | Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg | Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg | Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg |
| Mark Drakeford | | | Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd a Gofal Cymdeithasol |
| Mick Antoniw | Y Cwnsler Cyffredinol[a] | | |
| Rebecca Evans | Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid, y Cyfansoddiad a Swyddfa'r Cabinet | Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid, y Cyfansoddiad a Swyddfa'r Cabinet | Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid, y Cyfansoddiad a Swyddfa'r Cabinet |
| Sarah Murphy | Y Gweinidog Partneriaeth Gymdeithasol o 17 Mai 2024 | Y Gweinidog Iechyd Meddwl a'r Blynyddoedd Cynnar | Y Gweinidog Iechyd Meddwl a'r Blynyddoedd Cynnar |

a Ymddiswyddodd Jeremy Miles, Mick Antoniw, Julie James a Lesley Griffiths ar 16 Gorffennaf 2024.

Yn dilyn hynny, roedd y Cabinet o 11 Medi 2024 tan ddiwedd y flwyddyn ariannol ar 31 Mawrth 2025 fel a ganlyn:

## Llywodraeth Cymru
Awst 2025

**Y Gwir Anrhydeddus Eluned Morgan AS**  Prif Weinidog Cymru

Llywodraeth Cymru
Welsh Government


**Jeremy Miles AS**
Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd a Gofal Cymdeithasol


**Jayne Bryant AS**
Ysgrifennydd y Cabinet dros Lywodraeth Leol a Thai


**Ken Skates AS**
Ysgrifennydd y Cabinet dros Drafnidiaeth a Gogledd Cymru


**Huw Irranca Davies AS**
Y Dirprwy Brif Weinidog ac Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd a Materion Gwledig


**Y Gwir Anrh Mark Drakeford AS**
Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a'r Gymraeg


**Lynne Neagle AS**
Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg


**Rebecca Evans AS**
Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi, Ynni a Chynllunio


**Jane Hutt AS**
Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyfiawnder Cymdeithasol, y Trefnydd a'r Prif Chwip


**Dawn Bowden AS**
Y Gweinidog Plant a Gofal Cymdeithasol


**Sarah Murphy AS**
Y Gweinidog Iechyd Meddwl a Llesiant


**Vikki Howells AS**
Y Gweinidog Addysg Bellach ac Uwch


**Jack Sargeant AS**
Y Gweinidog Diwylliant, Sgiliau a Phartneriaeth Gymdeithasol


**Julie James AS**
Y Cwnsler Cyffredinol a'r Gweinidog Cyflawni

Ceir manylion llawn am Gyfrifoldebau Ysgrifenyddion y Cabinet a'r Gweinidogion ar wefan Llywodraeth Cymru[10].

10 Ysgrifenyddion y Cabinet a Gweinidogion | LLYW.CYMRU

# Y Gwasanaeth Sifil

Y Prif Weinidog sy'n arwain Llywodraeth Cymru, gyda chymorth y Cabinet. Y Gwasanaeth Sifil yw'r weinyddiaeth anwleidyddol sy'n cynorthwyo Prif Weinidog a Chabinet Llywodraeth Cymru i ddatblygu ei bolisïau a'u rhoi ar waith yn ogystal â darparu gwasanaethau cyhoeddus. Mae gweision sifil yn atebol i'r Gweinidogion, sydd, yn eu tro, yn atebol i'r Senedd.

Yr Ysgrifennydd Parhaol yw pennaeth y sefydliad, a gwas sifil lefel uchaf Cymru. Mae'n arwain y Gwasanaeth Sifil yn Llywodraeth Cymru ac yn cynorthwyo'r llywodraeth i ddatblygu ei pholisïau, eu rhoi ar waith a'u cyfleu, ac ef yw prif gynghorydd polisi'r Prif Weinidog. Yr Ysgrifennydd Parhaol yw'r Prif Swyddog Cyfrifyddu hefyd, sy'n gyfrifol am sicrhau bod arian ac adnoddau'r llywodraeth yn cael eu defnyddio'n effeithiol ac yn briodol. Mae cryfderau craidd y Gwasanaeth Sifil, sef niwtralrwydd gwleidyddol; gweinyddu effeithlon; llywodraethiant da a rheoli arian cyhoeddus yn gadarn, yn rhoi sylfaen gadarn i gefnogi Llywodraeth Cymru.

Mae'r llywodraeth wedi'i strwythuro'n nifer o Grwpiau sy'n cael eu rheoli gan Gyfarwyddwyr Cyffredinol. Ar gyfer y cyfnod o fis Ebrill 2024 i fis Mawrth 2025, roedd pob aelod o'r o staff yn gweithio o dan y Strwythur Grwpiau canlynol:



**Andrew Goodall** Yr Ysgrifennydd Parhaol



**Judith Paget**
Iechyd, Gofal Cymdeithasol a'r Blynyddoedd Cynnar
Prif Weithredwr GIG Cymru

**Swyddogaethau:**

- Perfformiad GIG Cymru
- Cyllid y GIG
- Llywodraethiant y GIG
- Ansawdd a Nyrsio
- Y Prif Swyddog Meddygol
- Gofal Sylfaenol, Iechyd Meddwl a Grwpiau Agored i Niwed
- Diogelu Iechyd y Cyhoedd
- Iechyd a Llesiant y Boblogaeth
- Digidol, Technoleg ac Arloesi
- Gweithlu a Gweithrediadau'r GIG
- Goruchwylio Gweithrediaeth y GIG
- Gofal Cymdeithasol
- CAFCASS
- Y Blynyddoedd Cynnar



**Tracey Burke**
Llywodraeth Leol, Tai, Newid Hinsawdd a Materion Gwledig

**Swyddogaethau:**

- Newid Hinsawdd
- Cynaliadwyedd Amgylcheddol
- Materion Gwledig (Amaethyddiaeth, Bwyd a Physgodfeydd)
- Y Prif Swyddog Milfeddygol, Iechyd a Lles Anifeiliaid
- Llywodraeth Leol
- Cynllunio
- Tai
- Adfywio
- Tir
- Un Gwasanaeth Cyhoeddus Cymru



**Sioned Evans**
Addysg, Diwylliant a'r Gymraeg

**Swyddogaethau:**

- Y Gymraeg
- Gogledd Cymru
- Addysg
- Y Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil
- Addysg Drydyddol
- Addysg Uwch a Dysgu Gydol Oes
- Cymunedau a Chyfiawnder Cymdeithasol
- Diwylliant, y Celfyddydau a Chwaraeon
- Cadw
- Risg, Cadernid a Diogelwch Cymunedol



**Andrew Slade**
Yr Economi, Ynni a Thrafnidiaeth

**Swyddogaethau:**

- Strategaeth a Pholisi Economaidd
- Busnes a Rhanbarthau
- Economi Werdd (ynni ac economi gylchol)
- Sgiliau a Chyflogadwyedd
- Partneriaeth Gymdeithasol a Gwaith Teg
- Twristiaeth, Marchnata, Digwyddiadau a'r Sector Creadigol
- Gwyddoniaeth ac Arloesi
- Cysylltiadau Rhyngwladol a Masnach
- Buddsoddiad Rhanbarthol a Ffiniau
- Trafnidiaeth a Chysylltedd Digidol



**Tim Moss**
Gwasanaethau Corfforaethol ac Arolygiaethau

**Swyddogaethau:**

- Cyllid a Llywodraethiant
- Y Trysorlys
- Gwasanaethau Cyfreithiol
- Adnoddau Dynol
- Masnachol a Chaffael
- Digidol, Data a Thechnoleg
- Gwasanaethau Gwybodaeth a Dadansoddi
- Gwelliant Parhaus
- Penderfyniadau Cynllunio ac Amgylchedd Cymru
- Arolygiaeth Gofal Cymru
- Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru

Grŵp y Prif Weinidog

**Swyddogaethau:**

- Swyddfa'r Prif Weinidog
- Swyddfa'r Ysgrifennydd Parhaol
- Swyddfa'r Cabinet
- Cyfathrebu Strategol
- Y Rhaglen Ddeddfwriaethol
- Priodoldeb a Moeseg
- Ymchwiliad Covid
- Uned y Cytundeb Cydweithio
- Y Cwnsleriaid Deddfwriaethol
- Y Cyfansoddiad

©Hawlfraint Y Goron, Llywodraeth Cymru 2024, WG49716, Ebrill 2024 OGL

Gadawodd Tim Moss Lywodraeth Cymru ar 30 Mawrth 2025, a phenodwyd Sioned Evans yn Brif Swyddog Gweithredu ac yn Gyfarwyddwyr Cyffredinol y Gwasanaethau Corfforaethol ac Arolygiaethau ar 31 Mawrth 2025.

Penodwyd Emma Williams yn Gyfarwyddwr Cyffredinol dros dro y Grŵp Addysg, Diwylliant a'r Gymraeg ar 23 Ebrill 2025.

Yn ystod y flwyddyn, newidiodd Uned y Cytundeb Cydweithio yn Gyfarwyddiaeth Bontio.

# Yr hyn a wnawn

## Y Rhaglen Lywodraethu




Mae'r Rhaglen Lywodraethu wedi'i strwythuro ar sail 10 amcan llesiant i greu Cymru gryfach, decach, wyrddach a mwy tosturiol. Y Cabinet ar y cyd sy'n gyfrifol am yr ymrwymiadau a nodir o dan yr amcanion llesiant, gan gydnabod yr angen am waith trawslywodraethol, ac mae'r ymrwymiadau sy'n weddill wedi'u nodi fesul portffolio gweinidogol. Cafodd y Rhaglen Lywodraethu ei diweddaru ym mis Rhagfyr 2021 i ystyried y Cytundeb Cydweithio.

Mae Gwasanaeth Sifil Llywodraeth Cymru yn helpu Gweinidogion Cymru i gyflawni'r amcanion yn y Rhaglen Lywodraethu drwy weithgareddau gan gynnwys datblygu polisïau, cyflwyno deddfwriaeth, rheoli ariannol a chyflawni uniongyrchol. Cyhoeddwyd pedwerydd Adroddiad Blynyddol Llywodraeth Cymru yn ystod tymor y Senedd hon ym mis Gorffennaf 2025 a oedd yn nodi'r cynnydd a wnaed yn 2024-25.

Yn ystod 2024-25, daeth y Cytundeb Cydweithio rhwng y Blaid Lafur a Phlaid Cymru i ben, ond mae'r ymrwymiadau a wnaed ar ddechrau tymor y Senedd hon yn dal ar waith ac mae'r Adroddiad Blynyddol yn nodi ymdrechion y Llywodraeth i'w cyflawni. Parhawyd i fonitro cynnydd tuag at gyflawni'r Rhaglen Lywodraethu yn 2024-25 yn fisol, o dan oruchwyliaeth y Pwyllgor Gweithredol a Bwrdd Llywodraeth Cymru.

Penodwyd y Gweinidog Cyflawni ym mis Medi 2024 i oruchwylio a chydgysylltu'r gwaith o gyflawni'r Rhaglen Lywodraethu a blaenoriaethau craidd y Prif Weinidog. Daw'r blaenoriaethau hyn, sef Gwell Iechyd, Mwy o Swyddi, Mwy o Gartrefi a Gwell Trafnidiaeth, o'r Rhaglen Lywodraethu, ac maent yn cynrychioli'r prif ymrwymiadau strategol ar gyfer cyflawni'n gyflym dros weddill tymor y llywodraeth hon.

# Cyflawni ein Hymrwymiad i Lesiant Cenedlaethau'r Dyfodol

Mae dyletswydd ar Weinidogion Cymru i wneud trefniadau sy'n hyrwyddo datblygu cynaliadwy.[11] Gallant gyflawni'r ddyletswydd hon drwy bennu amcanion llesiant[12] a nodir yn y Rhaglen Lywodraethu.[13] Mae gan Lywodraeth Cymru hefyd drefniadau ychwanegol sydd â'r nod o hyrwyddo datblygu cynaliadwy, a chaiff y rhain eu trafod isod.

## Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol

Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yn galluogi pawb yng Nghymru i wneud pethau'n wahanol – gan newid ein ffordd o weithio a meddwl am ddatblygu cynaliadwy. Mae'n rhoi'r awdurdod inni gyflawni ar gyfer pawb yng Nghymru, ar gyfer pobl, a'r blaned, nawr ac yn y dyfodol. Mae'r Ddeddf yn sicrhau mai datblygu cynaliadwy yw prif egwyddor drefniadol y llywodraeth a chyrff cyhoeddus.

Dylai gweithrediad, llywodraethiant a mecaneg y llywodraeth, a'r cyngor a'r cymorth a roddir gan Wasanaeth Sifil Cymru, i gyd wella'n barhaus ac ymateb i'r gofyniad hwn.

Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yn diffinio datblygu cynaliadwy fel: "*Y broses o wella llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol Cymru drwy gymryd camau gweithredu, a hynny'n unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy, sydd â'r nod o gyflawni'r nodau llesiant*." Mae'n rhoi 'egwyddor datblygu cynaliadwy' ar waith sy'n golygu ei bod yn rhaid i gyrff weithredu mewn modd sy'n sicrhau y caiff anghenion y presennol eu diwallu heb beryglu'r gallu i ddiwallu anghenion cenedlaethau'r dyfodol.

## LlC2025 a'r Cynllun Dysgu a Gwella Parhaus

Mae trefniadau Llywodraeth Cymru i hyrwyddo datblygu cynaliadwy hefyd yn cael eu cyflawni drwy LlC2025, sef ein rhaglen tair blynedd ar gyfer datblygu sefydliadol. Drwy LlC2025, rydym yn sicrhau bod yr egwyddor datblygu cynaliadwy wrth wraidd popeth a wnawn.

Ym mis Chwefror 2023, cyhoeddwyd ein Cynllun Dysgu a Gwella Parhaus 2023-25 ar gyfer Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol. Mae'r Cynllun hwn yn dod â mwy na 50 o gamau gweithredu ynghyd i wella ein dealltwriaeth a'r ffordd y caiff yr egwyddor datblygu cynaliadwy ei rhoi ar waith o fewn Llywodraeth Cymru. Ym mis Mai 2024, cyhoeddwyd adroddiad cynnydd ar y Cynllun a roddodd ddiweddariad ar ein cynnydd tuag at gyflawni pob cam gweithredu ac a adroddodd hanes yr hyn rydym wedi'i ddysgu. Erbyn hyn, caiff ei ddefnyddio o fewn y llywodraeth a'r tu allan iddi fel canllaw defnyddiol, ynghyd ag adnoddau i hyrwyddo datblygu cynaliadwy megis gwiriwr cynnydd Ffyrdd o Weithio'r Comisiynydd a llawlyfr Newid Diwylliant Cenedlaethau'r Dyfodol.

Drwy gydol 2024-25, roedd y Pwyllgor Gweithredol yn rhan o'r gwaith o gyflawni camau gweithredu'r Cynllun. Arweiniodd hyn at gwblhau 18 o gamau gweithredu, a chafodd 15 arall eu gwreiddio yn ein prosesau beunyddiol. Mae'r 17 o gamau gweithredu sy'n weddill ar gamau cynnydd amrywiol. Credwn y bydd ein ffordd o weithredu'n anfon neges bwysig i gyrff cyhoeddus eraill yng Nghymru, sef bod agenda Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yn gofyn am welliant parhaus a myfyrio.

Ymhlith y camau gweithredu nodedig sydd wedi'u cwblhau mae:

- Gweithio gyda Chomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol i greu Hwb Dyfodol.[14] Bydd hyn yn meithrin arbenigedd a gallu i ragargoeli a meddwl am y dyfodol, ac yn codi ymwybyddiaeth o Adroddiad Tueddiadau'r Dyfodol ledled Cymru.

---

11 O dan adran 79(1) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (a fewnosodwyd gan adran 16 o Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015). Hefyd, mae adran 79(2) yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru osod adroddiad ar y trefniadau a wneir yn unol ag adran 79(1) gerbron y Senedd bob blwyddyn ariannol.
12 O dan adran 79(3) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006
13 www.llyw.cymru/rhaglen-lywodraethu-2021-i-2026-datganiad-llesiant-html
14 www.futuregenerations.wales/cym/gwneud/offer/hwb-dyfodol/

- Ar ôl llwyddo i sicrhau Cymrodoriaeth Polisi Sefydliad Ymchwil y Deyrnas Unedig, rydym yn agos at gwblhau gwerthusiad cam cyntaf o Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol. Bydd y gymrodoriaeth, sy'n brosiect 18 mis[15] hefyd yn cyflwyno opsiynau ar gyfer gwerthusiad yn y dyfodol, a chaiff ei chwblhau yn ystod haf 2025.
- Lansiwyd Fframwaith Galluogrwydd Polisi Llywodraeth Cymru er mwyn cefnogi swyddogion polisi ac eraill wrth iddynt roi Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol ar waith. Mae fframwaith tebyg ar gyfer Cyflawni Gweithredol hefyd yn cael ei ddatblygu. Bydd y naill a'r llall yn cysylltu ag ymddygiadau a rennir (yn seiliedig ar y nodau datblygu mewnol[16]) sy'n helpu i roi Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol ar waith.
- Gan gydweithio â'r Comisiynydd, creodd y Brifysgol Agored ac eraill Ti, Fi a Dyfodol Cymru[17] er mwyn helpu pawb yng Nghymru i ddysgu sut y gallant chwarae rhan weithredol yn y broses o greu ein Cymru ddelfrydol.
- Yn ogystal, crëwyd modiwl e-ddysgu i ailgysylltu swyddogion Llywodraeth Cymru â'r Ddeddf a chynnig gweithgarwch sefydlu i newydd-ddyfodiaid. Rydym wrthi'n ystyried sut y gellir darparu'r modiwl hwn i'r gwasanaeth cyhoeddus ehangach.

Roedd adrodd ar gynnydd y Cynllun yn gyfle amserol a groesawyd i bwyso a mesur a myfyrio ar yr hyn sydd wedi cael ei gyflawni, achub ar gyfleoedd newydd, a dyfnhau ein dealltwriaeth o'r egwyddor datblygu cynaliadwy. Mae'r Adroddiad Cynnydd[18] yn tynnu sylw at gynnydd sylweddol o ran gwreiddio Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yn ein ffordd o weithio, gan gydnabod natur flaengar y ddeddfwriaeth hon a'n haeddfedrwydd fel sefydliad sy'n arwain y newid.

## Adroddiadau Ehangach

Mae Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru wedi cyhoeddi adroddiad statudol o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol sy'n cynnwys ei asesiad o'r gwelliannau y dylai cyrff cyhoeddus eu gwneud er mwyn cyflawni'r nodau llesiant[19]. Mae Adroddiad Cenedlaethau'r Dyfodol 2025 yn cynnwys asesiad o'r cynnydd sydd wedi'i wneud hyd yn hyn, gyda chyngor ac argymhellion wedi'u targedu ar gyfer Llywodraeth Cymru a chyrff cyhoeddus eraill. Mae'n rhoi enghreifftiau o'r newid cadarnhaol sydd eisoes yn digwydd yn ein gwasanaethau cyhoeddus.

Hefyd, mae Archwilydd Cyffredinol Cymru wedi cyhoeddi ei adroddiad statudol ar y cyrff cyhoeddus a restrir yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, sef 'Dim amser i'w golli: Gwersi o'n gwaith dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol'[20]. Roedd yr adroddiad hwn yn asesu i ba raddau roedd cyrff cyhoeddus yn dilyn yr egwyddor datblygu cynaliadwy wrth bennu amcanion llesiant a chymryd camau i'w cyflawni. Roedd yn canolbwyntio ar y ffordd y mae cyrff cyhoeddus yng Nghymru, a Llywodraeth Cymru yn benodol, yn meddwl ac yn gweithredu ar gyfer y tymor hir ac yn cyflawni'r dyletswyddau o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol.

Mae'r adroddiadau hyn yn ddull hanfodol o sicrhau atebolrwydd, gan ein sbarduno tuag at gyflawni'r nodau llesiant a gweithredu yn unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy. Mae'r adroddiadau'n tynnu sylw at y cynnydd sylweddol y mae Llywodraeth Cymru wedi'i wneud drwy'r Cynllun, ble rydym arni mewn perthynas â'n nodau llesiant, a ble nad yw'r egwyddor datblygu cynaliadwy'n cael ei chyflawni'n llawn, gydag argymhellion ar gyfer camau gweithredu i fwrw ymlaen â nhw.

15 www.ukri.org/wp-content/uploads/2023/02/UKRI-160223-Funding-Opp-PolicyFellowships2023-WelshGovernmentSustainableFuturesFellowship.pdf
16 www.innerdevelopmentgoals.org/
17 www.open.edu/openlearn/society-politics-law/politics/you-me-and-the-future-wales
18 www.llyw.cymru/cynllun-dysgu-a-gwella-parhaus-2023-i-2025
19 adroddiad statudol
20 "Dim amser i'w golli: Gwersi o'n gwaith dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol"

## Y dyfodol

Rydym yn cydnabod bod y Cynllun yn parhau i fod yn elfen allweddol o LlC2025. Mewn ymateb i'r adroddiadau gan Gomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol ac Archwilydd Cyffredinol Cymru, byddwn yn creu Cynllun newydd er mwyn gwreiddio'r Nodau Datblygu Mewnol[21] ymhellach yn ein gwaith, atgyfnerthu ein prosesau sicrwydd a meithrin dealltwriaeth ddyfnach er mwyn ein helpu i ddysgu a datblygu'n barhaus. Rydym yn edrych yn ofalus ar y posibilrwydd o ganolbwyntio ein hail Gynllun ar yr argymhellion yn adroddiadau Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol a'r Archwilydd Cyffredinol. Bydd y Pwyllgor Gweithredol yn ystyried papur ar y ffordd yr awn ati i greu'r Cynllun newydd, a chaiff penderfyniad ynghylch y camau nesaf ei wneud ym mis Mehefin 2025.

Mae'r camau gweithredu a'r mesurau sydd eisoes wedi cael eu rhoi ar waith o fewn y Cynllun wedi cryfhau sicrwydd ac wedi rhoi dirnadaeth a thystiolaeth ddyfnach inni er mwyn cefnogi ein prosesau gwneud penderfyniadau a'n dysgu a'n datblygiad. Yn ystod 2025, bydd camau gweithredu yn parhau i gael eu cymryd i wella sicrwydd ynghylch Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol ym mhob rhan o'r sefydliad ac ymgorffori ein gwerthoedd yn well fel rhan o LlC2025.

Rydym yn parhau i ddefnyddio, datblygu ac ymgorffori perfformiad wrth ddilyn yr egwyddor datblygu cynaliadwy yn Fframwaith Perfformiad Llywodraeth Cymru. Ceir rhagor o fanylion yn nes ymlaen yn yr Adroddiad Perfformiad.

21 www.innerdevelopmentgoals.org/

## Astudiaeth Achos: **Goleuo'r Dyfodol**




Derek Walker (Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol) a Jane Hutt (Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyfiawnder Cymdeithasol, y Trefnydd a'r Prif Chwip) gyda Gwobr Polisi Dyfodol y Byd

Ar 20 Mawrth, gwnaethom nodi Dengmlwyddiant Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol drwy gynnal digwyddiad Goleuo'r Dyfodol yn y Deml Heddwch yng Nghaerdydd. Yn bresennol yn y digwyddiad roedd dros 100 o bobl o Swyddfa Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol, Llywodraeth Cymru, Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus, Rhwydwaith Cydgysylltwyr Datblygu Cynaliadwy Cymru, Fforwm Rhanddeiliaid Cenedlaethol Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, Uwch-arweinwyr, cynrychiolwyr y trydydd sector, cynrychiolwyr y Senedd Ieuenctid a llawer mwy.

Fel rhan o'r diwrnod, gwahoddwyd y bobl a oedd yn bresennol i gael sgyrsiau am y dyfodol, cymryd rhan mewn gweithdai ar ymwybyddiaeth ofalgar a meddwl am y dyfodol, ysgrifennu llythyrau i'r dyfodol, a rhannu'r pethau roeddent yn eu gwneud yn wahanol oherwydd y Ddeddf. Cafwyd prif areithiau gan Gomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol ac Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyfiawnder Cymdeithasol, y Trefnydd a'r Prif Chwip ac anerchiad wedi'i recordio gan y Prif Weinidog a oedd yn canolbwyntio ar yr hyn sydd wedi cael ei gyflawni dros y 10 mlynedd diwethaf a'r hyn sydd i ddod dros y 10 mlynedd nesaf.

Roedd y digwyddiad yn gyfle i adnewyddu ein hymrwymiad Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol a'r Ffyrdd o Weithio. Hefyd, bu Casgliad y Werin Cymru wrthi'n cofnodi straeon ar y diwrnod fel rhan o'r Prosiect Hanes Llafar – gan greu archif parhaol o brofiadau a straeon sy'n gysylltiedig â'r Ddeddf y gellir ei defnyddio fel adnodd dysgu i bawb.

## Rheoli ein Rhaglen Ddeddfwriaethol

Mae rheoli gwaith ar weithgareddau deddfwriaethol Llywodraeth Cymru yn brif ffocws i'r sefydliad. Mae cryn dipyn o waith wedi cael ei wneud hefyd i ymateb i raglen ddeddfwriaethol Llywodraeth y DU.

### Deddfwriaeth Sylfaenol

Gwnaeth y Prif Weinidog ar y pryd Ddatganiad i'r Senedd ar 9 Gorffennaf 2024 yn nodi blaenoriaethau deddfwriaethol y Llywodraeth ar gyfer y flwyddyn i ddod. Yn ystod y cyfnod y mae'r cyfrifon hyn yn ymwneud ag ef, cafodd y Biliau canlynol eu hystyried gan y Senedd:

- **Deddf Etholiadau a Chyrff Etholedig (Cymru) 2024**

  Cyflwynwyd Bil Etholiadau a Chyrff Etholedig (Cymru) ar 2 Hydref 2023 a chafodd Gydsyniad Brenhinol ar 9 Medi 2024. Mae'r Ddeddf yn darparu ar gyfer cofrestru pleidleiswyr yn awtomatig, yn amodol ar dreialu llwyddiannus a chryfhau gweinyddiaeth etholiadol drwy sefydlu'r Bwrdd Rheoli Etholiadol. Bydd hefyd yn cyflwyno diwygiadau i'r prosesau ar gyfer cynnal adolygiadau cymuned ac etholiadol ac yn diddymu Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol (y Panel), gan roi'r mwyafrif o'r swyddogaethau a oedd yn cael eu cyflawni gynt gan y Panel i Gomisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol Cymru (y Comisiwn). Bydd y Bil yn ein galluogi i wella hygyrchedd etholiadau datganoledig i bleidleiswyr anabl a gwella diogelwch ymgeiswyr drwy foderneiddio a gwella'r drosedd o ddylanwad amhriodol.

- **Deddf Cyllid Llywodraeth Leol (Cymru) 2024**

  Cyflwynwyd y Bil Cyllid Llywodraeth Leol (Cymru) ar 20 Tachwedd 2023 a chafodd Gydsyniad Brenhinol ar 16 Medi 2024. Mae'r Ddeddf yn darparu'r fframwaith ar gyfer gwneud newidiadau i'r system ardrethi annomestig a system y dreth gyngor yng Nghymru.

- **Deddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2025**

  Cyflwynwyd Bil Iechyd y Cyhoedd (Cymru) ar 20 Mai 2024 a chafodd Gydsyniad Brenhinol ar 24 Mawrth 2025. Bydd y Ddeddf yn cael gwared ar elw preifat o ofal plant sy'n derbyn gofal ac yn fodd i gyflwyno taliadau uniongyrchol am Ofal Iechyd Parhaus y GIG. Bydd hefyd yn gwneud diwygiadau er mwyn sicrhau y bydd Deddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016 a Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 yn gallu gweithredu'n llawn ac yn effeithiol.

- **Bil y Gymraeg ac Addysg (Cymru)**

  Cyflwynwyd Bil y Gymraeg ac Addysg (Cymru) ar 15 Gorffennaf 2024 a chytunodd y Senedd arno ar 13 Mai 2025. Prif amcan y Bil yw anelu at sicrhau y gall pob disgybl gyrraedd diwedd oedran ysgol gorfodol yn ddefnyddiwr annibynnol o'r Gymraeg. Bydd hyn yn helpu i gyfrannu at nod Llywodraeth Cymru o sicrhau miliwn o siaradwyr Cymraeg yng Nghymru erbyn 2050. Y nod yw y bydd pob disgybl yn datblygu sgiliau llafar sy'n cyfateb i lefel B2 y Fframwaith Cyfeirio Cyffredin Ewropeaidd ar gyfer Ieithoedd.

- **Y Bil Deddfwriaeth (Gweithdrefn, Cyhoeddi a Diddymiadau) (Cymru)**

  Cyflwynwyd Bil Deddfwriaeth (Gweithdrefn, Cyhoeddi a Diddymiadau) (Cymru) ar 21 Hydref 2024. Bydd y Bil yn gwneud y canlynol:

  – Dwyn ynghyd a ffurfioli'r trefniadau gweithdrefnol ar gyfer gwneud is-ddeddfwriaeth i Gymru a'r gofynion ar gyfer cyhoeddi Deddfau gan Senedd Cymru ac offerynnau statudol Cymru, ac is-ddeddfwriaeth arall nas gwneir drwy offeryn statudol.

  – Gwella hygyrchedd cyfraith Cymru drwy ddiddymu, diwygio a datgymhwyso fel arall mewn perthynas â darpariaethau a deddfiadau yng Nghymru nad ydynt yn ddefnyddiol nac yn fuddiol mwyach.

  – Gwneud mân ddiwygiadau i Ddeddf Deddfwriaeth (Cymru) 2019.

- **Y Bil Llety Ymwelwyr (Cofrestr ac Ardoll) Etc. (Cymru)**

  Cyflwynwyd y Bil Llety Ymwelwyr (Cofrestr ac Ardoll) Etc. (Cymru) ar 25 Tachwedd 2024. Bydd y Bil yn gwneud y canlynol:

  – Ei gwneud yn ofynnol i ddarparwyr llety ymwelwyr yng Nghymru fod wedi'u cofrestru ar gofrestr o ddarparwyr llety ymwelwyr.

  – Rhoi pŵer disgresiynol i awdurdodau lleol godi ardoll ar ymwelwyr sy'n aros dros nos mewn llety ymwelwyr ('yr ardoll').

  – Ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol ymgynghori cyn cyflwyno, newid neu ddiddymu'r ardoll.

  – Gwneud darparwyr llety ymwelwyr yn atebol i dalu'r ardoll i Awdurdod Cyllid Cymru.

  – Rhoi sail ar gyfer cyfrifo'r ardoll a'i gasglu.

  – Ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol ddefnyddio'r enillion net at ddibenion rheoli a gwella cyrchfannau yn eu hardaloedd ac adrodd ar y ffordd y caiff yr enillion eu defnyddio.

  – Rhoi pŵer i Weinidogion Cymru ymestyn yr ardoll i ddocfeydd ac angorfeydd drwy reoliadau.

- **Y Bil Tomenni Mwyngloddiau a Chwareli Nas Defnyddir (Cymru)**

  Cyflwynwyd y Bil Tomenni Mwyngloddiau a Chwareli Nas Defnyddir (Cymru) ar 9 Rhagfyr 2024. Nod y Bil yw lleihau'r tebygolrwydd o dirlithriadau ar domenni glo a thomenni nad ydynt yn domenni glo nas defnyddir drwy sefydlu corff cyhoeddus newydd a fydd yn cyflawni swyddogaethau mewn perthynas ag asesu, cofrestru, monitro a rheoli tomenni nas defnyddir.

- **Y Bil Gwasanaethau Bysiau (Cymru)**

  Cyflwynwyd y Bil Gwasanaethau Bysiau (Cymru) ar 31 Mawrth 2025 a'i nod yw sicrhau rhwydwaith trafnidiaeth gyhoeddus cydgysylltiedig sy'n ddiogel, yn integredig, yn amgylcheddol gynaliadwy, yn effeithlon, yn ddarbodus ac yn ymateb er mwyn diwallu anghenion trafnidiaeth y cyhoedd.

  Ceir rhagor o wybodaeth fanwl am y Deddfau a'r Biliau unigol ar dudalennau rhyngrwyd Deddfwriaeth y Senedd[22].

## Is-ddeddfwriaeth

Mae cryn dipyn o is-ddeddfwriaeth i Gymru wedi cael ei pharatoi a'i gwneud yn ystod y cyfnod hwn. Hefyd, mae Llywodraeth Cymru wedi cyflwyno rhaglenni o is-ddeddfwriaeth er mwyn cyflawni blaenoriaethau allweddol eraill, gan gynnwys gweithredu Deddfau Senedd Cymru. Mae'r rhaglen hefyd yn cynnwys is-ddeddfwriaeth sy'n angenrheidiol er mwyn gweithredu Deddfau Llywodraeth y DU.

## Deddfwriaeth y DU

Yn ystod y cyfnod adrodd hwn, gwelwyd cryn dipyn o weithgarwch mewn dwy raglen ddeddfwriaethol gan Lywodraeth y DU, y naill ochr a'r llall i etholiad cyffredinol y DU. Yn dilyn yr etholiad ym mis Gorffennaf 2024, gosododd Llywodraeth Cymru femoranda cydsyniad deddfwriaethol mewn perthynas â 15 o Filiau'r DU a wnaeth ddarpariaeth mewn meysydd datganoledig, ac aeth tri o'r rhain yn eu blaen i fod yn destun cynigion i'w trafod yn y Senedd yn ystod y cyfnod hwn.

Cafodd 15 o femoranda cydsyniad deddfwriaethol atodol hefyd eu gosod mewn perthynas â'r Biliau hynny yn ystod yr un cyfnod.

22 Deddfwriaeth

## Astudiaeth Achos: **Bil y Gymraeg ac Addysg**




Dyma'r darn cyntaf o ddeddfwriaeth sylfaenol a ddrafftiwyd, y craffwyd arno ac a basiwyd yn gyfan gwbl drwy gyfrwng y Gymraeg. Mae'r gwaith arloesol hwn yn cynrychioli cam clir ymlaen o ran ymrwymiad Llywodraeth Cymru i'r Gymraeg. Mae'r Bil yn cyflwyno newidiadau sylfaenol i'r ffordd y caiff y Gymraeg ei haddysgu ac, er gwaethaf ei effaith bellgyrhaeddol ar bwnc sy'n aml yn gallu bod yn ddadleuol, cytunodd y Senedd arno yn unfrydol.

Am y tro cyntaf erioed wrth i gyfraith i Gymru gael ei datblygu yn yr oes fodern, nid yn unig roedd y ddeddfwriaeth sylfaenol yn ymwneud â'r Gymraeg, ond y Gymraeg oedd y cyfrwng a ddefnyddiwyd i ddatblygu'r polisi a'r Bil hefyd. Bu'r tîm o gwnsleriaid deddfwriaethol, cyfreithwyr, cyfieithwyr, cynghorwyr polisi a swyddogion cyfathrebu a digidol yn cydweithio rhwng adrannau'r llywodraeth i oresgyn heriau strwythurol ac ieithyddol. Sicrhaodd eu gwaith fod pob cam o'r broses ddeddfwriaethol, o'r drafftio cychwynnol i'r cydsyniad terfynol, wedi cael ei gynnal yn Gymraeg, gyda'r Saesneg yn cael ei defnyddio fel ail iaith.

Mae'r prosiect yn enghraifft o Lywodraeth Cymru yn normaleiddio'r defnydd o'r Gymraeg yn y gweithle, yn unol â Cymraeg 2050. Cafodd y gwersi a ddysgwyd eu dogfennu er mwyn iddynt allu cael eu rhannu â byrddau llywodraethu er mwyn llywio prosiectau yn y dyfodol.

Mae hyn wedi gwneud y canlynol:

- Atgyfnerthu statws y Gymraeg fel iaith lywodraethu fyw ac ymarferol.
- Ail-lunio arferion mewnol, gan brofi y gall y Gymraeg fod yn iaith ddiofyn ar gyfer gwaith cymhleth sy'n ymwneud â pholisi a deddfwriaeth.
- Sefydlu gwaddol ar gyfer gwaith deddfwriaethol yn y dyfodol, gan sicrhau bod Llywodraeth Cymru yn arwain drwy esiampl gan hyrwyddo a hwyluso mwy o ddefnydd o'r Gymraeg ymhlith ei gweithlu.

## Gweinyddu Cyllid Grant

Mae'r cyllid grant a ddarperir gan Lywodraeth Cymru yn cefnogi amrywiaeth eang o sefydliadau, busnesau a phrosiectau ledled Cymru. Caiff cyllid grant ei ddyfarnu i'r sector cyhoeddus, y trydydd sector a'r sector preifat ar gyfer amrywiaeth eang o ddibenion sy'n cyd-fynd â pholisïau Gweinidogol Llywodraeth Cymru, gan gynnwys cyllid craidd/prosiect, grantiau cyfalaf/refeniw yn ogystal â chyllido costau rhedeg i Gyrff a Noddir gan Lywodraeth Cymru a'i his-gwmnïau.


Mae gan Lywodraeth Cymru tua 370 o gynlluniau grant gweithredol ar waith ar PayGrants (y brif system gorfforaethol) ac mae'n cyhoeddi tua 9,000 o lythyrau dyfarnu bob blwyddyn.

Rhennir y grantiau yn ddau gategori penodol:

1. Mae grantiau heb eu neilltuo yn cynnwys y taliadau hynny a roddir i gyrff iechyd a llywodraeth leol ac maent yn cyfrif am £17.5bn o'r cyfanswm o £22.7bn a dalwyd mewn grantiau ar gyfer 2024-25.
2. Mae grantiau wedi'u neilltuo yn daliadau lle mae pethau penodol i'w cyflawni a meini prawf o ran diben y grantiau ac maent yn cyfrif am y £5.2bn o'r cyllid sy'n weddill.

### Cyllid Grant gan Lywodraeth Cymru

Mae'r dadansoddiad isod o ddata cyllid grant ar gyfer 2024-25 yn seiliedig ar y system o "allweddau diwydiant" er mwyn rhoi darlun o gyllid yn ôl sector.



Mae nifer o ffyrdd o ddyrannu cyllid heb ei neilltuo/wedi'i neilltuo a dangosir y rhain yn y tablau isod. Mae penderfynu ar ba gategori sydd fwyaf priodol yn rhan o'r broses o ddatblygu a llunio'r cynllun grant. Gall canlyniadau bwriadedig, gwerth, maint a chymhlethdod i gyd helpu i bennu pa ddull yw'r un mwyaf priodol i'w ddefnyddio. Yn achos rhai cynlluniau gellir pennu cyfuniad ohonynt.

**Grantiau heb eu Neilltuo – dulliau cyllido**

| | |
|---|---|
| **Dyraniad Cyllidebol** | Cyllid bloc a ddyrennir (fel arfer) i Awdurdodau Lleol/cyrff y GIG i benderfynu sut y maent yn darparu'r gwahanol wasanaethau a ddarperir ganddynt. |

**Grantiau wedi'u Neilltuo – dulliau cyllido**

| | |
|---|---|
| **Yn seiliedig ar geisiadau** | Caiff y rhain eu dyfarnu mewn ymateb i alwad agored am geisiadau neu gylch o gynigion cystadleuol.<br>Galwad Agored: Mae sefydliadau yn gwneud cais i gynllun grant a chaiff cyllid ei ddyfarnu'n seiliedig ar allu sefydliadau i fodloni meini prawf cymhwystra a bennir ymlaen llaw.<br>Cystadleuol: Defnyddir cystadleuaeth yn bennaf pan fo cyllideb gyfyngedig a phan fo nifer o sefydliadau a all gyflawni'r amcan polisi.<br>Mae'r broses gystadleuol yn ei gwneud yn bosibl i Lywodraeth Cymru gefnogi'r prosiectau gorau ac mae'n agored, yn dryloyw, yn wrthrychol, yn deg ac yn sicrhau'r gwerth gorau am arian. |
| **Dyraniad Cyllid** | Cyllid a ddyrennir i gyrff allanol at ddiben penodol; mae lefel y cyllid yn seiliedig ar fodel neu fformiwla ystadegol.<br>Caiff ei ddefnyddio fel arfer ar gyfer Awdurdodau Lleol, lle mae swm y dyraniad sydd ar gael yn seiliedig ar fformiwla megis model ystadegol o'r boblogaeth. Yna, byddai Awdurdodau Lleol yn cyflwyno cynigion yn erbyn gwerth y dyraniad. |
| **Cais am Gyllid** | Cynnig untro neu flynyddol gan gorff allanol sy'n ceisio cyllid ar gyfer gweithgarwch penodol neu ar gyfer dyfarniad un ffynhonnell sy'n seiliedig ar un partner cyflawni. Caiff ei ddefnyddio hefyd pan fydd Llywodraeth Cymru yn cyfrannu at adrannau eraill y Llywodraeth. |
| **Iawndal** | Swm sy'n cael ei ddyrannu i ddigolledu neu wneud iawn am golledion o ganlyniad i weithred y Llywodraeth. |

## Cefndir y Ganolfan Ragoriaeth Grantiau

Tîm canolog bach yw'r Ganolfan Ragoriaeth Grantiau, sy'n rhoi cyngor, arweiniad a chymorth i swyddogion ym mhob rhan o Lywodraeth Cymru. Mae gan y tîm gyfres o ganllawiau a thempledi ar bob agwedd ar y broses o reoli grantiau o'r dechrau i'r diwedd. Mae hyfforddiant wedi'i deilwra wedi cael ei roi ar gais i dimau newydd, yn ogystal â sesiynau wedi'u trefnu ar bynciau allweddol yn ystod y flwyddyn. Hefyd, mae'r tîm yn rhoi cyngor wedi'i deilwra ar ymholiadau, gan gydgysylltu â thimau eraill mewn rhannau eraill o Lywodraeth Cymru fel y bo angen er mwyn helpu i roi cymorth. Mae hyn yn cynnwys gweithio gyda chydweithwyr yn y Gwasanaethau Cyfreithiol, rheoli cymorthdaliadau ac archwilio mewnol.

Yn ystod y flwyddyn, treuliodd y tîm rywfaint o amser yn diweddaru'r llythyr dyfarnu gyda chymorth gan gydweithwyr yn y Gwasanaethau Cyfreithiol ac yn paratoi canllawiau a hyfforddiant ar yr adrannau newydd o'r llythyr i'w darparu ar ddechrau haf 2025.

## Y Panel Sicrwydd Grantiau

Sefydlodd y Ganolfan Ragoriaeth Grantiau y Panel Sicrwydd Grantiau yn 2018 sy'n rhoi cyngor ymarferol, her a sicrwydd i reolwyr grantiau ar y cam cynnar o ddatblygu cynllun grant.

Nod yw panel yw ychwanegu gwerth drwy helpu rheolwyr grantiau i liniaru risgiau posibl a sicrhau bod cynlluniau grant yn gyson â pholisïau Llywodraeth Cymru. Daw aelodau'r panel o feysydd allweddol y busnes er mwyn cynnig her adeiladol, craffu a sicrwydd ar gyfer cynlluniau grant wedi'u neilltuo newydd/arfaethedig. Mae'r aelodau yn cynnwys swyddogion o'r gwasanaethau cyfreithiol, llywodraethiant, Swyddfa'r Cabinet, archwilio mewnol, atal twyll a chaffael.

Mae'r panel yn cyfarfod bob mis neu'n amlach yn ôl yr angen. Mae o staff y Ganolfan Ragoriaeth Grantiau yn cael eu cynrychioli ar y panel yn ogystal â darparu cymorth ysgrifenyddiaeth. Maent hefyd ar gael i gefnogi rheolwyr grantiau unigol cyn ac ar ôl y cyfarfodydd a chysylltu â'r rheolwr grantiau wedyn er mwyn cadarnhau a yw'r argymhellion wedi'u gweithredu ac, os felly, pryd y cawsant eu gweithredu.

Mae'r Ganolfan Ragoriaeth Grantiau wedi parhau i gynnal yr adolygiad blynyddol o'r panel, drwy gysylltu aelodau'r panel a'r rhai sy'n dod gerbron y panel. Ar y cyfan, mae'r adborth wedi parhau i fod yn gadarnhaol, a hynny gan reolwyr grantiau ac aelodau o'r panel. Mae awgrymiadau ar gyfer gwelliannau wedi cael eu hystyried a'u rhoi ar waith lle bo hynny'n briodol. Bydd y Ganolfan Ragoriaeth Grantiau yn parhau i hyrwyddo'r panel a chodi ymwybyddiaeth ohono yn ogystal â rhannu themâu sy'n dod i'r amlwg ym mhob rhan o Lywodraeth Cymru.

## Y Tîm Diwydrwydd Dyladwy Canolog

Cyflwynwyd y Tîm Diwydrwydd Dyladwy Canolog ym mis Ebrill 2019 ac mae wedi datblygu systemau a phrosesau i'w alluogi i gynnal gwiriadau diwydrwydd dyladwy a llywodraethiant corfforaethol ynglŷn â sefydliadau y mae Llywodraeth Cymru yn eu hariannu neu'n ystyried eu hariannu ar ran rheolwyr grantiau. Y nod yw gwella cysondeb, lleihau dyblygu a rhoi mwy o gymorth i reolwyr grantiau ar gam arfarnu'r broses grantiau. Cyfrifoldeb y rheolwyr grantiau a'r timau polisi o hyd yw diwydrwydd dyladwy ar brosiectau, canlyniadau, gallu sefydliad i gyflawni'r prosiect a gwerth am arian.

Mae'r tîm yn paratoi 'Prawf Iechyd Ariannol Corfforaethol' ar gyfer pob sefydliad sy'n cynnwys dadansoddiad o gyfrifon archwiliedig, cadarnhau gwybodaeth a ddelir gan Dŷ'r Cwmnïau a'r Comisiwn Elusennau, defnyddio adnoddau atal twyll a gwybodaeth gan y Ganolfan Diwydrwydd Dyladwy. Fel arfer, mae'r math o faterion a nodwyd yn cynnwys sefydliadau sydd mewn anawsterau ariannol neu sy'n ansolfedd, Dyfarniadau'r Llys Sirol, pryderon ynglŷn â llywodraethiant neu wybodaeth anffafriol am y sefydliad neu ei benaduriaid. Pan gaiff risgiau eu canfod, bydd y tîm yn rhoi argymhellion i'r rheolwr grantiau ynghylch camau lliniaru, er enghraifft, argymell gwarantau trawsgwmni, taliadau'n ôl-weithredol, trefniadau monitro tynnach neu gael rhagor o wybodaeth, rhagolygon neu eglurder ynglŷn â meysydd sy'n achos pryder.

Yn ystod 2024-2025, mae'r tîm wedi cynnal 500 o asesiadau, a chaiff y rhain eu lanlwytho i'r Hwb Diwydrwydd Dyladwy sy'n golygu bod asesiadau nid yn unig ar gael i'r rheolwr grantiau ond hefyd i dimau ac adrannau ym mhob rhan o Lywodraeth Cymru. Yn ogystal â darparu'r asesiadau corfforaethol, mae'r tîm hefyd wedi rhoi cyngor ac arweiniad pwrpasol i reolwyr grantiau ar ddyfarniadau a chynlluniau unigol, wedi mynd i gyfarfodydd tîm gan roi cyngor penodol ar ddiwydrwydd dyladwy, ac wedi cyfrannu at yr adolygiad o delerau ac amodau grantiau o safbwynt diwydrwydd dyladwy.

## Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru

Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru (WEFO) sy'n gyfrifol am reoli rhaglenni Cronfa Gymdeithasol Ewrop (ESF) a Chronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop (ERDF) yng Nghymru ar gyfer cylch cyllido 2014-2020.

Mae WEFO wedi talu'r holl hawliadau terfynol a ddaeth i law gan fuddiolwyr ac wedi cyflwyno ei hawliadau terfynol ei hun i'r Comisiwn Ewropeaidd ar 13 Chwefror 2025. Mae WEFO yn disgwyl cael 100% o'r cyllid a gymeradwywyd ar gyfer Cymru. Hefyd, mae WEFO yn disgwyl cyflwyno'r adroddiadau terfynu olaf i'r Comisiwn Ewropeaidd mewn perthynas â rhaglenni Dwyrain Cymru a Gorllewin Cymru a'r Cymoedd ym mis Rhagfyr 2025. Y dyddiad cau ar gyfer eu cyflwyno yw 15 Chwefror 2026.

Cyn y gellir cyflwyno'r adroddiadau terfynu olaf, bydd angen i'r Awdurdod Archwilio gwblhau ei archwiliadau ar sampl o brosiectau a ariannwyd gan yr UE. Hyd yma, nid yw'r archwiliadau hyn wedi dod o hyd i feysydd sy'n peri pryder. Yn y cyfamser, mae WEFO wedi cael yr holl arian parod a oedd wedi'i glustnodi i Gymru ar gyfer rhaglenni 2014-2020.

Cafodd yr adroddiadau terfynu olaf ar gyfer Rhaglen Iwerddon Cymru eu cyflwyno i'r Comisiwn Ewropeaidd ym mis Mai 2025. Bydd rhywfaint o weithgarwch yn dal i fynd rhagddo mewn perthynas â pharhauster, sef rhwymedigaeth ar fuddiolwyr i gynnal buddsoddiadau a ariennir gan yr UE am bum mlynedd ar ôl y taliad olaf yn achos buddsoddiad mewn seilwaith neu fuddsoddiad cynhyrchiol. Mae'r adolygiadau hyn wedi dechrau a dylent gael eu cwblhau yn ystod y flwyddyn ariannol nesaf.

Mae buddiolwyr y rhaglenni wedi cael eu hatgoffa o'u rhwymedigaethau mewn perthynas â chadw dogfennau a'r angen i gyflwyno'r hyn sy'n ofynnol ar gyfer unrhyw archwiliadau yn y dyfodol gan y Comisiwn Ewropeaidd neu Lys Archwilwyr Ewrop. Erbyn hyn, mae tîm WEFO wedi gwasgaru bron yn gyfan gwbl, ac mae eu sgiliau a'u profiad yn cael eu defnyddio'n dda mewn gwahanol rannau o Lywodraeth Cymru.

Erys tîm bach profiadol er mwyn sicrhau y caiff y Rhaglenni eu cau'n llwyddiannus.

# Y Grŵp Gwasanaethau Corfforaethol ac Arolygiaethau

Mae'r Grŵp Gwasanaethau Corfforaethol ac Arolygiaethau yn sail i sefydliad hyderus, galluog a gwydn ac yn darparu gwasanaethau arolygiaeth a chynllunio allweddol. Mae'n cynnwys Cyllid a Llywodraethiant; Trysorlys Cymru; Pobl a Lleoedd; Caffael Masnachol; Digidol, Data a Thechnoleg; Gwasanaethau Gwybodaeth a Dadansoddi; a Gwasanaethau Cyfreithiol ynghyd â Phenderfyniadau Cynllunio ac Amgylchedd Cymru; Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC); ac Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC). Mae'n cyflawni rôl hanfodol drwy helpu'r Ysgrifennydd Parhaol a grwpiau eraill i sicrhau bod y sefydliad yn gweithredu'n ddidrafferth, cyflawni amcanion LlC2025 a chyflawni ymrwymiadau'r llywodraeth ar ran Gweinidogion.

Caiff llawer o waith Cyllid a Llywodraethiant ei adlewyrchu yn yr adroddiad perfformiad a'r Datganiad Llywodraethiant Blynyddol, megis Archwilio Mewnol, Sicrwydd ac Atal Twyll, Llywodraethiant Corfforaethol, Canolfannau Rhagoriaeth Grantiau, rheolaeth ariannol yn ystod y flwyddyn ar gyfer Llywodraeth Cymru, rheolaeth ariannol y Grwpiau, Cyfrifyddu a Pholisi Ariannol, cydymffurfiaeth TAW, a chydwasanaethau ariannol.

**Mae cyflawniadau allweddol y Grŵp Gwasanaethau Corfforaethol ac Arolygiaethau ar gyfer 2024-25 yn cynnwys**:

- **Rhaglen Trawsnewid Gwasanaethau Corfforaethol**

  Y Rhaglen Trawsnewid Gwasanaethau Corfforaethol yw ein menter newid sylweddol i foderneiddio gwasanaethau mewnol megis Adnoddau Dynol, Cyllid, a Grantiau. Y nod yw dod yn sefydliad a gaiff ei lywio gan ddata ac sy'n darparu gwybodaeth gywir o ansawdd da ar alw. Gan adeiladu ar y gwaith Gwella Gwasanaethau Corfforaethol, nod y Rhaglen hon yw mynd i'r afael â rhaglenni amnewid systemau a thrawsnewid diwylliant corfforaethol yn ehangach.

  Yn ystod y flwyddyn, arweiniodd y rhaglen at greu map trywydd technoleg manwl a chofrestr risg gysylltiedig, sicrhau cymeradwyaeth y Pwyllgor Gweithredol ar gyfer yr Achos Amlinellol Strategol, a dechrau datblygu cyngor ar gyfer mabwysiadu Safonau Swyddogaethol y Llywodraeth – gan osod y sylfeini ar gyfer yr Achos Busnes Amlinellol yn y cam nesaf.

- **Trysorlys Cymru**

  Yn ystod 2024-25, yn ychwanegol at y gwaith ar bolisi trethi[23] parhaodd Trysorlys Cymru i gefnogi defnydd Llywodraeth Cymru o'r Model Buddsoddi Cydfuddiannol er mwyn sicrhau seilwaith cyhoeddus hanfodol a manteision cymdeithasol ac economaidd cysylltiedig. Roedd y cynnydd allweddol yn cynnwys gwaith parhaus ar ddeuoli'r A465, dechrau adeiladu Canolfan Ganser newydd Felindre, cwblhau tair ysgol gynradd newydd yn Rhondda Cynon Taf, bron â chwblhau ysgol pob oed newydd yn Sir y Fflint, a chwblhau'r agweddau ariannol ar brosiect safle newydd Coleg Caerdydd a'r Fro.

  Ochr yn ochr â hynny, cyflwynwyd dull newydd o gynnal Adolygiadau Gwariant Cymru i gefnogi'r strategaeth gyllidol yn y tymor canolig i'r tymor hir. Y nod yw atgyfnerthu prosesau gwneud penderfyniadau ynghylch gwariant a chynhyrchu refeniw, gan arwain cyllidebau'r dyfodol drwy symud y ffocws o bwysau'r tymor byr i heriau'r tymor hwy. Mae'r dull yn meithrin arferion pennu blaenoriaethau a chyflawni canlyniadau drwy'r Llywodraeth gyfan, gan ffurfio sail ar gyfer buddsoddiadau cyhoeddus mwy cynaliadwy a strategol yng Nghymru.

- **Y Gyfarwyddiaeth Pobl a Lleoedd**

  Caiff gwaith y Gyfarwyddiaeth Pobl a Lleoedd ei adlewyrchu drwy'r Adroddiad Perfformiad i gyd, yn enwedig yn y ffordd rydym yn trefnu ein hunain i gyflawni (tudalen 79), ac yn yr adroddiad ar gydnabyddiaeth ariannol (tudalen 138) a'r Datganiad Polisi Tâl[24].

23 Trethi Cymru | LLYW.CYMRU
24 Datganiadau polisi cyflog Llywodraeth Cymru | LLYW.CYMRU

Cyflwynodd y gyfarwyddiaeth strwythurau newydd eleni, gan ddod ag elfennau o'r Ganolfan Gwasanaethau gynt i mewn i'r swyddogaeth Adnoddau Dynol fel rhan o fodel gweithredu Canolfan Ragoriaeth newydd. Hefyd, cafodd y swyddogaethau Ystadau Gweinyddol a Diogelwch eu cyfuno'n un gangen. Mae'r newidiadau hyn wedi bod yn fodd i ganolbwyntio ar ddarparu gwasanaethau ar draws ein swyddogaethau recriwtio, cyflogres ac ystadau wrth inni fwrw ymlaen â gwaith i nodi ein catalog gwasanaethau.

Cafodd ein dull o gefnogi Cyrff Cyhoeddus ei ddiwygio â ffocws parhaus ar gefnogi ein Cadeiryddion a'n Prif Weithredwyr (gyda dulliau megis y Fforwm Arweinwyr Cyhoeddus yn cynnig cyfleoedd i drafod diwylliant, gwrth-hiliaeth a'r heriau cyllidebol sy'n wynebu'r sector cyhoeddus). Dechreuwyd diwygio prosesau penodiadau cyhoeddus o'r bôn i'r brig a disgwylir i hyn gael ei gwblhau yn ystod 2025-26. Hefyd yn ystod y flwyddyn, ymunodd Academi Wales â'r Gyfarwyddiaeth Pobl a Lleoedd gan gynnal ei hysgolion haf a gaeaf blynyddol ac ailddylunio ei rhaglen graidd o gymorth i arweinwyr y sector cyhoeddus.

- **Y Gyfarwyddiaeth Caffael Masnachol**

  Yn ystod 2024-25, cymerodd y Gyfarwyddiaeth Caffael Masnachol gamau breision tuag at foderneiddio prosesau caffael cyhoeddus yng Nghymru. Cyflwynodd ddeddfwriaeth gaffael newydd ym mis Chwefror 2025 mewn partneriaeth â Swyddfa Cabinet y DU a'r sector cyhoeddus yng Nghymru, a gwnaeth baratoadau ym mhob rhan o'r llywodraeth er mwyn sicrhau y câi ei mabwysiadu'n ddidrafferth.

  Lansiwyd Prentisiaeth Caffael gyntaf Cymru er mwyn rhoi hwb i alluogrwydd yn y sector. Cynhaliodd y tîm Procurex Cymru, gan gysylltu prynwyr a chyflenwyr ar draws sectorau. Gwnaed cynnydd tuag at gyflawni uchelgeisiau sero net drwy waith polisi a rhoi Cynlluniau Lleihau Carbon cyflenwyr ar waith. Cafodd y gyfarwyddiaeth gydnabyddiaeth i'w harloesedd yng Ngwobrau GO Cymru a chan swyddogaeth Fasnachol y Llywodraeth. Rhoddodd gymorth ar gyfer gwerth £700 miliwn mewn tendrau, sicrhaodd barodrwydd ar gyfer offer digidol yn y dirwedd newydd, ac arweiniodd broses ailddylunio sefydliadol. Hefyd, gwnaed paratoadau ym mhob rhan o'r llywodraeth er mwyn sicrhau y câi newidiadau deddfwriaethol eu mabwysiadu'n ddidrafferth.

- **Digidol, Data a Thechnoleg (DDAT)**

  Mae DDAT wedi helpu i ddatblygu'r agenda ddigidol drwy ehangu'r defnydd o ddeallusrwydd artiffisial a thechnolegau a gaiff eu llywio gan ddata, yn unol â'r Strategaeth Ddigidol i Gymru. Mae Microsoft 365 Copilot ac offer deallusrwydd artiffisial pwrpasol – a ddatblygwyd gan yr Uned Gwyddor Data – wedi gwella cynhyrchiant a sicrhau arbedion costau drwy ddatblygiadau arloesol megis crynodebau ar gyfer yr ymchwiliad i COVID-19 a dadansoddiadau data amgylcheddol.

  Crëwyd fframwaith moeseg data ar gyfer Llywodraeth Cymru a mabwysiadwyd y **Safon Cofnodi Tryloywder Algorithmig (ATRS)** ym mhob rhan o'r sector cyhoeddus yng Nghymru. Bu'r gyfarwyddiaeth yn gweithio gyda Chyngor Partneriaeth y Gweithlu i ddatblygu canllawiau i sefydliadau'r sector cyhoeddus ar ddefnyddio deallusrwydd artiffisial yn gyfrifol a deall ei effaith ar o staff – un enghraifft dda o gydweithio drwy bartneriaeth gymdeithasol.

  Atgyfnerthwyd seilwaith TG drwy uwchraddio rhwydweithiau, dilysu aml-ffactor, a chanoli cymorth systemau ar gyfer llwyfannau fel ein system gyllid, sef SAP, a'n system gwybodaeth adnoddau dynol, sef Pobl. Dechreuodd prosiect Bwrdd Gwaith 2.0 symud defnyddwyr i Windows 11, gan sicrhau gwelliannau o ran diogelwch ac iaith. Ymhlith y mesurau osgoi costau roedd contract ffonau symudol newydd, gwell trefniadau storio ffeiliau, datgomisiynu hen dechnoleg, ac ymuno â GovPrint er mwyn lleihau costau argraffu a moderneiddio offer swyddfa erbyn haf 2025.

- **Y Gwasanaethau Cyfreithiol**

  Cafodd y Gwasanaethau Cyfreithiol flwyddyn brysur yn cefnogi blaenoriaethau Gweinidogol allweddol[25], gan weithio ar 14 o Filiau – y daeth pump ohonynt yn Ddeddfau'r Senedd. Ymhlith y cyflawniadau nodedig roedd cyfraniadau allweddol at Ddiwygio'r Senedd a Bil y Gymraeg ac Addysg – y cyntaf i gael ei ddrafftio a'i gyflawni yn gyfan gwbl drwy gyfrwng y Gymraeg. Hefyd, drafftiodd y tîm tua 250 o offerynnau statudol.

  Bu'r Gwasanaethau Cyfreithiol yn cefnogi gweithgarwch ym mhob rhan o Lywodraeth Cymru, gan gynnwys gwaith helaeth ar yr Ymchwiliad i COVID-19, paratoi ar gyfer 10 modiwl gweithredol a helpu tystion i gyflwyno tystiolaeth o ansawdd da. Y tu hwnt i gyflawni cyfreithiol, bu'r gyfarwyddiaeth yn hyrwyddo symudedd cymdeithasol drwy ddigwyddiadau allgymorth er mwyn ceisio annog pobl ifanc nad ydynt o gefndiroedd cyfreithiol i ystyried gyrfaoedd yn y gyfraith. Cafodd yr ymrwymiad hwn i gynwysoldeb ei gydnabod drwy enwebiad am wobr gan Lywodraeth Cymru.

- **Penderfyniadau Cynllunio ac Amgylchedd Cymru (PEDW)**

  Yn ystod 2024-25, cefnogodd Penderfyniadau Cynllunio ac Amgylchedd Cymru (PEDW) flaenoriaeth y Prif Weinidog i gyflymu prosesau cynllunio ac ysgogi economi Cymru drwy benderfynu ar 16 o geisiadau ar gyfer datblygiadau o arwyddocâd cenedlaethol, gan roi caniatâd ar gyfer 700MW o ynni adnewyddadwy. Yn dilyn rheoliadau newydd ym mis Ionawr 2025 a ddirprwyodd benderfyniadau hyd at 50MW i Arolygwyr, cyhoeddodd PEDW benderfyniadau 10 wythnos yn gynharach na'r targed o 36 wythnos.

  Ar ben hynny, penderfynodd PEDW ar 648 o apeliadau a cheisiadau cynllunio ar ran Gweinidogion Cymru, a dechreuodd archwilio Cynllun Datblygu Lleol Sir Gaerfyrddin. Mae PEDW yn cyflawni rôl arweiniol o ran cefnogi a datblygu'r proffesiwn cynllunio yng Nghymru. Yn ystod 2024-25, cynhaliwyd hyfforddiant a chydweithio i gefnogi amrywiaeth o randdeiliaid, gan gynnwys Awdurdodau Cynllunio Lleol, swyddogion polisi, ymgyngoreion statudol, datblygwyr, asiantiaid cynllunio, y cyhoedd a rhanddeiliaid eraill.

- **Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC)**

  Gwnaeth Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) gynnydd tuag at gyflawni ei chenhadaeth sicrwydd a gwella yn ystod 2024-25 mewn perthynas â gofal iechyd y GIG a gofal iechyd annibynnol yng Nghymru. Lansiodd y broses o ddatblygu strategaeth newydd ar gyfer 2026-2030 a chynhaliodd adolygiadau mawr eu heffaith, gan gynnwys adolygiad cenedlaethol ar y cyd ag AGC ac Estyn ar iechyd meddwl plant a phobl ifanc – gan ddefnyddio gwybodaeth gan fwy na 600 o bobl ifanc a thynnu sylw at fylchau mewn cymorth arbenigol a darpariaeth mewn argyfwng.

  Hefyd, cwblhaodd AGIC ei rôl yn y rhaglen Arolygiadau ar y Cyd o Drefniadau Amddiffyn Plant, gan gyfrannu at adroddiad thematig a oedd yn pwysleisio'r angen am well arferion rhannu data ac arferion diogelu cyson. Yn weithredol, cynhaliodd AGIC 101 o arolygiadau o ddarparwyr gofal iechyd annibynnol a 62 o wasanaethau'r GIG, gan ymdrin â chynnydd o 20% yn nifer y pryderon (o 614 i 743). Mae'r gweithgareddau hyn yn adlewyrchu proffil cynyddol AGIC a'i ymrwymiad i ddiogelu'r cyhoedd, gwelliant, ac ymgysylltu â phob rhan o'r system gofal iechyd yng Nghymru. Caiff ei Hadroddiad Blynyddol ar gyfer 2024-25 ei gyhoeddi ym mis Medi 2025.[26]

---

25 Adroddiad Blynyddol Llywodraeth Cymru 2025 | LLYW.CYMRU
26 Adroddiadau blynyddol | Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru

- **Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC)**

  Yn ystod 2024-25, cynhaliodd Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC) raglen eang ei chwmpas o reoleiddio a gwella gwasanaethau gofal cymdeithasol a gofal plant ledled Cymru. Cwblhaodd 2,033 o arolygiadau – 1,087 ar gyfer gwasanaethau oedolion a phlant a 946 ar gyfer darparwyr gofal plant a chwarae – a chofrestrodd 388 o wasanaethau newydd.

  Cyhoeddodd AGC ddau adolygiad ar y cyd arwyddocaol: un ar drefniadau amddiffyn plant gydag Estyn, AGIC ac Arolygiaeth Cwnstabliaeth a Gwasanaethau Tân ac Achub Ei Fawrhydi, ac un arall ar wasanaethau iechyd meddwl plant a phobl ifanc gydag AGIC ac Estyn, gan helpu i ysgogi gwelliannau drwy'r sector cyfan. Gwnaeth AGC hefyd baratoi i gyflwyno sgoriau arolygu ar gyfer gwasanaethau oedolion a phlant o fis Ebrill 2025 ymlaen, a rhoi prosiect gwella newydd ar waith ar gyfer gofal plant a chwarae, gan gynnwys cyfarfodydd rheolaidd gyda darparwyr. Hefyd, cyhoeddodd god ymarfer diwygiedig ar gyfer arolygu gwasanaethau cymdeithasol awdurdodau lleol. Lansiodd ei chynllun strategol newydd ar gyfer 2025-2030, a luniwyd mewn cydweithrediad â o staff, partneriaid a defnyddwyr gwasanaethau, sy'n amlinellu ei ffocws parhaus ar sicrwydd, gwelliant a dylanwad ym mhob rhan o'r sector gofal[27].

27 Ein hadroddiadau blynyddol | Arolygiaeth Gofal Cymru

## Grŵp yr Economi, Ynni a Thrafnidiaeth

Mae amcanion strategol Llywodraeth Cymru ar gyfer portffolio'r economi, ynghyd â chynllunio ac ynni, yn cynnig cyfle unigryw i gyflawni un o feysydd blaenoriaeth y Prif Weinidog, sef swyddi a thwf gwyrdd. Ein *Cenhadaeth Economaidd: Blaenoriaethau ar gyfer Economi Gryfach*[28] yw creu economi fwy ffyniannus, economi wyrddach ac economi fwy cyfartal, ac mae hyn yn seiliedig ar bedair blaenoriaeth genedlaethol, sef:

- Pontio cyfiawn a ffyniant gwyrdd;
- Creu platfform i bobl ifanc ar gyfer gwaith teg, sgiliau a llwyddiant;
- Creu partneriaethau cryfach ar gyfer rhanbarthau cryfach a'r economi bob dydd;
- Buddsoddi ar gyfer twf.

Mae ein dull o sicrhau mwy o swyddi yn seiliedig ar bartneriaeth â llywodraeth leol drwy Fframweithiau Datblygu Rhanbarthol a chyflawni blaenoriaethau economaidd drwy wahanol Gyd-bwyllgorau Corfforedig. Yn ogystal, mae Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda Llywodraeth y DU, llywodraeth leol a phartneriaid i gynnal rhaglenni sy'n gysylltiedig â phorthladdoedd rhydd, parthau buddsoddi, a bargeinion dinesig a thwf. Mae hyn yn cynnwys cydweddiad ym mhob rhan o'r genhadaeth twf economaidd, gan gynnwys ffocws ar gyflawni Strategaeth Ddiwydiannol gyda sectorau twf â blaenoriaeth mewn diwydiannau ynni glân, gweithgynhyrchu uwch (gan gynnwys amddiffyn), digidol a thechnolegau, creadigol, gwyddorau bywyd a gwasanaethau ariannol.

**Ymhlith cyflawniadau allweddol Grŵp yr Economi, Ynni a Thrafnidiaeth ar gyfer 2024-25 mae:**

- **Yr Economi**

  Gwyddom fod gweithredu trawslywodraethol mewn amrywiaeth o feysydd polisi yn hollbwysig er mwyn sicrhau y gallwn gryfhau ein heconomi mewn ffordd sy'n adeiladu ar yr egwyddorion llesiant ac yn gwneud Cymru'n lle gwych i fyw a gweithio ynddo, nawr ac ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol.

  Mae twf a swyddi gwyrdd yn rhan ganolog o'r ddau borthladd rhydd yng Nghymru, sef y Porthladd Rhydd Celtaidd ym Mhort Talbot ac Aberdaugleddau sydd ar waith ers mis Tachwedd 2024, a Phorthladd Rhydd Ynys Môn sydd ar waith ers mis Ionawr 2025. Bydd y porthladdoedd rhydd hyn, a ddatblygwyd mewn partneriaeth â Llywodraeth y DU, yn ffurfio parthau economaidd arbennig ar gyfer busnesau a fydd yn cynnig manteision o ran trethi a thollau.

- **Busnes Cymru**

  Er gwaethaf yr heriau sy'n codi o ganlyniad i golli cyllid yr UE, erys Llywodraeth Cymru yn ymrwymedig i gefnogi entrepreneuriaid ac egin fusnesau o Gymru drwy ei gwasanaeth Busnes Cymru. Yn 2024-25, gwnaeth gwasanaeth Busnes Cymru roi gwybodaeth i bron 36,991 o unigolion a busnesau a'u cyfeirio at gymorth, gan arwain at y canlynol:

  – Cymerodd 79,899 o bobl ifanc o dan 25 oed ran mewn gweithdai ymwybyddiaeth menter a arweiniwyd gan entrepreneuriaid o Gymru.

  – Cafodd 4,042 o unigolion a oedd yn ystyried dechrau busnes gyngor a chymorth, a arweiniodd at greu 829 o fusnesau newydd.

  – Rhoddwyd cymorth i 3,603 o fusnesau, gan helpu i ddiogelu 1,726 o swyddi.

  – Cafodd 1,976 o swyddi newydd eu creu.

28 Cenhadaeth economaidd: blaenoriaethau ar gyfer economi gryfach [HTML] | LLYW.CYMRU

- **Cymorth Busnes**

  Cefnogodd ein rhaglenni cymorth sgiliau a busnes weithwyr a busnesau yn y gadwyn gyflenwi y cafodd diwedd y broses cynhyrchu dur mewn ffwrneisi chwyth ym Mhort Talbot effaith arnynt – galluogodd cynllun peilot y Cyfrifon Dysgu Personol 700 o gyflogeion TATA a'i gadwyn gyflenwi i ddilyn cyrsiau wedi'u hariannu'n llawn.

  Mae gan Fanc Datblygu Cymru[29] bresenoldeb 'ar lawr gwlad' ym mhob rhan o Gymru ac mae ganddo hanes da o gyflawni ledled Cymru gyfan. Cafwyd mwy o weithgarwch nag erioed o'r blaen gan y banc eleni, a chyflawnwyd y canlynol:

  – Effaith gwerth cyfanswm o £216 miliwn ar economi Cymru.
  – £152m o fuddsoddiad uniongyrchol mewn busnesau yng Nghymru.
  – £64m o fuddsoddiad ychwanegol gan fanciau a chyd-fuddsoddwyr eraill yn y sector preifat.
  – Gwneud 560 o fuddsoddiadau.
  – Creu neu ddiogelu 6,185 o swyddi yng Nghymru.

- **Twristiaeth, Digwyddiadau a'r Diwydiannau Creadigol**

  Mae brand arobryn Cymru Wales yn hyrwyddo Cymru i'r byd, ym mhob sector a Mawrthnad, fel gwlad greadigol a chyfoes o ansawdd da sy'n falch o bwy ydym ni ac sy'n datblygu ar gyfer y dyfodol. Yn ystod 2024-25, mae wedi ysgogi twf mewn swyddi ac ym maes twristiaeth a lletygarwch, mewnfuddsoddiad, allforio a chreu BBaChau.

  Sicrhaodd ein tîm Digwyddiadau Cymru gyflawniad cyffrous cyntaf o'i fath i Gymru pan gyhoeddwyd y byddai Cymru'n helpu i gynnal Grand Dèpart yn y DU ar gyfer y digwyddiad beicio enwocaf yn y byd – y Tour de France – yn 2027.

  Mae'r diwydiannau creadigol yn sector twf uchel yn yr economi ac yn sector allweddol yn y strategaeth ddiwydiannol i Lywodraeth Cymru. Yn sgil hyn, buddsoddodd Cymru Greadigol fwy na £6m o gyllid cynhyrchu mewn 15 o brosiectau yn ystod 2024-25, a bydd hyn yn golygu y caiff dros £90m o wariant amodol yng Nghymru ei ychwanegu at economi Cymru. Cefnogwyd naw ffilm arall drwy ein cytundeb â Ffilm Cymru, gyda chyfanswm o £2.5m o fuddsoddiad yn sicrhau dros £18m o wariant yng Nghymru.

- **Cysylltiadau Rhyngwladol a Masnach**

  Rydym wedi parhau i ymgysylltu â Llywodraeth y DU ar agenda polisi masnach, gan gynnwys pennu ein blaenoriaethau clir ar gyfer ein perthynas â'r UE a cheisio sicrhau y caiff blaenoriaethau polisi datganoledig eu hadlewyrchu a'u bod yn cyd-fynd â '*Dull Llywodraeth Cymru o ymdrin â pholisi masnach*'.[30] Drwy gyflawni'r Cynllun Gweithredu ar gyfer Allforio[31] a'n rhaglenni cymorth allforio, rydym wedi gwneud y canlynol:

  – Cynnal 232 o brosiectau allforio, 18 o genadaethau/arddangosfeydd masnach tramor, gan gynnwys £112m mewn busnes allforio newydd.
  – Cymryd rhan mewn mwy na 40 o ddigwyddiadau, arddangosfeydd a seminarau cenedlaethol/rhyngwladol allweddol.
  – Ysgogi 221 o ymholiadau mewnfuddsoddi.
  – Cyhoeddi Cynllun Cyflawni Rhyngwladol sy'n nodi 15 o flaenoriaethau ar gyfer gweithredu.
  – Lansio Blwyddyn Cymru a Japan.

29 Benthyciadau i fusnesau yng Nghymru – Banc Datblygu
30 Dull Llywodraeth Cymru o ymdrin â pholisi masnach [HTML] | LLYW.CYMRU
31 41045 Cynlluniau Gweithredu Rhyngwladol – Cynllun Gweithredu Cymru ar gyfer Allforio

- **Ynni**

  Mae Llywodraeth Cymru yn ymrwymedig i sicrhau mai cymunedau Cymru sy'n llywio ein dyfodol o ran ynni. Rydym am sicrhau y bydd pobl leol yn cael budd o'r buddsoddiad mewn ynni adnewyddadwy gan arwain at fuddsoddiad newydd i gefnogi swyddi a thwf gwyrdd.

  Drwy ein rhaglen Ynni Cymru, rydym wedi sicrhau gwerth £10m o fuddsoddiad i 32 o brosiectau ynni clyfar lleol ledled Cymru. Bydd y prosiectau hyn yn helpu cymunedau, BBaChau a'r sector cyhoeddus i ddatblygu amrywiaeth o dechnolegau megis paneli solar, pympiau gwres, storio mewn batris, a phwyntiau gwefru cerbydau trydan.

  Ochr yn ochr â'r buddsoddiad lleol hwn, rydym hefyd yn bwrw ymlaen â gweithgarwch cyflawni ar raddfa fawr a arweinir gan y sector cyhoeddus drwy gwmni Trydan Gwyrdd Cymru.[32] Mae ein cwmni sy'n eiddo i'r cyhoedd wedi parhau i ddatblygu prosiectau ynni adnewyddadwy ar raddfa cyfleustodau ar dir y sector cyhoeddus gan anelu at darged o greu 1GW o gapasiti cynhyrchu newydd erbyn 2040.

  Rydym wedi parhau i weithio gyda diwydiant i ddarganfod pa gamau y gall Llywodraeth Cymru eu cymryd i gynyddu'r defnydd o ynni adnewyddadwy mewn ffordd sy'n cefnogi swyddi a thwf gwyrdd. Rydym wedi sefydlu'r grŵp gorchwyl a gorffen ynni gwynt ar y môr i bennu'r camau y bydd angen inni eu cymryd er mwyn sicrhau y caiff ynni gwynt ar y môr ei gyflawni'n llwyddiannus yng Nghymru.

- **Swyddfa Wyddoniaeth Llywodraeth Cymru**

  Mae Swyddfa Wyddoniaeth Llywodraeth Cymru yn cefnogi Prif Gynghorydd Gwyddonol Cymru ac mae'n allweddol o ran drafftio cyngor ar wyddoniaeth a thechnoleg i adrannau Llywodraeth Cymru, Ysgrifenyddion y Cabinet a Gweinidogion drwy gasglu, syntheseiddio ac asesu tystiolaeth wyddonol a thechnegol.

  Rôl Prif Gynghorydd Gwyddonol Cymru yw cryfhau dull gweithredu sy'n seiliedig ar dystiolaeth wrth wneud penderfyniadau ym mhob rhan o Lywodraeth Cymru er mwyn sicrhau gwell enillion o fuddsoddiadau cyhoeddus i gymdeithas. Mae'r Prif Gynghorydd wedi canolbwyntio ar ffurfio cysylltiadau cydweithredol yn rhyngwladol, gan gynnwys cysylltiadau â Québec, Silesia, India, a Seland Newydd, a thrwy hynny wella adnabyddiaeth, dylanwad a phŵer meddal i Gymru a'r DU.

- **Y Ganolfan Gwasanaethau Cyhoeddus Digidol**

  Mae'r Ganolfan Gwasanaethau Cyhoeddus Digidol[33] wedi parhau i gefnogi gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru ar eu teithiau trawsnewid digidol. Sefydlodd y Ganolfan Grŵp Arweinyddiaeth Deallusrwydd Artiffisial ac Awtomeiddio ar draws gwasanaethau cyhoeddus i gydweithio a rhannu gwybodaeth ac arferion da, gan gefnogi'r defnydd diogel o ddeallusrwydd artiffisial ac awtomeiddio ym mhob rhan o'r sector cyhoeddus yng Nghymru.

  Datblygodd y Ganolfan Hwb Rhannu Digidol, sef llyfrgell gynyddol o enghreifftiau o arferion gorau a thrawsnewid digidol a arweinir gan ddefnyddwyr sy'n digwydd mewn gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru a thu hwnt. Hefyd, bu'n cydweithio'n agos â thimau Llywodraeth Cymru i ddechrau gwaith trawsnewid ar feysydd megis cynllunio, budd-daliadau Cymru a gwasanaethau niwroamrywiaeth.

32 Adref | Trydan Gwyrdd Cymru
33 Hafan | Canolfan Gwasanaethau Cyhoeddus Digidol

- **Partneriaeth Gymdeithasol, Cyflogadwyedd a Gwaith Teg**

  Rydym wedi datblygu prosiect braenaru gyda'r Adran Gwaith a Phensiynau er mwyn mynd i'r afael ag anweithgarwch economaidd yn y Rhyl, Castell-nedd Port Talbot a Blaenau Gwent a hefyd wedi cyflwyno'r ddyletswydd partneriaeth gymdeithasol ar gyrff cyhoeddus a gwmpesir gan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol fel rhan o gam diweddaraf y gwaith o roi statws statudol i bartneriaeth gymdeithasol.

- **Trafnidiaeth**

  Ar y rheilffyrdd, drwy Trafnidiaeth Cymru[34] mae Llywodraeth Cymru yn parhau i roi pecyn gwerth £800m ar waith i fuddsoddi mewn trenau newydd, ac mae'r mwyafrif ohonynt bellach ar waith. Hefyd, mae Metro De Cymru ar y camau cyflawni olaf, a bydd yn uwchraddio gwasanaethau rhwng Caerdydd a'r Cymoedd yn sylweddol.

  O ran bysiau, mae deddfwriaeth arwyddocaol wedi cael ei chyflwyno er mwyn dod â'r rhwydwaith bysiau dan reolaeth gyhoeddus. Rydym yn gweithio mewn partneriaeth ag awdurdodau lleol, y diwydiant bysiau ac undebau llafur i baratoi ar gyfer trefniadau masnachfreinio ar gyfer y dyfodol ledled holl ranbarthau Cymru.

  Ar y Rhwydwaith Ffyrdd Strategol, bydd y prosiect hirdymor i ddeuoli'r A465 Ffordd Blaenau'r Cymoedd yn cael ei gwblhau ym mis Mehefin 2025 – carreg filltir enfawr o ran peirianneg, cyflawni a thrafnidiaeth, gan sicrhau seilwaith a chysylltedd o ansawdd da i ardal Blaenau'r Cymoedd. Ar y ffyrdd yn fwy cyffredinol, mae'r terfyn cyflymder diofyn o 20mya wedi arwain at gyfraddau is o anafiadau a marwolaethau yn gyson.

34 www.trc.cymru/

## Astudiaeth Achos: **Clwstwr Lled-ddargludyddion Cyfansawdd De-ddwyrain Cymru**



Mae gennym gryfder mewn diwydiannau sy'n llywio'r byd. Ym mis Tachwedd 2024, cyhoeddodd Vishay Intertechnology, sef un o'r gwneuthurwyr lled-ddargludyddion arwahanol a chydrannau electronig goddefol mwyaf yn y byd, ei fod yn buddsoddi £51 miliwn yng Nghyfleuster Saernïo Haenellau Casnewydd, sef cyfleuster lled-ddargludyddion mwyaf y DU – gan ddod â'r gallu i greu amrywiaeth newydd o gynhyrchion a chyfleoedd swyddi medrus i Gasnewydd.

Ategwyd y buddsoddiad gan £5 miliwn o gyllid gan Lywodraeth Cymru a osododd y sylfeini ar gyfer buddsoddiad pellach o £250m gan y cwmni. Y cyhoeddiad hwn oedd y diweddaraf mewn rhestr hir o newyddion da i glwstwr lled-ddargludyddion cyfansawdd De Cymru – sy'n parhau i ddenu diddordeb a chydnabyddiaeth ryngwladol.

Dewisodd ail gwmni sydd dan berchnogaeth Americanaidd, sef KLA, Barc Imperial yng Nghasnewydd fel lleoliad i'w bencadlys Ewropeaidd newydd. Gyda buddsoddiad gan Lywodraeth Cymru yn y seilwaith grid ar y safle, mae'r datblygiad 215,000 troedfedd sgwâr sy'n werth $100 miliwn yn creu canolfan arloesi a chyfleuster gweithgynhyrchu sydd ar flaen y gad a bydd yn cynnwys ystafelloedd glân ar gyfer ymchwil a datblygu a gweithgynhyrchu, gyda'r potensial i gyflogi gweithlu o hyd at 750.

Yn y cyfamser, mae Canolfan 7, sef cyfleuster o'r radd flaenaf ym Mhorth Caerdydd a gefnogir gan Lywodraeth Cymru, eisoes wedi bod yn denu mewnfuddsoddwyr sy'n cydnabod Cymru fel lle gwych i weithgynhyrchu lled-ddargludyddion, a Microlink Devices a CS Connected yw'r tenantiaid cyntaf ar y safle 51,000 troedfedd sgwâr.

Mae prosiect ymchwil sero net gwerth £2.5 miliwn yng Nghanolfan Deunyddiau Lled-ddargludydd Prifysgol Abertawe wedi bod yn arloesi mewn lleihau allyriadau adeiladu ar gyfer y diwydiant lled-ddargludyddion ac mae ganddi gytundebau ymchwil ag aelodau diwydiannol megis Vishay, sydd â nifer o gyn-fyfyrwyr Abertawe ymhlith ei swyddogion gweithredol.

## Y Grŵp Addysg, Diwylliant a'r Gymraeg

Mae'r Grŵp Addysg, Diwylliant a'r Gymraeg yn arwain ym meysydd addysg ar bob cam dysgu, diwylliant, y Gymraeg, cyfiawnder cymdeithasol, a diogelwch cymunedol. Ein nod yw gwella deilliannau addysg, creu cymunedau tecach a mwy cyfartal, cefnogi bywyd diwylliannol ac ieithyddol bywiog, a gweithio gyda phartneriaid er mwyn helpu i gadw pobl yn ddiogel ac yn wydn.

**Ymhlith cyflawniadau allweddol Grŵp Addysg, Diwylliant a'r Gymraeg ar gyfer 2024-25 mae:**

- **Medr**

  Ym mis Chwefror 2024, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru y 'Datganiad o flaenoriaethau strategol ar gyfer addysg drydyddol ac ymchwil ac arloesi'[35], sy'n nodi ei blaenoriaethau strategol ar gyfer addysg drydyddol ac ymchwil ac arloesi ac yn esbonio'r rôl allweddol y bydd y Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil – a elwir yn Medr – yn ei chyflawni er mwyn helpu'r sector addysg drydyddol i ddatblygu.

  Ar 1 Awst 2024, dechreuodd Medr weithredu fel corff hyd braich newydd Cymru ar gyfer ariannu, goruchwylio a rheoleiddio addysg drydyddol. Am y tro cyntaf, un sefydliad sydd â chyfrifoldeb strategol am y dirwedd addysg ôl-16 gyfan – prifysgolion, colegau addysg bellach, dosbarthiadau chwech awdurdodau lleol, prentisiaethau, dysgu oedolion yn y gymuned, hyfforddiant seiliedig ar waith, ac ymchwil ar arloesi.

  Cadarnhawyd y cyllid ar gyfer 2024-25, gan alluogi Medr i symud ymlaen yn gyflym o'r broses sefydlu i'r gweithgarwch cyflawni. Drwy gydol yr hydref, datblygodd Medr ei Gynllun Strategol cyntaf[36],sy'n nodi sut y bydd yn mynd i'r afael â blaenoriaethau gweinidogol, yn gwella ansawdd ac yn ehangu cyfranogiad ym mhob rhan o'r sector. Cafodd y cynllun ei gymeradwyo gan Weinidogion Cymru ym mis Ionawr 2025, a bydd yn arwain gwaith Medr gyda darparwyr a phartneriaid wrth iddo ysgogi gwelliant parhaus ac ehangu cyfleoedd dysgu i bawb o bob oed ledled Cymru.

- **Prydau Ysgol am Ddim i Holl Blant Ysgolion Cynradd**

  Yn 2024, cwblhawyd y broses o gyflwyno prydau ysgol am ddim i holl blant ysgolion cynradd, gan olygu mai Cymru yw'r gyntaf o wledydd y DU i ddarparu'r hawl hon. Yn gynharach na'r disgwyl, gall bron i 175,000 o blant ychwanegol gael pryd maethlon dyddiol erbyn hyn, ac mae mwy na 44 miliwn o giniawau ychwanegol eisoes wedi cael eu gweini. Mae'r rhaglen yn lleihau tlodi a llwgu ymhlith plant, gan ddileu'r stigma sy'n gysylltiedig â darpariaeth sy'n dibynnu ar brawf modd, a rhoi miliynau o bunnau yn ôl yng nghyllidebau teuluoedd.

  Er mwyn gwneud hyn yn bosibl, buddsoddwyd dros £60 miliwn mewn uwchraddio ceginau a ffreuturau a gweithio law yn llaw ag awdurdodau lleol, arlwywyr, ac ysgolion. Mae'r dull 'Tîm Cymru' hwn wedi cynyddu gwerthiannau cyfanwerthwyr yng Nghymru yn sylweddol (Bwydydd Castell Howell a Harlech Foodservice) o gynhyrchion Cymreig i ysgolion ers 2021, gan atgyfnerthu cadwyni cyflenwi lleol a chefnogi swyddi lleol.

  Mae'r polisi arwyddocaol hwn yn sicrhau mai Cymru sy'n cynnig yr arlwy bwyd mwyaf hael yn y DU ac mae'n gosod y sylfeini ar gyfer deietau iachach, gwell dysgu, a dechrau tecach i bob plentyn.

35 Datganiad o flaenoriaethau strategol ar gyfer addysg drydyddol ac ymchwil ac arloesi [HTML] | LLYW.CYMRU
36 Cynllun Strategol – Medr

- **Cofrestr Risg Cymru**

  Mae deall risgiau argyfyngau sifil yn hanfodol i bob agwedd ar gynllunio gwydnwch ac ymateb. I gydnabod hyn, yn ystod 2024-25, datblygodd Llywodraeth Cymru gyfres o ddogfennau er mwyn cynnig sylfaen dystiolaeth well a chadarn ar gyfer risg i ymatebwyr. Un o'n cyflawniadau allweddol oedd datblygu'r gofrestr risg bwrpasol gyntaf ar gyfer argyfyngau sifil i Gymru. Mae cofrestr risg Cymru yn cynnig asesiad dosbarthedig o'r risgiau mwyaf sylweddol i Gymru yn y tymor canolig, sef dros y ddwy i bum mlynedd nesaf. Yr hyn sy'n arwyddocaol am y gofrestr ddosbarthedig hon yw ei bod yn helpu i wella ymwybyddiaeth a dealltwriaeth gyfunol o risgiau sy'n ymwneud ag amddiffyn sifil, yn gwella'r ffordd yr awn ati i reoli'r risgiau hynny, yn llywio polisi'r llywodraeth ac yn pennu blaenoriaethau strategol ar gyfer gwaith sy'n ymwneud â gwydnwch.

- **Diwylliant, Twristiaeth a Chwaraeon**

  Drwy gynlluniau grantiau cystadleuol wedi'u targedu, rhoesom gymorth i dros 80 o sefydliadau er mwyn sicrhau y caiff hanes ein cymunedau Du, Asiaidd, ac Ethnig Leiafrifol ei gynrychioli'n briodol. Mae'r grantiau hyn wedi helpu i gyflawni'r nodau a'r camau gweithredu sy'n ymwneud â diwylliant, treftadaeth a chwaraeon yn y Cynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol.[37]

  Mae cyllid i gyrff a noddir a sefydliadau'r sector lleol wedi canolbwyntio ar newid hirdymor cynaliadwy o ran gwreiddio arferion gwrth-hiliol wrth ddylunio a darparu gwasanaethau. Drwy'r Cynllun Grant Diwylliant i sefydliadau llawr gwlad, rydym wedi ceisio grymuso pobl Ddu, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol i greu gweithgareddau diwylliannol y gallant uniaethu â nhw, a chymryd rhan yn y gweithgareddau hynny ac ymgysylltu â nhw. Mae'r cyllid hwn hefyd wedi helpu i atgyfnerthu eu gallu a'u hyder i wneud ceisiadau llwyddiannus am gyllid, boed i ni neu ein partneriaid. Bydd gwerthusiad allanol o'r rhaglen gyllido, a gwblhawyd ym mis Ebrill 2025, yn ein helpu i ddysgu a gwella dulliau cyllido a chyflawni yn y dyfodol.

- **Y Rhaglen Bartneriaeth Gwella Ysgolion**

  Erbyn mis Tachwedd 2024, mae pob awdurdod lleol yng Nghymru wedi cael cymorth i ddatblygu cynlluniau sy'n nodi eu trefniadau gwella ysgolion ar gyfer y cyfnod o 2025-26 ymlaen, trefniadau partneriaeth arfaethedig, a sut y byddai'r broses o bontio i'r trefniadau newydd yn cael ei rheoli. Mae'r cyfeiriad cenedlaethol wedi cael ei feinhau i ganolbwyntio ar dair blaenoriaeth fesuradwy – presenoldeb, llythrennedd a rhifedd – sydd i gyd yn seiliedig ar lesiant dysgwyr, gan roi agenda gyffredin glir i arweinwyr.

  Mae gwaith ar y gweill i sefydlu'r Corff Cymorth Dysgu Proffesiynol ac Arweinyddiaeth Cenedlaethol[38] er mwyn i'r corff allu agor ar 1 Medi 2025 a symleiddio dysgu proffesiynol o flwyddyn academaidd 2025-26 ymlaen. Cynhelir cynllun peilot yn ystod haf 2025 i gyflwyno pecynnau cymorth wedi'u dylunio gan ymarferwyr er mwyn mynd i'r afael â llythrennedd, rhifedd, cynllunio'r cwricwlwm, cynnydd ac asesu. Mae Tîm Gwella Addysg penodedig bellach yn cynnal deialog barhaus rhwng Llywodraeth Cymru, awdurdodau lleol ac ysgolion, gan sicrhau y caiff blaenoriaethau cenedlaethol eu trosi'n weithredu lleol a chydweithio rhwng ysgolion.

37 Cynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol: diweddariad 2024 [HTML] | LLYW.CYMRU
38 Datganiad Ysgrifenedig: Diweddariad ar Ddysgu Proffesiynol a Gwella Ysgolion (3 Mehefin 2025) | LLYW.CYMRU

Caiff cydlyniaeth y system ei monitro gan y Grŵp Cydlynu Cenedlaethol[39], a gaiff ei gadeirio gan Kirsty Williams CBE, a gyhoeddodd adroddiad ym mis Rhagfy 2024 a oedd yn cymeradwyo cyfeiriad y rhaglen ac yn cynghori ar y camau nesaf. Bydd Grŵp Cynghori Gweinidogol ar gyfer Penaethiaid[40] yn ychwanegu dirnadaeth o'r rheng flaen yn ystod y camau cyflawni a gwerthuso. Gyda'i gilydd, mae'r cerrig milltir hyn yn grymuso arweinwyr, yn rhoi ffocws pendant ar gyfer dyrannu adnoddau ac yn cysoni ymdrechion er mwyn cyflawni agenda wella wedi'i symleiddio, gan roi'r system addysg mewn sefyllfa i allu sicrhau cynnydd parhaus o ran deilliannau dysgwyr drwy gydol 2025-26 a thu hwnt.

- **Rhaglen Cymunedau Dysgu Cynaliadwy**

  Caiff buddsoddiad cyfalaf ar gyfer cymorth addysg a dysgu yng Nghymru ei hwyluso o dan ambarél Rhaglen Cymunedau Dysgu Cynaliadwy flaenllaw Llywodraeth Cymru.

  Ni ddylid tanbrisio gwerth y dull trawsbynciol hwn; mae'n ysgogi cydweithredu ar lefel leol – drwy awdurdodau lleol, sefydliadau addysg bellach a rhanddeiliaid y naill a'r llall er mwyn mynd ati mewn modd arloesol i gyflawni blaenoriaethau ar lefel leol, yn ogystal â blaenoriaethau ar lefel genedlaethol. Mae strategaeth seilwaith integredig hirdymor y Rhaglen yn sail i'n dyletswydd i sicrhau y bydd gan bob dysgwr yng Nghymru y sgiliau y bydd eu hangen arno i gymryd rhan yn llawn mewn cymdeithas.

  Yn 2024-25, buddsoddwyd £384 miliwn mewn adeiladu, ymestyn a chynnal a chadw ysgolion a cholegau ledled Cymru. Mae'r prosiectau hyn yn ymgorffori defnydd cymunedol ac yn symud yr ystad tuag at sero net, ac fe'u hategir gan arolwg arloesol o garbon a chyflwr elfennau adeiladau sydd wedi creu map trywydd sero net pwrpasol ar gyfer pob campws.

  Mae'r buddsoddiad hwn yn sbardun i sawl un o ymrwymiadau'r Rhaglen Lywodraethu a'r ymrwymiadau llesiant – Cymraeg 2050, diwygio Anghenion Dysgu Ychwanegol, ehangu gofal plant ac uwchraddio digidol. Hefyd, mae cyfleusterau newydd yn cael eu cyflawni drwy'r Model Buddsoddi Cydfuddiannol (MIM) ar gyfer Addysg; agorodd y pedair ysgol MIM gyntaf yn ystod 2024-25. Yn syml, rydym yn adeiladu mannau cynhwysol a hinsawdd-ddeallus sy'n llawn ysbrydoliaeth lle y gall pob person ifanc yng Nghymru ffynnu – heddiw ac am genedlaethau i ddod.

- **Datblygu Addysg 14-16**

  Yn ystod 2024-25, gwnaeth Llywodraeth Cymru gynnydd sylweddol tuag at gyflawni ei huchelgeisiau polisi ar gyfer addysg yn y grŵp oedran 14 i 16 oed. Roedd Cymwysterau Cymru[41] yn dal ar y trywydd cywir i gyflwyno'r don gyntaf o gymwysterau TGAU Gwneud-i-Gymru i'w haddysgu gyntaf o fis Medi 2025 ymlaen. Cefnogodd CBAC y gwaith hwn drwy gyhoeddi manylebau terfynol ar gyfer y cymwysterau TGAU newydd ym mis Medi 2024, gan roi eglurder i'r system allu paratoi i'w rhoi ar waith.

  I gefnogi ysgolion, mae deunyddiau canllaw a dysgu proffesiynol wedi cael eu datblygu er mwyn helpu ymarferwyr i gyflwyno'r cymwysterau newydd yn hyderus. Hefyd, cyhoeddwyd canllawiau statudol ar ddysgu 14 i 16, yn nodi'r gofynion polisi cenedlaethol a'r gofynion cyfreithiol ar gyfer addysgu'r grŵp hwn. Yr hyn sy'n ganolog i'r canllawiau hyn yw'r Hawl i Ddysgu 14 i 16, sy'n sicrhau y bydd pob dysgwr ym Mlynyddoedd 10 ac 11 yn cael budd o addysg eang a chytbwys sy'n gyson â'r Cwricwlwm i Gymru. Gyda'i gilydd, mae'r camau gweithredu hyn yn cefnogi dull cenedlaethol cyson, gan alluogi ysgolion i gynllunio'n effeithiol a sicrhau bod cymwysterau perthnasol o ansawdd da ar gael i ddysgwyr.

39 Y Grŵp Cydlynu Cenedlaethol: cylch gorchwyl [HTML] | LLYW.CYMRU
40 Grŵp Cynghori Gweinidogol ar gyfer Penaethiaid | LLYW.CYMRU
41 Cymwysterau Cymru

## Astudiaeth Achos: **Ymgyrch IAWN**




Nod ein hymgyrch IAWN[42] oedd newid sgwrs, ac ymddygiad, dynion a bechgyn ledled Cymru drwy eu gwneud yn gynghreiriaid sy'n mynd o'u ffordd i atal trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais domestig. Yn hytrach na thaflu goleuni ar gyflawnwyr troseddau, mae'r ymgyrch yn tynnu sylw at fodelau rôl cadarnhaol: cyd-aelodau o dimau, hyfforddwyr a dylanwadwyr cyhoeddus, sy'n arddangos parch o ddydd i ddydd.

Aeth cam 2, a lansiwyd ym mis Ebrill 2024, â'r neges yn ddyfnach: dechreuodd drafodaeth onest am adegau pan fydd 'tynnu coes' yn mynd yn rhy bell, tynnodd sylw at gyffwrdd digroeso, eglurodd sut beth yw perthynas iach, a chyfeiriodd gynulleidfaoedd at wasanaethau cymorth dibynadwy. Aeth partneriaethau â Chymdeithas Bêl-droed Cymru, Rygbi Caerdydd, Sefydliad Cymunedol Dinas Caerdydd, White Ribbon UK a chlybiau llawr gwlad ag ymgyrch IAWN i mewn i ystafelloedd newid lleol a phorthiannau cymdeithasol, gan ei helpu i gyrraedd 381,000 o ddynion a bechgyn – 97 y cant o'r ddemograffeg darged, gan arwain at 15 miliwn o argraffiadau.

Cafodd effaith yr ymgyrch ganmoliaeth gan y Cenhedloedd Unedig, mae wedi cael ei enwi yn San Steffan, ac mae wedi arwain at wahoddiad i swyddogion Llywodraeth Cymru rannu'r model yn Seland Newydd. Drwy gyfleu atal fel cyfrifoldeb cyfunol cadarnhaol, mae IAWN wedi dangos, pan fydd dynion yn arwain y ddeialog ynghylch parch, y gall cymunedau newid er gwell.

42 Iawn | LLYW.CYMRU

# Y Grŵp Iechyd, Gofal Cymdeithasol a'r Blynyddoedd Cynnar

Mae Grŵp Iechyd, Gofal Cymdeithasol a'r Blynyddoedd Cynnar Llywodraeth Cymru yn cyflawni rôl ganolog yn y gwaith o gyflawni blaenoriaethau'r llywodraeth ar gyfer iechyd a gofal cymdeithasol, fel y'u hamlinellir yn "Cymru Iachach".[43] Mae'r grŵp yn rhoi arweinyddiaeth a throsolwg strategol er mwyn sicrhau bod gan y GIG a gwasanaethau cymdeithasol yng Nghymru yr adnoddau i allu gwneud newidiadau angenrheidiol i wasanaethau a diwylliant. Y grŵp sydd hefyd yn gyfrifol am bolisi a chyflawni ar gyfer y blynyddoedd cynnar.

Mae'r grŵp mewn sefyllfa unigryw o fewn y llywodraeth, gan fod ganddo rôl ddeuol o ran ei gyfrifoldeb am reolaeth strategol ac ariannol GIG Cymru yn ogystal â'i swyddogaeth polisi cenedlaethol i gefnogi Gweinidogion. Mae'n gweithredu drwy saith bwrdd iechyd lleol, tair o ymddiriedolaethau'r GIG, a dau awdurdod iechyd arbennig, sydd i gyd yn atebol i Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd a Gofal Cymdeithasol drwy Brif Weithredwr GIG Cymru.

**Mae cyflawniadau allweddol y Grŵp Iechyd, Gwasanaethau Cymdeithasol a'r Blynyddoedd Cynnar ar gyfer 2024-25 yn cynnwys:**

- **Trawsnewid Gofal Drwy Ddeddfwriaeth Arwyddocaol**

  Ym mis Mawrth 2025, cafodd y Ddeddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Cymru) Gydsyniad Brenhinol, gan olygu mai Cymru oedd y gyntaf o wledydd y DU i roi terfyn ar elw preifat ym maes gofal preswyl a maeth i blant. Pan fydd wedi cael ei rhoi ar waith yn llawn, dim ond sefydliadau elusennol neu sefydliadau nid-er-elw eraill yn y sector cyhoeddus fydd yn darparu ar gyfer plant sy'n derbyn gofal yn y dyfodol, gan sicrhau y caiff cyllid ei ailfuddsoddi mewn gwella lles plant, cefnogi gwasanaethau cynaliadwy a datblygiad proffesiynol. Mae'r newid yn rhan o'r weledigaeth ehangach ar gyfer trawsnewid gwasanaethau plant yn llwyr.

  Mae'r ddeddfwriaeth hefyd yn galluogi Llywodraeth Cymru i gyflwyno taliadau uniongyrchol fel opsiwn yng ngofal iechyd parhaus y GIG, a fydd yn grymuso pobl anabl a phobl â chyflyrau iechyd hirdymor, sy'n bodloni meini prawf cymhwysedd, i gael mwy o reolaeth dros eu trefniadau gofal.

  Hefyd, mae'r Ddeddf yn gwneud diwygiadau eraill i'r gyfraith mewn perthynas â gofal cymdeithasol yng Nghymru, er mwyn sicrhau ei bod yn gweithredu'n llawn ac yn effeithiol, gan sicrhau newid sylfaenol yn y ffordd y caiff gofal ei roi i'n pobl fwyaf agored i niwed. Mae cynrychiolwyr pobl anabl a phobl ifanc â phrofiad o fod mewn gofal wedi croesawu'r newidiadau.

- **Lleihau Amseroedd Aros**

  Yn 2024-25, gwnaeth Llywodraeth Cymru gynnydd cadarn o ran mynd i'r afael ag amseroedd aros hir yn y GIG drwy dargedu buddsoddiad a chydweithio'n arloesol ym mhob rhan o'r system. Roedd cyllid ychwanegol gwerth £50.3 miliwn yn hwb i gefnogi amrywiaeth o fentrau er mwyn cyflymu mynediad at ofal a gwella llif cleifion mewn ysbytai, gan leihau nifer y bobl a oedd yn aros am fwy na 104 o wythnosau am ofal a gynlluniwyd o tua 24,000 o bobl i 8,389 o bobl erbyn diwedd mis Mawrth 2025.

  Yn gysylltiedig â hyn roedd 'her 50 diwrnod y gaeaf ar gyfer gofal integredig', sef ymdrech genedlaethol a rymusodd fyrddau iechyd ac awdurdodau lleol i weithio gyda'i gilydd i ryddhau pobl o'r ysbyty yn gyflymach ac yn fwy diogel a meithrin capasiti yn y gymuned er mwyn helpu i osgoi cludo pobl a'u derbyn i'r ysbyty lle bo hynny'n ddiogel. Roedd hyn yn cynnwys cynllun gweithredu 10 cam a helpodd fwy o bobl, yn enwedig oedolion hŷn, i ddychwelyd adref gyda'r cymorth cywir ar waith.

43 Cymru iachach: cynllun hirdymor ar gyfer iechyd a gofal cymdeithasol | LLYW.CYMRU

Roedd y cyllid hefyd yn fodd i gynyddu'r defnydd o gapasiti yn y gymuned ac yn y sector annibynnol, gan helpu i leihau ôl-groniadau mewn diagnosteg a gofal a gynlluniwyd. Mae'r ymdrechion hyn eisoes wedi arwain at welliannau mesuradwy o ran lleihau achosion o oedi cyn rhyddhau cleifion.Mae'r cyflawniadau hyn yn adlewyrchu ffocws o'r newydd ar arloesi, integreiddio, a gofal sy'n canolbwyntio ar y claf, gan osod y sylfeini ar gyfer GIG mwy ymatebol a gwydn yng Nghymru.

- **Y Cynllun Iechyd Menywod**

  Yn ystod 2024-25, lansiodd Llywodraeth Cymru y Cynllun Iechyd Menywod cyntaf erioed i Gymru[44], sy'n nodi gweledigaeth 10 mlynedd feiddgar i gau'r bwlch iechyd rhywedd a gwella canlyniadau i fenywod ym mhob rhan o'r wlad. Datblygwyd y cynllun mewn cydweithrediad â mwy na 4,000 o fenywod, ac mae'n amlinellu bron i 60 o gamau gweithredu mewn wyth maes blaenoriaeth, gan gynnwys iechyd mislif, menopos, endometriosis, a heneiddio'n dda a chyflyrau hirdymor.

  Ymhlith y cyflawniadau allweddol mae:

  – Ymrwymiad i sefydlu hybiau iechyd menywod ym mhob rhanbarth erbyn 2026.

  – Buddsoddiad gwerth £750,000 mewn ymchwil i gyfathrebu ynglŷn ag iechyd menywod.

  – Cyflwyno dull 'Gwneud i Bob Cyswllt Gyfrif', gan annog clinigwyr i drafod materion iechyd menywod yn rhagweithiol yn ystod apwyntiadau arferol.

  Mae'r cynllun yn nodi newid diwylliannol sylweddol yn y ffordd y caiff iechyd menywod ei flaenoriaethu, gan sicrhau y gwrandewir ar fenywod, y caiff eu symptomau eu cymryd o ddifrif, ac y caiff gwasanaethau eu dylunio yn unol â'u hanghenion. Mae'n gosod y sylfeini ar gyfer system gofal iechyd decach a mwy ymatebol i fenywod yng Nghymru.

- **Cyfyngiadau ar fwydydd nad ydynt yn iach drwy Reoliadau Bwyd (Hyrwyddo a Chyflwyno) (Cymru) 2025**

  Yn 2025, cymerodd Llywodraeth Cymru gam mawr ymlaen o ran hyrwyddo ffyrdd iachach o fyw drwy gyflwyno Rheoliadau Bwyd (Hyrwyddo a Chyflwyno) (Cymru) 2025. Mae'r rheolau newydd hyn yn rhan allweddol o strategaeth *Pwysau Iach: Cymru* Iach a'u nod yw ail-lunio'r amgylchedd bwyd er mwyn cefnogi gwell canlyniadau iechyd y cyhoedd.

  Maent yn gosod cyfyngiadau ar hyrwyddo bwydydd sy'n cynnwys lefelau uchel o fraster, halen a siwgr mewn lleoliadau gwerthu allweddol, fel desgiau talu, mynedfeydd, a thudalennau hafan ar-lein, a gwahardd ymgyrchoedd hyrwyddo sy'n seiliedig ar niferoedd (e.e. disgownt am brynu nifer o eitemau) ac ail-lenwi diodydd melys am ddim. Mae'r mesurau hyn yn berthnasol i fanwerthwyr canolig a mawr a bwriedir iddynt leihau pryniannau byrbwyll a gwneud dewisiadau iachach yn haws i ddefnyddwyr. Gan fod dros 60% o oedolion a nifer cynyddol o blant yng Nghymru dros bwysau neu'n ordew, mae'r polisi hwn yn ymyriad beiddgar sy'n seiliedig ar dystiolaeth er mwyn mynd i'r afael ag un o'r heriau iechyd mwyaf taer sy'n wynebu'r genedl. Daw'r rheoliadau i rym ym mis Mawrth 2026, yn dilyn cyfnod gweithredu 12 mis.

- **Ysgol Feddygol Gogledd Cymru**

  Yn ystod 2024-25, cyflawnodd Llywodraeth Cymru ymrwymiad arwyddocaol drwy agor Ysgol Feddygol Gogledd Cymru ym Mhrifysgol Bangor yn swyddogol. Mae hyn yn gam trawsnewidiol tuag at atgyfnerthu'r gweithlu meddygol a gwella mynediad at ofal iechyd ledled y rhanbarth. Croesawodd yr ysgol ei charfan gyntaf o 80 o fyfyrwyr, ac mae cynlluniau ar y gweill i ehangu i 140 y flwyddyn ym mlwyddyn academaidd 2029-30. Am y tro cyntaf, gall myfyrwyr gwblhau eu hyfforddiant meddygol cyfan yn y Gogledd, gyda chymorth cyfleusterau o'r radd flaenaf gan gynnwys ystafelloedd efelychu a labordai dyrannu digidol.

44 Cynllun Iechyd Menywod Cymru – Perfformiad a Gwella GIG Cymru

Mae'r fenter hon yn newid chwyldroadol o ran recriwtio a chadw meddygon, gan fynd i'r afael â heriau hirsefydlog drwy hyfforddi clinigwyr y dyfodol yn y cymunedau y byddant yn eu gwasanaethu. Mae'r ysgol hefyd yn cefnogi gofal iechyd dwyieithog ac yn adlewyrchu partneriaeth gadarn rhwng prifysgolion Bangor a Chaerdydd, Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr, a GIG Cymru. Nid yn unig y mae Ysgol Feddygol Gogledd Cymru yn garreg filltir i addysg feddygol, ond mae hefyd yn fuddsoddiad hirdymor yn iechyd a llesiant poblogaeth y rhanbarth.

- **Ehangu Gofal Plant Dechrau'n Deg yn Sylweddol ar gyfer Plant 2 oed ledled Cymru**

  Yn ystod 2024-25, parhaodd Llywodraeth Cymru i wneud cynnydd sylweddol ar raglen sylweddol i ehangu gofal plant o ansawdd da a ariennir ar gyfer plant 2 oed ledled Cymru. Mae hyn yn cyflawni'r ymrwymiad yn y Rhaglen Llywodraethu i "fynd ati'n raddol i ehangu'r ddarpariaeth ar gyfer y blynyddoedd cynnar er mwyn cynnwys pob plentyn dwy flwydd oed, gan roi pwyslais penodol ar gryfhau'r ddarpariaeth Gymraeg".

  Yn ystod 2023-24 a 2024-25, rydym wedi buddsoddi £46m mewn ehangu gofal plant Dechrau'n Deg er mwyn cefnogi effeithiau cadarnhaol hirdymor ar fywydau'r plant hynny a'u teuluoedd ledled Cymru sy'n wynebu'r heriau mwyaf. Mae'r rhaglen ehangu wedi canolbwyntio adnoddau'n fwriadol ar ein cymunedau mwyaf difreintiedig yn y lle cyntaf. Rydym yn gweithio gyda'r sector i feithrin gallu er mwyn sicrhau y bydd unrhyw gynnydd i ddarpariaeth yn gynaliadwy.

  Felly, rydym yn disgwyl helpu mwy na 9,500 yn rhagor o blant 2 oed ledled Cymru i gael gofal plant Dechrau'n Deg o ansawdd yn ystod 2023-24 a 2024-25 ac rydym ar y trywydd cywir i gyflawni hynny. Roedd yr Ystadegau Swyddogol diweddaraf ar gyfer Dechrau'n Deg yn dangos bod 6,885 o leoedd gofal plant ychwanegol ar gyfer plant 2 oed wedi cael eu cynnig yn 2023-24, a bod 1,007 ohonynt mewn lleoliadau cyfrwng Cymraeg. Bydd Ystadegau Swyddogol ar gyfer 2024-25 ar gael ym mis Tachwedd 2025.

## Astudiaeth Achos: **Grymuso Gofal Iechyd Lleol: Ehangu'r Gwasanaeth Anhwylderau Cyffredin mewn Fferyllfeydd**



Yn 2024, defnyddiodd mwy na 400,000 o bobl yng Nghymru y Gwasanaeth Anhwylderau Cyffredin drwy eu fferyllfeydd lleol, sy'n adlewyrchu newid sylweddol yn y ffordd y caiff gofal sylfaenol ei roi.

Mae'r Gwasanaeth Anhwylderau Cyffredin, sydd bellach ar gael mewn 99% o fferyllfeydd yng Nghymru, yn rhoi triniaeth am ddim ar gyfer 28 o gyflyrau cyffredin, gan gynnwys dolur gwddf, cyflyrau'r croen, a heintiau'r llwybr wrinol. I lawer o gleifion, mae'r gwasanaeth hwn yn cynnig dewis arall cyflymach a mwy cyfleus yn lle apwyntiadau meddyg teulu. Yn wir, dywedodd 82% o ddefnyddwyr y gwasanaeth y byddent wedi ceisio cymorth gan feddyg teulu neu un arall o wasanaethau'r GIG fel arall.

Gall fferyllfeydd fabwysiadu gwasanaeth presgripsiynu annibynnol, sy'n eu galluogi i drin cyflyrau mwy cymhleth fel llid y sinysau a meigrynau yn uniongyrchol yn y fferyllfa. Mae hyn wedi'i gwneud yn haws i gleifion gael gofal amserol ac wedi lleihau'r pwysau ar feddygfeydd lleol.

I gefnogi'r trawsnewid hwn, gwnaeth Llywodraeth Cymru gynyddu'r cyllid ar gyfer fferylliaeth gymunedol, drwy gyflwyno taliad rheolaidd ychwanegol o £9.9m a thaliad sefydlogrwydd untro o £6m yn ystod 2024-25.

Mae hyn yn tynnu sylw at y newid yn rôl fferyllfeydd cymunedol wrth iddynt ddatblygu'n ddarparwyr gofal iechyd hygyrch a dibynadwy. Mae eu hintegreiddio yn y system iechyd ehangach yn arwain at fanteision mesuradwy, yn gwella canlyniadau cleifion, yn lleihau straen ar y system, ac yn cefnogi ymrwymiad Llywodraeth Cymru i ofal cynaliadwy yn y gymuned.

## Y Grŵp Llywodraeth Leol, Tai, Newid Hinsawdd a Materion Gwledig

Mae'r Grŵp yn cefnogi'r Dirprwy Brif Weinidog ac Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd a Materion Gwledig ac Ysgrifennydd y Cabinet dros Dai a Llywodraeth Leol. Mae hyn yn cwmpasu amrywiaeth o feysydd polisi – gan gynnwys tai ac adfywio, llywodraeth leol (cyllid a democratiaeth), diwygio etholiadau, y dreth gyngor ac ardrethi annomestig, newid hinsawdd, seilwaith a materion gwledig.

**Mae cyflawniadau allweddol y Grŵp Llywodraeth Leol, Tai, Newid Hinsawdd a Materion Gwledig ar gyfer 2024-25 yn cynnwys:**

- **Y Bil Tomenni Mwyngloddiau a Chwareli Nas Defnyddir (Cymru)**

  Cyflwynwyd y Bil Tomenni Mwyngloddiau a Chwareli Nas Defnyddir (Cymru) i'r Senedd ym mis Rhagfyr 2024. Rydym wedi parhau i ariannu rhaglen fonitro gynhwysfawr ar gyfer tomenni glo nas defnyddir ac ariannu gwaith gwella sylweddol ledled Cymru.

- **Ailgylchu**

  Symudodd Cymru i'r ail safle yn y byd am ailgylchu yn 2024, sy'n adlewyrchu ymdrech sylweddol gan y cyhoedd ac awdurdodau a buddsoddiad parhaus a pholisi cyson gan Lywodraeth Cymru. Gwnaethom gynnal yr Hotspot Economi Gylchol Rhyngwladol ym mis Hydref 2024 lle roedd dros 400 o bobl yn bresennol, gan greu cyfleoedd i gydweithio ar yr economi gylchol ledled Cymru a'r DU ac yn rhyngwladol.

- **Tai**

  Ymhellach at ddatblygiadau yn ystod 2024-25, cafodd y Bil Digartrefedd a Dyrannu Tai Cymdeithasol (Cymru) ei gyflwyno gennym ym mis Mai 2025. Ei nod yw trawsnewid ein gwasanaethau digartrefedd gyda ffocws ar adnabod yn gynnar ac atal. Cyhoeddwyd Papur Gwyn ar Dai Digonol, Rhenti Teg a Fforddiadwyedd,[45] a bydd yr ymatebion iddo yn helpu i lywio cynigion i ddatblygu llwybr blaengar ymlaen er mwyn sicrhau tai digonol i bobl Cymru.

  Mae miloedd yn rhagor o gartrefi wedi cael eu hychwanegu at y sector rhentu cymdeithasol, gan alluogi pobl i symud allan o lety dros dro ac i mewn i gartrefi. Mae ein gwaith ar safonau ansawdd a'n rhaglen Cartrefi Clyd yn sicrhau bod ansawdd tai ledled Cymru yn gwella, gan gynnwys eu gwneud yn gynhesach ac yn fwy effeithlon o ran ynni, gan leihau biliau ar gyfer unigolion a helpu i fynd i'r afael â'r argyfwng hinsawdd.

45 Datganiad Ysgrifenedig: Cyhoeddi Papur Gwyn ar Dai Digonol a Rhenti Teg (24 Hydref 2024) | LLYW.CYMRU

**Llywodraeth Leol**

Dosbarthwyd dros £5.72bn o refeniw a £180m o gyllid cyfalaf heb ei neilltuo i awdurdodau lleol ar gyfer gwasanaethau cyhoeddus lleol hanfodol. Rhoddwyd £20m yn rhagor o gyfalaf i gynghorau er mwyn parhau i leihau allyriadau carbon fel rhan o'n huchelgais ar y cyd i sicrhau sector cyhoeddus sero net. Cyflwynwyd tair deddf yn llwyddiannus, sef y Ddeddf Etholiadau a Chyrff Etholedig, y Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol a'r Ddeddf Seilwaith. Mae'r rhain yn cyflawni ein hymrwymiadau i leihau'r diffyg democrataidd, sicrhau trethi teg, a symleiddio'r broses o roi caniatâd ar gyfer prosiectau seilwaith mawr.

- **Rhaglen Dileu TB Cymru**

  Cafodd y trefniadau llywodraethiant diwygiedig ar gyfer Rhaglen Dileu TB Cymru eu cwblhau yn ystod 2024-25. Mae sefydlu Bwrdd y Rhaglen Dileu TB[46] a'r Grŵp Cynghori Technegol TB Gwartheg[47] yn gosod partneriaeth wrth wraidd y Rhaglen Dileu TB, gan sicrhau dull cydweithredol o gynghori Gweinidogion ar bolisi TB a llywio'r Rhaglen yn y dyfodol.

  Gwnaed nifer o newidiadau drwy'r strwythur llywodraethiant yn ystod 2024-25, gan gynnwys symleiddio profion TB a symleiddio gweithdrefnau. Hefyd, gwneud newidiadau i bolisïau lladd ar ffermydd er mwyn rhoi mwy o ddewis i geidwaid gan olygu y bydd angen lladd llai o wartheg ar ffermydd. Gyda'i gilydd, mae'r mentrau hyn wedi lleihau'r baich ar y diwydiant ffermio ac wedi rhoi mwy o ddewis i ffermwyr unigol o ran y ffordd y caiff eu hachosion o TB eu rheoli, heb gynyddu'r risg o ledaenu'r clefyd.

46 Bwrdd y Rhaglen Dileu TB Gwartheg | LLYW.CYMRU
47 Grŵp Cynghori Technegol TB Gwartheg Cymru | LLYW.CYMRU

## Astudiaeth Achos: **Y Bil Cyllid Llywodraeth Leol**



Roedd cyflwyno Bil Cyllid Llywodraeth Leol cyntaf Cymru ers datganoli yn gyflawniad arwyddocaol. Pasiodd y Bil gam 4 ym mis Gorffennaf 2024, a hynny o ganlyniad i gydweithio eithriadol rhwng pob rhan o Lywodraeth Cymru.


Roedd gwybodaeth helaeth ac ymroddiad pob tîm yn allweddol wrth ddatblygu, drafftio a chyflwyno'r ddeddfwriaeth gymhleth hon. Gwnaeth eu harbenigedd sicrhau drafftio o safon uchel a phroses ddeddfwriaethol ddidrafferth. Roedd y Bil yn dibynnu ar sylfaen dystiolaeth eithriadol o gadarn a ddatblygwyd dros rai blynyddoedd, drafftio cyfreithiol cywrain, a dogfennaeth gynhwysfawr.

O ganlyniad i'r gwaith amserol o ansawdd da, bu modd cyflawni un o ymrwymiadau allweddol y Rhaglen Lywodraethu.

# Sut rydym yn cael ein cyllido a sut rydym yn gwario'r cyllid

## Llifoedd Cyllido Llywodraeth Cymru

Mae Cyllideb Llywodraeth Cymru yn awdurdodi'r symiau a'r dibenion y darperir cyllid i Weinidogion Cymru ar eu cyfer er mwyn ymgymryd â gweithgarwch Llywodraeth Cymru. Mae'r ffeithlun canlynol yn defnyddio ail Gyllideb Atodol Llywodraeth Cymru ar gyfer 2024-25 ac yn amcanestyn trethi eraill a gwariant o ystadegau Cyllid Sector Cyhoeddus Gwledydd a Rhanbarthau 2022-23 y Swyddfa Ystadegau Gwladol (SYG) sy'n defnyddio Rhagolwg Economaidd a Chyllidol Mawrth 2025 y Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol. Y Dreth Trafodiadau Tir, y Dreth Gwarediadau Tirlenwi a chyfraddau Treth Incwm Cymru yw'r trethi datganoledig. Y Dreth Gyngor ac Ardrethi Annomestig yw'r trethi lleol.



## Polisi Trethi Llywodraeth Cymru a Rhagolygon Cyllidol

Mae Cyllideb Llywodraeth Cymru yn rhoi manylion am gyllid y llywodraeth, trethiant a dyraniadau ar lefel Prif Grŵp Gwariant (MEG), ac yn amlinellu cynlluniau gwariant refeniw a chyfalaf y llywodraeth. Mae manylion am gyllidebau Llywodraeth Cymru ar gael ar wefan Llywodraeth Cymru.[48]

Caiff y Gyllideb ei hategu gan:

- Adroddiad Economaidd a Chyllidol Cymru.[49]
- Yr Adroddiad ar Bolisi Trethi Cymru.[50]
- Y Rhagolwg Trethi Cymreig.[51]

Caiff y Rhagolwg Trethi Cymreig ei baratoi gan y Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol ac mae'n rhoi'r asesiad ar gyfer y fframwaith cyllidol ehangach y pennir y Gyllideb oddi mewn iddo. Ceir rhagor o wybodaeth am ein Fframwaith Cyllidol a Threthi Datganoledig ar wefan Llywodraeth Cymru.[52]

Ymhlith y datblygiadau mewn meysydd polisi treth allweddol yn ystod 2024-25 roedd cyflawni'r ymrwymiad yn y Rhaglen Lywodraethu i ddiwygio'r dreth gyngor, drwy basio Deddf Cyllid Llywodraeth Leol (Cymru) 2024, sy'n ddarn nodedig o ddeddfwriaeth. Carreg filltir allweddol arall oedd cyflwyno'r Bil Llety Ymwelwyr (Cofrestr ac Ardoll) Etc. (Cymru) drafft gerbron y Senedd. Cyflawnodd hyn un arall o ymrwymiadau ein Rhaglen Lywodraethu.

## Benthyca Gweinidogion Cymru

O dan Adran 121 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (fel y'i diwygiwyd gan Ddeddf Cymru 2014 a Deddf Cymru 2017) rhoddwyd pwerau benthyca ychwanegol i Weinidogion Cymru yn weithredol o fis Ebrill 2018. Caiff unrhyw symiau sy'n cael eu benthyca a'u had-dalu o dan y darpariaethau hyn eu gwneud drwy Gronfa Gyfunol Cymru ac felly cânt eu hadlewyrchu yn y cyfrifon hynny sy'n cael eu gosod gerbron y Senedd bob blwyddyn.

Mae benthyciadau o'r Gronfa Fenthyciadau Genedlaethol yn ad-daladwy dros 25 mlynedd, a bydd cyfradd llog sefydlog yn cael ei thalu ar bob cyfran o'r benthyciad, sef cyfradd llog y Gronfa Fenthyciadau Genedlaethol ar gyfer Benthyciadau Newydd Ad-dalu Cyfartal ar y diwrnod y benthycir y swm.

Cafodd y pwerau benthyca eu harfer am y tro cyntaf yn 2018-19, pan dalwyd £65 miliwn i mewn i Gronfa Gyfunol Cymru o'r Gronfa Fenthyciadau Genedlaethol ac yna £150 miliwn yn 2022-23 a £125 miliwn yn 2023-24. Yn 2024-25, talwyd benthyciad pellach o £80 miliwn i mewn i Gronfa Gyfunol Cymru. Ar 31 Mawrth 2025, y balans sy'n weddill yw £619 miliwn (31 Mawrth 2024: £494 miliwn).

Ceir rhagor o wybodaeth am y benthyciadau o'r Gronfa Fenthyciadau Genedlaethol yng Nghyfrifon Cronfa Gyfunol Cymru.

## Cyd-destun Ariannol Llywodraeth Cymru

Cafodd cyllideb 2024-25 Llywodraeth Cymru ei llywio gan bwysau ariannol sylweddol, yn dilyn cyfnod a oedd yr un mor heriol yn ystod 2023-24. Gwnaeth chwyddiant cynyddol, cynnydd yn y galw am wasanaethau cyhoeddus, yr argyfwng costau byw, ac ansefydlogrwydd byd-eang barhau i erydu'r adnoddau a oedd ar gael. Wrth i flwyddyn olaf Adolygiad Gwariant y DU achosi lleihad o £1.3 biliwn mewn termau real o gymharu â 2021, roedd angen gwneud penderfyniadau anodd i ddiogelu blaenoriaethau craidd.

48 Cyllidebau Llywodraeth Cymru | LLYW.CYMRU
49 Adroddiad economaidd a chyllidol Cymru 2024 | LLYW.CYMRU
50 Adroddiad ar bolisi trethi: Rhagfyr 2024 | LLYW.CYMRU
51 Rhagolwg Trethi Cymreig – Rhagfyr 2024 – Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol
52 Trethi Cymru | LLYW.CYMRU

Mewn ymateb i hynny, aeth Gweinidogion ati i ailystyried cynlluniau gwario 2023-24 yn ystod hydref 2024. I adeiladu ar y gwaith hwn, cafodd Gweinidogion eu cefnogi gan swyddogion wrth iddynt gynnal ymarfer manwl i ailflaenoriaethu a phennu llinell sylfaen a oedd yn cynnwys her a sesiwn ddwyochrog Weinidogol er mwyn sicrhau ymgysylltu trawslywodraethol. Ar gyfer 2024-25, datblygwyd "*Cyllideb i ddiogelu'r gwasanaethau sydd bwysicaf i chi*". Roedd y gyllideb hon yn canolbwyntio ar ddiogelu gwasanaethau hanfodol, cefnogi grwpiau agored i niwed, a hyrwyddo cynaliadwyedd hirdymor.

Cafwyd cyllid adnoddau ychwanegol ar ddiwedd 2023-24 drwy broses Amcangyfrifon Atodol y DU – £231 miliwn o gyllid adnoddau, £8 miliwn o gyllid cyfalaf cyffredinol, a lleihad o £38 miliwn mewn cyfalaf Trafodiadau Ariannol. Cafodd rhywfaint o'r cyllid hwn ei gario ymlaen drwy Gronfa Wrth Gefn Cymru, ynghyd â £43.9 miliwn yn rhagor mewn cyllid adnoddau gan Drysorlys EF i'w ddefnyddio yn ystod 2024-25, gan gynnig ychydig o hyblygrwydd a groesawyd.

Er gwaethaf hyn, roedd Costau Rhedeg Adrannol dan bwysau o hyd. Oherwydd chwyddiant a chostau cysylltiedig â chyflogau, roedd angen rheoli cyllidebau'n dynn ac, i gefnogi diwygiadau sefydliadol ehangach o dan raglen LlC2025, cwblhawyd Cynllun Ymadael Gwirfoddol, a arweiniodd at ymadawiad 91 o aelodau o o staff ac arbedion blynyddol cylchol o tua £6 miliwn.

Drwy reolaeth ariannol drwyadl ac ailflaenoriaethu strategol gan gynnwys defnydd pwyllog o gronfeydd wrth gefn a benthyca, llwyddodd Llywodraeth Cymru i gyflawni ei hymrwymiadau craidd yn unol â'r gyllideb y pleidleisiodd y Senedd arni. Yn ystod blwyddyn ariannol 2024-25, gwelwyd gwydnwch parhaus, blaengynllunio, ac ymrwymiad i reoli adnoddau'n gyfrifol dan amgylchiadau eithriadol o anodd.

Mae rhagor o fanylion am Alldro'r Prif Grwpiau Gwariant wedi'u cynnwys yn y Crynodeb o'r Alldro Adnoddau ar dudalen 160, ac mae'r 10 maes gwariant Refeniw a Chyfalaf uchaf i'w gweld ar dudalennau 54 a 55. Ceir crynodeb o'r Datganiad o'r Sefyllfa Ariannol ar dudalen 56. Caiff adroddiad ar Alldro Llywodraeth Cymru sy'n nodi manylion perfformiad ar Lefel Llinell Wariant yn y Gyllideb ei gyhoeddi bob blwyddyn.[53]

## Prif Feysydd Gwariant Llywodraeth Cymru

Mae'r ffeithluniau canlynol yn dangos 10 prif faes gwariant Llywodraeth Cymru yn 2024-2025. Mae'r dadansoddiad wedi'i wneud yn ôl Llinell Wariant yn y Gyllideb, fel y'i defnyddir yn  y tablau Prif Grwpiau Gwariant sy'n cyd-fynd â Chynnig y Gyllideb. Mae 10 prif faes gwariant cyllideb refeniw a chyfalaf Llywodraeth Cymru fel a ganlyn:

53 Adroddiadau ar alldro | LLYW.CYMRU

### Mae'r canlynol yn eitemau newydd yn y 10 maes gwariant refeniw uchaf y flwyddyn hon:

Dim ond un newid sydd yn y 10 maes gwariant refeniw uchaf ar gyfer 2024-25, gan fod Digartrefedd wedi symud i mewn i'r 10 uchaf. Fel y nodwyd yng nghyhigion y Gyllideb ar gyfer 2024-25, rydym wedi uno gwariant a oedd wedi'i rannu rhwng dwy linell wariant flaenorol (Grant Cymorth Tai ac Atal Digartrefedd) er mwyn cael un gronfa â thema gyffredin, sef atal digartrefedd a chefnogi dyletswyddau statudol awdurdodau lleol yn hyn o beth, a'n bwriad polisi i gefnogi cynnydd tuag at atal ac ailgartrefu cyflym.

Mae cyfran ganrannol pob llinell wariant yn sefydlog i raddau helaeth, ond ceir newidiadau rhwng 'Darpariaeth Addysg Ôl-16' a Gwariant Rhaglenni Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru (CCAUC ) yn 2023-24 a llinell wariant Medr yn 2024-25, sy'n gysylltiedig â dod â gweithgarwch CCAUC i ben yn 2024-25 a dechrau ar weithgarwch Medr o 1 Awst 2024 ymlaen. Ar y cyfan, mae'r 10 llinell wariant refeniw uchaf yn cyfrif am yr un gyfran ganrannol, bron, o gyfanswm gwariant refeniw Llywodraeth Cymru ar gyfer y flwyddyn, sef 84% yn 2024-25 o gymharu ag 83% yn 2023-24.

### 10 maes gwariant uchaf y gyllideb refeniw yn 2024-25 oedd:

Alldro Refeniw Llywodraeth Cymru:
**£20,767m**

Cyfanswm y 10 uchaf:
**£17,413m**

**84%** o'r gyllideb refeniw

| | | |
|---|---|---|
| Dyraniad Craidd y GIG | £10,147m | 49% |
| Cyllid Refeniw Cyffredinol Llywodraeth Leol | £4,751m | 23% |
| Darpariaeth Addysg ôl-16 Medr | £551m | 3% |
| Trafnidiaeth Cymru | £407m | 2% |
| Addysg a Gwella Iechyd Cymru | £329m | 2% |
| Grantiau Cymorth i Fyfyrwyr | £282m | 1% |
| Costau Staff nad ydynt yn Staff Rhaglenni | £272m | 1% |
| Taliadau Uniongyrchol y Polisi Amaeth Cyffredin | £234m | 1% |
| Dyraniadau Uniongyrchol Eraill y GIG | £227m | 1% |
| Digartrefedd | £213m | 1% |

### 10 maes gwariant uchaf y gyllideb gyfalaf yn 2024-25 oedd:

Alldro Refeniw Llywodraeth Cymru:
**£3,288m**

Cyfanswm y 10 uchaf:
**£2,440m**

**74%** o'r gyllideb refeniw

| | | |
|---|---|---|
| Dyraniadau Craidd y GIG | £459m | 14% |
| Trafnidiaeth Cymru | £430m | 13% |
| Grantiau Tai Cymdeithasol | £417m | 12% |
| Seilwaith Addysg | £392m | 12% |
| Cyllid Cyfalaf Cyffredinol Llywodraeth Leol | £218m | 7% |
| Gweithrediadau Rhwydwaith (Ffyrdd) | £137m | 4% |
| Lwfans Atgyweiriadau Mawr (Tai) | £122m | 4% |
| Bargeinion Dinesig a Bargeinion Twf | £98m | 3% |
| Datgarboneiddio ac Ansawdd Preswyl | £95m | 3% |
| Adfywio | £72m | 2% |

**Mae'r canlynol yn eitemau newydd yn y 10 maes gwariant cyfalaf uchaf y flwyddyn hon:**

Dim ond un newid sydd yn y 10 maes gwariant cyfalaf uchaf ar gyfer 2024-25, gan fod Adfywio wedi symud i mewn i'r 10 uchaf. Mae'r newid hwn yn adlewyrchu gwaith a gynlluniwyd i ailraglennu gwariant Adfywio yn 2023-24 (gan leihau gwariant) ac yn 2024-25 (gan gynyddu gwariant) yn enwedig o fewn rhaglen Trawsnewid Trefi.

Mae'r 10 Llinell Gwariant Cyfalaf uchaf yn y Gyllideb fel cyfran o gyfanswm y gwariant cyfalaf wedi gostwng 8% o un flwyddyn i'r llall. Lleihad o £200m yn y gwariant ar gyfer Trafnidiaeth Cymru sy'n bennaf cyfrifol am hyn. Mae'r lleihad yn adlewyrchu'r ffaith bod gwariant ar raglen trawsnewid Metro Llinellau Craidd y Cymoedd wedi dod i ben yn raddol wrth i'r camau cyflawni gael eu cwblhau.

## Gwariant a Reolir yn Flynyddol

Mae Trysorlys EF yn cydnabod pa mor ansefydlog yw rhai rhaglenni a'u bod yn seiliedig ar alw, yn ogystal â pha mor anodd yw amcangyfrif costau dros gyfnod o amser. O ganlyniad, rheolir cyllidebau'r rhaglenni hyn yn flynyddol, a Thrysorlys EF sy'n darparu'r cyllid hwn fel arfer. Gelwir y cyllidebau hyn yn Wariant a Reolir yn Flynyddol (AME). O'r cyllidebau hyn o fewn y Crynodeb o Alldro Adnoddau roedd £1,278m neu 81% (2023-24: £1,143 miliwn, 85%) yn ymwneud â Benthyciadau Myfyrwyr a roddwyd yn cynnwys llog a disgowntio, yn glir o ad-daliadau yn ystod y flwyddyn.

**At ddibenion cymharu, y 10 maes gwariant cyllideb refeniw uchaf yn 2023-24 oedd:**

Alldro Refeniw Llywodraeth Cymru:
**£19,462m**

Cyfanswm y 10 uchaf:
**£16,245m**

**83%** o'r gyllideb refeniw

| | | |
|---|---|---|
| Dyraniadau Craidd y GIG | £9,325m | 48% |
| Cyllid Refeniw Cyffredinol Llywodraeth Leol | £4,504m | 23% |
| Darpariaeth Addysg ôl-16 | £580m | 3% |
| Trafnidiaeth Cymru | £326m | 2% |
| Addysg a Gwella Iechyd Cymru | £302m | 2% |
| Grantiau Cymorth i Fyfyrwyr | £299m | 2% |
| Costau Staff nad ydynt yn Staff Rhaglenni | £257m | 1% |
| Taliadau Uniongyrchol y Polisi Amaeth Cyffredin | £234m | 1% |
| Dyraniadau Uniongyrchol Eraill y GIG | £215m | 1% |
| Gwariant Rhaglenni CCAUC | £203m | 1% |

**At ddibenion cymharu, 10 maes gwariant uchaf y gyllideb gyfalaf yn 2024-25 oedd:**

Alldro Cyfalaf Llywodraeth Cymru:
**£3,171m**

Cyfanswm y 10 uchaf:
**£2,588m**

**82%** o'r gyllideb gyfalaf

| | | |
|---|---|---|
| Trafnidiaeth Cymru | £638m | 20% |
| Grantiau Tai Cymdeithasol | £540m | 17% |
| Dyraniadau Craidd y GIG | £415m | 13% |
| Seilwaith Addysg | £343m | 11% |
| Cyllid Cyfalaf Cyffredinol Llywodraeth Leol | £194m | 6% |
| Gweithrediadau Rhwydwaith (Ffyrdd) | £127m | 4% |
| Lwfans Atgyweiriadau Mawr (Tai) | £104m | 3% |
| Bargeinion Dinesig a Bargeinion Twf | £89m | 3% |
| Datgarboneiddio ac Ansawdd Preswyl | £72m | 2% |
| Teithio Llesol a Cherdded a Beicio | £66m | 2% |

# Datganiad Llywodraeth Cymru o'r Sefyllfa Ariannol

| Asedau Cyfunol Llywodraeth Cymru | 2024-25 £bn | 2023-24 £bn |
|---|---|---|
| **Asedau Ffisegol** | | |
| Y rhwydwaith ffyrdd (cefnffyrdd gan gynnwys traffyrdd) | 20.6 | 21.7 |
| Y rhwydwaith rheilffyrdd (Llinellau Craidd y Cymoedd) | 2.7 | 2.2 |
| Tir ac adeiladau (gan gynnwys Ystad y GIG) | 4.1 | 3.8 |
| Asedau sy'n cael eu hadeiladu (ffyrdd a rheilffyrdd yn bennaf) | 2.4 | 2.8 |
| **Asedau Ariannol** | | |
| Portffolio benthyciadau i fyfyrwyr | 8.8 | 8.2 |
| Portffolio Cymorth i Brynu – Cymru | 0.4 | 0.4 |
| Benthyciadau Banc Datblygu Cymru | 0.4 | 0.3 |
| Benthyciadau a buddsoddiadau eraill | 1.0 | 0.9 |
| Arian parod | 1.4 | 1.6 |
| **Asedau Eraill** | **2.7** | **2.4** |
| **Cyfanswm yr Asedau** | **44.4** | **44.3** |
| Symiau taladwy drwy fasnach a symiau taladwy eraill | 2.4 | 2.2 |
| Croniadau ac incwm gohiriedig | 0.5 | 0.6 |
| Darpariaeth Cronfa Risg Cymru ar gyfer hawliadau esgeuluster clinigol | 1.8 | 1.7 |
| Darpariaethau eraill | 0.1 | 0.2 |
| Atebolrwyddau eraill | 1.8 | 1.5 |
| Cyfanswm yr Atebolrwyddau | 6.7 | 6.2 |
| Asedau Net | 37.7 | 38.1 |

O ran y gostyngiad cyffredinol o £0.4 biliwn mewn asedau net yn 2024-25, yr effeithiau mwyaf arwyddocaol yw'r gostyngiadau yng ngwerth y Rhwydwaith Ffyrdd Strategol, sef £1.1 biliwn, ac Asedau sy'n cael eu Hadeiladu, sef £0.4 biliwn. Caiff y rhain eu gwrthbwyso gan gynnydd o £0.6 biliwn yn y Rhwydwaith Rheilffyrdd a chynnydd o £0.7 biliwn yng ngwerth y portffolio Benthyciadau Myfyrwyr.

Y prif reswm am y gostyngiad o £1.1 biliwn yng ngwerth y Rhwydwaith Ffyrdd Strategol yw effaith yr ailbrisiad llawn o'r rhwydwaith, a gynhelir bob pum mlynedd. Mae'r rhwydwaith yn cael ei brisio yn ôl gwerth teg gan ddefnyddio methodoleg cost amnewid ddibrisiedig (DRC). Mae'r prisiad yn cael ei adeiladu'n bennaf gan ddefnyddio dealltwriaeth o ehangder y rhwydwaith a'i rannau cydrannol ar sail cyfwerth modern; cymhwyso nifer o gyfraddau costio ar gyfer y rhannau cydrannol hynny, yn ôl math; a chyflwr y rhwydwaith. Roedd y fethodoleg a ddefnyddiwyd ar gyfer prisiad 31 Mawrth 2025 yn cynnwys gwelliannau ym manylder y data costau ar gyfer pob math o ddyluniad ffordd. Gan mai prisiad ar sail ased modern cyfwerth yw hwn, mae'r cyfraddau newydd ar gyfer y cydrannau yn adlewyrchu nid yn unig newidiadau yn y costau i adeiladu asedau cyfatebol ond hefyd newidiadau mewn safonau dylunio a thechnegau adeiladu.

Y prif reswm am y gostyngiad o £0.4 biliwn yng ngwerth Asedau'r Grŵp sy'n cael eu Hadeiladu yw bod £0.7 biliwn o Asedau sy'n cael eu Hadeiladu o fewn Trafnidiaeth Cymru wedi'u trosglwyddo'n bennaf i'r Rhwydwaith Rheilffyrdd (£0.6 biliwn) ac asedau tir ac eiddo cysylltiedig (£0.1 biliwn) wrth i welliannau sylweddol i'r Rhwydwaith Rheilffyrdd gael eu cwblhau a dechrau cael eu defnyddio, yn arbennig ar gyfer Metro De Cymru. Caiff hyn ei wrthbwyso i raddau helaeth gan ychwanegiadau pellach ar gyfer gweithgarwch adeiladu Trafnidiaeth Cymru yn ystod y flwyddyn (£0.3 biliwn).

Mae'r cynnydd o £0.5 biliwn yn y Rhwydwaith Rheilffyrdd yn ymwneud yn bennaf â'r trosglwyddiadau o Asedau sy'n cael eu Hadeiladu a nodwyd uchod.

Mae'r cynnydd o £0.6 biliwn yn y Portffolio Benthyciadau i Fyfyrwyr yn ymwneud yn bennaf â benthyciadau newydd o £0.9 biliwn a roddwyd, llai ad-daliadau o £0.2 biliwn ac addasiadau prisio o £0.1 biliwn. Mae prisiad y portffolio yn cael ei ddylanwadu'n sylweddol gan symudiadau mewn mynegeion economaidd a chyfraddau disgownt a'r set ddata benthycwyr. Ceir rhagor o wybodaeth am hyn, gan gynnwys dadansoddiad sensitifrwydd, yn Nodyn 6.

Mae'r cynnydd o £0.5 biliwn mewn atebolrwyddau yn adlewyrchu cynnydd o £0.2 biliwn mewn symiau taladwy ar gyfer masnach, yn bennaf ar gyfer grantiau Llywodraeth Cymru sy'n ddyledus ar ddiwedd y flwyddyn, yn enwedig lle mae rhai grantiau ar gyfer addysg a phlant a chymunedau wedi'u haddasu i adolygu amlder neu amseriad hawliadau, a chynnydd o £0.3 biliwn mewn atebolrwyddau eraill, yn bennaf oherwydd atebolrwyddau cynyddol ar gyfer Asedau sy'n cael eu Hadeiladu ar gonsesiynau gwasanaeth megis Model Buddsoddi Cydfuddiannol yr A465 ac ar gyfer atebolrwyddau les, yn enwedig cyflwyno cerbydau rheilffyrdd Trafnidiaeth Cymru i'r rhwydwaith.

# Ffin Gyfrifyddu Llywodraeth Cymru

Mae'n ofynnol i Weinidogion Cymru baratoi cyfrifon yn unol ag a.131 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006. Yr Ysgrifennydd Parhaol fel y Prif Swyddog Cyfrifyddu dros Weinidogion Cymru sy'n gyfrifol am baratoi a llofnodi'r cyfrifon.

Mae'r cyfrifon yn adlewyrchu'r asedau a'r rhwymedigaethau cyfun a chanlyniadau endidau o fewn ffin gyfrifyddu gyfunol Llywodraeth Cymru. Mae'r ffin gyfrifyddu yn debyg i'r cysyniad o grŵp ar gyfer cyfrifyddu corfforaethol ond mae'n seiliedig ar feini prawf rheoli ar gyfer y sector cyhoeddus. Mae rhagor o wybodaeth am y ffin gyfrifyddu ar gael yn y Datganiadau Ariannol ac yn Nodyn 1.2 i'r cyfrifon.

Mae'r sefydliadau cyfunol yn paratoi ac yn cyhoeddi eu hadroddiadau blynyddol a'u cyfrifon eu hunain. Mae'r cyfrifon hyn yn cynnwys Craidd Llywodraeth Cymru (Llywodraeth Cymru ei hun) ac endidau Grŵp Llywodraeth Cymru.

**Y rhain yw:**

## Grŵp Llywodraeth Cymru

- Byrddau Iechyd Lleol ac Ymddiriedolaethau Iechyd GIG Cymru
- Addysg a Gwella Iechyd Cymru
- Iechyd a Gofal Digidol Cymru
- Grŵp Banc Datblygu Cymru
- Grŵp Trafnidiaeth Cymru
- Career Choices Dewis Gyrfa Ltd
- Cronfa Buddsoddi Cymru mewn Adfywio LLP
- WGC Holdco Limited

Mae buddsoddiad Craidd Llywodraeth Cymru mewn is-endidau cyfunol yn Nodyn 6 i'r Datganiadau Ariannol fel a ganlyn:

| | | 31 Mawrth 2025 £m | 31 Mawrth 2024 £m |
|---|---|---|---|
| Grŵp Banc Datblygu Cymru | Benthyciadau | 1,552.6 | 1,552.1 |
| | Ecwiti | 117.2 | 117.2 |
| Ymddiriedolaethau'r GIG | Cyfalaf Difidend Cyhoeddus | 264.4 | 257.7 |
| Cronfa Buddsoddi Cymru mewn Adfywio LLP | Gwerth y buddsoddiad | 54.6 | 49.6 |
| Grŵp Trafnidiaeth Cymru | Cyfraniad ar ffurf benthyciadau a chyfalaf | 25.7 | 18.0 |
| WGC Holdco Limited | Ecwiti | 21.9 | 21.9 |

## Cyrff Llywodraeth Ganolog newydd yn ystod y flwyddyn

Bu'r Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil (Medr) yn gweithredu ar ffurf gysgodol yn unig yn ystod 2023-24 a daeth yn weithredol o 1 Awst 2024 ymlaen, gan ymgymryd â chyfrifoldebau CCAUC a roddodd y gorau i weithredu ar 31 Gorffennaf 2024. Cafodd Medr ei ddosbarthu'n gorff Llywodraeth Ganolog gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol (SYG) ym mis Chwefror 2025. O ystyried amseriad hyn, y ffaith mai dim ond am ran o flwyddyn ariannol 2024-25 y bu Medr yn gweithredu, a'r ffaith na chafodd y swyddogaethau llawn eu trosglwyddo gan Weinidogion Cymru mewn rhai meysydd tan fis Ebrill 2025, ni chafodd Medr ei ddynodi ar gyfer 2024-25 ac mae hynny wedi'i gynllunio ar gyfer blwyddyn ariannol 2025-26. Felly, nid yw Medr wedi'i gyfuno yng nghyfrif y Grŵp ar gyfer 2024-25.

Ni sefydlwyd yr un is-gwmni na chorff statudol newydd yn ystod 2024-25 heblaw Medr. Ni wnaed Gorchymyn Dynodi mewn perthynas â blwyddyn ariannol 2024-25, felly nid oes newidiadau i'r rhestr o gyrff Dynodedig o 2023-24. Cafodd Busnes Rhyngwladol Cymru, a oedd yn is-gwmni o dan berchenogaeth lwyr, ei ddiddymu ym mis Tachwedd 2024.

Cafodd GCRE Ltd, sef is-gwmni o dan berchnogaeth lwyr Llywodraeth Cymru, ei ddosbarthu gan SYG i'r sector Llywodraeth Ganolog ym mis Medi 2024, a chafodd TfW Fibre Ltd, sef is-gwmni dan berchnogaeth lwyr TrC, ei ddosbarthu gan SYG yn Gorfforaeth Gyhoeddus Anariannol ym mis Ebrill 2025.




**Cyrff y Llywodraeth Ganolog – heb eu dynodi na'u cyfuno eto**

- Cyngor Celfyddydau Cymru
- Y Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil (Medr)[c]
- Comisiwn Ffiniau a Democratiaeth Cymru[d]
- Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru[c]
- Llyfrgell Genedlaethol Cymru
- Amgueddfa Genedlaethol Cymru
- Cyfoeth Naturiol Cymru
- Gofal Cymdeithasol Cymru
- Cyngor Chwaraeon Cymru
- Trydan Gwyrdd Cymru Cyf
- Elusennau GIG Cymru

**Cyrff dynodedig amherthnasol – heb eu cyfuno**

- Adnodd Cyfyngedig[a]
- Corff Llais y Dinesydd ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Llais)
- Comisiynydd Plant Cymru
- Comisiynydd y Gymraeg
- Cwmni Egino Ltd[a]
- Cyngor y Gweithlu Addysg
- Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru
- GCRE Ltd[b]
- Prif Arolygydd Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru (Estyn)
- Hybu Cig Cymru Cyf – Meat Promotion Wales Limited[a]
- Y Ganolfan Gwasanaethau Cyhoeddus Digidol Cyf[a]
- Hwb Gwyddorau Bywyd Cymru Cyf[a]
- Academi Genedlaethol ar gyfer Arweinyddiaeth Addysgol[a]
- Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru
- Cymwysterau Cymru
- Diwydiant Cymru (Sector Development Wales Partnership Limited)
- Awdurdod Cyllid Cymru

**Cyfrif Cyfunol Llywodraeth Cymru**

- Byrddau Iechyd Lleol
- Ymddiriedolaethau'r GIG
- Iechyd a Gofal Digidol Cymru
- Addysg a Gwella Iechyd Cymru
- Careers Choices / Dewis Gyrfa Ltd[a]
- Grŵp Banc Datblygu Cymru[a]
- Grŵp Trafnidiaeth Cymru[a]
- Comisiwn Brenhinol Henebion Cymru
- WGC Holdco Ltd[a]
- Cronfa Buddsoddi Cymru mewn Adfywio LLP

# Ffin Gyfrifyddu Llywodraeth Cymru

a Mae endidau yn is-gwmnïau i Weinidogion Cymru.

b Mae gweithgareddau GCRE yn 2024-25 yn fwy na'r lefel berthnasedd ar gyfer cyfuno, ond maent yn amherthnasol i Grŵp Llywodraeth Cymru yn ei gyfanrwydd. Er ei fod wedi'i ddynodi ar gyfer ei gyfuno a'i ddosbarthu gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol fel endid y Llywodraeth Ganolog ym mis Medi 2024, mae buddsoddiad ariannol preifat wrthi'n cael ei geisio ar gyfer dyfodol hirdymor yr endid hwn a disgwylir i hynny effeithio ar sut y caiff ei ddosbarthu yn y dyfodol.

c Dechreuodd y Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil (Medr) weithredu o 1 Awst 2024.

d Comisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol Cymru gynt.

**I gynorthwyo â'r diagramau uchod, mae'r canlynol yn esbonio prosesau dosbarthu a dynodi Llywodraeth Ganol:**

## Dosbarthu

Dosberthir endidau at ddibenion Cyfrifon Cenedlaethol, sef fframwaith ystadegol a ddefnyddir gan y SYG i ddisgrifio beth sy'n digwydd mewn economïau cenedlaethol. Caiff pob uned sefydliadol sy'n gweithredu mewn economi eu dosbarthu i sector sefydliadol (er enghraifft, fel corfforaethau anariannol, unedau llywodraeth cyffredinol neu aelwydydd).[54] Yn fras, caiff endidau eu dosbarthu'n llywodraeth ganol os ydynt yn cael eu perchenogi neu eu rheoli (h.y. y gallu i bennu eu polisi neu eu rhaglen gyffredinol) gan endidau llywodraeth ganol eraill ac nad ydynt yn Gorfforaeth Gyhoeddus (sy'n ddosbarthiad ar wahân).

Mae Trysorlys EF yn defnyddio'r dosbarthiad hwn i nodi'r driniaeth gyllidebol sy'n briodol i'r endidau hyn, er mwyn sicrhau bod prosesau adrodd cyllidebol yn gyson ym mhob rhan o'r sector cyhoeddus. Ar gyfer endidau sydd wedi'u dosbarthu'n llywodraeth ganol yng Nghymru, mae hyn yn golygu eu hincwm a'u gwariant yn ôl sgôr seiliedig ar groniadau yn rheolau cyllidebol Llywodraeth Cymru a bennir gan Drysorlys EF. Mae'r un egwyddorion yn gymwys i unrhyw is-gwmnïau neu gyd-fentrau.

## Dynodi


Dim ond endidau sydd wedi'u dosbarthu'n llywodraeth ganol a gaiff eu dynodi. Dynodi o dan Orchymyn Deddf Llywodraeth Cymru 2006 (Cynigion Cyllidebol a Chyrff Dynodedig[55] yw'r broses gyfreithiol sy'n rhoi'r awdurdod cyfreithiol i Lywodraeth Cymru wario. Mae'r broses ddynodi yn dod ag incwm a gwariant ar sail croniadau endidau llywodraeth ganol Llywodraeth Cymru o fewn Cwmpas y Cynnig Cyllidebol h.y. o fewn Cyllideb Llywodraeth Cymru y pleidleisiwyd arni gan y Senedd a'r ffin cyfuno Cyfrifon, am fod Llawlyfr Adrodd Ariannol y Llywodraeth yn pennu ffiniau cyfunol yn seiliedig ar gyrff dynodedig.

Cyn iddynt gael eu dynodi, dim ond yr arian parod a dalwyd i'r endidau gan Lywodraeth Cymru a gaiff ei gynnwys o fewn Cwmpas y Cynnig Cyllidebol, ac mae'r endidau y tu allan i Gyfrifon Cyfunol Llywodraeth Cymru. Nid yw p'un a yw endid wedi cael ei dynodi ai peidio yn effeithio ar y driniaeth gyllidebol gyffredinol, dim ond pa elfennau sydd wedi'u cynnwys o fewn Cwmpas y Cynnig Cyllidebol a pha rai sydd y tu allan iddo.

---

54 Public sector classification guide and forward work plan – Y Swyddfa Ystadegau Gwladol
55 Gorchymyn Deddf Llywodraeth Cymru 2006 (Cynigion Cyllidebol a Chyrff Dynodedig) (Diwygio) 2024

# Y berthynas rhwng Cyfrifon Llywodraeth Cymru ac adroddiadau ariannol y sector cyhoeddus ehangach



## Cyfrif Cronfa Gyfunol Cymru

Mae'r cyfrif hwn yn cael derbyniadau a gymeradwywyd drwy bleidlais gan Senedd y DU, derbyniadau Yswiriant Gwladol, trawsdaliad Cyfraddau Treth Incwm Cymru a derbyniadau Trethi Datganoledig. Telir benthyciadau gan Weinidogion Cymru i mewn i'r cyfrif hwn hefyd. Gwneir taliadau o Gronfa Gyfunol Cymru i gyrff a gwmpesir gan Gynnig yng Nghyllideb Cymru neu fel Taliadau Uniongyrchol.

## Datganiad Treth Awdurdod Cyllid Cymru

Mae'r cyfrif hwn yn rhoi adroddiad ar dderbyniadau Trethi Datganoledig ar gyfer y Dreth Trafodiadau Tir a'r Dreth Gwarediadau Tirlenwi. Mae'r Adroddiad Blynyddol ar gael ar wefan Llywodraeth Cymru.[56]

## Cyfrifon y cyrff a ariennir yn uniongyrchol o Gyllideb Cymru

- Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru[57]
- Comisiwn y Senedd[58]
- Cyfrifon Cyfunol Llywodraeth Cymru
- Swyddfa Archwilio Cymru[59]

---

56 Awdurdod Cyllid Cymru: Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon 2024 i 2025 | LLYW.CYMRU
57 Adroddiadau a Chyfrifon Blynyddol – Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru
58 Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon
59 Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon 2024-25 | Archwilio Cymru

# Sut rydym yn perfformio

## Adrodd ar Berfformiad Llywodraeth Cymru

Mae Llywodraeth Cymru yn adolygu perfformiad yn rheolaidd mewn amrywiaeth o feysydd, er mwyn sbarduno gwelliannau yn effeithiolrwydd trefniadol Gwasanaeth Sifil Llywodraeth Cymru drwy ganolbwyntio ar berfformiad gweithredol a chyfrifoldebau'r Ysgrifennydd Parhaol mewn perthynas â rhedeg y sefydliad. Mae'r adroddiadau hyn, drwy'r Is-bwyllgor Cyllid a Gwasanaethau Corfforaethol a'r Pwyllgor Gweithredol, wedi dod yn ased sefydledig a gwerthfawr er mwyn gwella perfformiad corfforaethol ym mhob rhan o'r sefydliad.

### Dull newydd Llywodraeth Cymru o adrodd ar berfformiad

Fel y nodwyd yn adroddiad y llynedd, cafodd y dull o adrodd ar berfformiad y sefydliad ei adolygu a'i adnewyddu yn ystod blwyddyn ariannol 2024-25. Yn dilyn cytundeb yn y Pwyllgor Gweithredol ym mis Mawrth 2024, mae adroddiadau cerdyn sgorio cytbwys chwarterol wedi cael eu cyflwyno ochr yn ochr â chrynodeb blynyddol o berfformiad.

Yn seiliedig ar yr hyn a ddysgwyd o Fframwaith Perfformiad blaenorol Llywodraeth Cymru, bwriedir i'r dull cerdyn sgorio cytbwys gefnogi camau gweithredu a'r canlyniadau sy'n deillio ohonynt drwy fonitro perfformiad y sefydliad mewn modd amserol. Mae'n fodd i gael amserlen adrodd fanylach a mwy rheolaidd sy'n cysylltu â dulliau adrodd sefydliadol eraill sydd eisoes ar waith, gan ddefnyddio llai o ddangosyddion perfformiad allweddol.

Ochr yn ochr â'r cerdyn sgorio cytbwys, mae'r adroddiad blynyddol yn fodd i adolygu perfformiad yn erbyn metrigau nad ydynt yn addas ar gyfer adroddiadau chwarterol (e.e. Arolwg Pobl Blynyddol y Gwasanaeth Sifil). Mae hefyd yn gyfle i fyfyrio ar berfformiad ym meysydd y cerdyn sgorio cytbwys dros y flwyddyn flaenorol, gan sicrhau cysondeb rhwng adroddiadau chwarterol a blynyddol a chyfle i adolygu adroddiadau chwarterol er mwyn adlewyrchu blaenoriaethau strategol Llywodraeth Cymru ar gyfer y flwyddyn i ddod. Mae'r dull a ddefnyddir ar gyfer yr adroddiad blynyddol yn galluogi Llywodraeth Cymru i adeiladu ar y ddealltwriaeth ddiweddaraf o arferion gorau o ran perfformiad y Gwasanaeth Sifil. Caiff hyn ei lywio gan Fynegai Blavatnik, a ddisodlodd fframwaith InCiSE ym mis Rhagfyr 2024. Mae hyn yn sicrhau yr eir i'r afael â meysydd allweddol yn gyson mewn adroddiadau chwarterol a blynyddol, gan ddefnyddio arferion gorau rhyngwladol o ran mesur perfformiad y Gwasanaeth Sifil.

Mae'r meysydd yr adroddir arnynt yn y cerdyn sgorio cytbwys chwarterol a'r adroddiad blynyddol fel a ganlyn.

| Cerdyn Sgorio Cytbwys Chwarterol | Adroddiad Blynyddol |
|---|---|
| **Pobl a Lleoedd**<br>Gan gynnwys adroddiadau ar gyfrif pennau ac absenoldeb oherwydd salwch | **Galluogrwydd ac Arweinyddiaeth Strategol**<br>Gan gynnwys adroddiadau ar hyder o staff mewn penderfyniadau a wneir gan uwch-reolwyr |
| **Cyllid a Chaffael**<br>Gan gynnwys adroddiadau ar wariant caffael yng Nghymru a pherfformiad o ran taliadau, rhagolygon diwedd blwyddyn | **Gwerthoedd a Ffyrdd o Weithio Llywodraeth Cymru**<br>Gan gynnwys adroddiadau ar werthoedd Llywodraeth Cymru, sef Tegwch, Proffesiynoldeb, Creadigrwydd a Phartneriaeth, a gwreiddio Egwyddor Datblygu Cynaliadwy Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Pum Ffordd o Weithio) |
| **Cyflawni'n Fewnol ac yn Allanol**<br>Gan gynnwys adroddiadau ar gyflawni Deddfwriaeth | **Y Gymraeg**<br>Gan gynnwys adroddiadau ar sgiliau Cymraeg ymhlith o staff Llywodraeth Cymru |
| **Prosesau a Llywodraethiant Mewnol**<br>Gan gynnwys adroddiadau ar ymateb i geisiadau Rhyddid Gwybodaeth | **Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant**<br>Gan gynnwys adroddiadau ar gynrychiolaeth grwpiau cydraddoldeb yng ngweithlu Llywodraeth Cymru (o staff ethnig leiafrifol, o staff anabl a o staff â chyfeiriadedd rhywiol lleiafrifol) |

## Defnyddio a Llywodraethu Adroddiadau Perfformiad

Caiff yr adroddiadau perfformiad eu rheoli gan ddadansoddwyr Llywodraeth Cymru, sy'n cydgasglu'r adroddiadau gan ddefnyddio safonau proffesiynol priodol ac arferion gorau.

Bydd yr Is-bwyllgor Cyllid a Gwasanaethau Corfforaethol yn ystyried yr adroddiadau perfformiad yn fanwl ac yn llunio cynlluniau gweithredu. Bydd y Pwyllgor Gweithredol yn cyflawni rôl allweddol drwy graffu ar yr adroddiadau a'r camau gweithredu a bennir gan yr Is-bwyllgor, gan gytuno ar gamau gweithredu, cyflwyno meysydd gweithredu ychwanegol fel y bo angen, a chynnig trosolwg strategol o berfformiad ym mhob rhan o'r sefydliad. Creffir ar yr adroddiadau perfformiad hefyd gan y Bwrdd, sy'n cynnig trosolwg ychwanegol a sicrwydd.

## Crynodeb o'r Adroddiadau Perfformiad



Mae'r tabl isod yn rhoi crynodeb o berfformiad mewn amrywiaeth o feysydd o'r cerdyn sgorio cytbwys a'r adroddiadau perfformiad blynyddol. Gwelwyd perfformiad da neu well mewn sawl maes:



- Ym maes **Deddfwriaeth**, cafodd yr holl Filiau a gyhoeddwyd yn Natganiad Deddfwriaethol 2024 i'w cyflwyno yn ystod y flwyddyn ddeddfwriaethol eu cyflwyno. Mae hyn yn cynnwys diwygiadau pwysig er mwyn sicrhau diogelwch tomenni glo nas defnyddir; gwella gwasanaethau bysiau; mynd i'r afael â digartrefedd a gwella'r ffordd y caiff tai cymdeithasol eu dyrannu; a gwella diogelwch adeiladau.
- Bu lleihad yng **nghyfrif pennau Llywodraeth Cymru**, ar ôl i reolaethau cyfrif pennau gael eu cyflwyno fel rhan o LlC2025.
- Mae cyfran y ceisiadau **Rhyddid Gwybodaeth** yr ymatebwyd iddynt o fewn y terfyn amser statudol wedi cynyddu'n raddol ac, yn 2024, cyrhaeddodd 89%, sy'n agos i darged Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth, sef 90%.
- Ym maes **Arweinyddiaeth**, mae hyder mewn penderfyniadau a wneir gan uwch-reolwyr wedi bod yn uwch na meincnod y Gwasanaeth Sifil yn gyson, gyda chynnydd bach dros y ddwy flynedd ddiwethaf.



- O ran **Gwerthoedd Llywodraeth Cymru**, mae metrigau'r Arolwg Pobl sy'n ymwneud â Thegwch, Proffesiynoldeb a Chreadigrwydd wedi perfformio'n uwch na meincnod y Gwasanaeth Sifil yn gyson, a gwelwyd gwelliant bach yn ystod y flwyddyn ddiwethaf.
- Mae cyfran y staff sydd â sgiliau **Cymraeg** sylfaenol wedi cynyddu'n raddol dros amser, gyda lleihad cyfatebol yng nghyfran y staff heb ddim sgiliau Cymraeg. Mae cyfran y staff sydd â sgiliau uwch wedi aros yn sefydlog.
- Ym maes **Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant**, mae cynrychiolaeth y o staff sydd â chyfeiriadedd rhywiol lleiafrifol wedi cynyddu ers 2020-21, ac mae'n uwch na meincnod poblogaeth Cymru drwy gydol y cyfnod hwn.



Roedd rhai meysydd lle y gwelwyd dirywiad mewn perfformiad neu lle na chyrhaeddwyd targedau:




- Ym maes **Llesiant Staff**, gwelwyd cynnydd mewn absenoldeb oherwydd salwch, a chollwyd 8.3 o ddiwrnodau gwaith ar gyfartaledd yn ystod 2024-25.
- Ym maes **Perfformiad o ran Taliadau**, gwelwyd lleihad yng nghyfran yr anfonebau a dalwyd o fewn pum diwrnod, i 61%, a oedd yn is na'r targed, sef 80%.
- Ym maes **Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant**, mae cynrychiolaeth pobl ethnig leiafrifol ac anabl yn dal yn is na meincnod poblogaeth Cymru ac, ar gyfer ethnigrwydd, yn is na tharged y Cynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol, sef 6%.


<table>
<tr><th>Maes</th><th>Metrigau 2024-25</th><th>Targedau/ meincnodau</th><th>Newid dros amser</th><th>Ffynhonnell/ dyddiad</th></tr>
<tr><td colspan="5">Metrigau'r Cerdyn Sgorio Cytbwys</td></tr>
<tr><td colspan="5">Pobl a Lleoedd</td></tr>
<tr><td>Proffil o staff.<br>Cyfrif pennau'r o staff.<br>Mae'r ffigurau'n seiliedig ar o staff parhaol a o staff dros dro ar 31 Mawrth bob blwyddyn. Ni chaiff contractwyr na o staff asiantaeth eu cynnwys.</td><td>5,932 o staff</td><td>Dim targed/ meincnod presennol</td><td>
</td><td>Data Adnoddau Dynol<br><br>Mawrth 2020 – Mawrth 2025</td></tr>
<tr><td>Llesiant staff.<br>Absenoldeb oherwydd salwch.</td><td>8.3 o ddiwrnodau gwaith wedi'u colli ar gyfartaledd</td><td>7.8<br>Meincnod y Gwasanaeth Sifil mis Mawrth 2024</td><td>
</td><td>Data Adnoddau Dynol<br><br>Mawrth 2021 – Mawrth 2025</td></tr>
</table>




| Maes | Metrigau 2024-25 | Targedau/ meincnodau | Newid dros amser | Ffynhonnell/ dyddiad |
|---|---|---|---|---|
| **Cyllid a Chaffael** | | | | |
| **Caffael**.<br>Cyfran y gwariant dylanwadwy a enillwyd yn uniongyrchol gan fusnesau yng Nghymru.<br>Mae ffigurau 2024-25 yn seiliedig ar wariant dylanwadwy o £671.7m. | 45% | Dim targed/ meincnod presennol |  | Data Caffael<br>Ebrill 2020 – Mawrth 2025 |
| **Perfformiad o ran Taliadau**.<br>Y ganran o'r anfonebau a gyflwynwyd yn gywir a dalwyd o fewn pum diwrnod. | 61.0% | 80% |  | Data Cyllid<br>Ebrill 2020 – Mawrth 2025 |

| Maes | Metrigau 2024-25 | Targedau/ meincnodau | Newid dros amser | Ffynhonnell/ dyddiad |
|---|---|---|---|---|
| **Cyflawni'n Fewnol ac yn Allanol** | | | | |
| **Deddfwriaeth**. Mae un Bil a gyhoeddwyd yn 2024 i'w gyflwyno tua diwedd tymor y Senedd hon wedi cael ei eithrio o'r ffigurau hyn, gan nad oedd wedi'i fwriadu i gael ei gyflwyno ym Mlwyddyn 4 y Rhaglen Ddeddfwriaethol. | 7 wedi'u cyhoeddi<br>7 wedi'u cyflwyno ym Mlwyddyn 4 | Dim targed/ meincnod presennol |  | Data ar y Rhaglen Ddeddfwriaethol<br>Gorffennaf 2021 – Gorffennaf 2025 |
| **Prosesau a Llywodraethiant Mewnol** | | | | |
| **Rhyddid Gwybodaeth**. Cyfran y ceisiadau Rhyddid Gwybodaeth yr ymatebwyd iddynt o fewn y terfyn amser statudol. | 89% | **Targed Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth 90%** |  | Adroddiadau llywodraeth agored<br>2020-2024 |

| Maes | Metrigau 2024-25 | Targedau/ meincnodau | Newid dros amser | Ffynhonnell/ dyddiad |
|---|---|---|---|---|
| **Metrigau Blynyddol** | | | | |
| **Galluogrwydd ac Arweinyddiaeth Strategol** | | | | |
| **Arweinyddiaeth**. Hyder mewn penderfyniadau a wneir gan uwch-reolwyr | 63% yn gadarnhaol | **Meincnod y Gwasanaeth Sifil 56%** |  | Arolwg Pobl<br>Hydref 2020 – Hydref 2024 |
| **Gwerthoedd a Ffyrdd o Weithio Llywodraeth Cymru** | | | | |
| **Gwerthoedd – Tegwch**. Sgôr Cynhwysiant a Thriniaeth Deg | 86% yn gadarnhaol | **Meincnod y Gwasanaeth Sifil 81%** |  | Arolwg Pobl<br>Hydref 2020 – Hydref 2024 |

| Maes | Metrigau 2024-25 | Targedau/ meincnodau | Newid dros amser | Ffynhonnell/ dyddiad |
|---|---|---|---|---|
| **Gwerthoedd – Proffesiynoldeb**. Deall Cod y Gwasanaeth Sifil | 94% yn gadarnhaol | **Meincnod y Gwasanaeth Sifil 92%** |  | Arolwg Pobl<br>Hydref 2021 – Hydref 2024 |
| **Gwerthoedd – Creadigrwydd**. Timau'n cael eu hannog i feddwl am ffyrdd newydd a gwell o wneud pethau. | 82% yn gadarnhaol | **Meincnod y Gwasanaeth Sifil 79%** |  | Arolwg Pobl<br>Hydref 2020 – Hydref 2024 |
| **Gwerthoedd – Partneriaeth**. Cydweithio â rhanddeiliaid allanol | 73% yn gadarnhaol | Dim targed/ meincnod presennol |  | Arolygon Llywodraeth Cymru<br>Mawrth 2020 – Gorffennaf 2023 |

| Maes | Metrigau 2024-25 | Targedau/ meincnodau | Newid dros amser | Ffynhonnell/ dyddiad |
|---|---|---|---|---|
| **Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol – Mynegai'r egwyddor datblygu cynaliadwy**. Ymatebion cadarnhaol cyfartalog i gwestiynau am y pum ffordd o weithio. | 76% | Dim targed/ meincnod presennol |  | Arolygon Llywodraeth Cymru<br>Mawrth 2020 – Gorffennaf 2023 |
| **Y Gymraeg** | | | | |
| **Sgiliau Cymraeg**. Ymatebion i gwestiwn yr arolwg ar sgiliau Cymraeg. | 26% uwch<br>56% sylfaenol<br>18% dim | Dim targed/ meincnod presennol |  | Arolwg Pobl<br>Hydref 2020 – Hydref 2024 |

| Maes | Metrigau 2024-25 | Targedau/ meincnodau | Newid dros amser | Ffynhonnell/ dyddiad |
|---|---|---|---|---|
| **Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant** | | | | |
| Cynrychiolaeth staff ethnig leiafrifol yn Llywodraeth Cymru | 3.1% | **6.0% Targed y Cynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol**<br>**6.2% Meincnod y Boblogaeth** |  | Pobl data<br>Mawrth 2021 – Mawrth 2025<br>Cyfrifiad 2021 |
| Cynrychiolaeth staff anabl yn Llywodraeth Cymru | 6.5% | **21.1% Meincnod y Boblogaeth** |  | Pobl data<br>Mawrth 2021 – Mawrth 2025<br>Cyfrifiad 2021 |
| Cynrychiolaeth staff â chyfeiriadedd rhywiol lleiafrifol yn Llywodraeth Cymru | 4.5% | **3.0% Meincnod y Boblogaeth** |  | Data Adnoddau Dynol<br>Mawrth 2021 – Mawrth 2025<br>Cyfrifiad 2021 |

## Trafodaeth am Berfformiad gan y Pwyllgor Gweithredol, y Bwrdd a'r Is-bwyllgor Cyllid a Gwasanaethau Corfforaethol

Pan wnaeth y Pwyllgor Gweithredol, y Bwrdd a'r Is-bwyllgor Cyllid a Gwasanaethau Corfforaethol ystyried perfformiad y sefydliad drwy gydol y flwyddyn, roedd y meysydd ffocws yn cynnwys y rhai lle y gwelwyd dirywiad mewn perfformiad neu lle na chyrhaeddwyd targedau:

- **Absenoldeb oherwydd salwch**, lle y cafodd tueddiadau eu harchwilio'n fanwl, a thynnodd y trafodaethau at yr amrywiaeth o gymorth sydd ar gael i staff, a manteision rhoi cymorth cynnar. Cynigiodd y Pwyllgor Gweithredol, yr Is-bwyllgor a'r Bwrdd gymorth a throsolwg ychwanegol ar gyfer camau gweithredu parhaus i gefnogi llesiant staff gan y Bwrdd Cynghori newydd ar Iechyd, Diogelwch a Llesiant. Ceir rhagor o fanylion am gamau gweithredu i gefnogi llesiant staff ar dudalen 91.
- **Perfformiad o ran taliadau**, lle mae'r trafodaethau wedi tanlinellu manteision cymryd camau mewn modd cydweithredol, er mwyn sicrhau y caiff arferion gorau eu gwreiddio ym mhob rhan o'r sefydliad. Mae'r camau hyn wedi canolbwyntio ar symleiddio prosesau a llenwi swyddi gwag allweddol mewn timau cyllid yn brydlon.
- **Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant**, lle y tynnwyd sylw at yr angen i gynyddu cynrychiolaeth staff ethnig leiafrifol ac anabl ymhellach, a thrafodwyd pwysigrwydd parhau i ddatblygu diwylliant sy'n cefnogi cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant, yn enwedig drwy uwch-reolwyr yn Llywodraeth Cymru yn arwain drwy esiampl. Caiff cynnydd mewn perthynas â chamau gweithredu Llywodraeth Cymru i gefnogi cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant yn y gweithle ei drafod ar dudalennau 87 i 90.

# Mewnwelediadau Staff

## Gweithio'n Glyfar

Daeth blwyddyn Cynllun Peilot Gweithio Hybrid Llywodraeth Cymru i ben ym mis Mawrth 2024 a chafodd yr wybodaeth a'r data a gasglwyd yn ystod y cyfnod hwn eu dadansoddi a'u defnyddio i lywio cam nesaf Gweithio'n Glyfar ar gyfer y sefydliad. Roedd hyn yn cynnwys dod â rhanddeiliaid allweddol ynghyd o bob rhan o'r sefydliad i gynnal trafodaethau manwl gan ddefnyddio'r canfyddiadau a'r gwersi a ddysgwyd o'r cynllun peilot i lywio ffyrdd o feddwl. Cynigiodd y canlyniadau feysydd gweithredu mewn amrywiaeth o bynciau gan gynnwys arweinyddiaeth, diwylliant, cydweithio, llesiant, perfformiad, cynhwysiant, amrywiaeth a'n hystad.

Ym mis Mehefin 2024, gwnaeth y Pwyllgor Gweithredol ystyried gwerthusiad blwyddyn gyfan y Cynllun Peilot Gweithio Hybrid a'r goblygiadau i'n strategaeth Gweithio'n Glyfar ar gyfer y dyfodol. Dangosodd y cynllun peilot ei bod yn well gan y mwyafrif o'n staff weithio hybrid, gan werthfawrogi hyblygrwydd a dewis, a bod nifer sylweddol yn dod i mewn i'r swyddfa yn weddol aml. Roedd yr arweinwyr yn cydnabod manteision cydweithio wyneb yn wyneb ar gyfer gweithgareddau penodol, ac roeddent yn gweld bod angen canllawiau cliriach ar ymgysylltu wyneb yn wyneb.

Gan ystyried pob agwedd ar y cynllun peilot, yr hyn y mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu ei wneud o ran Gweithio'n Glyfar yw parhau i fabwysiadu ffordd hybrid o weithio, gan gyfuno gweithio gartref â gweithio yn y swyddfa neu mewn lleoliadau eraill megis gyda rhanddeiliaid neu ddinasyddion. Er mwyn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i gydweithwyr am ddiwedd y Cynllun Peilot Gweithio Hybrid, profi syniadau ar gyfer annog ffordd fwy cyfunol o weithio, a mireinio ein hegwyddorion Gweithio'n Glyfar ar eu newydd wedd, cynhaliwyd ymarfer ymgysylltu helaeth o fis Medi 2024 tan fis Ionawr 2025.

Roedd hyn yn cynnwys 10 gweithdy Gweithio'n Glyfar wyneb yn wyneb ledled Cymru a dwy sesiwn ar-lein. Hefyd, cynhaliwyd gweithdai â ffocws pendant gyda grwpiau rhanddeiliaid allweddol, gan gynnwys yr Uwch-wasanaeth Sifil, ein harweinwyr Adnoddau Dynol a Gwasanaethau Corfforaethol, undebau llafur, a'n rhwydweithiau staff. Cynhaliwyd sgyrsiau dilynol yn y Grŵp Llywio Amrywiaeth a Chynhwysiant a chyda'n Rhwydwaith Ymwybyddiaeth a Chymorth Anabledd.

Roedd adborth yn fodd i gael presenoldeb hyblyg, a gwerthfawrogwyd trafodaethau tîm strwythuredig, mentrau llesiant a chyfarfodydd rhanbarthol, gan gyfrannu at gymunedau swyddfa. Ymhlith y meysydd lle rydym yn parhau i wella mae adolygu dulliau codi materion, egluro disgwyliadau, ac iaith gyfathrebu gyson.

Ers dechrau'r flwyddyn, rydym eisoes wedi gweld rhywfaint o gynnydd mewn presenoldeb yn y swyddfa ym mhob rhan o'r ystad. Yn arbennig, mae nifer y cydweithwyr sydd yn y swyddfa ar ddiwrnodau penodol bob mis wedi bod yn uwch nag o'r blaen, gyda llawer o dimau'n cynnal diwrnodau angori neu'n dod ynghyd i gysylltu a chydweithio.


Mae ymgysylltu a phrofion pellach yn parhau i fynd rhagddynt wrth i ganllawiau a deunyddiau pellach i gefnogi cydweithwyr gael eu datblygu. Ymhlith y camau nesaf mae ymgynghoriad ffurfiol â'n hundebau llafur gan weithio mewn partneriaeth gymdeithasol ac ymgysylltu â chydweithwyr i brofi a mireinio'r deunyddiau Gweithio'n Glyfar hyn. Byddwn yn parhau i fonitro a gwerthuso'r broses o newid i ffordd fwy cyfunol o weithio, gan anelu at gyfraddau uwch o ran defnydd o'r swyddfa, gwell cydweithio gan dimau, a gwella'r sefydliad yn gyffredinol.

## Cryfderau'r Arolwg Pobl

Mae canlyniadau Arolwg Pobl 2024 yn adeiladu ar y canlyniadau cadarnhaol a welwyd yn 2023, gydag enghreifftiau o gynnydd ym mhob rhan o'r arolwg a gwella perfformiad ar gyfer chwech allan o naw thema graidd yr arolwg.

Gwnaethom barhau i berfformio'n dda o gymharu â Gwasanaeth Sifil y DU, gydag wyth allan o naw thema graidd yr arolwg yn perfformio'n well na meincnod y Gwasanaeth Sifil. Ym mhrif adrannau'r Gwasanaeth Sifil, Llywodraeth Cymru oedd â'r sgoriau uchaf ar gyfer pedair allan o'r naw thema:

- Cynhwysiant a Thriniaeth Deg (86%)
- Fy Ngwaith (82%)
- Fy Rheolwr (81%)
- Adnoddau a Llwyth Gwaith (80%)




## Dysgu a Datblygu

Mae camau breision wedi cael eu cymryd o ran gwella'r arlwy dysgu a datblygu ym mhob rhan o'r sefydliad, ac mae hyn wedi cael ei adlewyrchu yng nghanlyniadau ein Harolwg Pobl. Gwelwyd cynnydd amlwg yn sgôr y thema Dysgu a Datblygu rhwng 2022 a 2024 (o 52% i 60%), gan olygu bod Llywodraeth Cymru yn perfformio'n well na meincnod Gwasanaeth Sifil y DU am y tro cyntaf.

Mae'r cyflawniadau allweddol wedi cynnwys rhoi rhaglenni hyfforddi newydd ar waith, integreiddio technolegau dysgu uwch, a sefydlu llwybrau datblygiad proffesiynol parhaus. Mae'r mentrau hyn wedi arwain at well sgiliau ymhlith cyflogeion, lefelau ymgysylltu uwch, a gwell galluogrwydd ymhlith arweinwyr a rheolwyr.

Hefyd, mae dulliau rhoi adborth wedi cael eu hatgyfnerthu er mwyn sicrhau bod rhaglenni Dysgu a Datblygu yn gyson â nodau'r sefydliad ac anghenion y cyflogeion. Yn y dyfodol, bydd y ffocws ar ehangu'r mentrau hyn er mwyn cefnogi twf gyrfaol a llwyddiant sefydliadol ymhellach.




## Arweinyddiaeth a Rheoli Newid

Gwelwyd cynnydd o 2 bwynt canrannol yn sgôr y thema Arweinyddiaeth a Rheoli Newid ers 2023, ac roedd 5 pwynt yn uwch na meincnod y Gwasanaeth Sifil, fel y mae wedi bod ers 2020. Er i sgôr gadarnhaol y mwyafrif o'r cwestiynau yn yr un thema gynyddu, dangosodd y canlyniadau hefyd fod gwelliannau y gellir eu gwneud ym maes rheoli newid ym mhob rhan o'r sefydliad.

Gan fod arweinyddiaeth effeithiol a chadarnhaol yn allweddol er mwyn cyflawni gweledigaeth strategol Llywodraeth Cymru, gwnaeth gwaith ymchwil ar uwch-arweinwyr â sgoriau uchel yn yr Arolwg Pobl ein helpu i adnabod arferion arwain da a dysgu ohonynt.

Hefyd, cafodd ein perfformiad o ran y themâu ei gymharu â phrif adrannau'r Gwasanaeth Sifil [h.y. yr 17 o brif adrannau Whitehall yn ogystal â'r llywodraethau datganoledig]. Ar y cyfan, roedd Llywodraeth Cymru ymhlith y sefydliadau â'r sgoriau uchaf ar gyfer y rhan fwyaf o'r themâu.

### Arolwg Pobl 2024: Tabl Perfformiad Sgoriau Themâu'r Arolwg – Prif Adrannau

| Thema | Safle Llywodraeth Cymru ymhlith y prif Adrannau 2024 | Safle Llywodraeth Cymru ymhlith y prif Adrannau 2023 |
|---|---|---|
| Mynegai Ymgysylltu | 4ydd ar y cyd | 3ydd ar y cyd |
| Fy Ngwaith | 1af | 1af |
| Amcanion a Diben Sefydliadol | Yn gydradd 4ydd | 2il |
| Fy Rheolwr | 1af ar y cyd | Yn gydradd 2il |
| Fy Nhîm | Yn gydradd 2il | Yn gydradd 2il |
| Dysgu a Datblygu | 3ydd | 7fed ar y cyd |
| Cynhwysiant a Thriniaeth Deg | 1af | 1af ar y cyd |
| Adnoddau a Llwyth Gwaith | 1af | 1af |
| Cyflog a Buddion | 2il | 2il |
| Arweinyddiaeth a Rheoli Newid | 3ydd | Yn gydradd 3ydd |

- Caiff yr wybodaeth hon ei chynhyrchu gan Swyddfa'r Cabinet.
- Mae 'Prif Adrannau' yn cyfeirio at yr 17 o brif adrannau Whitehall yn ogystal â'r gweinyddiaethau datganoledig (Llywodraeth Cymru a Llywodraeth yr Alban) a Swyddfa Gogledd Iwerddon.
- O ganlyniad i fân wahaniaethau o ran methodoleg, gellir cael gwahaniaeth weithiau rhwng ffigurau a gaiff eu cynhyrchu gan Swyddfa'r Cabinet a'r rhai a gaiff eu cynhyrchu yn y dangosfwrdd canlyniadau a ddarperir gan y cyflenwr allanol (Qualtrics). Y rheswm dros hyn yw'r ffordd y cyfrifir am ddiffyg ymateb yn sgoriau'r themâu. Fodd bynnag, ni ddylai'r un gwahaniaeth fod yn fwy na ±1 pwynt canrannol.
- Mae safleoedd cyffredinol yn seiliedig ar sgoriau wedi'u talgrynnu.
- Mae 'ar y cyd' yn cyfeirio at ddwy Adran sydd wedi cael yr un sgôr ac mae 'yn gydradd' yn cyfeirio at dair Adran neu fwy sydd wedi cael yr un sgôr.
- Ceir tabl cymharu llawn yn Uchafbwyntiau Canlyniadau Arolwg Pobl 2024 y Gwasanaeth Sifil.[60]

60 Arolwg Pobl y Gwasanaeth Sifil – canlyniadau 2024 (Saesneg yn unig)

# Sut rydym yn trefnu ein hunain i gyflawni

## LlC2025

LlC2025 yw modd Llywodraeth Cymru i newid a gwella'n barhaus. Ers iddo gael ei sefydlu, mae wedi helpu i sicrhau newidiadau gwirioneddol a sylweddol. Dechreuodd LlC2025 â sgwrs drwy'r sefydliad cyfan ynglŷn â'r hyn sy'n bwysig i ni a'r hyn roeddem yn teimlo bod angen ei wella. Arweiniodd hyn at gydgynhyrchu fframwaith Gwerthoedd ac Ymddygiadau newydd y gwnaeth cydweithwyr o bob rhan o'r sefydliad gyfrannu ato. O ganlyniad i adborth gan staff, cyflwynwyd nifer o newidiadau eraill hefyd, gan gynnwys:

- Newid y ffordd yr ymdrinnir â hyrwyddo.
- Cyflwyno Cynllun Peilot Gweithio Hybrid er mwyn helpu i benderfynu ar y ffordd orau ymlaen ar gyfer Gweithio'n Glyfar.
- Gwasanaethau ac offer digidol newydd – gan gynnwys treialu deallusrwydd artiffisial drwy Microsoft Copilot.
- Croesawu'r tenantiaid cyntaf i Barc Cathays a symud i Gymdogaethau Grŵp newydd fel rhan o'r rhaglen Ad-drefnu Ystad.
- Dylunio Fframwaith Polisi a Rhaglen Galluogrwydd newydd.

### Cam Dau

Fel rhan o Gam Dau LlC2025, gwelwyd newid cyfeiriad gyda ffocws mwy unedig ar gamau gweithredu a fyddai'n ein helpu i ymateb i'r heriau ariannol cynyddol roedd y sefydliad yn eu hwynebu. Sefydlwyd tair ffrwd waith newydd gyda chyfranogiad ar lefel uwch o bob un o'n Grwpiau a thrwy ymgysylltu â staff ar bob lefel:

Roedd **Newid Maint** yn canolbwyntio ar sicrhau y gallai'r sefydliad weithredu o fewn ei gyllidebau staffio drwy gyflwyno rheolaethau llymach ar recriwtio, datrys materion o ran contractau dros dro a dyrchafiadau dros dro, a chynnal Cynllun Ymadael Gwirfoddol.

**Ymhlith y camau gweithredu allweddol roedd:**

1. Er mwyn ein helpu i daro cydbwysedd rhwng ein cyllideb ar gyfer y gweithlu a diogelu swyddi sydd eisoes yn bodoli, adolygwyd y prosesau recriwtio a oedd wedi'u cynllunio, a chytunwyd i gael gwared ar tua 30 o brosesau recriwtio allanol y cytunwyd arnynt yn flaenorol. Rhoesom broses 'yn allanol drwy eithriad' ar waith, sy'n golygu mai dim ond pan fo'n gwbl angenrheidiol y byddwn yn recriwtio'n allanol.
2. Cafodd ein carfan bresennol o brentisiaid eu cadw i sicrhau y gallem gael budd o'r sgiliau roeddent eisoes wedi'u datblygu a'r amrywiaeth y maent yn ei hychwanegu at y sefydliad.
3. Fe wnaethom asesu contractau dros dro ar draws Llywodraeth Cymru, a nodwyd tua 60-80 o swyddi a oedd i fod i ddod i ben yn naturiol yn 2024-25. Cynhaliwyd adolygiad o gontractau dros dro ddiwedd Ionawr 2024. Diben yr adolygiad oedd deall a oedd cyfleoedd posibl i leihau costau ymhellach drwy ddod â chontractau i ben yn gynt nag y bwriadwyd. Roedd y cam gweithredu hwn yn rhan o'r rhaglen waith gyffredinol i alluogi'r sefydliad i weithredu o fewn y cyllidebau fforddiadwy.

Roedd mwy na 400 o gontractau dros dro gan gynnwys penodiadau cyfnod penodol, secondiadau a benthyciadau i Lywodraeth Cymru.

Dangosodd yr adolygiad y byddai rhwng 60 ac 80 o gontractau, ar sail y sefyllfa gynllunio ar y pryd, yn dod i ben yn ystod blwyddyn ariannol 2024-2025. Amcangyfrifwyd y byddai hyn yn lleihau costau'r gweithlu tua £1.5m. Gadawyd i'r contractau hyn ddod i ben yn naturiol.

O ystyried mai ar sail anghenion busnes y penodwyd yr aelodau staff gan ddefnyddio contractau dros dro, roedd y contractau hyn yn amrywio a byddai penderfyniad cyffredinol i ddod â hwy i ben yn peryglu gwaith cyflawni. Ni fyddai chwaith yn ddichonadwy nac yn ymarferol yng nghyd-destun y contractau y cytunwyd arnynt. Roedd risg hefyd y byddai'r timau a fyddai ar ôl o dan bwysau i ysgwyddo gwaith ychwanegol, gan arwain at lwyth gwaith gormodol a risgiau o ran llesiant.

Ystyriodd y Panel Blaenoriaethu Adnoddau y mater a phenderfynwyd parhau i gadw golwg fanwl ar y defnydd o gontractau dros dro drwy'r gwaith arferol o gynllunio'r gweithlu, gan rag-weld y byddai gostyngiad mewn contractau o'r fath wrth i rolau dros dro ddod i ben dros amser.

Yn unol ag egwyddorion Chomisiwn Recriwtio'r Gwasanaeth Sifil, roedd y rhai a recriwtiwyd trwy gystadleuaeth 'deg ac agored' yn gymwys ar gyfer trosi eu swyddi'n rhai parhaol. Ar y pryd, roedd 71 o aelodau staff cymwys, gan gynnwys 14 o brentisiaid, ar gontractau cyfnod penodol a gafodd eu trosi wedyn yn rhai parhaol, gan ganiatáu i'r sefydliad neilltuo unigolion i rolau blaenoriaeth, cadw sgiliau a gwybodaeth a chynyddu'r budd o gadw'r amrywiaeth a oedd wedi'i gyflawni drwy'r recriwtio allanol. Er nad oedd hyn yn lleihau costau i'r sefydliad, fe wnaeth ddatrys risg a chreu mwy o sefydlogrwydd i dimau ac unigolion.

4. Aethom ati i adolygu ein dull o ymdrin â dyrchafiadau dros dro, gan leihau'r nifer sydd ar waith drwy'r sefydliad cyfan 60%.
5. Cafodd Cynllun Ymadael Gwirfoddol ei lansio, a gadawodd 91 o gydweithwyr y sefydliad.

Roedd **Newid Lleoedd** yn cynnwys adolygu ein hystad weinyddol er mwyn lleihau costau gweithredu, gan optimeiddio ein hystad ar yr un pryd, yn unol â'n dull tymor hwy o ymdrin â Gweithio'n Glyfar. Ymhlith y camau gweithredu allweddol roedd:

1. Er mwyn ein helpu i flaenoriaethu pobl a diogelu swyddi, cytunodd y Pwyllgor Gweithredol i gau swyddfa Bedwas a chynnal prosiect er mwyn helpu i adleoli staff i rannau eraill o'r ystad.
2. Daethom o hyd i arbedion gweithredol a oedd yn gysylltiedig â glanhau, systemau adeiladau a darpariaeth diogelwch ym mhob rhan o'n hystad, a gwnaethom roi'r arbedion hynny ar waith, gan arbed arian heb beryglu ein hymrwymiadau o ran iechyd na diogelwch.
3. Cynhaliwyd adolygiad ysgafn o'n swyddfeydd er mwyn ein galluogi i gefnogi'r sector cyhoeddus ehangach, a chytunodd y Pwyllgor Gweithredol i adolygu lefelau defnydd o swyddfeydd ac ystyried sut y gallwn optimeiddio ein hystad ymhellach.

   Newidiwyd y dyraniad desgiau i staff o 8:10 i 5:10, a oedd yn golygu bod 50% o'n hystad ar gael ar gyfer trefniadau cydleoli â chyrff cyhoeddus eraill. Mae hyn yn cyd-fynd ag egwyddorion craidd Un Gwasanaeth Cyhoeddus Cymru ac Ystadau Cymru o ran cydweithio ar draws y sector cyhoeddus i gyflawni'r egwyddorion a nodir yn Rheoli Arian Cyhoeddus Cymru[61]. Y nod cyffredinol yw sicrhau'r budd mwyaf i'r pwrs cyhoeddus drwy reoli asedau mewn modd rhagweithiol a chydweithredol.

   Yn ogystal, datblygwyd 10 o egwyddorion craidd ar gyfer strategaeth ystadau yn y dyfodol a'u cyflwyno i'r Pwyllgor Gweithredol i'w cadarnhau. Roedd hyn yn cynnwys egwyddor ynglŷn â dyraniadau posibl o ran desgiau i staff yn y dyfodol, h.y. 4:10 neu 3:10 gan barhau i fonitro'r

61 www.llyw.cymru/rheoli-arian-cyhoeddus-cymru

defnydd o swyddfeydd a defnyddio hynny'n sail i wneud penderfyniadau. Y ganran bresenoldeb gyfartalog ar draws yr ystad yw tua 25%. Nid yw'r Pwyllgor Gweithredol wedi gwneud unrhyw benderfyniadau i leihau'r gymhareb yn is na 5:10.

4. Parhawyd â thrafodaethau gyda'n partneriaid yn y sector cyhoeddus ynglŷn â chynyddu nifer y tenantiaid y gellir darparu ar eu cyfer o fewn ein hadeiladau, er mwyn hwyluso Un Gwasanaeth Cyhoeddus cymru a manteision ehangach i bwrs y wlad. O dan y llinyn optimeiddio yn y ffrwd waith Newid Lleoedd, daethom â thenantiaid i'r lle 'dros ben' a grëwyd gan ein gweithgaredd ad-drefnu o dan y llinyn rhesymoli. Yn 2024/25 roedd hyn yn golygu dod â nifer o denantiaid i'r ystad weinyddol gan gynnwys cyrff noddedig fel Comisiynydd y Gymraeg, Comisiwn Democratiaeth a Ffiniau Cymru a Medr, ymhlith eraill.
5. Gyda'i gilydd, arweiniodd y camau gweithredu hyn at gyfanswm arbedion o £1.67 miliwn yn 2024-25.

Helpodd **Newid Siâp** ni i ddatblygu gwell dealltwriaeth o'n cydweddiad staff a'n dulliau cyllido yn ogystal â'n helpu i fynegi beth fyddai natur rhagoriaeth yn y dyfodol. Drwy ffrwd waith Newid Siâp:

- Datblygwyd ein gweledigaeth strategol ar gyfer y sefydliad, sef 'Adeiladu Cymru Well drwy Gyflawni'n Rhagorol yn y Llywodraeth' er mwyn ein helpu i gyfleu ein nodau cyffredin ar gyfer y Gwasanaeth Sifil a phenderfynu ar y blaenoriaethau uniongyrchol ar gyfer trydydd cam LlC2025, sef y cam olaf.
- Datblygwyd dealltwriaeth ddyfnach o'r modd y mae ein carfan bresennol o staff yn cydweddu â blaenoriaethau Gweinidogol a swyddogaethau'r sefydliad. Roedd hyn yn cynnwys dadansoddiad o'r newydd o'r patrwm staff ar draws y proffesiynau ac o fewn grwpiau, i roi sicrwydd bod ein pobl yn canolbwyntio ar flaenoriaethau'r Rhaglen Lywodraethu a bod gennym y dosbarthiad cywir o sgiliau o fewn y meysydd blaenoriaeth hynny.

## Ffocws ar gyfer Cam 3: Cyflawni'n Rhagorol yn y Llywodraeth

Mae'r weledigaeth strategol a ddatblygwyd fel rhan o Newid Siâp yn canolbwyntio ar ddau faes, sef Cyflawni'n Rhagorol yn y Llywodraeth a Gweithredu'n Rhagorol yn y Llywodraeth. Mae **Cyflawni'n Rhagorol yn y Llywodraeth** yn cynnwys pedair elfen allweddol:

1. Parhau i ddarparu gwasanaethau statudol a hanfodol a sicrhau gwerth ar gyfer pobl Cymru.
2. Cyflawni'r pedair prif flaenoriaeth a nodwyd gan y Prif Weinidog a'r Cabinet:
   - Iechyd da
   - Swyddi a thwf gwyrdd
   - Cyfle i bob teulu
   - Cysylltu cymunedau
3. Cwblhau'r gwaith o gyflawni'r Rhaglen Lywodraethu.
4. Cyflawni'r Rhaglen Ddeddfwriaethol.

Mae **Gweithredu'n Rhagorol yn y Llywodraeth** yn canolbwyntio ar welliant parhaus. Y chwe maes blaenoriaeth a amlinellir ganddo yw'r blaenoriaethau cyflawni ar gyfer trydydd cam LlC2025, sef y cam olaf, a bwriedir iddynt ganolbwyntio ar weithgarwch sy'n helpu'r sefydliad i baratoi ar gyfer Diwygio'r Senedd a'r hyn a ddaw y tu hwnt i hynny. Mae'r chwe maes blaenoriaeth bellach yn chwe ffrwd waith o fewn rhaglen LlC2025 ac maent yn cynnwys:

1. Sicrhau ein bod yn barod ar gyfer Diwygio'r Senedd.
2. Gwella ein prosesau, ein systemau a'n data.
3. Creu lle gwell i bob un ohonom weithio.
4. Bod yn sefydliad sy'n galluogi newid ac yn annog gwelliant parhaus.
5. Ysgogi effeithlonrwydd, gwella llywodraethiant a grymuso.
6. Optimeiddio ein hystad.

Caiff pob ffrwd waith ei harwain gan Gyfarwyddwr a'i hategu gan ymgysylltu parhaus â staff. Gan adeiladu ar y gwaith sylfaenol a wnaed yng ngham dau i atgyfnerthu ein sefyllfa ariannol, bydd cam tri yn cynnwys ffocws sylweddol ar ddeallusrwydd artiffisial a digideiddio er mwyn inni allu dechrau tyfu'r sgiliau a'r gallu a fydd yn ein helpu i wella gwasanaethau ac ysgogi effeithlonrwydd. Bydd cam tri hefyd yn ein helpu i archwilio gwahanol ffyrdd o weithio gyda'n Gweinidogion a'r Senedd wrth baratoi ar gyfer y newidiadau mawr sydd i ddod. Drwy gydol y rhaglen, byddwn yn cynnal ein ffocws ar gefnogi ein pobl i gyd i berfformio hyd eithaf eu gallu, gan chwalu rhwystrau rhag cydraddoldeb a gwreiddio ein gwerthoedd.

O'r cychwyn cyntaf, mae LlC2025 wedi canolbwyntio ar alluogi gwelliant parhaus – o'n camau sylweddol cyntaf i faes deallusrwydd artiffisial LlC2025 drwy her Copilot ac atgyfnerthu sgiliau polisi hollbwysig drwy'r fframwaith polisi a'r rhaglen datblygu polisïau. Wrth i'r rhaglen nesáu at ei gam olaf, mae llawer i'w wneud o hyd, ond mae'r sefydliad mewn sefyllfa lawer cryfach oherwydd y camau gweithredu a gymerwyd a'r penderfyniadau a wnaed o ganlyniad uniongyrchol i LlC2025.

## Diwygio'r Senedd


Cafodd Deddf Senedd Cymru (Aelodau ac Etholiadau) Gydsyniad Brenhinol ym mis Mehefin 2024. Mae darpariaethau'r Ddeddf yn cynnwys cynyddu nifer Aelodau'r Senedd, newid y system etholiadol yn un sy'n gwbl seiliedig ar egwyddor cynrychiolaeth gyfrannol, creu 16 o etholaethau newydd i'r Senedd a darparu ar gyfer cynnal etholiadau'r Senedd bob pedair blynedd.

Cyhoeddodd Comisiwn Democratiaeth a Ffiniau Cymru[62] ei gynigion terfynol ar gyfer etholaethau newydd y Senedd ym mis Mawrth 2025 ac mae camau gan Weinidogion Cymru i wneud y rheoliadau gweithredu yn mynd rhagddynt. Cafodd canllawiau ar amrywiaeth a chynhwysiant i bleidiau gwleidyddol eu cyhoeddi ym mis Mawrth 2025, a chyflwynwyd tystiolaeth i ymchwiliadau'r Pwyllgor Safonau Ymddygiad i Atebolrwydd Aelodau Unigol o'r Senedd (Adalw a Dichell Fwriadol). Cyflwynwyd ymateb Llywodraeth Cymru i adroddiadau'r Pwyllgor.

Gan weithio fel rhan o Gam 3 LlC2025, mae paratoadau mewnol wedi parhau er mwyn sicrhau bod Llywodraeth Cymru yn barod ar gyfer Diwygio'r Senedd, gan gynnwys gwaith sydd â'r nod o symleiddio ein prosesau a gwella ein ffyrdd o weithio er mwyn helpu i ddelio â'r newid sylweddol hwn. Rydym hefyd wedi parhau i weithio gyda Chomisiwn y Senedd a phartneriaid cyflawni eraill er mwyn rhoi newidiadau angenrheidiol ehangach ar waith cyn yr etholiad ym mis Mai 2026.

62 Comisiwn Democratiaeth a Ffiniau Cymru | CDFfC

## Astudiaeth Achos: **Treial Copilot**



Mae Llywodraeth Cymru wedi treialu Copilot ers mis Medi 2023 drwy'r Rhaglen Mynediad Cynnar. Yn fwy diweddar, dan arweiniad Gwasanaeth Digidol y Llywodraeth, gwnaethom gymryd rhan yn y treial Microsoft Copilot trawslywodraethol mwyaf yn y DU a ddaeth i ben ym mis Rhagfyr 2024. Yn ystod y treial, cafodd Copilot ymateb da am gynorthwyo tasgau Cymraeg, gan gynnwys drafftio negeseuon e-bost, cyfieithu dogfennau, ac adolygu drafftiau. Dywedodd y defnyddwyr eu bod wedi arbed tua 30 munud y dydd ar gyfartaledd drwy ddefnyddio Copilot.

Y tair prif ffordd o ddefnyddio M365 Copilot oedd:

- Crynhoi cyfarfodydd ac eitemau gweithredu – nodi prif bwyntiau a chanlyniadau cyfarfodydd, eitemau gweithredu a chamau dilynol.
- Creu drafftiau cyntaf o ddogfennau – creu cynnwys cychwynnol ar gyfer mathau amrywiol o ddogfennau.
- Crynhoi data/dogfennau – tynnu gwybodaeth allweddol allan o ddogfennau mawr neu gymhleth.

Cyflwynwyd 20,000 o drwyddedau rhwng adrannau'r llywodraeth, ac roedd 1,500 o'n cydweithwyr ar flaen y gad ar y daith gyffrous hon. Rydym wedi cwblhau'r treial Copilot yn llwyddiannus, ac mae bellach ar gael i'w ddefnyddio drwy FyTG.

## Newid Hinsawdd – adroddiadau Llywodraeth Cymru ar yr ystad a chynaliadwyedd

Yn unol â'r sector cyhoeddus ehangach, rydym wedi cyhoeddi Strategaeth Sero Net Llywodraeth Cymru.[63] Mae Bwrdd Gweithredu'r Strategaeth ar waith er mwyn goruchwylio'r ffordd y caiff y Strategaeth ei chyflawni ac mae lleihad mewn allyriadau carbon wedi cael ei sicrhau. Mae gan y Bwrdd ffrydiau gwaith thematig a arweinir gan uwch-swyddogion sy'n bwrw ymlaen â'n cynlluniau lleihau carbon, sef:

- Adeiladau a Thir
- Trafnidiaeth a Seilwaith
- Y Gadwyn Gyflenwi
- Pobl a Datblygu a Busnes a Pholisïau Gweithio'n Glyfar

Rydym wedi pennu cynlluniau i gyflymu'r broses o ddatgarboneiddio ein hallyriadau gweithredol sy'n weddill, sef rhai Cwmpas 1 yn bennaf, ac rydym yn cymryd camau ar hyn o bryd er mwyn galluogi cyllid buddsoddi i arbed er mwyn gwireddu hyn.

Yng nghadwyn gyflenwi Llywodraeth Cymru y mae'r allyriadau carbon sylweddol sy'n weddill yn codi. Allyriadau Cwmpas 3 yw'r rhain, ac maent yn cyfrif am fwy nag 80 y cant o allyriadau. Mae gennym bortffolio o weithgareddau er mwyn gosod y sylfeini ar gyfer lleihau'r allyriadau hyn, gan gynnwys gweithgareddau rheoli carbon mewn contractau mawr sydd i ddod a threialu gweithio gyda chyflenwyr i gael adroddiadau carbon o gontractau mawr sydd ar waith ar hyn o bryd.

### Datblygu Cynaliadwy

Mae Llywodraeth Cymru yn dilyn egwyddor sefydledig o hybu datblygu cynaliadwy drwy Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, sy'n gosod ymrwymiad arnom i wneud datblygu cynaliadwy yn brif egwyddor drefniadol y llywodraeth. Mae hyn yn golygu bod datblygu cynaliadwy yn newid yr hyn rydym yn ei wneud a sut rydym yn gweithio er mwyn inni ddiwallu anghenion cenedlaethau presennol heb beryglu gallu cenedlaethau'r dyfodol i ddiwallu eu hanghenion hwythau. O ran adrodd ar gynaliadwyedd, mae hyn yn cynnwys adrodd ar gynnydd ein 50 o ddangosyddion llesiant cenedlaethol drwy Adroddiad Llesiant Cymru, ac Adroddiad Tueddiadau'r Dyfodol sy'n helpu llunwyr polisïau i ddeall dyfodol Cymru ac ymateb yn unol â hynny.

Mae'r Cynllun Dysgu a Gwella Parhaus yn dwyn ynghyd y camau gweithredu sydd gennym heddiw ac ar gyfer y dyfodol, sydd wedi'u cynllunio i ddyfnhau'r ddealltwriaeth o'r egwyddor datblygu cynaliadwy a chryfhau'r modd y caiff ei chymhwyso yn Llywodraeth Cymru. O ran newid hinsawdd a chynaliadwyedd, mae'r camau gweithredu yn cynnwys sefydlu rhwydwaith staff Byw'n Gynaliadwy i'n helpu i ddysgu mwy am sut y gallwn wneud dewisiadau mwy cynaliadwy a helpu i leihau ein hôl troed carbon gartref ac yn y swyddfa, a chyflwyno llwybrau datblygu i lunwyr polisïau allu cryfhau a gwella eu sgiliau, eu gwybodaeth a'u hymddygiadau o ran cymhwyso'r egwyddor datblygu cynaliadwy.

### Cyflwr yr Ystad

Mae camau gweithredu i fynd i'r afael â newid yn yr hinsawdd yn dal i fod yn rhan annatod o strategaeth gyffredinol Llywodraeth Cymru ar gyfer y gweithle a gwaith cynllunio i reoli asedau. Mae'r dull o wella perfformiad amgylcheddol yr ystad weinyddol yn cyflawni canlyniadau cadarnhaol iawn. Mae gostyngiadau sylweddol mewn allyriadau carbon ac ynni yn parhau i gael eu sicrhau, yn ogystal â lleihau faint o wastraff a anfonir i safleoedd tirlenwi a faint o ddŵr a ddefnyddir. Mae bioamrywiaeth hefyd yn cael ei gwella ym mhob rhan o'r ystad.

Mae system gadarn o gasglu data ynni/carbon, eu dadansoddi a gweithredu ar y data hynny ar waith. Mae ymdrechion i ddatgarboneiddio ystad swyddfeydd gweinyddol Llywodraeth Cymru yn parhau i sicrhau llwyddiant drwy leihau allyriadau carbon a defnydd ynni yn sylweddol dros y 13 mlynedd diwethaf.

63 www.llyw.cymru/sites/default/files/publications/2022-12/cynllun-strategol-sero-net-llywodraeth-cymru.pdf

Hyd at 31 Mawrth 2025, llwyddwyd i leihau allyriadau carbon 83%, sy'n rhoi cyfanswm ôl troed carbon diwygiedig o 2,132 tCO2.[64] ar gyfer yr ystad. Mae hyn yn cyfateb i leihad cyffredinol o 10,430 tunnell o $CO_2$ yng nghyfanswm allyriadau'r ystad dros y 13 mlynedd diwethaf, sy'n lleihad sylweddol. Rydym wedi lleihau allyriadau 6% yn 2024-25 o gymharu â 2023-24).[65]

Mae'r defnydd o nwy wedi lleihau 21% ers y flwyddyn flaenorol, o 5.8 o oriau gigawat i 4.6 o oriau gigawat. Mae'r defnydd o drydan wedi cynyddu 6% ers y flwyddyn flaenorol, o 5.8 o oriau gigawat i 6.2 o oriau gigawat. Rydym wedi parhau i ddefnyddio mesurau arbed ynni a roddwyd ar waith ar 31 Hydref 2022, megis diffodd y gwres mewn swyddfeydd am 15:00 ac, ym mis Chwefror 2024, gwnaethom ddileu'r gofyniad COVID-19 am aer ffres llawn a dim ailgylchu. Y mesurau hyn, ynghyd â rhaglen optimeiddio ynni gadarn, sy'n cyfrif am y lleihad yn y defnydd o nwy, a rhagwelir lleihad pellach yn y defnydd o nwy y flwyddyn nesaf. O ganlyniad i hynny, mae lleihad cyffredinol o 7% yn y defnydd o ynni wedi cael ei gyflawni yn ystod 2024-25.

Mae'r momentwm hwn yn parhau a bydd adroddiadau ar allyriadau yn y dyfodol yn cyd-fynd â Chynllun Adrodd Carbon Sero Net newydd y Sector Cyhoeddus yng Nghymru.[66] Mae llwybr wedi'i ddatblygu i gyflawni carbon sero net ar ystad weinyddol Llywodraeth Cymru erbyn 2030. Mae nifer o astudiaethau dichonoldeb wedi'u cwblhau ac, o'r astudiaethau hyn, mae rhaglen wedi'i blaenoriaethu wedi cael ei datblygu.

Mae'r rhaglen fuddsoddi sydd ei hangen i gyflawni amcan carbon sero net wedi cael ei hamcangyfrif. Mae prosiectau yn amrywio o bympiau gwres o'r awyr a goleuadau LED i solar ffotofoltäig. Mae mesuryddion solar ffotofoltäig wedi'u cysylltu â systemau rheoli adeilad er mwyn gallu monitro trydan adnewyddadwy oddi ar y safle.

Yn ystod 2024-25, roedd cynhyrchu trydan adnewyddadwy ar y safle yn cyfrif am 493 mwh drwy'r ystad gyfan.[67] Mae'r lleihad yn y defnydd o geir a'r allyriadau cysylltiedig mewn ymateb i gyfyngiadau COVID-19 yn y gweithle yn cynnig buddion amgylcheddol hirdymor sylweddol y bydd Llywodraeth Cymru yn anelu at eu gwireddu wrth iddi bontio i ffyrdd mwy cyfunol o weithio. Roedd prosiectau i wella bioamrywiaeth drwy'r ystad gyfan y flwyddyn hon yn cynnwys plannu mwy o flodau gwyllt brodorol, gwelyau blodau uwch a phyllau.

Lleihaodd cyfanswm y gwastraff 56% o 215 o dunelli i 94 o dunelli o gymharu â'r flwyddyn flaenorol.[68] Gostyngodd faint o wastraff sy'n cael ei anfon i safle tirlenwi 70% o 1 dunnell i 0.3 tunnell a dim ond 0.3% o gyfanswm y gwastraff ydyw. Mae'r gyfradd ailgylchu (gan gynnwys treulio anaerobig) yn dal yn uchel, sef 84% o gyfanswm y gwastraff.[69] Bu cynnydd o 36% yn y defnydd o ddŵr o gymharu â'r flwyddyn flaenorol, o 11,853$m^3$ i 16,126$m^3$ a chynnydd yn nifer y staff a aeth i'r swyddfeydd oedd yn gyfrifol am hyn.

64 Nwy Cwmpas 1 a thrydan Cwmpas 2.
65 Nid ydym wedi cyfrif am yr allyriadau a briodolwyd i'n tenantiaid yn 2024-25.
66 Canllaw sector cyhoeddus ar gyfer adrodd ar garbon sero-net | LLYW.CYMRU
67 Ni chyfrifir am drydan adnewyddadwy yng nghyfanswm y carbon oherwydd caiff ei ddosbarthu'n garbon niwtral. Serch hynny, mae wedi lleihau'r cynnydd mewn defnydd o drydan 6%.
68 Daeth y prosiect ad-drefnu gofod yn 2023-24 i ben cyn 2024-25, ac felly roedd y cyfanswm yn llai.
69 Roedd yr 13.7% o'r cyfanswm sy'n weddill yn cynnwys gwastraff wedi'i losgi, a ddefnyddiwyd i gynhyrchu ynni.

## Yr Wybodaeth Ddiweddaraf am Gynaliadwyedd

| Nwyon tŷ gwydr | 2020-21 | 2021-22 | 2022-23 | 2023-24 | 2024-25 |
|---|---|---|---|---|---|
| Cyfanswm yr Allyriadau Gros (tunelli cilo o $CO_2e$) | 3.5 | 3.0 | 2.8 | 2.2 | 2.1 |
| Cyfanswm yr Allyriadau Gros Cwmpas 1 Nwy (tunelli cilo o $CO_2e$) | 1.6 | 1.4 | 1.3 | 1.0 | 0.8 |
| Cyfanswm Allyriadau Gros Cwmpas 2 Trydan (tunelli cilo o $CO_2e$) | 1.8 | 1.5 | 1.5 | 1.2 | 1.2 |
| Trydan oriau gigawat | 8.1 | 7.3 | 7.9 | 5.8 | 6.2 |
| Nwy oriau gigawat | 8.8 | 7.9 | 7.3 | 5.8 | 4.6 |
| Trydan Adnewyddadwy oriau gigawat | – | – | – | – | 0.4 |
| Gwariant ar Ynni (£) | 2.5 | 2.1 | 1.9 | 3.9 | 2.7 |
| Lwfansau'r Ymrwymiad Lleihau Carbon | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| **GWASTRAFF (tunelli)** | **2020-21** | **2021-22** | **2022-23** | **2023-24** | **2024-25** |
| Cyfanswm y gwastraff | 50 | 72 | 74 | 215 | 94 |
| Tirlenwi | 1.1 | 1.4 | 0.5 | 1 | 0.3 |
| Troi Gwastraff yn Ynni | 15 | 10 | 13 | 29 | 14 |
| Ailddefnyddiwyd / Ailgylchwyd | 24 | 47 | 43 | 145 | 55 |
| Treulio Anaerobig Bwyd | 10 | 13 | 17 | 40 | 24 |
| **GWASTRAFF %** | **2020-21** | **2021-22** | **2022-23** | **2023-24** | **2024-25** |
| Tirlenwi | 2% | 2% | 0.5% | 0.4% | 0.3% |
| Troi Gwastraff yn Ynni | 29% | 14% | 18% | 13.6% | 14.7% |
| Ailddefnyddiwyd/Ailgylchwyd | 49% | 66% | 58% | 68% | 59% |
| Treulio Anaerobig Bwyd | 20% | 18% | 23% | 18% | 26% |
| **DŴR** | **2020-21** | **2021-22** | **2022-23** | **2023-24** | **2024-25** |
| $m^3$ y person y flwyddyn | 2.1 | 2.5 | 2.9 | 2.1 | 3.1 |

## Ein hymrwymiad i degwch a chynhwysiant

Yn Llywodraeth Cymru, rydym yn ymrwymedig i greu gweithle cadarnhaol a chefnogol lle y gall pawb ffynnu. Mae ein Strategaeth Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant y Gweithlu: 2021-2026[70] yn nodi'r camau pendant rydym yn eu cymryd i ddod yn sefydliad gwirioneddol gynhwysol, gyda gweithlu sy'n adlewyrchu amrywiaeth gyfoethog pobl a chymunedau yng Nghymru. Rydym am i bawb sy'n gweithio yn Llywodraeth Cymru deimlo eu bod yn cael eu cefnogi i wireddu eu potensial llawn. Ein harwyddeiriau yw tegwch a pharch. Ni chaiff gwahaniaethu o unrhyw fath ei oddef yma.

### Atgyfnerthu cynrychiolaeth y gweithlu

Rydym yn deall gwerth y gwahanol safbwyntiau, profiadau a hunaniaethau a geir gan weithlu amrywiol. Rydym yn ymrwymedig i fynd i'r afael â thangynrychiolaeth hanesyddol staff anabl a staff Du, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol yn ein gweithlu, a thangynrychiolaeth menywod mewn uwch-rolau arwain.

Dros y blynyddoedd diwethaf, rydym wedi cymryd camau ystyrlon i unioni'r anghydraddoldebau hyn. Er bod y cynnydd wedi bod yn arafach na'r hyn roeddem wedi'i obeithio ac er bod llawer mwy i'w wneud o hyd cyn i'n gweithlu adlewyrchu amrywiaeth y cymunedau a wasanaethir gennym yn llawn, mae'r camau cadarnhaol sydd wedi'u cymryd hyd yn hyn yn galonogol.

Ers 2021, rydym wedi gweld cynnydd mewn cyfraddau datblygiad gyrfa mewnol ar gyfer staff Du, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol, yn ogystal â chydweithwyr anabl. Mae cyfran y menywod yn yr Uwch-wasanaeth Sifil wedi cynyddu hefyd – o 43% i 48% yn ystod y flwyddyn ddiwethaf. Yn 2024, cawsom lwyddiant sylweddol wrth ddenu cronfa amrywiol o ymgeiswyr i'n hymgyrch recriwtio Cymorth Tîm allanol, diolch i strategaeth allgymorth gynhwysfawr a phroses asesu symlach a mwy cynhwysol. Ein bwriad yw parhau i adeiladu ar y momentwm hwn.

**Ymhlith y camau gweithredu i atgyfnerthu cynrychiolaeth y gweithlu mae'r canlynol:**

- Mae ein Gwasanaeth Addasiadau Recriwtio yn parhau i dyfu o ran effaith a chyrhaeddiad, gan gynnig addasiadau wedi'u teilwra ac arweiniad arbenigol i gefnogi ymgeiswyr anabl a niwrowahanol ac ymgeiswyr eraill a all wynebu rhwystrau anghymesur yn ystod y broses asesu.
- Ar ôl inni wrando ar ein staff a'n rhanddeiliaid, sefydlwyd adolygiad recriwtio er mwyn symleiddio prosesau a methodolegau asesu ac atgyfnerthu cynhwysiant, gan gynnal safonau tegwch a thryloywder ar yr un pryd.
- Buom yn gweithio gyda Chanolfan Polisi Cyhoeddus Cymru i gynnal trafodaeth bord gron gyda phartneriaid traws-sector er mwyn rhannu arferion gorau ac arloesedd ym maes allgymorth a recriwtio cynhwysol. Mae'r ddirnadaeth a gafwyd yn llywio'r adolygiad recriwtio.
- Parhawyd i hyrwyddo Llywodraeth Cymru fel cyflogwr delfrydol i grwpiau amrywiol, gan wella ein dull allgymorth a ffurfio cysylltiadau â chymunedau ledled Cymru a thu hwnt.
- Mae gwaith yn mynd rhagddo i wella ein systemau Adnoddau Dynol er mwyn inni allu sicrhau bod gennym ddata cywir, cadarn a dibynadwy ar y gweithlu i ddeall demograffeg ein sefydliad yn well a chadw golwg ar lefelau cynrychiolaeth yn haws.

70 Strategaeth cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant y gweithlu: 2021 i 2026 [HTML] | LLYW.CYMRU

## Datblygu gweithle cynhwysol

Mae gweithle cynhwysol yn atgyfnerthu llesiant cyflogeion, yn ysgogi arloesedd a chreadigrwydd, ac yn rhoi hwb i berfformiad a chyfraddau cadw. Yn Llywodraeth Cymru, rydym yn gweithio tuag at egwyddor 'cynhwysiant yn ddiofyn', lle y caiff arferion cynhwysol eu gwreiddio ym mhob agwedd ar ein ffordd o weithio – nid fel rhywbeth ychwanegol ond fel rhan o wneuthuriad y sefydliad.

## Hyrwyddo gwrth-hiliaeth

Fel y nodir yng Nghynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol[71], mae Llywodraeth Cymru yn ymrwymedig i ddod yn sefydliad gwrth-hiliol a helpu cyrff hyd braich i wneud hynny hefyd. Mae'r bennod wedi'i diweddaru ar arweinyddiaeth yn y Cynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol yn diffinio'r camau gweithredu y byddwn yn bwrw ymlaen â nhw fel cyflogwr ac fel arweinydd yn y sector cyhoeddus yng Nghymru. Mae bwrdd gweithredu mewnol wedi cael ei sefydlu i arwain ar gynnydd o ran y camau gweithredu, ac mae'r Is-grŵp Atebolrwydd Allanol yn ein dwyn i gyfrif am gyflawni.

Ar ddechrau 2024, penodwyd ymgynghoriaeth allanol i gynnal adolygiad o bolisïau ac arferion mewnol o safbwynt gwrth-hiliol. Roedd hwn yn adolygiad cynhwysfawr a barodd flwyddyn, ac roedd yn cynnwys adolygiadau llenyddiaeth, dadansoddiadau data, ymarferion meincnodi, cyfweliadau â staff a rhanddeiliaid, arolwg staff a gweithdai. Roedd ein Rhwydwaith Staff Ethnig Leiafrifol yn bartner allweddol, gan sicrhau bod safbwyntiau cydweithwyr Du, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol yn ganolog i'r adolygiad.

Cwblhawyd yr adolygiad yn ystod haf 2025, ac mae'n nodi cyfres o argymhellion i'w sefydliad eu rhoi ar waith er mwyn cyflawni ei uchelgeisiau ym maes gwrth-hiliaeth. Mae'r argymhellion yn ymdrin â phedair prif thema: llywodraethiant, llunio polisïau ac arweinyddiaeth strategol; cynnydd a datblygiad; diwylliant, ymddygiadau a chadw staff; a recriwtio a dethol. Mewn ymateb, rydym wedi datblygu 'Cynllun Gweithredu Sefydliad Gwrth-hiliol' sy'n nodi'r camau gweithredu clir a mesuradwy y bydd angen eu cymryd er mwyn ysgogi'r newidiadau a'r gwelliannau rydym am eu cyflawni dros y tair i bum mlynedd nesaf.

## Gwreiddio'r Model Cymdeithasol o Anabledd

Mae Llywodraeth Cymru wedi parhau i wreiddio'r model cymdeithasol o anabledd yn ei holl arferion mewnol. Mae'r model cymdeithasol yn cydnabod bod pobl ag amhariadau yn cael eu hanablu gan rwystrau ffisegol a sefydliadol sy'n gyffredin mewn cymdeithas, sy'n atal pobl anabl rhag cael eu cynnwys a rhag cymryd rhan ym mhob agwedd ar fywyd. Y model yw'r sail ar gyfer ein dull o ymdrin â chynhwysiant y gweithlu, gan sicrhau ein bod yn ystyried rhwystrau a all fod yn cael effaith negyddol ar staff yn y gweithle mewn ffordd gyfannol ac yn cydweithio â'n gilydd i'w dileu. Mae ein Tîm Addasiadau Recriwtio yn gweithio'n agos gyda chydweithwyr i gynnal asesiadau arbenigol o anghenion, gan sicrhau y bydd unigolion yn cael yr offer, yr adnoddau a'r cymorth y bydd eu hangen arnynt i fod ar eu gorau.

Ym mis Gorffennaf 2024, llwyddodd y sefydliad i adnewyddu ei achrediad Arweinydd Hyderus o ran Anabledd, gan ddilysu ein ffordd o weithredu a'n hymroddiad.

## Arferion Cynhwysol

Fel cyflogwr, rydym yn parhau i feincnodi yn erbyn safonau diwydiant ar gyfer cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant. Ymhlith yr achrediadau a gawsom a'r cynlluniau y gwnaethom ymaelodi â nhw ar gyfer 2024-25 mae Siarter Cyflogwyr dros Hil Busnes yn y Gymuned, achrediad Lefel 3 (Arweinydd) Hyderus o ran Anabledd, Cyflogwyr dros Ofalwyr, Cyflogwr sy'n Ystyriol o Endometriosis, achrediad Rhuban Gwyn ac Addewid Menopos y Gweithle. Yn ystod 2025-26, byddwn yn ystyried opsiwn achrediad Cyflogwr sy'n Ystyriol o Ffrwythlondeb.

Nid yn unig y mae'r cynnydd rydym yn ei wneud o ran atgyfnerthu arferion cynhwysol a dileu rhwystrau systemig yn helpu i wella canlyniadau ar gyfer grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol yn ein sefydliad, ond mae hefyd yn gwella profiadau ac yn arwain at fanteision i'r gweithlu cyfan.

71 Cynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol: diweddariad 2024 [HTML] | LLYW.CYMRU

## Rhwydweithiau amrywiaeth staff

Yn Llywodraeth Cymru, mae gennym gymuned fywiog o chwe rhwydwaith amrywiaeth staff. Maent yn eirioli dros eu haelodau ac yn cynnig amgylchedd cefnogol i gydweithwyr rannu profiadau a meithrin cydberthnasau. Mae Cyd-gadeiryddion y rhwydweithiau yn aelodau o'r Grŵp Llywio Amrywiaeth a Chynhwysiant, sy'n cyflawni rôl ganolog o ran llywodraethu cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant y gweithlu.

**Y rhwydweithiau yw:**

**Ymwybyddiaeth a Chymorth Anabledd –** Y rhwydwaith cymorth i staff anabl sydd hefyd yn rhoi cyngor ar effaith polisïau cyflogaeth, arferion ac amgylcheddau ar staff anabl yn unol â'r Model Cymdeithasol o Anabledd.

**Materion y Meddwl –** Y rhwydwaith staff ar gyfer cydweithwyr sydd â diddordeb mewn iechyd meddwl a llesiant, gan gynnwys staff sydd â phroblemau iechyd meddwl, staff sy'n rheoli problemau iechyd meddwl neu staff sy'n gofalu am rywun y mae problemau iechyd meddwl yn effeithio arno.

**Rhwydwaith y Staff Ethnig Lleiafrifol –** Y rhwydwaith ar gyfer staff Du, Asiaidd ac Ethnig Lleiafrifol sy'n rhoi sicrwydd o ran cydraddoldeb mewn perthynas â pholisïau ac sy'n helpu aelodau i wneud eu profiad o weithio i Lywodraeth Cymru yn un sy'n fuddiol i'n cymunedau ac sy'n datblygu unigolion. Mae'r Rhwydwaith yn gweithio'n agos gyda'r sefydliad ar yr uchelgais o fod yn wrth-hiliol.

**Y Rhwydwaith Niwrowahaniaeth** Mae'n cefnogi cydweithwyr niwrowahanol ym mhob rhan o'r sefydliad ac yn gwella dealltwriaeth o'r ffordd y mae niwrogynhwysiant yn gwella'r gweithle i bawb.

**PRISM –** Y rhwydwaith staff ar gyfer cyfeiriadedd rhywiol a hunaniaeth rhywedd sy'n cefnogi staff sy'n nodi eu bod yn lesbiaidd, yn hoyw, yn ddeurywiol, yn draws neu'n rhywedd-amrywiadol.

**Menywod Ynghyd –** Nodau'r rhwydwaith yw sicrhau llais unedig ynglŷn â'r materion sy'n wynebu menywod ym mhob rhan o'r sefydliad a helpu menywod i gyflawni eu potensial llawn o fewn Llywodraeth Cymru.

Mae gan Lywodraeth Cymru hefyd amrywiaeth o grwpiau staff anffurfiol sy'n cynnig arweiniad a chymorth cymheiriaid gwerthfawr i'w haelodau.

## Adrodd ar Gyflog Cyfartal a'r Bwlch Cyflog Cydraddoldeb

Mae Llywodraeth Cymru yn cynnal archwiliadau cyflog cyfartal rheolaidd sydd â'r nod o dynnu sylw at feysydd lle y ceir risg sy'n gysylltiedig â chyflog cyfartal yn y system gyflogau a llywio'r camau a gymerwn i sicrhau cyflog cyfartal.

## Rhywedd

Bwlch cyflog rhywedd cymedrig[72] Llywodraeth Cymru ar 31 Mawrth 2025 yw 4.73%. Mae hyn yn golygu bod dynion sy'n gweithio yn y sefydliad yn ennill 4.73% yn fwy na menywod ar gyfartaledd. Ar 31 Mawrth 2025, bwlch cyflog canolrifol Llywodraeth Cymru yw 4.82%, sy'n golygu nad yw cyflog canolrifol dynion a menywod sy'n gweithio yn Llywodraeth Cymru yr un peth mwyach. Mae bwlch cyflog rhywedd Llywodraeth Cymru wedi lleihau ychydig i 4.73% ym mis Mawrth 2025 o 6.08% ym mis Mawrth 2024. Dyma'r bwlch cyflog lleiaf ers i'n cyfres amser ddechrau yn 2019.

## Anabledd

Bwlch cyflog anabledd cymedrig Llywodraeth Cymru ar 31 Mawrth 2025 yw 4.69%. Mae hyn yn golygu bod pobl nad ydynt yn anabl yn ennill 4.69% yn fwy na phobl sy'n anabl, ar gyfartaledd. Ar 31 Mawrth 2025, bwlch cyflog anabledd canolrifol Llywodraeth Cymru oedd 4.82%. Mae bwlch cyflog anabledd Llywodraeth Cymru wedi cynyddu i 4.69% ym mis Mawrth 2025, o 4.10% ym mis Mawrth 2024. Er gwaethaf y cynnydd hwn, mae'n dal yn llai na'r holl flynyddoedd eraill ers i'r gyfres amser ddechrau yn 2019 ac mae wedi bod yn lleihau dros amser ar y cyfan.

## Ethnigrwydd

Bwlch cyflog ethnigrwydd cymedrig Llywodraeth Cymru ar 31 Mawrth 2025 yw 4.13%. Mae hyn yn golygu bod pobl sydd o gefndir Gwyn yn ennill 4.13% yn fwy na phobl sydd o gefndir Du, Asiaidd neu Ethnig Leiafrifol, ar gyfartaledd. Ar 31 Mawrth 2025, bwlch cyflog ethnigrwydd canolrifol Llywodraeth Cymru oedd 4.82%. Gwelwyd cynnydd bach ym mwlch cyflog ethnigrwydd Llywodraeth Cymru ym mis Mawrth 2025 (4.13%) o gymharu â'r flwyddyn flaenorol (3.78%). Cynyddodd y bwlch cyflog ethnigrwydd rhwng 2019 a 2021, cyn lleihau rhwng 2021 a 2024.

Ceir gwybodaeth ychwanegol am weithgarwch cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant Llywodraeth Cymru fel cyflogwr, adroddiadau ar y bwlch cyflog rhywedd a rhagor o fanylion am yr ystadegau cysylltiedig yn ein Hadroddiad Cydraddoldeb Cyflogwr Blynyddol.[73] Yn 2022, gwnaethom ddechrau cyhoeddi bylchau cyflog anabledd ac ethnigrwydd ac, yn 2023, gwnaethom gyhoeddi ein bwlch cyflog cyfeiriadedd rhywiol am y tro cyntaf. Caiff yr wybodaeth hon ei chyhoeddi flwyddyn ar ei hôl hi ar wefan Llywodraeth Cymru erbyn 31 Mawrth bob blwyddyn.

72 Mae'r bwlch cyflog rhywedd yn wahanol i gyflog cyfartal. Ymdrinnir â chyflog cyfartal yn Neddf Cydraddoldeb 2010, sy'n ei gwneud yn ofynnol i ddynion a menywod gael eu talu yr un peth am waith o werth cyfartal. Y bwlch cyflog rhywedd yw'r gwahaniaeth rhwng cyflog cyfartalog dynion a menywod mewn sefydliad.

73 www.llyw.cymru/sites/default/files/publications/2025-04/adroddiad-cydraddoldeb-cyflogwr-2023-i-2024-llywodraeth-cymru.pdf

## Cefnogi Iechyd, Diogelwch a Llesiant

Mae iechyd, diogelwch a llesiant ein staff yn flaenoriaeth graidd o hyd. Sefydlwyd Bwrdd Cynghori newydd ar Iechyd, Diogelwch a Llesiant yn ystod gwanwyn 2024. Mae'r Bwrdd, a gaiff ei gadeirio gan y Prif Swyddog Gweithredol ac sy'n cynnwys cynrychiolwyr o bob rhan o'r sefydliad ac undebau llawer, yn cyfarfod yn rheolaidd i gynnig arweinyddiaeth ac atebolrwydd ynghylch materion sy'n ymwneud ag iechyd, diogelwch a llesiant.

Yn ystod y 12 mis diwethaf, rydym wedi gwneud y canlynol:

- Rhoi sicrwydd ynghylch ystadegau damweiniau ac adroddiadau ar ddamweiniau y bu ond y dim iddynt ddigwydd.
- Cynnal archwiliad dwfn o iechyd meddwl, gan gynnwys adolygiad o'r amrywiaeth o gymorth sydd ar gael i gyflogeion a rheolwyr llinell.
- Adolygu tueddiadau o ran absenoldeb oherwydd salwch a'r broses ar gyfer rheoli absenoldeb.
- Cynnal archwiliad dwfn o arferion gweithio'n unigol.

Mae amrywiaeth o wasanaethau cymorth llesiant ar gael i bob cyflogai. Gall ein darparwyr iechyd galwedigaethol argymell amrywiaeth o addasiadau a therapïau i gynorthwyo'r staff, gan gynnwys sesiynau cwnsela a therapi gwybyddol ymddygiadol. Hefyd, mae llinell gymorth 24/7 ar gael i bob aelod o staff yn ogystal â chymorth gan gymheiriaid drwy ein Cynghreiriaid Iechyd Meddwl. Gall cyflogeion gael asesiadau ar gyfer cyfarpar sgrin arddangos a phrofiad llygaid am ddim.

Mae ein ffocws ar lesiant ariannol ein cyflogeion wedi cynyddu dros y blynyddoedd diwethaf ac rydym bellach yn cyfeirio staff at amrywiaeth o wybodaeth a chymorth er mwyn eu helpu nhw a'u teuluoedd i wneud i'w harian fynd ymhellach. Mae hyn yn cynnwys gwybodaeth am sut i feithrin gwydnwch ariannol, partneriaethau gydag undebau credyd lleol er mwyn i staff allu cynilo'n uniongyrchol o'u cyflog, digwyddiadau wyneb yn wyneb ac ar-lein rheolaidd ar wahanol agweddau ar lesiant ariannol a chyfeirio at sefydliadau arbenigol sy'n gallu cynnig cymorth ar gyfer gwahanol faterion.

# Gweithio'n Ddwyieithog

Mae Llywodraeth Cymru wedi nodi ei gweledigaeth ar gyfer y Gymraeg yn y strategaeth 'Cymraeg 2050 – Miliwn o siaradwyr'.[74] Rydym yn ymrwymedig i sicrhau y bydd miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050 a chynyddu'r defnydd o'r iaith yn sylweddol. Fel sefydliad, mae gennym rôl i'w chyflawni er mwyn cyfrannu at wireddu'r weledigaeth hon, drwy sicrhau y gall ein gweision sifil ddefnyddio a datblygu eu sgiliau Cymraeg, a sicrhau bod ein polisïau a'n deddfwriaeth yn prif ffrydio ein hamcan i hyrwyddo'r Gymraeg.

Cyhoeddwyd ein strategaeth ar gyfer y defnydd mewnol o'r Gymraeg, sef 'Cymraeg. Mae'n perthyn i ni i gyd'[75] ym mis Ebrill 2020. Yn ystod y pum mlynedd cyntaf, rydym wedi gwneud cynnydd o ran rhoi ei hamcanion ar waith i ddod yn weithle gwirioneddol ddwyieithog erbyn 2050, yn weithle lle mae'n beth arferol i'r Gymraeg a'r Saesneg gael eu defnyddio fel ieithoedd gwaith, yn gyfnewid am ei gilydd ac yn naturiol.

Yn y tymor byrrach, pennwyd amcan i ddod yn sefydliad sy'n esiampl o ran ein defnydd o'r iaith o gymharu â sefydliadau eraill yn y sector cyhoeddus. I gyflawni hyn, mae pedair thema wedi bod wrth wraidd y broses o roi'r strategaeth ar waith yn ystod y pum mlynedd cyntaf: dysgu, arweinyddiaeth, recriwtio a thechnoleg.

## Dysgu

Rydym wedi cynyddu ac ehangu ein rhaglen dysgu Cymraeg, gan arwain at ddarpariaeth fwy amrywiol a hygyrch a denu mwy o ddysgwyr i'r rhaglen. Ym mis Mai 2020, roedd 76 o ddysgwyr yn dilyn rhaglen dysgu Cymraeg ffurfiol yn Llywodraeth Cymru ond, erbyn 2024, bu cynnydd o 758% yn nifer y dysgwyr a oedd yn dilyn un o'r 14 o opsiynau dysgu ffurfiol.

## Arweinyddiaeth

Mae ein Huwch Weision Sifil yn arwain drwy esiampl drwy fodelu ymddygiad ac arferion da yn eu defnydd o'r Gymraeg. Yn ychwanegol at y cynnydd yn y niferoedd sy'n dysgu Cymraeg ac yn datblygu eu sgiliau (25% yn ystod 2024-25), gwelir bod llawer mwy bellach yn defnyddio'r Gymraeg sydd ganddynt mewn cyfarfodydd a chyflwyniadau; mae arweinyddiaeth gadarn Gweinidogion a'r Ysgrifennydd Parhaol wedi bod yn amhrisiadwy yn hyn o beth.

## Recriwtio

Rydym wedi ailddrafftio'r ffordd y caiff sgiliau Cymraeg eu disgrifio yn ein dogfennau recriwtio, gan bwysleisio gwerth y Gymraeg fel ased i'r sefydliad, waeth beth fo'r swydd. Yn ystod 2024-25, gwnaethom barhau â'r rhaglenni dysgu dwys ar gyfer pob prentis ac aelod newydd o'r Uwch Wasanaeth Sifil wrth iddynt ymuno â'r sefydliad.

## Technoleg

Ym maes technoleg, mae cyfleuster cyfieithu ar y pryd o fewn Microsoft Teams wedi cael ei hyrwyddo'n eang, ac mae canllawiau ar ddefnyddio Microsoft Translator wedi cael eu datblygu a'u rhannu'n eang â'r staff fel adnodd i hwyluso gweithio'n ddwyieithog er mwyn lleihau ein dibyniaeth ar wasanaethau cyfieithu. Rydym hefyd wedi gweithio i sicrhau ei bod yn hawdd i siaradwyr Cymraeg ddefnyddio opsiynau Cymraeg ar eu gliniaduron drwy ddatblygu'r ap newydd 'Cymraeg mewn Clic' ar gyfer staff – sy'n rhoi rhyngwyneb Microsoft Cymraeg i'r staff mewn dim ond un clic.

Wrth inni gyrraedd diwedd cam cyntaf y Strategaeth, byddwn yn cyhoeddi amcanion newydd ar gyfer cyfnod 2025-2030 dros y misoedd nesaf.

Yn unol â'n dyletswyddau statudol, rydym yn cyhoeddi adroddiad blynyddol ar ein cydymffurfiaeth â Safonau'r Gymraeg. Mae ein hadroddiad ar gyfer 2024-25 ar gael ar wefan Llywodraeth Cymru.[76]

---

74 Cymraeg 2050: strategaeth y Gymraeg | LLYW.CYM
75 Cymraeg. Mae'n perthyn i ni i gyd [HTML] | LLYW.CYMRU
76 Adroddiad blynyddol Llywodraeth Cymru ar gydymffurfio gyda Safonau'r Gymraeg 2024 i 2025 [HTML] | LLYW.CYMRU

## Gohebiaeth a Chwynion

Mae gan Lywodraeth Cymru bolisi cwyno clir a thryloyw sy'n esbonio'r ffordd rydym yn ymdrin â chwynion gan aelodau o'r cyhoedd neu sefydliadau eraill. Rydym wedi mabwysiadu arferion gorau o ran ymdrin â chwynion yn unol â'r polisi cwyno a chanllawiau enghreifftiol a gyhoeddwyd gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru.

Tîm Cynghori ar Gwynion Llywodraeth Cymru sy'n gyfrifol am sicrhau y dilynir y polisi a'r weithdrefn gwyno yn gyson ac yn deg drwy roi cyngor ac arweiniad i swyddogion ar ymdrin â chwynion. Mae hyn yn cynnwys cynghori ar gynnydd ac amserlenni a phwysleisio pwysigrwydd ymateb i gwynion yn unol â'r terfyn amser y cytunwyd arno.

Yn ystod blwyddyn ariannol 2024-25, cafodd Tîm Cynghori ar Gwynion Llywodraeth Cymru gyfanswm o 57 o gwynion. Mae Llywodraeth Cymru yn gweithredu Dangosydd Perfformiad Allweddol (DPA) sy'n seiliedig ar gyfradd ymateb o 85% o fewn yr amserlen y cytunwyd arni. Dylai cwynion Cam 1 (anffurfiol) gael eu hystyried a'u datrys o fewn 10 diwrnod gwaith. Dylai cwynion Cam 2 (ffurfiol) gael eu hystyried a'u datrys o fewn 20 diwrnod gwaith.

Mae'r tabl isod yn dangos amseroedd ymateb ar gyfer y pedair blynedd diwethaf:

| | Cyfanswm nifer y cwynion a ddaeth i law | Yr ymatebion a roddwyd | A gafodd ymateb o fewn y terfyn amser y cytunwyd arno | % a gafodd ymateb o fewn y terfyn amser y cytunwyd arno |
|---|---|---|---|---|
| Ebrill 2021 – Mawrth 2022 | 90 | 88 | 66 | 75% |
| Ebrill 2022 – Mawrth 2023 | 54 | 66 | 39 | 59% |
| Ebrill 2023 – Mawrth 2024 | 103 | 101 | 72 | 73% |
| Ebrill 2024 – Mawrth 2025 | 57 | 57 | 47 | 82% |

Caiff amserlenni ymateb i gwynion eu monitro bob mis a'u rhannu â swyddogion arweiniol sy'n adrodd ar gwynion o fewn pob grŵp ac yn eu monitro, gan olygu y gellir uwchgyfeirio ymatebion hwyr a phroblemau eraill sy'n ymwneud â darparu gwasanaethau a chymryd camau i wella perfformiad.

Gall ffactorau megis pa mor gymhleth yw'r gŵyn, neu pa mor fanwl y mae angen ymchwilio iddi, ymateb ar amseroedd ymateb. Ymatebodd Tîm Cynghori ar Gwynion Llywodraeth Cymru i 24 o gwynion Cam 1 o fewn 10 diwrnod a 23 o gwynion Cam 2 o fewn 20 diwrnod. Pan gaiff terfyn amser cwyn ei estyn oherwydd hyd neu gymhlethdod yr ymchwiliad, rhoddir gwybod i'r achwynydd a rhoddir yr wybodaeth ddiweddaraf iddo drwy gydol y broses, yn unol â model Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru.

Nid yw Adroddiad Blynyddol Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru wedi cael ei gyhoeddi eto, ond mae'n hysbys bod y Tîm Cynghori wedi atgyfeirio 30 o gwynion at yr Ombwdsmon yn ystod y flwyddyn ariannol ddiwethaf.[77] Gall unigolyn gysylltu â'r Ombwdsmon yn uniongyrchol ynglŷn ag unrhyw beth y mae'n anfodlon arno, ond bydd yr Ombwdsmon fel arfer yn disgwyl i'r mater fod wedi bod drwy broses y sefydliad ei hun cyn ei ystyried. O'r 30 o gwynion a atgyfeiriwyd at yr Ombwdsmon, roedd 11 yn gwynion cynamserol nad oeddent wedi bod drwy broses gwyno Llywodraeth Cymru; nid ymchwiliwyd i 10 ohonynt, roedd 7 yn faterion a oedd y tu allan i awdurdodaeth yr Ombwdsmon, a chafodd 2 eu datrys yn gynnar.

77 Yn hanesyddol, mae adroddiadau Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru ar gyfer Llywodraeth Cymru wedi cynnwys cyrff hyd braich Llywodraeth Cymru yn ogystal â Llywodraeth Cymru, ac felly mae'r ffigurau yn adroddiad yr Ombwdsmon yn tueddu i fod yn uwch.

Mae'r tabl isod yn dangos cyfanswm yr achosion a gaewyd gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru dros y pum mlynedd diwethaf:

| Blwyddyn | Achosion |
|---|---|
| 2020-21 | 5 |
| 2021-22 | 1 |
| 2022-23 | 2 |
| 2023-24 | 17* |
| 2024-25 | 30 |

* wedi'i ailddatgan ar gyfer gwell dulliau adrodd fel y nodir isod

Mae'n bosibl y bydd nifer y cwynion a gofnodir fel rhai a gaewyd gan yr Ombwdsmon yn ymddangos yn fwy yn sgil rhoi dulliau adrodd mwy cywir ar waith a gwell cydweithio ag Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru. Mae'r gwelliant hwn yn golygu bod modd cofnodi cwynion yn fwy manwl gywir, gan sicrhau y cofnodir pob cwyn ac yr eir i'r afael â hi'n ddigonol. Nid yw'r cynnydd hwn yn arwydd o gynnydd sydyn yn nifer y cwynion gwirioneddol a ddaeth i law, ond mae'n adlewyrchu ein hymrwymiad i fod yn dryloyw ac yn drylwyr. Wrth i'n hymdrechion barhau, mae'n bosibl y bydd nifer y cwynion a gofnodir yn codi eto y flwyddyn nesaf, a ddylai gael ei ystyried yn arwydd cadarnhaol o'n hymroddiad parhaus i dryloywder a dogfennu manwl gywir, yn hytrach na thestun pryder.

# Adroddiad Atebolrwydd 2024-25



Diben yr adroddiad atebolrwydd yw bodloni gofynion atebolrwydd allweddol i'r Senedd, sef prif ddefnyddiwr yr adroddiad blynyddol a'r cyfrifon.

Mae'r adroddiad atebolrwydd wedi'i rannu'n adrannau fel a ganlyn:

- Adroddiad Llywodraethiant Corfforaethol
- Colledion, Taliadau Arbennig a Datgelu Rhoddion
- Adroddiad Cydnabyddiaeth Ariannol a Staff
- Crynodeb o'r Alldro Adnoddau
- Tystysgrif ac Adroddiad Archwilydd Cyffredinol Cymru

## Adroddiad Llywodraethiant Corfforaethol

Diben yr adroddiad llywodraethiant corfforaethol yw esbonio cyfansoddiad a threfniadaeth strwythurau llywodraethiant yr endid a sut y maent yn cynorthwyo i gyflawni ei amcanion. Mae'r adroddiad llywodraethiant corfforaethol yn cynnwys Datganiad o Gyfrifoldebau'r Swyddog Cyfrifyddu a'r datganiad llywodraethiant. Fel arfer byddai'n cynnwys adroddiad cyfarwyddwr ond mae'r agweddau hynny a fyddai mewn adroddiad cyfarwyddwr yn cael eu datgelu mewn mannau eraill yn y cyfrifon cyfunol.

## Datganiad o Gyfrifoldebau'r Swyddog Cyfrifyddu

O dan Adran 131 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, mae'n ofynnol i Weinidogion Cymru baratoi cyfrifon adnoddau cyfunol blynyddol yn unol â chyfarwyddyd Trysorlys EF yn nodi'r adnoddau sydd wedi'u caffael, eu dal neu eu gwaredu a'r defnydd o adnoddau yn ystod y flwyddyn gan Lywodraeth Cymru a chyrff cyhoeddus eraill a ddynodwyd yng ngrŵp Llywodraeth Cymru ac a restrir yn y nodiadau i'r cyfrifon hyn. Mae'r cyfrifon yn cael eu paratoi ar sail croniadau a rhaid iddynt roi darlun cywir a theg o faterion Llywodraeth Cymru a'r grŵp, ac o incwm a gwariant, Datganiad o Sefyllfa Ariannol a llifoedd arian parod y grŵp ar gyfer y flwyddyn ariannol.

Y Prif Swyddog Cyfrifyddu ar ran Gweinidogion Cymru biau'r cyfrifoldeb dros drefniadaeth gyffredinol, rheolaeth a staffio Llywodraeth Cymru. Mae hyn yn cynnwys cyfrifoldeb dros systemau Llywodraeth Cymru ar gyfer cyllid a materion eraill, a thros reoli gofyniad net Llywodraeth Cymru am arian parod. Y Prif Swyddog Cyfrifyddu sy'n gyfrifol hefyd am baratoi a llofnodi cyfrif adnoddau cyfunol Llywodraeth Cymru.

Wrth baratoi'r cyfrifon, mae'n ofynnol i'r Prif Swyddog Cyfrifyddu gydymffurfio â gofynion Llawlyfr Adroddiadau Ariannol (FReM) y Llywodraeth ac, yn arbennig:

- parchu'r Cyfarwyddyd Cyfrifon a gyhoeddir gan y Trysorlys, gan gynnwys gofynion perthnasol o ran cyfrifyddu a datgelu, a chymhwyso polisïau cyfrifyddu addas yn gyson;
- sicrhau bod gan Lywodraeth Cymru systemau a gweithdrefnau priodol a dibynadwy i gyflawni'r broses gydgrynhoi;
- gwneud dyfarniadau ac amcangyfrifon ar sail resymol, gan gynnwys y dyfarniadau sydd ynghlwm wrth gydgrynhoi'r wybodaeth gyfrifyddu a ddarperir gan gyrff cyhoeddus eraill yn y grŵp;
- datgan a yw'r safonau cyfrifyddu cymwys, fel y'u nodir yn FReM, wedi'u dilyn, a datgelu ac esbonio unrhyw wyriadau perthnasol yn y cyfrifon;
- paratoi'r cyfrifon ar sail busnes gweithredol; a
- chadarnhau bod yr Adroddiad Blynyddol a'r Cyfrifon yn eu crynswth yn deg, yn gytbwys ac yn ddealladwy a chymryd cyfrifoldeb personol dros yr Adroddiad Blynyddol a'r Cyfrifon a'r farn sy'n ofynnol ar gyfer penderfynu eu bod yn deg, yn gytbwys ac yn ddealladwy.

O dan Adran 133(2) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, mae'r Prif Swyddog Cyfrifyddu yn gallu dynodi aelodau eraill o staff Llywodraeth Cymru yn Swyddogion Cyfrifyddu Ychwanegol. Mae hefyd yn dynodi Prif Weithredwr y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (GIG) yn Swyddog Cyfrifyddu'r GIG yng Nghymru. Mae gwaith y Byrddau Iechyd Lleol, y Byrddau Iechyd Arbennig ac Ymddiriedolaethau'r GIG yng Nghymru yn cael ei lywodraethu drwy awdurdod ar wahân ac mae Prif Weithredwyr pob un o'r Byrddau Iechyd Lleol ac Ymddiriedolaethau'r GIG yn cael eu penodi'n Swyddogion Atebol gan Brif Weithredwr y GIG yng Nghymru. Nid yw'r penodiadau hyn yn tynnu oddi ar gyfrifoldeb cyffredinol y Prif Swyddog Cyfrifyddu dros gyfrifon Llywodraeth Cymru.

Mae'r Prif Swyddog Cyfrifyddu (neu Swyddogion Cyfrifyddu Ychwanegol, ar ei ran) wedi dynodi Prif Weithredwyr (neu swyddogion cyfatebol) Cyrff Cyhoeddus Cymru yn Swyddogion Cyfrifyddu'r cyrff hynny. Mae'r Prif Swyddog Cyfrifyddu yn gyfrifol am sicrhau bod systemau a rheolaethau ar waith i sicrhau bod unrhyw grantiau y mae Llywodraeth Cymru yn eu rhoi i Gyrff Cyhoeddus Cymru yn cael eu defnyddio at y dibenion a fwriedir. Mae'n gyfrifol hefyd am sicrhau bod modd cyfrif yn briodol am y gwariant hwnnw ac incwm a gwariant arall y cyrff hynny o fewn y cyfrifon adnoddau. O dan y telerau penodi, mae Swyddogion Cyfrifyddu Cyrff Cyhoeddus Cymru yn atebol am y defnydd a wneir o'r grantiau a dderbynnir, gan gynnwys rheoleidd-dra a phriodoldeb, ac am incwm a gwariant arall y cyrff hynny.

Mae cyfrifoldebau Swyddog Cyfrifyddu, gan gynnwys y cyfrifoldeb dros briodoldeb a rheoleidd-dra'r arian cyhoeddus y mae'r Swyddog Cyfrifyddu'n atebol amdano, dros gadw cofnodion priodol a thros ddiogelu asedau Llywodraeth Cymru neu'r corff Cyhoeddus Cymreig y mae'r swyddog cyfrifyddu'n atebol iddo, wedi'u nodi yn Rheoli Arian Cyhoeddus Cymru a gyhoeddir gan Lywodraeth Cymru.

## Datgelu Gwybodaeth i Archwilwyr

Fel Prif Swyddog Cyfrifyddu, rwyf wedi cymryd yr holl gamau y dylwn fod wedi'u cymryd i sicrhau fy mod yn ymwybodol o unrhyw wybodaeth archwilio berthnasol ac i sicrhau bod Archwilydd Cyffredinol Cymru yn gwybod am yr wybodaeth honno. Hyd eithaf fy ngwybodaeth, nid oes unrhyw wybodaeth archwilio berthnasol nad yw'r Archwilydd Cyffredinol yn ymwybodol ohoni.

**Dr Andrew Goodall CBE**
Ysgrifennydd Parhaol a Phrif Swyddog Cyfrifyddu

11 Rhagfyr 2025

# Datganiad Llywodraethiant



## Cyflwyniad

Rwyf yn gyfrifol am sicrhau bod safonau uchel o uniondeb yn y ffordd y rheolir arian cyhoeddus. Wrth gyflawni'r ddyletswydd hon, rwyf yn gyfrifol am gynnal system gadarn o reolaeth fewnol sy'n cynorthwyo i gyflawni polisïau, nodau ac amcanion Gweinidogion Cymru, ac sy'n hwyluso arfer swyddogaethau Gweinidogion Cymru yn effeithiol, gan gynnwys trefniadau effeithiol ar gyfer rheoli risg.

Yn ystod 2024-25, fel sefydliad, rydym wedi gorfod addasu i newidiadau wrth gefnogi'r Prif Weinidog a'r Cabinet newydd i gyflawni amcanion y Rhaglen Lywodraethu ac olrhain cynnydd ac adrodd i'r Cabinet. Rydym wedi cymryd camau i sicrhau ein bod yn y sefyllfa gryfaf bosibl i ymateb i Ddiwygio'r Senedd, tra'n parhau i fwrw ymlaen â'n Rhaglen LlC2025 sy'n cefnogi newid ar draws y sefydliad. Rwyf wedi amlinellu rhai o'r canlyniadau diriaethol yr ydym wedi'u cyflawni yn yr Adroddiad Perfformiad.

Fe wnaethom gynnal ein Harolwg Pobl blynyddol ac, er gwaethaf yr heriau yr ydym wedi'u hwynebu, mae ein sgoriau ymgysylltu wedi codi i'w lefel uchaf erioed, ac rydym wedi perfformio'n uwch na meincnod y DU ym mhob cwestiwn bron. Mae gwelliannau mewn rhai o'r meysydd allweddol yn cynnwys ein gwaith i ddod yn sefydliad mwy cynhwysol lle y gall pawb deimlo'n ddiogel i herio. Mae gennym bellach y lefelau isaf o fwlio ac aflonyddu yng ngwasanaeth sifil cyfan y DU.


Rydym wedi rheoli pwysau ariannol a chyllidebol anodd sy'n deillio o chwyddiant a phwysau costau byw drwy ein prosesau mewnol a'n mecanweithiau llywodraethiant, gan gynnwys cynorthwyo'r Cabinet i wneud penderfyniadau. Roedd hyn yn cynnwys newid cyflym o reolaeth ariannol yn ystod y flwyddyn i'r broses arfaethedig o bennu cyllideb ar gyfer 2025-26. Mae adnoddau yn dal yn dynn ond mae gennym gyfle i gynllunio i ddod o hyd i ffyrdd o weithio'n fwy effeithiol i greu capasiti ar gyfer ein blaenoriaethau. Er mwyn cefnogi'r gwaith o gyflawni gwell effeithlonrwydd, byddwn yn parhau i weithio gyda'r Cabinet ar y dewisiadau heriol i'w gwneud o fewn y gyllideb a ddyrannwyd i fuddsoddi mewn adnewyddu a thrawsnewid systemau TG etifeddol a phrosesau ategol, megis drwy Drawsnewid Gwasanaethau Corfforaethol fel rhan o LlC2025.

Pasiwyd Deddf Senedd Cymru (Aelodau ac Etholiadau) yn gyfraith ar 24 Mehefin 2024. Bydd y setliad newydd yn chwarae rhan ganolog o ran llywio'r ffordd yr ydym yn gweithio yn y dyfodol. Ac rydym bellach yn dechrau ar gyfnod cynllunio newydd ar gyfer yr hyn a fydd yn un o'r cerrig milltir mwyaf arwyddocaol yn ein taith ddatganoli hyd yn hyn.

Fel bob amser, bu ein staff yn cefnogi'r Gweinidogion yn broffesiynol drwy gyfrifoldebau eu portffolios a strwythurau'r Grwpiau, hyd yn oed yn y cyd-destun anodd yr ydym wedi gweithredu ynddo dros y flwyddyn ddiwethaf. Rwyf yn ddiolchgar iawn am y modd y maent wedi cyflawni dros y Gweinidogion a'r sefydliad ac rydym o ddifrif yn ein hawydd i fod yn gyflogwr ymatebol a chefnogol. Mae'n rhoi hyder mawr imi ein bod wedi dod drwy flwyddyn mor gymhleth a heriol, ar ôl cyflawni cymaint o'n rhaglen ar gyfer ymrwymiadau'r llywodraeth eisoes, tra'n arddangos hefyd waith o safon mor uchel.

Mae'r prif ffynonellau gwybodaeth yr wyf yn eu hystyried wrth baratoi'r Datganiad Llywodraethiant hwn wedi'u nodi yn Ffigur 1.

**Ffigur 1: Ffynonellau Sicrwydd sy'n Cyfrannu at y Datganiad Llywodraethiant Blynyddol**




Defnyddir ffynonellau gwybodaeth allanol hefyd i lywio'r Datganiad Llywodraethiant. Mae'r rhain yn cynnwys adroddiadau gan y canlynol ymhlith eraill:

- **Archwilio Cymru**
- **Rheoleiddwyr**
- **Y Comisiwn Ewropeaidd**
- **Aseswyr Allanol**.

## Y Fframwaith Llywodraethiant

Mae'r Fframwaith Llywodraethiant yn cynnwys y systemau, y prosesau, y diwylliant a'r gwerthoedd a ddefnyddir i gyfeirio a rheoli Llywodraeth Cymru a'r gweithgareddau y mae'n atebol drwyddynt i Senedd Cymru ac yn ymgysylltu â rhanddeiliaid drwyddynt. Mae'n galluogi'r sefydliad i fonitro'r modd y mae ei bolisïau, ei nodau a'i amcanion yn cael eu cyflawni ac i weld a lwyddwyd i sicrhau gwerth am arian. Mae'r Fframwaith yn cynnwys y cyrff hynny y cyflawnir blaenoriaethau ac ymrwymiadau'r Llywodraeth drwyddynt a hefyd y trefniadau mewnol ar gyfer gwneud penderfyniadau yn Llywodraeth Cymru. Ceir manylion pellach am y Fframwaith Llywodraethiant o fewn Datganiad System y Swyddog Cyfrifyddu.

## Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol

Rwyf wedi ymrwymo i gefnogi Gweinidogion Cymru i gyflawni eu dyletswydd i hyrwyddo datblygu cynaliadwy (Deddf Llywodraeth Cymru 2006) a llesiant (Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol. O dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, datblygu cynaliadwy yw prif egwyddor drefniadol y Llywodraeth a chyrff cyhoeddus, ac felly dylai trefniadau gweithredu a llywodraethiant a mecanweithiau'r Llywodraeth, a'r cyngor a'r cymorth a roddir gan y gwasanaeth sifil yng Nghymru, wella'n gyson er mwyn ymateb i'r gofynion hyn. Drwy Ll2025, ein rhaglen tair blynedd ar gyfer datblygu sefydliadol, rydym yn rhoi egwyddor datblygu cynaliadwy Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol wrth wraidd y ffordd rydym yn ymddwyn ac ym mhopeth a wnawn.

Ym mis Mai 2024, cyhoeddwyd adroddiad cynnydd ar Gynllun Dysgu a Gwella Parhaus Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2023-25 Llywodraeth Cymru sy'n dwyn ynghyd dros 50 o gamau gweithredu sydd wedi'u cynllunio i sicrhau bod yr egwyddor datblygu cynaliadwy yn cael ei deall a'i chymhwyso'n well yn Llywodraeth Cymru. Mae llawer o bobl yn dal i ddefnyddio'r diweddariad hwn fel offeryn defnyddiol i wella sut rydym yn gweithio o fewn y llywodraeth a'r tu allan iddi. Y datganiad canlynol yw ein hadroddiad cynnydd blynyddol ar y Cynllun Dysgu a Gwella Parhaus ar gyfer 2024-25.

Yn ystod 2024-25, rydym wedi cwblhau 18 o'r camau gweithredu gwreiddiol, tra bo 15 arall wedi'u hymgorffori yn ein prosesau bob dydd. Mae eraill ar wahanol gamau o ran eu cynnydd. Rydym yn credu bod ein dull gweithredu yn parhau i anfon neges bwysig at gyrff cyhoeddus eraill yng Nghymru fod angen i agenda Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol fod yn destun gwella a myfyrio parhaus.

Mae'r gwaith paratoi ar gyfer y Senedd newydd a mwy o faint y flwyddyn nesaf wedi rhoi cyfle amserol a gwerthfawr inni gymryd eiliad i feddwl, i ystyried yr hyn yr ydym wedi'i gyflawni hyd yn hyn, ac i'n helpu i achub ar y cyfle newydd hwn i wella dealltwriaeth o'r egwyddor datblygu cynaliadwy sydd wrth wraidd y ffordd y mae Llywodraeth Cymru yn gweithio, ac i'w rhoi ar waith yn well. Mae blwyddyn olaf LlC2025 wedi'i chynllunio i'n helpu i gyflawni cenhadaeth y Prif Weinidog dros Gymru a pharatoi ar gyfer diwygio'r Senedd yn 2026. Rwyf wedi bod yn glir fy mod am barhau i gynnwys cydweithwyr ar draws y sefydliad yn y newidiadau yr ydym yn eu gwneud drwy drydydd cam LlC2025, drwy sesiynau ymgysylltu â thimau a fforymau cynllunio gweithredu ac i'n helpu i adeiladu ar ganlyniadau ein Harolwg Pobl.

Mae Cynllun Dysgu a Gwella Parhaus Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yn dal yn elfen allweddol o LlC2025 ac mae'n rhoi sicrwydd ein bod yn hyrwyddo ac yn cynnal datblygu cynaliadwy ac yn gweithredu yn unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy o dan Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 a Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015. Dull gweithredu arloesol

ac esblygol yw hwn sy'n cydnabod y rôl sydd gan yr Ysgrifennydd Parhaol yn agenda datblygu cynaliadwy a llesiant cenedlaethau'r dyfodol.

Mae'r mesurau ychwanegol hyn wedi fy ngalluogi i gael sicrwydd cryfach ac wedi rhoi mewnwelediadau dyfnach a thystiolaeth ehangach i'r sefydliad i gefnogi ein penderfyniadau a'n dysgu a'n datblygiad parhaus. Mae camau gweithredu yn cael eu cymryd gyda Chyfarwyddwyr i wella sicrwydd Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol ar draws y sefydliad ac i ymgorffori ein gwerthoedd ar draws y sefydliad yn well fel rhan o LlC2025.

Byddwn hefyd yn parhau i ddefnyddio, datblygu a gwreiddio perfformiad wrth gymhwyso'r egwyddor datblygu cynaliadwy o fewn Fframwaith Perfformiad Llywodraeth Cymru.

## Cyrff Cyhoeddus Cymru

Mae Llywodraeth Cymru yn cyflawni rhai o'i nodau a'i hamcanion drwy nifer o gyrff cyhoeddus Llywodraeth Cymru, a elwir fel arfer yn Gyrff Hyd Braich, sy'n cynnwys cyrff gweithredol statudol, is-gwmnïau, deiliaid swyddi annibynnol a rhai cyrff cyhoeddus eraill a ariennir gan y llywodraeth. Mae hyn ar wahân i'w gwaith gyda'r GIG a chyrff llywodraeth leol.

Dynodir Prif Weithredwyr neu'r swyddog cyfatebol ym mhob corff sydd â swyddogaethau gweithredol yn Swyddogion Cyfrifyddu, gyda'r Cyfarwyddwr Cyffredinol perthnasol yn Swyddog Cyfrifyddu Ychwanegol. Maent yn gyfrifol yn bersonol am reolaeth eu sefydliad ar gyllid cyhoeddus a chyflawni ei amcanion. Mae'n ofynnol i Swyddogion Cyfrifyddu lofnodi datganiad llywodraethiant a gyhoeddir yng nghyfrifon blynyddol eu corff. Diffinnir y berthynas â Llywodraeth Cymru mewn dogfennaeth ysgrifenedig ar gyfer pob corff.

Mae'r Tîm Arweinyddiaeth a Llywodraethiant Cyrff Cyhoeddus yn parhau i ddatblygu perthnasoedd rhwng Llywodraeth Cymru a'i chyrff cyhoeddus drwy gyfarfodydd rheolaidd. Cynhelir cyfarfodydd y Fforwm Arweinwyr Cyhoeddus (sydd wedi'u hanelu at Gadeiryddion, Prif Weithredwyr ac undebau) ddwywaith y flwyddyn. Mae Cadeirydd y Fforwm Arweinwyr Cyhoeddus, y Fonesig Elan Closs Stephens, yn aelod o'r Cyngor Partneriaeth Gymdeithasol a hi yw'r cyfrwng ar gyfer adborth rhwng y ddau gyfarfod. Mae'r Prif Swyddog Gweithredu yn cadeirio cyfarfodydd deufisol o Brif Weithredwyr a chyfarfodydd chwarterol o Gadeiryddion.

Mae Grŵp y Sector Datganoledig, sy'n cael ei gadeirio ar y cyd gan y Cyfarwyddwr Pobl a Lleoedd a chadeirydd y cytunwyd arno gan yr undebau llafur, yn cyfarfod ddwywaith y flwyddyn. Mae'n cael ei fynychu gan Lywodraeth Cymru, a chynrychiolwyr cyflogwyr a'r undebau llafur o gyrff hyd braich, swyddfeydd comisiynwyr, adrannau anweinidogol, deiliaid swyddi annibynnol a chwmnïau sydd ym mherchnogaeth Llywodraeth Cymru. Mae'r Grŵp yn canolbwyntio ar faterion yn y gweithlu.

Yn ystod 2024-25 addaswyd Model Hunanasesu'r DU i'w ddefnyddio yng nghyd-destun Cymru a'i dreialu gan nifer bach o gyrff cyhoeddus cyn cael ei gyflwyno'n ehangach yn 2025-26. Bydd hyn yn darparu'r sylfaen ar gyfer adolygiadau pellach o'r holl gyrff, gan ganolbwyntio ar faterion a godwyd gan yr hunanasesiad.

Cafodd yr hen Uned Cyrff Cyhoeddus ei had-drefnu yn 2024. Mae Arweinyddiaeth a Llywodraethiant Cyrff Cyhoeddus bellach yn rhan o Academi Wales, mae'r Tîm Penodiadau Cyhoeddus yn rhan o'r Ganolfan Arbenigedd Recriwtio ac Adnoddau ac mae Tâl Cyrff Cyhoeddus yn rhan o'r Ganolfan Arbenigedd Tâl a Gwobrwyo. Mae'r timau'r Cyrff Cyhoeddus yn parhau i fod o dan y Cyfarwyddwr Pobl a Lleoedd a Phrif Swyddog Gweithredu Llywodraeth Cymru

Mae'r Tîm Penodiadau Cyhoeddus yn parhau i arwain y gwaith o gyflawni dros 100 o benodiadau wedi'u rheoleiddio bob blwyddyn, gan sicrhau cydymffurfiaeth â'r Cod Llywodraethiant ar Benodiadau Cyhoeddus. Yn 2024-25, dechreuodd y tîm raglen o welliannau sy'n canolbwyntio ar gryfhau llywodraethiant, gwella profiad ymgeiswyr, a chefnogi mwy o amrywiaeth ar fyrddau cyhoeddus. Dechreuodd weithio hefyd i werthuso'r strategaeth amrywiaeth flaenorol a datblygu dull gweithredu ar ei newydd wedd. Mae'r tîm yn rhan o'r Ganolfan Arbenigedd Recriwtio ac Adnoddau.

Mae'r Prif Swyddog Gweithredu yn cadeirio Grŵp Cyfeirio Cyrff Cyhoeddus o uwch swyddogion sydd â chyfrifoldeb dros gyrff cyhoeddus yng Nghymru. Sefydlwyd y Grŵp i adolygu a datblygu gwaith Llywodraeth Cymru gyda thimau partneriaeth mewn perthynas â phenodiadau, adolygiadau ac agweddau eraill ar nawdd a llywodraethiant. Mae cyfarwyddwyr sydd â thimau partneriaeth yn eu cylch gwaith yn mynychu'r Grŵp Cyfeirio Cyrff Cyhoeddus yn ogystal â darparu asesiad o'u sicrwydd ar gyrff cyhoeddus y maent yn eu hariannu drwy'r Holiadur Rheolaeth Fewnol.

Mae timau partneriaeth hefyd yn chwarae rôl wrth sicrhau bod llywodraethiant effeithiol ar waith. Maent yn cytuno ar ddogfen fframwaith gyda'u corff cyhoeddus sy'n nodi'r telerau ac amodau y mae'r corff yn cael arian cyhoeddus odani. Mae amcanion, camau gweithredu, dangosyddion perfformiad y cytunwyd arnynt a threfniadau adrodd i adolygu perfformiad wedi'u nodi mewn llythyr cylch gwaith a gyhoeddir unwaith bob tymor llywodraeth.

## Trefniadau Mewnol Llywodraeth Cymru

Mae'r system rheolaeth fewnol yn rhan sylweddol o'r Fframwaith Llywodraethiant a bwriedir iddi liniaru risg annerbyniol. Mae Cynllun Dirprwyadau Llywodraeth Cymru yn nodi'r dirprwyadau safonol sy'n gweithredu ar draws pob rhan o Lywodraeth Cymru. Mae'r Cynllun Dirprwyadau yn un o elfennau allweddol fframwaith llywodraethiant corfforaethol Llywodraeth Cymru ac mae'n caniatáu i'r Prif Swyddog Cyfrifyddu gyflawni ei gyfrifoldebau'n effeithiol. Mae'n rhoi i'r Prif Swyddog Cyfrifyddu linellau clir ar gyfer adrodd ac atebolrwydd er mwyn sicrhau bod diben Llywodraeth Cymru a pholisïau, nodau ac amcanion y Gweinidogion yn cael eu cyflawni.

Diweddarwyd y Cynllun Dirprwyadau ym mis Mawrth 2024 gan ymgorffori newidiadau sy'n cynnwys:

- Alinio dirprwyad y gweithlu â 'Fframwaith Dirprwyo ac Atebolrwydd y Gweithlu';
- Newid y trothwy ar gyfer datgan rhoddion a dderbyniwyd i £20;
- Ei gwneud yn glir bod gan Gyfarwyddwyr Cyffredinol gyfrifoldeb dros gymeradwyo creu a rheoli trefniadau ar y cyd, gan gynnwys sefydlu is-gwmnïau newydd Llywodraeth Cymru. Dylid adrodd am unrhyw gynigion wedyn i'r Pwyllgor Gweithredol wedyn, er gwybodaeth;
- Mae gan gyfathrebu, ymgysylltu â'r cyhoedd a chyhoeddusrwydd, boed yn fewnol neu'n allanol, ofynion cymeradwyo ychwanegol bellach; ac
- Mae'r adran gwariant cyfreithiol allanol wedi'i hychwanegu i gryfhau'r dirprwyad ynghylch defnyddio cynghorwyr cyfreithiol mewnol ac allanol.

Yn dilyn lansio'r Cynllun Dirprwyadau ym mis Mawrth 2024, fe wnaeth y Ganolfan Ragoriaeth Llywodraethiant Corfforaethol gyfleu'r newidiadau ar draws Llywodraeth Cymru mewn erthygl newyddion, drwy'r Penaethiaid Cyllid a'r Gymuned Ymarfer Llywodraethiant Corfforaethol.

Mae'r Ganolfan Ragoriaeth yn parhau i adolygu'r Cynllun Dirprwyadau yn rheolaidd a'i ddiweddaru yn ôl yr angen.


Y Gymuned Ymarfer Llywodraethiant Corfforaethol a gwybodaeth a gyhoeddir ar y fewnrwyd, megis bwletinau a chanllawiau, yw'r mecanweithiau allweddol a ddefnyddir i ledaenu arferion llywodraethiant da ar draws holl Grwpiau Llywodraeth Cymru.

Cefnogir y Fframwaith Llywodraethiant a'r system rheolaeth fewnol hefyd gan broses barhaus o reoli risg, sydd wedi'i chynllunio i nodi a blaenoriaethu'r risgiau i gyflawni polisïau, nodau ac amcanion Llywodraeth Cymru, i werthuso pa mor debygol ydyw y caiff y risgiau hynny eu gwireddu, ac wedyn i'w rheoli yn effeithlon, yn effeithiol ac yn ddarbodus. Darperir cyngor a sicrwydd gan Archwilio Mewnol i lywio gwelliant parhaus y Fframwaith. Datblygwyd y fframwaith llywodraethiant i gydymffurfio â gofynion llywodraethiant da ac fe'i hategir gan Rheoli Arian Cyhoeddus Cymru sy'n nodi'r egwyddorion ar gyfer delio ag adnoddau yn sefydliadau'r sector cyhoeddus yng Nghymru.

Mae'r Ganolfan Ragoriaeth yn parhau i adolygu ac adnewyddu canllawiau corfforaethol. Rydym wedi dechrau diweddaru Rheoli Arian Cyhoeddus Cymru. Gan fod hon yn ddogfen hir a chymhleth, rydym yn blaenoriaethu penodau penodol i'w diweddaru. Byddwn yn dechrau drwy ddiweddaru'r penodau sy'n cynnwys meysydd lle'r ydym wedi ymrwymo i ddiweddaru canllawiau, fel y cytunwyd gyda'r Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus (PAPAC). Byddwn yn cyhoeddi'r penodau wedi'u diweddaru wrth iddynt gael eu cwblhau. Er ein bod wedi pennu dyddiad cwblhau dros dro o fis Rhagfyr 2025 ar gyfer y prosiect cyfan, gellir addasu'r amserlen hon yn seiliedig ar flaenoriaethau eraill sy'n cystadlu.

Mae'r diagram yn adlewyrchu'r strwythur llywodraethiant a oedd ar waith ar gyfer y rhan fwyaf o 2024-25.

## Strwythur Llywodraethiant



## Adrodd ar Berfformiad

Yn 2024-25, rydym wedi rhoi dull newydd ar waith o fesur perfformiad sefydliadol Llywodraeth Cymru, sydd wedi'i grynhoi ar dudalen 64. Mae hyn yn cynnwys cerdyn sgorio cytbwys chwarterol, sy'n olrhain ystod o fetrigau perfformiad corfforaethol, gan ganiatáu i gamau gweithredu gael eu cymryd mewn ffordd amserol ac i gynnydd gael ei fonitro'n rheolaidd. Yn ogystal, mae adroddiad perfformiad blynyddol wedi'i ddatblygu i ddarparu trosolwg llawnach o berfformiad dros y flwyddyn flaenorol. Gyda'i gilydd, mae'r rhain yn darparu dull hyblyg a chyfannol o fonitro perfformiad drwy gydol y flwyddyn.

## Y Cod Llywodraethiant Corfforaethol

Bydd Llywodraeth Cymru yn parhau i ddilyn yr egwyddorion a amlinellir yn y Cod Llywodraethiant Corfforaethol ar gyfer Adrannau'r Llywodraeth Ganolog cyn belled ag y bo'n ymarferol. Mae meysydd lle mae arfer Llywodraeth Cymru yn ymwahanu oddi wrth y Cod (gan fod y Cod wedi'i gynllunio ar gyfer Adrannau yn hytrach na Gweinyddiaethau Datganoledig) yn cynnwys:

- nid yw Prif Weinidog Cymru yn mynychu nac yn cadeirio cyfarfodydd Bwrdd Llywodraeth Cymru; ac
- mae nifer yr aelodau gweithredol yn uwch na nifer y cyfarwyddwyr anweithredol.

## Y Bwrdd

Fel Ysgrifennydd Parhaol a Phrif Swyddog Cyfrifyddu, fe'm cefnogir gan Fwrdd Llywodraeth Cymru, sy'n cynnwys 14 Aelod, yn Gyfarwyddwyr Anweithredol a Chyfarwyddwyr Gweithredol. Mae Cyd-gadeirydd Arweiniol y Bwrdd Cysgodol yn mynychu fel sylwedydd sy'n cyfranogi. Mae'r Bwrdd yn fy nghynghori wrth imi wneud penderfyniadau strategol allweddol ynghylch sut y mae Gwasanaeth Sifil Llywodraeth Cymru yn cael ei ddatblygu i gynorthwyo'r Prif Weinidog a'r Gweinidogion i gyflawni'r Rhaglen Lywodraethu ac i gyflawni blaenoriaethau'r Gweinidogion. Rwyf yn cadeirio cyfarfodydd y Bwrdd ac ar ôl pob Bwrdd rwyf yn cyfarfod â'r Cyfarwyddwyr Anweithredol. Mae'r Cyfarwyddwyr Anweithredol yn parhau i roi sylw arbennig i feysydd portffolio penodol.

Yn ystod y flwyddyn ystyriodd y Bwrdd ystod o faterion fel rhan o'i agenda:

- Y Rhaglen Lywodraethu
- Cynllun Dysgu a Gwella Parhaus Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (2023-25)
- Llywodraeth Cymru 2025
- Diweddariadau ddwywaith y flwyddyn ar Gydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant
- Canlyniadau Arolwg Pobl 2024
- Fframwaith Perfformiad Llywodraeth Cymru
- Gwella safonau ysgolion i wella cyrhaeddiad a chodi presenoldeb yn yr ysgol ac mewn addysg ôl-16
- Arloesi ym maes Polisi yn Llywodraeth Cymru
- Diweddariadau cyllid a chynllunio'r gyllideb
- Y Gofrestr Risgiau Corfforaethol a'r Datganiad Parodrwydd i Dderbyn Risg.

## Aelodaeth a Phresenoldeb y Bwrdd

Cafwyd newidiadau i aelodaeth y bwrdd dros y flwyddyn. Ymunodd Mutale Merrill â'r Bwrdd ym mis Ebrill 2024, ymddeolodd Gawain Evans o Lywodraeth Cymru yn haf 2024 a chymerwyd ei le ar y Bwrdd gan Dean Medcraft ym mis Mehefin 2024. Ymadawodd Tim Moss â Llywodraeth Cymru ym mis Mawrth 2025, a daeth Sioned Evans yn Brif Swyddog Gweithredu. Rhoddodd Amelia John y gorau i fod yn Hyrwyddwr Cydraddoldeb y Bwrdd ar 31 Rhagfyr 2024 pan ddaeth tymor ei phenodiad i ben.

| Aelodaeth yn ystod 2024-25 | Presenoldeb mewn cyfarfodydd |
|---|---|
| Andrew Goodall, yr Ysgrifennydd Parhaol | 5/7 |
| Mutale Merrill, Cyfarwyddwr Anweithredol | 6/7 |
| Aled Edwards, Cyfarwyddwr Anweithredol | 7/7 |
| Carys Williams, Cyfarwyddwr Anweithredol | 7/7 |
| Mike Usher, Cyfarwyddwr Anweithredol | 7/7 |
| Andrew Slade, Cyfarwyddwr Cyffredinol, yr Economi, Ynni a Thrafnidiaeth | 5/7 |
| Tracey Burke, Cyfarwyddwr Cyffredinol, Llywodraeth Leol, Tai, Newid Hinsawdd a Materion Gwledig | 7/7 |
| Judith Paget, Cyfarwyddwr Cyffredinol, Iechyd, Gwasanaethau Cymdeithasol a'r Blynyddoedd Cynnar/ Prif Weithredwr GIG Cymru | 5/7 |
| Tim Moss, Cyfarwyddwr Cyffredinol, Prif Swyddog Gweithredu | 7/7 |
| Sioned Evans, Cyfarwyddwr Cyffredinol, Addysg, Diwylliant a'r Gymraeg/Prif Swyddog Gweithredu | 5/7 |
| David Richards, Cyfarwyddwr, Priodoldeb a Moeseg | 5/7 |
| Dom Houlihan, Cyfarwyddwr Pobl a Lleoedd | 7/7 |
| Gawain Evans, Cyfarwyddwr Cyllid | 1/1 |
| Dean Medcraft, Cyfarwyddwr Cyllid | 4/6 |
| Nia James, Cyfarwyddwr Dros Dro, Gwasanaethau Cyfreithiol | 5/7 |
| Amelia John, Hyrwyddwr Cydraddoldeb y Bwrdd | 2/5 |

## Hunanasesiad y Bwrdd o Berfformiad

Dosbarthwyd arolwg Adolygiad Blynyddol o'r Bwrdd i aelodau'r Bwrdd ar 28 Tachwedd 2024. Dadansoddwyd y canlyniadau gan y Tîm Ymchwil Gorfforaethol ac fe lywiodd y canfyddiadau drafodaethau mewn Diwrnod Datblygu'r Bwrdd ar 07 Chwefror 2025.

Ar y cyfan, roedd aelodau'r Bwrdd yn gadarnhaol am eu rôl ar y Bwrdd, a'u profiad ohono, a oedd yn gyffredinol yn ategu teimladau adolygiad 2023. Roedd aelodau'r Bwrdd yn glir ynghylch rôl a diben y Bwrdd ac yn teimlo bod ehangder y materion a drafodwyd, yn ogystal â'r cyfle a roddir i'r aelodau i herio a chraffu, yn ychwanegu gwerth. Disgrifiwyd cyfarfodydd bwrdd fel rhai agored a chynhwysol, a theimlai'r aelodau eu bod yn gallu cymryd rhan lawn a chael eu clywed. Roedd aelodau'r bwrdd yn teimlo bod yr wybodaeth angenrheidiol ar gael iddynt i gyflawni eu cylch gwaith. Mae holl bapurau'r Bwrdd yn cael eu cymeradwyo naill ai gan y Cyfarwyddwr Cyffredinol neu'r Cyfarwyddwr perthnasol a theimlid bod trafodaethau'r Bwrdd yn gydweithredol ac yn canolbwyntio ar welliant, lle mae mewnbwn yn cael ei groesawu ac yn cael gwrandawiad, lle mae safbwyntiau yn cael ei hannog, a chyngor yn cael ei weithredu, gyda ffocws allweddol ar rannu a dysgu o brofiadau ei gilydd. Nodwyd bod safon yr her a gynigir gan y Bwrdd yn gryfder arbennig, gydag aelodau'r Bwrdd yn arddel dull gweithredu adeiladol, chwilfrydig ac archwiliol, lle mae eraill yn cael eu dal i gyfrif ond mewn ffordd barchus.

Roedd teimlad bod gan aelodaeth y Bwrdd y sgiliau a'r profiad cywir, yn ogystal ag ystod amrywiol o safbwyntiau, a nodwyd bod y Bwrdd Cysgodol a'r Cyfarwyddwyr Anweithredol yn gwneud cyfraniadau nodedig yma. Roedd aelodau'r Bwrdd yn teimlo eu bod mewn sefyllfa dda i gyflawni eu rôl ac roeddent yn gadarnhaol yn gyffredinol am yr hyfforddiant a'r datblygiad sydd ar gael iddynt. Nododd yr adolygiad rai meysydd i'w gwella ac mae camau wedi'u cymryd i fynd i'r afael â'r materion hyn, er enghraifft cynhelir archwiliad dwfn i eitemau risg unigol o'r Gofrestr Risgiau Corfforaethol ym mhob cyfarfod.

Sefydlwyd y Bwrdd Cysgodol[78] ym mis Tachwedd 2021 ac adnewyddwyd yr aelodaeth ym mis Ionawr 2024. Rôl y Bwrdd Cysgodol yw cynorthwyo Bwrdd Llywodraeth Cymru yn ei rôl o oruchwylio strategaeth sefydliadol a llywodraethiant Llywodraeth Cymru a darparu cyngor, her a sicrwydd strategol i'r sefydliad. Penodir aelodau'r Bwrdd Cysgodol gyda'm cytundeb fel Ysgrifennydd Parhaol, yn dilyn proses ddethol yn unol ag arferion gorau'r Gwasanaeth Sifil. Mae'r Bwrdd Cysgodol yn cyfarfod yn ffurfiol ddau ddiwrnod cyn cyfarfodydd y Bwrdd.

## Is-bwyllgorau'r Bwrdd

Roeddwn hefyd yn cael fy nghynghori gan ddau Is-bwyllgor y Bwrdd a arweinir gan Aelodau Anweithredol (y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg a'r Pwyllgor Pobl a Chydnabyddiaeth Ariannol).

### Is-bwyllgor y Bwrdd: Y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg (ARAC)

Mae ARAC Llywodraeth Cymru yn fy nghefnogi ar faterion ariannol. Un o Gyfarwyddwyr Anweithredol y Bwrdd oedd yn cadeirio'r Pwyllgor, a Chadeiryddion ARACs y Grwpiau oedd gweddill yr aelodau.

Roedd ARAC yn fy nghynghori, drwy gydol y flwyddyn, yn rhinwedd fy swydd fel Prif Swyddog Cyfrifyddu, ar weithredu rheolaeth fewnol a gallu'r sefydliad i reoli risg.

78 Mae'r Bwrdd Cysgodol yn cynnwys cydweithwyr o bob rhan o'r sefydliad na fyddai eu graddau fel arfer yn eu galluogi i fod yn rhan o drafodaethau strategol. Mae aelodau'r Bwrdd Cysgodol hefyd yn cynnig gwahanol safbwyntiau a barn o'u profiad bywyd a'r adborth a roddwyd iddynt gan eraill sy'n rhannu eu nodweddion gwarchodedig a'u profiad.

Yn ogystal â'i eitemau safonol ynghylch y Gofrestr Risgiau Corfforaethol, gweithredu argymhellion archwilio, a diweddariadau o archwilio mewnol ac allanol, roedd y Pwyllgor yn darparu gwaith craffu manwl a her mewn meysydd ychwanegol, gan gynnwys:

- Cyfrifon Cyfunol Llywodraeth Cymru a'r set o ddogfennau sy'n sail i'r sicrwydd y maent yn ei ddarparu.
- Y dull o reoli meysydd allweddol megis cynnal a chadw, datblygu a chefnogi systemau TG, gwrthdaro buddiannau, y gallu i gyflawni rheoli rhaglenni a phrosiectau, a rhaglen newid mewnol y sefydliad.

Roedd ARACs pob grŵp yn cyfarfod drwy'r flwyddyn yn unol â'u hamserlen o gyfarfodydd chwarterol.

Cynhaliwyd ffocws ar ddarparu hyfforddiant a chymorth i aelodau ARAC yn ystod y flwyddyn:

- Mae Pennaeth Proffesiwn Archwilio Gwasanaeth Sifil y DU wedi cynnal rhaglen o hyfforddiant a chymorth i holl aelodau ARAC mewn cyrff ledled y DU a bu presenoldeb da gan aelodau ARAC Llywodraeth Cymru yn y rhain.
- Anfonir gwahoddiadau i aelodau hefyd i hyfforddiant perthnasol a drefnir gan Archwilio Cymru, megis eu digwyddiad Arferion Da ar Bwyllgorau Archwilio a gynhaliwyd ym mis Mai 2024.
- Cynhaliwyd Diwrnod Datblygu ARAC mewnol ym mis Mawrth 2025 a oedd yn canolbwyntio ar strwythurau ARAC, y Safonau Archwilio Mewnol Byd-eang newydd a rôl yr ARAC, a diweddariadau ar fecanweithiau mewnol gan gynnwys y Cerdyn Sgorio Cytbwys a'r Datganiad Parodrwydd i Dderbyn Risg.

### Is-bwyllgor y Bwrdd: Y Pwyllgor Pobl a Chydnabyddiaeth Ariannol

Ail is-bwyllgor y Bwrdd yw'r Pwyllgor Pobl a Chydnabyddiaeth Ariannol. Corff cynghori strategol yw hwn. Mae'n darparu her, cyfeiriad a sicrwydd ar strategaethau sy'n gysylltiedig â phobl, risgiau a chyfleoedd allweddol a'r strategaeth a'r polisi tâl ar gyfer yr Uwch Wasanaeth Sifil. Mae ganddo gyfrifoldebau statudol dros gymhwyso telerau ac amodau'r Uwch Wasanaeth Sifil, gan gynnwys y fframwaith rheoli perfformiad, y strategaeth gyflogau a dyfarniadau cyflog a bydd yn cael yr wybodaeth ddiweddaraf am ddadansoddiad rheolaidd o dueddiadau'r gweithlu ar gyfer ein Huwch Wasanaeth Sifil.

## Agenda ac Eitemau Trafod (Ebrill 2024 – Mawrth 2025)

- Diwylliant Perfformiad Llywodraeth Cymru (gan gynnwys canlyniadau Arolwg Pobl 2024 a 'Dweud eich Dweud' – cefnogi ein staff i leisio pryderon)
- Ymrwymiadau Cydraddoldeb y Gweithlu – Ffocws ar y Dyfodol
- Adolygiad Gwrth-Hiliaeth Adnoddau Dynol gan Red Quadrant
- Fframwaith Gweinidogol Llywodraeth Cymru: Cyfranogiad Gweinidogol mewn Recriwtio i'r Gwasanaeth Sifil
- Cynllun Ymadael Gwirfoddol: Adolygiad a Gwersi a Ddysgwyd
- Ymrwymiadau Cydraddoldeb yn y Gweithlu – Canolbwyntio ar feithrin ymddiriedaeth gyda Rhwydweithiau Cydraddoldeb Llywodraeth Cymru a chefnogi cynhwysiant ehangach
- Adolygiad o Effeithiolrwydd y Bwrdd
- Telerau ac Amodau'r Uwch Wasanaeth Sifil
  - Dadansoddiad o Gymedroli Perfformiad canol blwyddyn a'r Camau Nesaf
  - Dadansoddiad o drosiant ac ymadawyr o ran Uwch Wasanaeth Sifil Llywodraeth Cymru
  - Cais unigol am gyfnod ailadroddus o wyliau blynyddol
  - Cais unigol am ymddeoliad rhannol a threfniadau rhannu swydd

Rhaid i gyflog yr Ysgrifennydd Parhaol gael ei gymeradwyo gan Brif Ysgrifennydd y Trysorlys adeg ei benodiad. Mae holl benodiadau a chydnabyddiaeth ariannol Ysgrifenyddion Parhaol yn cael eu rheoli'n ganolog gan Swyddfa Cabinet y DU. Maent hefyd o fewn cwmpas rheolaeth y Trysorlys ar uwch-gyflogau.

O dan lefel Ysgrifennydd Parhaol, nid yw rheolaeth y Trysorlys ar uwch-gyflogau yn gymwys i benodiadau sydd wedi'u gwneud neu eu cymeradwyo gan Weinidogion mewn Gweinyddiaethau Datganoledig. Yn gyffredinol, mae Swyddfa Cabinet y DU yn disgwyl i gyflogau'r holl Gyfarwyddwyr Cyffredinol (DG) a benodir gael eu cytuno gan yr Ysgrifennydd Parhaol (y Prif Swyddog Cyfrifyddu). Ar gyfer penodiadau mewnol, yn achos unrhyw achosion lle mae cyflog DG adeg ei benodi yn fwy na naill ai isafswm y band cyflog neu godiad cyflog 10% adeg dyrchafiad, mae angen cymeradwyaeth gan y Pennaeth Proffesiwn perthnasol a'r Prif Swyddog Cyfrifyddu yn ogystal â chymeradwyaeth gan y Pwyllgor Pobl a Chydnabyddiaeth Ariannol. Nid oes angen y gymeradwyaeth hon ar gyfer cyflogau Cyfarwyddwyr Cyffredinol sydd o fewn y trothwy 10% o gyflog adeg dyrchafiad oni bai eu bod yn fwy na £140,000, ac os felly mae angen cymeradwyaeth yr Ysgrifennydd Parhaol (y Prif Swyddog Cyfrifyddu).

Mae Cyfarwyddwr Anweithredol yn cadeirio'r Pwyllgor. Cyfarfu'r Pwyllgor chwe gwaith yn ystod y flwyddyn a mynychais yr holl gyfarfodydd ond un. Ni chynhaliwyd dau o'r cyfarfodydd a drefnwyd; cafodd un ei ailbwrpasu er mwyn i Ysgrifennydd Parhaol a'r Cyfarwyddwyr Cyffredinol gymryd rhan mewn trafodaethau brys ar sefyllfa'r gyllideb, a chanslwyd yr ail i ganiatáu paratoadau ar gyfer PAPAC.

## Y Pwyllgor Gweithredol (ExCo)

ExCo yw'r fforwm gwneud penderfyniadau strategol sy'n fy nghefnogi fel Prif Gynghorydd Polisi'r Prif Weinidog, Prif Swyddog Cyfrifyddu a Phennaeth Gwasanaeth Sifil Llywodraeth Cymru. Mae ExCo yn cyfarfod yn wythnosol ac yn ystyried ystod o faterion gweithredol a strategol.

Drwy gydol 2024-25, roeddwn yn cael fy nghefnogi gan dîm arwain o Gyfarwyddwyr Cyffredinol, pob un yn arwain Grŵp yn Llywodraeth Cymru, ynghyd â'r Cyfarwyddwyr sy'n ymdrin â swyddogaethau corfforaethol allweddol sef Llywodraethiant a Moeseg, Cyllid, Adnoddau Dynol/Gwasanaethau Corfforaethol a Gwasanaethau Cyfreithiol.

Mae'r Cyfarwyddwyr Cyffredinol sydd ar y Pwyllgor Gweithredol yn cael eu dynodi'n Swyddogion Cyfrifyddu Ychwanegol mewn perthynas â'r cyllidebau sydd wedi'u dirprwyo iddynt er mwyn rhoi cyfrifoldeb ac atebolrwydd personol iddynt dros ddefnyddio arian cyhoeddus yn briodol a sicrhau gwerth am arian ar fy rhan innau. Mae rhai Cyfarwyddwyr penodol hefyd yn cael eu dynodi'n Swyddogion Cyfrifyddu Ychwanegol i egluro ymhellach drefniadau llywodraethiant corfforaethol ac atebolrwydd, a hynny ar gyfer defnyddio cronfeydd cyhoeddus ac wrth ateb i'r Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus. Mae'r dynodiadau hyn yn achos Cyfarwyddwyr yn cael eu hadolygu i sicrhau eu bod yn dal yn berthnasol.

Ystyriodd ExCo ystod o bynciau drwy gydol 2024-25 gan gynnwys eitemau ar gynllunio'r gweithlu, gwella gwasanaethau corfforaethol, Diwygio'r Senedd yn ogystal â chael diweddariadau rheolaidd ar y sefyllfa gyllid yn ystod y flwyddyn a'r Gofrestr Risgiau Corfforaethol. Yn ystod y flwyddyn, defnyddiwyd dull thematig o ymdrin â'r agendâu ar gyfer pob cyfarfod, ond rhaid imi bwysleisio ein bod yn dal i gynllunio'r agenda mewn modd hyblyg yn hytrach na glynu'n haearnaidd wrth yr amserlen. Gall hyn fod er mwyn gwneud lle i eitemau sy'n sensitif o ran amser neu er mwyn i gydweithwyr allu dod i ExCo i roi cyflwyniad ar amser sy'n gyfleus iddynt hwy. Y pedair thema yw Llywodraethiant Cyllid a Risg, Newid, Pobl, a Lleoedd a Chyflawni.

## Yr Is-bwyllgor Cyllid a Gwasanaethau Corfforaethol

Mae'r Is-bwyllgor Cyllid a Gwasanaethau Corfforaethol yn is-bwyllgor o ExCo. O dan gadeiryddiaeth y Prif Swyddog Gweithredu, mae'r is-bwyllgor yn cyfarfod bob mis i gynghori ExCo ar reolaeth ariannol, llywodraethiant, sicrwydd a masnachol y sefydliad, a rheoli a datblygu gweithlu'r sefydliad. Nod yr is-bwyllgor hefyd yw ysgogi gwelliant parhaus yn y rheoli, y sgiliau a'r galluoedd yn y meysydd hyn. Mae'r aelodaeth yn cynnwys Cyfarwyddwr Anweithredol, arweinwyr cyllid a gweithrediadau o bob Grŵp ynghyd â'r Cyfarwyddwr Cyllid, y Cyfarwyddwr Pobl a Lleoedd, Cyfarwyddwr y Trysorlys, y Cyfarwyddwr Gwelliant Parhaus, y Prif Swyddog Digidol, a'r Dirprwy Gyfarwyddwr Sicrwydd (y Pennaeth Archwilio Mewnol a'r Swyddog Diogelu Data).

Ystyriodd yr Is-bwyllgor Cyllid a Gwasanaethau Corfforaethol ystod o bynciau drwy gydol 2024-25 gan gynnwys eitemau ar wella perfformiad ar geisiadau Rhyddid Gwybodaeth, strategaeth ddata Llywodraeth Cymru, gwella perfformiad rheoli prosiectau yn ogystal â chael diweddariadau rheolaidd ar y sefyllfa gyllid yn ystod y flwyddyn a'r Gofrestr Risgiau Corfforaethol.

## Is-bwyllgor ExCo: Y Pwyllgor Gweithredol Deddfwriaethol (LExCo)

Mae'r Pwyllgor Gweithredol Deddfwriaethol (LExCo) yn cydgysylltu ac yn goruchwylio'r gwaith o ddarparu rhaglen ddeddfwriaeth y Llywodraeth ar lefel swyddogol. Yn ystod y cyfnod adrodd diwethaf, cafodd chwe Bil Llywodraeth y Cydsyniad Brenhinol a chyflwynwyd pum Bil Llywodraeth i'w hystyried gan y Senedd. Cyflawnodd nifer o'r rhain rai o ymrwymiadau pwysig y Rhaglen Lywodraethu a'r Cytundeb Cydweithio, gan gynnwys Deddf Senedd Cymru (Aelodau ac Etholiadau) 2024, Deddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2025 a Bil Gwasanaethau Bysiau (Cymru). Yn ystod y Chweched Senedd mae LExCo wedi cefnogi Is-bwyllgor Cabinet, sef y Pwyllgor Sefydlog y Cabinet ar Ddeddfwriaeth. Mae LExCo yn cael ei gadeirio gan yr Ysgrifennydd Parhaol ac fel arfer mae'n cyfarfod bob chwe wythnos.

## Llywodraeth Cymru 2025

Ll2025 yw ein cyfrwng ar gyfer newid a gwelliant parhaus. Mae wedi cyflawni rhai newidiadau diriaethol yn ystod y ddwy flynedd gyntaf, gan ganolbwyntio ar yr heriau ariannol, gwella digidol, ein hystad a'n perfformiad, er mwyn inni allu cefnogi ein hymateb yn well i genhadaeth gyflawni glir y Prif Weinidog ar gyfer Cymru a pharatoi ar gyfer diwygio'r Senedd yn 2026. Rydym bellach yng ngham tri LlC2025. Yn y cam hwn, rydym yn canolbwyntio ar gyllidebau, arloesi a gwneud y defnydd gorau o'n hadnoddau. Byddwn yn defnyddio gwersi rhaglen LlC2025 i helpu i ymgorffori ein Gwerthoedd a'n Hymddygiadau ac i osod y sylfaen y gallwn adeiladu ein cynlluniau cyflawni arni ar gyfer 2026 a'r tu hwnt. Mae meysydd allweddol ein strategaeth LlC2025 yn cael eu cyflwyno drwy ffrydiau gwaith unigol o dan arweiniad Cyfarwyddwr, sy'n cyfarfod yn fisol mewn Bwrdd Rhaglen trosfwaol o dan gadeiryddiaeth y Prif Swyddog Gweithredu.

## Ymchwiliad Covid

Sefydlwyd ymchwiliad COVID-19 yn ffurfiol ym mis Mehefin 2022 ac ers hynny mae Llywodraeth Cymru wedi parhau â'i hymrwymiad i gefnogi gwaith yr ymchwiliad a chymryd rhan lawn ynddo. O dan drefniadau llywodraethiant, mae diweddariadau rheolaidd yn parhau i gael eu darparu i ExCo. Dyma'r tro cyntaf i Lywodraeth Cymru fod yn rhan o ymchwiliad o'r raddfa hon. Mae adolygiadau gwersi a ddysgwyd rheolaidd wedi'u cynnal a phrosesau a gweithdrefnau wedi'u haddasu fel rhan o ddull gwelliant parhaus.

Mae Llywodraeth Cymru yn parhau i ymateb i nifer o geisiadau gan yr ymchwiliad am ddatganiadau a thystiolaeth, gan ddefnyddio technoleg i gefnogi'r gwaith hwn yn effeithlon a chynnwys llawer o staff o bob rhan o'r sefydliad. Rydym yn parhau i gynnig cymorth gweinyddol, cyfreithiol a llesiant ac wedi cynyddu ein cymorth llesiant i'r staff hynny y mae'n ofynnol iddynt ddarparu tystiolaeth yn ysgrifenedig neu ar lafar. Yn ystod 2024-2025 mae tystion Llywodraeth Cymru wedi parhau i roi tystiolaeth lafar i'r ymchwiliad; bydd hyn yn parhau wrth i'r ymchwiliad fwrw ymlaen â'i amserlen. Croesawodd Llywodraeth Cymru gyhoeddi adroddiad interim cyntaf yr ymchwiliad ym mis Gorffennaf 2024 a chyhoeddodd ei hymateb i'r adroddiad hwnnw ym mis Ionawr 2025.

## Cymorth i fusnesau yn ystod COVID-19

Rydym wedi parhau i fonitro ac adolygu'r cronfeydd a ddefnyddiwyd i ddarparu cymorth busnes yn ystod y pandemig, gyda'r bwriad o gau pen y mwdwl ar fonitro'r cronfeydd, gan ddarparu diweddariadau i PAPAC. O ran y cynlluniau a weithredir gan Lywodraeth Cymru, ni nodwyd unrhyw faterion arwyddocaol nac ychwaith achosion neu adferiadau oherwydd twyll. Unwaith eto, o ran y cynlluniau a weithredir gan yr Awdurdodau Lleol, mae'r gyfradd dwyll yn dal yn gyson â'r hyn a adroddwyd yn flaenorol. Mae Strategaeth Ymadael wedi'i datblygu a'i chytuno ar gyfer y Gronfa Cadernid Economaidd, yn ystod y flwyddyn, ac mae'r gweithgarwch Monitro ar ôl Cwblhau wedi dod i ben, ac eithrio ar gyfer y busnesau hynny a ymatebodd yn hwyr i geisiadau am fanylion er mwyn caniatáu i achosion gael eu cau. Ar ôl cau'r achosion hyn sy'n weddill, bydd ymarfer gwersi a ddysgwyd pellach yn cael ei gynnal erbyn diwedd mis Rhagfyr 2025, yn rhan o'r broses o gau'r Monitro ar ôl Cwblhau.

# Trefniadau Sicrwydd



Fel Prif Swyddog Cyfrifyddu, rwyf yn gyfrifol am adolygu effeithiolrwydd y fframwaith llywodraethiant gan gynnwys y system rheolaeth fewnol, yr wyf yn cymryd sicrwydd gan amrywiaeth eang o weithgareddau ar ei chyfer. Yn hyn o beth, fe'm hysbysir gan waith y Gwasanaeth Archwilio Mewnol a'r swyddogion hynny yn Llywodraeth Cymru sy'n gyfrifol am ddatblygu a chynnal y fframwaith rheolaeth fewnol. Rwyf yn cymryd sicrwydd o gytuno ar gynlluniau gweithredu a'u cyflawni gan reolwyr mewn ymateb i faterion a nodir gan Archwilio Mewnol, yr Archwilydd Allanol (Archwilydd Cyffredinol Cymru) yn ei adroddiadau ac mewn adroddiadau a gyhoeddir gan y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Phwyllgorau Craffu eraill y Senedd sy'n cynnal eu hymchwiliadau eu hunain. Mae ARACs y Grwpiau ac ARAC Llywodraeth Cymru yn monitro hynt y broses o weithredu argymhellion y tîm Archwilio Mewnol, Archwilydd Cenedlaethol Cymru a'r Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus.

Rwyf wedi cael fy nghynghori hefyd ar effeithiolrwydd y system rheolaeth fewnol gan y Bwrdd a'r ARAC.

Mae cyfrifoldebau Llywodraeth Cymru yn cwmpasu meysydd allweddol ar fywyd cyhoeddus, a hynny o dan arweiniad y Prif Weinidog a'r Cabinet, a'r Gweinidogion eraill sydd wedi'u penodi ganddi. Mae ystod eang o reolaethau mewnol yn bodoli i ddarparu ar gyfer stiwardiaeth gadarn ar adnoddau.

## Y Gwasanaeth Archwilio Mewnol

Cynhyrchodd y rhaglen o waith archwilio a gwblhawyd yn ystod y flwyddyn, sy'n gyrru'r farn sicrwydd gyffredinol a roddir, y safbwyntiau canlynol ar gyfer adroddiadau archwilio a roddwyd:

| Barn Sicrwydd | 2024-25 | 2023-24 | 2022-23 | 2021-22 | 2020-21 |
|---|---|---|---|---|---|
| Sicrwydd Sylweddol | 5 | 8 | 10 | 14 | 12 |
| Sicrwydd Rhesymol | 34 | 26 | 18 | 25 | 22 |
| Sicrwydd Cyfyngedig | 10 | 4 | 7 | 3 | 3 |
| Dim Sicrwydd | - | 1 | 1 | - | - |
| Cynghorol (ni roddwyd unrhyw farn) | 10 | 9 | 6 | 2 | - |
| **Cyfanswm** | **59** | **48** | **42** | **44** | **37** |

Mae'r Pennaeth Archwilio Mewnol wedi darparu barn sicrwydd 'hollt' ar gyfer 2024-25:

Ar lefel y sefydliad, mae Llywodraeth Cymru yn dibynnu ar systemau TG 'etifeddol' sy'n creu risgiau cynyddol o gostau cynyddol, diffyg gweithredadwyedd, a diffyg cydymffurfio, ar adeg pan fo gallu cyfyngedig i liniaru'r risgiau hyn o gofio lefel y buddsoddiad, yr amser, y capasiti a'r gallu y bydd eu hangen i liniaru risg yn effeithiol. Mae eu cyfyngiadau yn effeithio ar effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd cyffredinol gweithrediadau oherwydd diffyg gallu i ryngweithredu, absenoldeb gwybodaeth rheoli ddigonol neu ddibynadwy, gwasgariad cyfrifoldeb a dibyniaeth ar ddatrysiadau llaw.
O ganlyniad, dim ond sicrwydd cyfyngedig y gall ei roi ar gyfer trefniadau mewn perthynas â'r risg sydd ynghlwm wrth brosesau a systemau corfforaethol.

Er hynny, mae'n rhoi sicrwydd rhesymol ar gyfer y trefniadau i sicrhau llywodraethiant, rheoli risg a rheolaeth fewnol a weithredir ar lefel Grŵp dros weithgareddau sy'n canolbwyntio ar bolisi a chyflawni.
Mae'r rhain, ar y cyfan, yn gadarn ac wedi'u cynllunio a'u cymhwyso'n effeithiol, er bod risgiau cynhenid ynghlwm wrth weithredu'r dull dwy haen hwn.

## Materion Allweddol

Mae'r systemau trafodiadol, allweddol i fusnes, y mae Llywodraeth Cymru yn parhau i ddibynnu arnynt yn systemau sy'n heneiddio, ac mae hynny'n llesteirio'r broses o weithredu'n effeithlon ac effeithiol. Mae'r systemau hyn yn mynd yn fwyfwy anaddas ar gyfer anghenion y sefydliad wrth iddynt fynd yn ddrutach i'w cynnal. Effaith y systemau etifeddol hyn a systemau etifeddol eraill, a'r risgiau sy'n deillio ohonynt, sy'n gyfrifol am y farn sicrwydd cyfyngedig a nodir uchod.

Yn ogystal, cyhoeddwyd Adroddiadau 'Sicrwydd Cyfyngedig' mewn perthynas â'r canlynol:

- **Rheoli Rhaglenni a Phrosiectau**, y mae cynnydd wedi'i wneud arnynt ers y llynedd wrth sefydlu dulliau cyson a gofynion gorfodol ond mae angen rhagor o waith i fynd i'r afael yn llawn ag arferion rheoli prosiectau a rhaglenni.
- Archwiliadau ar wahân o **drefniadau partneriaeth** Llywodraeth Cymru ar gyfer dau o'i Chyrff Hyd Braich. Y themâu cyffredin ar gyfer y rhain oedd mecanweithiau annigonol ar gyfer monitro a goruchwylio effeithiol a'r angen am welliannau mewn trefniadau llywodraethiant a chofrestrau risg Partneriaethau.
- **Rheoli contractau**, y mae arferion rheoli contractau ar eu cyfer yn anghyson ac yn rhy anffurfiol, gyda defnydd cyfyngedig o offer a dogfennaeth safonol. Mae angen gwell ymwybyddiaeth o ddisgwyliadau rheoli contractau, yn ogystal â gwell data canolog am gontractau a osodwyd.
- Tri **Archwiliad Cydymffurfio â GDPR y DU** sy'n cwmpasu Cadw a Dinistrio Data, Hysbysiadau Preifatrwydd a Chofrestrau Asedau Gwybodaeth, lle mae absenoldeb offer rheoli asedau data canolog, modern yn llesteirio goruchwylio a monitro cydymffurfiaeth.
- Fforwm ffurfiol **sy'n wynebu allan**, nad oedd y trefniadau llywodraethiant ar ei gyfer wedi'u hadolygu a'u diweddaru ers peth amser a nodwyd gwendidau hefyd mewn cyfathrebu.
- **Cynllun grant** nad oedd sicrwydd priodol wedi'i roi ar ei gyfer yn y cam datblygu ac y mae'r trefniadau rheoli grant ar ei gyfer yn wan.
- **Tîm polisi** sy'n gweithio rhwng Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU. Anffurfioldeb trefniadau llywodraethiant oedd y mater allweddol.

Fel rhan o'r broses sicrwydd, mae'r Cynllun Archwilio Mewnol yn darparu amser hefyd i fynd ar drywydd adroddiadau archwilio sicrwydd cyfyngedig neu ddim sicrwydd i sicrhau:

- Bod rheolwyr wedi gweithredu ar y sylwadau a wnaed mewn adroddiadau archwilio mewnol;
- bod unrhyw wendidau rheoli a nodwyd wedi'u hunioni; ac
- i asesu a yw risgiau a nodwyd yn ystod yr archwiliad wedi'u lliniaru'n briodol.

# Materion Sicrwydd Eraill

## Sicrwydd y Tîm Archwilio Cronfeydd Ewropeaidd (EFAT)

Mae'r corff a gasglwyd o archwiliadau allanol o brosiectau a ariennir gan y Gymuned Ewropeaidd (GE) yn darparu sicrwydd ar gydymffurfiaeth Cronfeydd Strwythurol a rhaglenni eraill a ariennir gan y GE â Rheoliadau'r GE ar gydnabod a hawlio costau o'r GE.

- **Cronfeydd Strwythurol 2014-2020 (ESF ac ERDF)**
  Cynhaliwyd archwiliadau o brosiectau drwy gydol y flwyddyn ond nid oedd angen Adroddiad Rheoli Blynyddol ar gyfer 2024 oherwydd estyniad Cau'r Rhaglen gan y GE. Bydd yr Adroddiad Rheoli Terfynol ar gyfer ESF ac ERDF yn cael ei gwblhau yn gynnar yn 2026.
- **Rhaglen Cydweithredu Tiriogaethol Ewropeaidd Iwerddon – Cymru 2014-2020**
  Cyflwynwyd yr Adroddiad Rheoli Terfynol sy'n cwmpasu 2023-24 i'r GE ym mis Mai 2025 gyda barn archwilio ddiamod a chyfradd cyfeiliornad o 0.86%, sydd dipyn yn is na lefel perthnasedd y GE o 2%. Mae'r Pecyn Cau cyfan bellach yn destun adolygiad gan y GE.

- **Rhaglen Cronfa'r Môr a Physgodfeydd Ewrop (EMFF) 2014-2020**
  Mae holl archwiliadau prosiectau EMFF wedi'u cwblhau ar gyfer y Rhaglen heb unrhyw wallau perthnasol neu systemig wedi'u canfod. Bydd Llywodraeth y DU, fel yr Awdurdod Archwilio, yn cyflwyno'r Adroddiad Rheoli Terfynol.
- **Adolygiad gan y Comisiwn Ewropeaidd o waith yr Awdurdod Archwilio ar gyfer Rhaglen 2014-2020**
  Mae adolygiad gan y Comisiwn Ewropeaidd a gynhaliwyd yn 2024, a gyflwynodd adroddiad ym mis Mehefin 2025, wedi barnu bod y Tîm Archwilio Cronfeydd Ewropeaidd (EFAT) yn gweithio'n effeithiol. Mae'r canlyniad yn rhoi sicrwydd cadarnhaol ar safon y gwaith archwilio a wnaed gan EFAT ar Gronfeydd Strwythurol a reolir gan Gymru.

## Adroddiad Blynyddol y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg (ARAC)

Ar sail ei waith drwy gydol 2024-25, roedd y Pwyllgor yn gallu rhoi **sicrwydd rhesymol** cyffredinol ar ddigonolrwydd y trefniadau archwilio ar gyfer Llywodraeth Cymru a hefyd ar y trefniadau ar gyfer llywodraethiant, rheoli risg a rheolaeth fewnol sydd wedi bod ar waith yn ystod y flwyddyn ariannol, gan ddefnyddio'r sicrwydd a gyflwynwyd i'r Pwyllgor a'r wybodaeth a roddwyd iddo gan swyddogion.

Er hynny, nodwyd gyda phryder y rhesymau dros y defnydd o farn sicrwydd hollt gan y Pennaeth Archwilio Mewnol, a'r ffaith mai sicrwydd 'cyfyngedig' yn unig a roddodd mewn perthynas â'r risgiau sy'n cael eu hysgwyddo gan Lywodraeth Cymru o ran ei systemau corfforaethol sy'n heneiddio. Bydd yr ARAC yn parhau i gymryd diddordeb brwd yn y rhaglen 'Trawsnewid Systemau Corfforaethol' sydd â'r bwriad o liniaru'r risgiau hyn, ac mae'n amlwg y bydd angen buddsoddiad sylweddol dros y blynyddoedd nesaf i fynd i'r afael â'r mater hwn.

## Holiaduron Rheolaeth Fewnol a Datganiadau Sicrwydd Blynyddol

Un o'm ffynonellau sicrwydd yw'r broses Holiadur Rheolaeth Fewnol (ICQ) flynyddol. Ar gyfer 2024-25, adeiladodd y Ganolfan Ragoriaeth Llywodraethiant Corfforaethol ar broses 2023-24 trwy fireinio'r strwythur ICQ, mabwysiadu dull mwy hybrid yn seiliedig ar y blynyddoedd blaenorol a chanolbwyntio'r asesiad ar dystiolaeth o wybodaeth ail linell/trydedd linell a ddarperir gan Arweinwyr Swyddogaethol. Rhoddwyd mynediad i'r holl Gyfarwyddwyr i'w ffurflenni/sgoriau ICQ 2023-24 ac roedd yr wybodaeth hon, ynghyd â thystiolaeth ail a thrydedd linell a ddarparwyd iddynt, yn sicrhau bod yr asesiad yn darparu set fwy cadarn o sgoriau ICQ.

Ar ôl i'r ffurflenni ICQ gael eu cyflwyno, cynhyrchwyd "map gwres" ac eleni fe'i hystyriwyd gan arweinwyr swyddogaethol, megis y Prif Swyddog Diogelwch a'r Cyfarwyddwr Pobl a Lleoedd. Cyflwynwyd craffu ychwanegol drwy ddefnyddio cyfarfod Uwch Dîm Arweinyddiaeth CSI fel sesiwn her yn ogystal â sesiwn her a gynhaliwyd gan y Pwyllgor Cyllid a Gwasanaethau Corfforaethol. Rhoddwyd adborth arweinwyr swyddogaethol i Gyfarwyddwyr i roi cyfle iddynt ystyried ac os oes angen, i ddiwygio eu sgoriau. Mae Uwch Reolwyr ac ARAC o fewn Grwpiau hefyd wedi cynnal sesiynau her i drafod yr ICQ.

Ar ôl cwblhau'r broses ICQ, bydd cynllun gweithredu yn cael ei roi ar waith i ystyried ac unioni meysydd o wendid rheoli posibl a nodwyd gan y map gwres. Yn ogystal, mae'r Ganolfan Ragoriaeth yn cynllunio cyfarfodydd gyda Chyfarwyddwyr cyn dechrau proses ICQ 2025-26 i gael gwell dealltwriaeth o sut mae cwestiynau ICQ yn cael eu dehongli neu eu hateb i sicrhau bod ymagwedd gyson a bod y cwestiynau'n cael eu dehongli'n glir ac yn gywir gan Gyfarwyddwyr.

Mae Cyfarwyddwyr Cyffredinol wedi llwyddo i gael mynediad at sgoriau ICQ 2024-25 ac wedi defnyddio'r wybodaeth hon i baratoi eu Datganiadau Sicrwydd DG i'm cynorthwyo i ddarparu'r sylwebaeth yn y Datganiad Llywodraethiant.

Yn gyffredinol, dangosodd ffurflenni ICQ 2024-25 fod gan Gyfarwyddwyr 'hyder rhesymol' yn y mwyafrif o'r rheolaethau sydd ar waith ar draws y sefydliad. Mae hwn yn asesiad tebyg i'r blynyddoedd blaenorol, gyda Chynllunio Busnes, Cyflawni Prosiectau a Materion Staffio yn sgorio'r lefelau hyder isaf.

## Y Panel Codi Pryderon

Cyfarfu'r Panel Codi Pryderon (Chwythu'r Chwiban gynt) ar dri achlysur yn ystod y flwyddyn, ynghyd ag un diweddariad y tu allan i'r pwyllgor, i ystyried pryderon a godwyd ac i sicrhau bod camau'n cael eu cymryd yn brydlon wedyn ond gan ofalu cadw cyfrinachedd lle bynnag y bo modd. Mae'r Panel yn delio â phryderon a godwyd gan staff ynghylch camweddau posibl, ac a fyddai'n debygol o fod o dan ddeddfwriaeth chwythu'r chwiban (Deddf Datgelu er Lles y Cyhoedd 1998).

Mae gan Lywodraeth Cymru broses ar wahân i staff godi pryderon am faterion megis telerau eu cyflogaeth neu ymddygiad amhriodol, ac nid yw'r pryderon hynny wedi'u cynnwys yn yr ystadegau yma.

Mae'r polisi Chwythu'r Chwiban a Chod y Gwasanaeth Sifil a gafodd ei ddiweddaru yn ddiweddar yn esbonio beth y dylai staff ei wneud os ydynt yn amau camwedd o fewn y sefydliad, a sut y bydd yn cael ei drin. Cyhoeddir gwybodaeth ar y Fewnrwyd hefyd. Mae trefniadau Codi Pryder yn Llywodraeth Cymru yn dryloyw ac yn cyd-fynd ag arferion da.

Ystyriwyd dau achos gan y Panel yn ystod y flwyddyn; roedd hyn yn cynnwys un achos y barnwyd nad oedd yn dod o fewn y polisi ac a atgyfeiriwyd at AD i fwrw ymlaen ag ef. Cafodd y ddau achos eu cau yn ystod y flwyddyn.

| Pryderon a godwyd | 2024-25 | 2023-24 | 2022-23 | 2021-22 | 2020-21 |
|---|---|---|---|---|---|
| Heb eu cadarnhau | 1 | 4 | 2 | 4 | 3 |
| Wedi'u datrys yn fewnol (materion yn ymwneud â staff) | 1 | - | - | 1 | 1 |
| Ddim yn fater i Lywodraeth Cymru | - | - | - | 1 | - |
| Cyngor wedi'i roi i'r Chwythwr Chwiban | - | 2 | - | - | 1 |
| Yn destun ymchwiliad o hyd | - | - | 2 | 2 | 5 |
| Wedi'u cadarnhau a chamau wedi'u cymryd | - | 1 | - | 2 | 1 |
| Dim digon o dystiolaeth i fynd ar eu trywydd | - | - | - | 1 | |
| **Cyfanswm** | **2** | **7** | **4** | **11** | **11** |

## Panel Sicrwydd Allanol a Gwrth-dwyll

Yn ogystal â’r Panel Codi Pryderon sy’n delio ag achosion mewnol, mae’r Panel Sicrwydd Allanol, a gyfarfu wyth gwaith yn ystod y flwyddyn, yn darparu cyngor i Swyddogion Cyfrifyddu Ychwanegol a swyddogion polisi ar ymateb i bryderon a godir mewn perthynas â chronfeydd Llywodraeth Cymru a ddyfernir i gyrff allanol. Mae llawer, ond nid pob un, o’r achosion hyn yn honiadau o dwyll, ac nid oes angen dod â’r holl achosion y mae’r Uned Gwrth-dwyll yn delio â hwy gerbron y Panel (felly mae gwahaniaeth yn nifer yr achosion y mae’r Panel a’r Tîm Gwrth-dwyll yn delio â hwy). Mae’r Panel yn darparu cyngor proffesiynol a chraffu annibynnol, yn ceisio sicrhau triniaeth gyson ar draws Llywodraeth Cymru, ac yn gallu nodi gwersi a ddysgwyd ac arferion gorau y gellir eu lledaenu i swyddogion polisi.

Mae’r Panel yn ystyried hefyd bryderon a godwyd lle nad yw’r sefydliad o dan sylw yn cael ei ariannu’n uniongyrchol gan Lywodraeth Cymru, er bod Llywodraeth Cymru yn gyfyngedig o ran sut y gall ymyrryd yn yr achosion hyn. Roedd un achos yn y categori hwn ar gyfer 2024-25. Mae Protocol Llywodraeth Cymru yn cynghori swyddogion ar yr ymatebion priodol i honiadau a ddaeth i law am gyrff a ariennir gan Lywodraeth Cymru, gan gynnwys pryderon am ymddygiad a materion heblaw afreoleidd-dra ariannol, yn ogystal â chefnogaeth a chyngor y Panel.

Cafodd naw o achosion newydd yn y flwyddyn eu hadrodd i’r Panel yn ychwanegol at y pum achos a gariwyd ymlaen o 2023-24. Cafodd 11 o achosion eu datrys gan y Panel yn ystod y flwyddyn, yr oedd pedwar ohonynt wedi’u cario ymlaen o’r flwyddyn flaenorol. Cafodd tri achos eu cario ymlaen i 2025-26, ac mae un o’r rheini wedi’i gario ymlaen o’r blynyddoedd blaenorol.

## Gwrth-dwyll

Mae'r tabl isod yn rhoi nifer yr achosion o amheuaeth o dwyll a adroddwyd i'r Pennaeth Gwrth-dwyll ar gyfer y flwyddyn ariannol ddiwethaf. Roedd 19 o achosion newydd wedi'u cyfeirio at yr Uned Wrth-dwyll ac wyth wedi'u trosglwyddo o'r flwyddyn flaenorol.

Honiadau Llywodraeth Cymru o dwyll a adroddwyd yn ystod 2024-25.

| Achosion Gwrth-dwyll | 2024-25 |
|---|---|
| Cariwyd ymlaen o 2023-24 | 8 |
| Achosion newydd yn codi | 19 |
| Achosion a gafodd eu datrys | 21 |
| Achosion sy'n parhau ac sy'n destun ymchwiliad | 6 |
| – Achos Llys yn mynd rhagddo | 0 |
| – Yn destun ymchwiliad gan yr Heddlu | 3 |
| – O dan waith monitro ad-dalu | 0 |
| – Yn destun adolygiad gan asiantaeth twyll annibynnol | 1 |
| – Ymchwiliad yn parhau gan Lywodraeth Cymru | 2 |

| Achosion Gwrth-dwyll | 2023-24 |
|---|---|
| Cariwyd ymlaen o 2022-23 | 3 |
| Achosion newydd yn codi | 25 |
| Achosion a gafodd eu datrys | 20 |
| Achosion sy'n parhau ac sy'n destun ymchwiliad | 8 |
| – Achos Llys yn mynd rhagddo | 0 |
| – Yn destun ymchwiliad gan yr Heddlu | 4 |
| – O dan waith monitro ad-dalu | 0 |
| – Yn destun adolygiad gan asiantaeth twyll annibynnol | 1 |
| – Ymchwiliad yn parhau gan Lywodraeth Cymru | 3 |

Mae'r ffigurau'n ymwneud â blynyddoedd ariannol. Mae'r tabl isod yn nodi sut y daeth yr 21 o achosion y deliwyd â hwy i ben.

| Mae'r 21 o achosion a gafodd eu datrys yn 2024-25 wedi'u nodi yn y categorïau isod | 2024-25 |
|---|---|
| Profwyd twyll (gadawodd un person y sefydliad o Swyddfa Ryngwladol ac roedd y 6 arall yn allanol gyda cholled fach iawn neu ddim colled o gwbl) | 7 |
| Yr heddlu heb fynd ar ei drywydd yn droseddol neu adferiad ariannol oedd yr opsiwn a ffafriwyd. (tystiolaeth o dwyll ond nid yw'n ddigonol i sicrhau erlyniad llwyddiannus neu mae cost treial yn drech na'r golled) | 3 |
| Ni chanfuwyd unrhyw dwyll | 11 |

Mae pob achos yn cael ei adolygu er mwyn dysgu gwersi a chaiff y rhain eu lledaenu i'r timau priodol a'u trafod gyda'r Ganolfan Ragoriaeth Grantiau a'r Panel Sicrwydd Allanol.

Mae Asesiadau Risg Twyll a Llygredd yn cael eu paratoi gan y cyfarwyddiaethau o fewn pob maes polisi, eu monitro a'u hadolygu yn ystod y flwyddyn a'u cyflwyno i Bennaeth y Tîm Gwrth-dwyll bob chwe mis.

## Y Fenter Twyll Genedlaethol (NFI)

Mae Llywodraeth Cymru yn parhau i ddangos ei hymrwymiad i ganfod twyll a chamgymeriadau yn y sector cyhoeddus drwy gymryd rhan unwaith eto yn y Fenter Twyll Genedlaethol a gynhelir bob dwy flynedd. Dechreuodd y Fenter Twyll Genedlaethol ddiweddaraf dros Haf 2024 a daeth y canlyniadau i law erbyn mis Chwefror 2025. Mae'r Gwasanaeth Archwilio Mewnol wedi asesu'r canlyniadau sy'n cyfateb ac wedi nodi'r rhai a fydd yn destun adolygiad dilynol. Mae'r gwaith wedi dechrau a disgwylir iddo gael ei gwblhau erbyn diwedd y flwyddyn galendr.

## Gwrthdaro Buddiannau

Mae sicrhau bod unrhyw wrthdaro buddiannau yn cael ei reoli'n effeithiol yn agwedd allweddol ar unrhyw fframwaith llywodraethiant effeithiol a system rheolaeth fewnol. O fewn Llywodraeth Cymru mae'r rheolaethau sydd ar waith i ddelio â hyn yn cynnwys polisïau a gweithdrefnau corfforaethol sy'n cwmpasu cofrestrau gwrthdaro buddiannau a ffurflen flynyddol gan yr holl staff perthnasol a gyhoeddir ar wefan Llywodraeth Cymru (gan ddatgelu'r holl aelodau bwrdd ac aelodau tebyg o sefydliadau trydydd parti a ddelir gan swyddogion Llywodraeth Cymru).

Mae gan y Bwrdd a phob ARAC Gofrestrau Gwrthdaro Buddiannau hefyd. Gofynnir hefyd am wrthdrawiadau buddiannau sy'n gysylltiedig ag eitemau penodol ar yr agenda ym mhob cyfarfod ac fe'i cofnodir yn ffurfiol. Mae'r gofynion a osodir ar aelodau'r Bwrdd ac ARAC hefyd wedi'u nodi mewn llythyrau penodi a'r Cylch Gorchwyl.

Rwyf yn dal yn ffyddiog bod ein polisïau a'n gweithdrefnau presennol yn effeithiol, ond mae gwaith ar y gweill i gryfhau ein dull gweithredu ar gyfer yr holl staff. Yn dilyn adolygiadau, yn sgil archwiliadau mewnol a chanllawiau wedi'u hadnewyddu gan Wasanaeth Sifil y DU, mae polisi diwygiedig a chadarnach wedi'i ddrafftio i'w lansio. Mae ein cynllun gwreiddiol i ddatblygu a lansio system bwrpasol, wedi'i digideiddio'n llawn, ar gyfer monitro a chofnodi datganiadau yn anymarferol yng ngoleuni newidiadau i drefniadau cyllido a chostau trwyddedu rhagamcanol. Er hynny, rydym yn archwilio dewis arall cost is i alluogi gwell cofnodi ac adrodd, ochr yn ochr â lansio ein polisi ar ei newydd wedd. Bydd hyn yn sicrhau bod mwy o oruchwylio, adrodd a chydymffurfiaeth ac mae opsiynau peilot eisoes yn cael eu hystyried.

## Modelau Dadansoddi Allweddol o ran Busnes

Cynhaliodd penaethiaid proffesiwn dadansoddi Llywodraeth Cymru ymarfer sicrwydd blynyddol i werthuso pa mor agored yw'r sefydliad i risg sy'n deillio o fodelau dadansoddol sy'n allweddol o ran busnes. Yn ogystal, cynhaliwyd adolygiad gan gymheiriaid ar nifer dethol o fodelau i ategu'r ymarfer blynyddol.

Mae amlygiad Llywodraeth Cymru i risg modelu dadansoddol wedi parhau i gynyddu oherwydd defnydd ehangach o fodelu. Eleni adolygwyd 28 o fodelau hanfodol o ran busnes, gan gynyddu o 21 pan sefydlwyd y broses sicrwydd yn 2017-18. Er na wnaeth nifer cyffredinol y modelau newid yn sylweddol eleni, roedd chwe model newydd ac fe gafodd pum model gan eu dileu nad ydynt bellach yn cael eu hystyried yn allweddol o ran busnes.

Yn ystod yr ymarfer sicrwydd blynyddol, mae pob model yn cael ei sgorio ar ei risg a'i effaith. Eleni, ni wnaeth graddfeydd unrhyw fodel presennol gynyddu. Gostyngwyd y graddfeydd risg ar gyfer tri model, ac roedd gan un model raddfa effaith is. Mae hyn yn wahanol i'r blynyddoedd blaenorol pan arweiniodd ffactorau megis y pandemig a heriau cymdeithasol ac economaidd eraill yn aml at lefelau risg neu effaith uwch. Yn gyffredinol, mae amlygiad i risg yn parhau i gael ei sbarduno i raddau helaeth gan:

- Ansicrwydd neu gymhlethdod cynhenid yn y data a'r rhagdybiaethau a ddefnyddir yn y modelu.
- Dibyniaeth ar arbenigedd allanol ar gyfer modelau cymhleth neu arbenigol, ynghyd â gallu mewnol cyfyngedig gan gomisiynwyr modelau.
- Timau â nifer bach o ddadansoddwyr model neu bwynt methiant unigol.

Mae capasiti dadansoddol yn dal yn her sylweddol, gyda llawer o dimau yn dibynnu ar nifer bach o ddadansoddwyr. Mae cymuned fodelu'r sefydliad wedi darparu cynllun rhesymol wrth gefn yn y gorffennol i gefnogi cymheiriaid mewn meysydd hanfodol lle mae capasiti yn brin; er hynny, mae'r rhwydwaith hwn wedi bod o dan bwysau eleni. Mae hyn yn lleihau gwydnwch timau modelu bach ymhellach.

Mae arbenigedd allanol yn cael ei ddefnyddio fwyfwy ar gyfer modelau arbenigol, ac nid oes gan rai meysydd y swyddogaethau 'cleient deallus' mewnol i herio a sicrhau allbynnau model a gynhyrchir yn allanol. Mae meysydd o arferion da a gwella hefyd. Y llynedd diweddarwyd deunyddiau hyfforddi ar gyfer Prif Swyddogion Cyfrifol modelau, a bwriedir eu diweddaru ymhellach ar sail canllawiau diweddaraf y llyfr Aqua unwaith y byddant ar gael. Yn dilyn sesiwn hyfforddiant gloywi lwyddiannus gyda dadansoddwyr arweiniol, rydym yn bwriadu parhau i drefnu sesiynau ac annog y gymuned fodelu i rannu arferion da a thrafod problemau cyffredin.

Mae'r ymarfer sicrwydd blynyddol yn darparu rheolaethau rhesymol i ddeall amlygiad i risg modelu dadansoddol, ac mae penaethiaid y proffesiwn dadansoddi yn gwneud argymhellion i liniaru'r risg ymhellach. Er hynny, cyfrifoldeb perchnogion modelau yw rhoi hyn ar waith. Mae olrhain camau gweithredu o argymhellion adolygiad blaenorol gan gymheiriaid bellach ar waith.

Er mwyn gwella tryloywder ar y defnydd o fodelu dadansoddol, mae cofrestr modelau sy'n bwysig i fusnes Llywodraeth Cymru wedi'i chyhoeddi ac fe gaiff ei diweddaru bob blwyddyn. Mae gwybodaeth am fodelau allweddol o ran busnes a ddelir gan gyrff hyd braich yn cael ei chasglu a bydd yn cael ei chynnwys mewn fersiynau o'r gofrestr yn y dyfodol.

Maes pellach i'w ddatblygu y flwyddyn nesaf yw gwella aeddfedrwydd sgorio risg ac effaith drwy rannu'r risg yn risg gynhenid a risg weddilliol. Bydd hyn yn helpu i nodi a oes digon o reolaethau ar waith.

# Materion Rheolaeth Fewnol



Mae'r sicrwydd cadarnhaol yr wyf wedi'i gael yn rhoi hyder imi fod gan Lywodraeth Cymru, yn gyffredinol, fframweithiau cadarn a threfnus o lywodraethiant a rheolaeth fewnol. Er hynny, datgelwyd rhai materion nodedig yn ystod y flwyddyn ac mae camau'n cael eu cymryd i fynd i'r afael â'r rhain ac i wneud gwelliannau, fel y nodir isod.

## Colledion, Dileadau a Thaliadau Arbennig

### Mona Island Dairy Ltd £3,000,000 a St Beunos Dairy Ltd – £739,248

Mae achosion St Beunos a Mona Island yn ymwneud â grantiau a ddyfarnwyd i laethdai yn y Gogledd a aeth i ddwylo'r gweinyddwyr yn ddiweddarach heb gwblhau telerau'r llythyr dyfarnu grant. Er bod y ddau achos yn wahanol, roedd problemau rheoli yn y ddau gwmni ac roedd y ddwy hufenfa mewn rhannau cymharol newydd o'r farchnad (cawsiau Ewropeaidd a llaeth wedi'i sterileiddio mewn poteli) a allai fod wedi cyfrannu at fethiant y busnesau yn y pen draw. Er nad ydym hyd yma wedi nodi unrhyw broblemau systemig yn ymwneud â hufenfeydd yn y Gogledd, dyma'r ail a'r drydedd i fynd i ddwylo'r gweinyddwyr yn ystod y blynyddoedd diwethaf. Rydym yn ystyried cynnal adolygiad pellach o'r diwydiant llaeth yng Nghymru (yr un diwethaf a gynhaliwyd oedd yn 2018).

Mae'r Grŵp Llywodraeth Leol, Tai, Newid Hinsawdd a Materion Gwledig yn parhau i adolygu ei ddull o reoli grantiau yn gyson ac wedi gwneud newidiadau i'w gynnig grant a'i brosesau i nodi gwersi a ddysgwyd o'r holl grantiau, gan gynnwys yr achosion unigol hyn.

## Pobl/SERO Technologies Ltd, Unedau Systemau Ynni Deallus – £359,622

Yn ogystal â'r taliad ofer a adroddwyd ar gyfer y Rhaglen Ôl-osod er mwyn Optimeiddio (ORP) yng nghyfrifon y blynyddoedd blaenorol, y gwerth hwn yw cost uwchraddio 586 o unedau Systemau Ynni Deallus (IES). Roedd angen yr uwchraddiad hwn oherwydd newidiadau technolegol a phlatfform a fyddai wedi gwneud yr unedau yn ddarfodedig. Mae'r uwchraddiad yn sicrhau parhad data IES a ddarperir i'r Rhaglen Ôl-osod er mwyn Optimeiddio. Ar ddechrau'r flwyddyn ariannol, roedd disgwyl i werth disgwyliedig y taliad ofer hwn yn 2024-25 fod yn uwch; er hynny, er ei fod yn dal yn golled, gwnaeth y sefyllfa wella erbyn diwedd y flwyddyn. Cynhaliwyd ymarfer gwersi a ddysgwyd ar y cyd, a oedd yn cynnwys yr holl bartïon, ac mae adroddiad annibynnol wedi'i gynhyrchu.

## Dileu stociau ffliw pandemig, meddyginiaeth Covid a phrofion llif unffordd

Yn flynyddol, y prif eitemau a gofnodir yng Nghofrestr Golledion y Grŵp Iechyd, Gofal Cymdeithasol a'r Blynyddoedd Cynnar yw dileu stociau wrth gefn o gyffuriau ffliw pandemig sydd wedi dyddio a nwyddau traul cysylltiedig. Cynhelir cyfrifiad o'r stoc ar 31 Mawrth i nodi'r stoc sydd i'w dileu. Ar gyfer 2024-25 y gwerthoedd oedd:

- Gwrthfiotigau – £177,860 (2023-24 £364,675)
- Cyffuriau gwrthfeirol – £1,029,507 (2023-24 £831,744)
- Deunyddiau traul – £113,128 (2023-24 £111,615)

Hefyd yn 2024-25, cafodd yr eitemau canlynol eu dileu gan eu bod wedi mynd heibio i'w dyddiadau dod i ben:

- Meddyginiaethau Covid – £2,578 (2034-24 £1,670,803)
- Pecynnau prawf llif unffordd – £1,656 (2023-24 £1,837,913)

Mae stociau o gyffuriau gwrthfeirol, gwrthfiotigau a defnyddiau traul yn cael eu dal gan Lywodraeth Cymru yn unol â chynllunio ledled y DU ym maes iechyd y cyhoedd. Mae lefelau stoc y mae ei hangen, y mathau o gyffuriau ac ailbrosesu cyffuriau yn cael eu rheoli ar lefel y DU a gallant fod yn anwadal o'r herwydd. Mae dileadau'n digwydd o ganlyniad i addasu cyflenwadau gwladol i fodloni angen cynlluniedig. Mae'n risg gydnabyddedig, wrth wneud paratoadau priodol ar gyfer ffliw pandemig a brigiadau eraill, fod rhai stociau'n debygol o gael eu dileu.

## Elusen Credu, y Ganolfan Forol ym Mhorthcawl – £1,641,682

Dyfarnwyd £2.134m o gyllid ERDF i Elusen Credu tuag at ddatblygu Canolfan Forol ym Mhorthcawl yn 2017. Roedden wedi gwario a hawlio £929,380. Roeddent hefyd wedi cael £712,302 o Arian Cyfatebol a Dargedir oddi wrth Lywodraeth Cymru tuag at y prosiect ym mis Ebrill 2016. Cyfanswm yr hawliadau a dalwyd gan Lywodraeth Cymru oedd £1,641,682. Cododd problemau gyda chyflawni prosiectau a thynnodd Croeso Cymru gyllid pellach yn ôl a cheisio hawlio'r cyllid a dalwyd i'r sefydliad yn ôl. Erbyn hynny, fodd bynnag, roedd Credu wedi'i ddatod. Mae'r datodwyr wedi cadarnhau nad oes arian i ad-dalu credydwyr.

Cafodd y dilead o £1,641,682 ei ohirio wrth i'r heddlu gynnal ymchwiliad i amheuaeth o dwyll gan Credu. Mae'r achos bellach wedi'i gau. Cyhoeddwyd adroddiad ar faterion a godwyd gan yr achos gan Archwilydd Cyffredinol Cymru ym mis Awst 2025. Rydym wedi derbyn canfyddiadau'r adroddiad ac wedi cryfhau agweddau ar ein prosesau rheoli grantiau fel y gellir cymhwyso gwersi yn eang o fewn y sefydliad.

### Cronfa Fuddsoddi Gwyddorau Bywyd Cymru – £20,580,000

Mae'r cofnod hwn yn y gofrestr yn ymwneud â dileu'n derfynol yng nghyfrifon Craidd Llywodraeth Cymru yr elfen na ellir ei hadennill o fenthyciad i Fanc Datblygu Cymru ar gyfer Cronfa Fuddsoddi Gwyddorau Bywyd Cymru. Dechreuwyd Cronfa Fuddsoddi Gwyddorau Bywyd Cymru yn 2012 a bu'n cefnogi datblygiad y diwydiant gwyddorau bywyd yng Nghymru drwy fuddsoddiadau ecwiti mewn cwmnïau gwyddorau bywyd cyfnod cynnar. Mae'r Gronfa wedi'i rheoli drwy Fanc Datblygu Cymru.

Erbyn hyn nid oes fawr o obaith y bydd unrhyw enillion pellach o'r cyfranddaliadau sy'n weddill ac felly mae'r broses ddileu wedi'i chwblhau.

### Trawsnewid Trefi – y rhaglen Adeiladu ar gyfer y Dyfodol – £2,140,329

Bu'r rhaglen Adeiladu ar gyfer y Dyfodol (BFTF) yn helpu i adfywio canol trefi a'r cyffiniau drwy fynd i'r afael â thir neu adeiladau adfeiliedig nad ydynt yn cael eu defnyddio bellach. Roedd y rhaglen gwerth £28 miliwn yn elfen bwysig o'r cymorth a oedd ar gael drwy Drawsnewid Trefi gan helpu i gaffael, adnewyddu ac ailddatblygu adeiladau a thir segur yng nghanol trefi. Roedd y rhaglen yn cyd-fynd yn gryf â blaenoriaethau allweddol Llywodraeth Cymru ac yn cael ei chyflawni drwy gyfuniad o gyllid Cyllid Datblygu Rhanbarthol Ewrop (ERDF), cyllid craidd Llywodraeth Cymru a chyfraniadau o ffynonellau cyhoeddus, preifat a thrydydd sector eraill.

O ganlyniad i'r hawliad BFTF terfynol a'r archwiliad dilynol gan WEFO, mae cywiriad o £4.12m wedi'i orfodi ar lefel gwariant gan arwain at golli cyfanswm o £2.140m o gyllid grant. Mae hyn wedi digwydd oherwydd cymhlethdod y rhaglen BFTF a oedd yn canolbwyntio ar adeiladau anodd neu broblematig yng nghanol trefi.

## Materion eraill yn ystod y flwyddyn

### Trefniadau TAW/ Cynllunio a Rheoli Trethi

Fel rhan o raglen dreigl o adolygiadau cydymffurfio, mae gan CThEF y tri adolygiad cydymffurfio parhaus canlynol:

- Adolygiad IR35;
- Adolygiad o Gydymffurfiaeth Cyflogwyr; ac
- Archwiliad TAW.

Oherwydd materion adnoddau yn CThEF, dim ond yr Archwiliad TAW sydd wedi symud ymlaen yn ystod y cyfnod hwn. Ni chafwyd unrhyw adroddiadau gan CThEF yn ystod y cyfnod sy'n nodi diffyg cydymffurfio. Arweiniodd un achos cymhleth at or-adennill TAW gan Lywodraeth Cymru, cyfanswm o £2,168,721, oherwydd newid yn strwythur y gwaith a wnaed, ond cafodd y gor-adenilliad hwn ei ad-dalu gan Drysorlys EF.

## Sector Development Wales Partnership (Diwydiant Cymru)

Cyhoeddodd Archwilydd Cyffredinol Cymru farn ag ymwadiad ym mis Chwefror 2025 ar gyfrifon 2023-24 is-gwmni i Lywodraeth Cymru, sef Sector Development Wales Partnership Ltd, a elwir yn 'Diwydiant Cymru'. Roedd sail yr ymwadiad yn bennaf mewn perthynas â phryderon prisio ar gyfer ased sengl sylweddol (llinell bacio arbenigol) – gellir dod o hyd i wybodaeth bellach yma. Yn dilyn hynny, cynhaliwyd prisiad o'r ased, ac fe gaiff y canlyniadau eu hadlewyrchu yng nghyfrifon 2024-25 a gyflwynwyd i'w harchwilio ac mae rheolwyr wedi cymryd camau fynd i'r afael â'r argymhellion archwilio a godwyd. Mae'r materion dan sylw yn gyfyngedig i'r endid hwn ac mae ymgysylltu adeiladol ar y gweill rhwng yr endid ac Archwilio Cymru ar gyfer archwiliad 2024-25.

## Llywodraethiant Gwybodaeth

Fel Prif Swyddog Cyfrifyddu, rwyf yn gyfrifol am sicrhau bod trefniadau priodol yn bodoli i gydymffurfio â'r set graidd o fesurau gofynnol gorfodol i amddiffyn gwybodaeth yn Adrannau'r Llywodraeth. Mae'n ofynnol imi asesu'r risg a sicrhau bod strategaethau lliniaru priodol yn bodoli.

Lle bo trydydd partïon yn ymdrin â gwybodaeth y mae Llywodraeth Cymru'n gyfrifol amdani yn gyfreithiol, mae'n bwysig bod cyngor a chyfarwyddyd yn cael eu rhoi iddynt am sut y mae rhaid ymdrin â'r wybodaeth honno. Mae sicrwydd cyflenwyr mewn perthynas â diogelwch TG yn cael ei asesu cyn dyfarnu contract, lle mae gwybodaeth bersonol yn cael ei phrosesu gan drydydd partïon, ac mae cymalau sicrhau gwybodaeth yn cael eu cynnwys yn safonol fel rhan o gymalau contract. Rydym hefyd yn cadarnhau bod y rhai sy'n prosesu ein gwybodaeth sensitif yn destun Prawf Iechyd TG annibynnol ac yn bodloni'r safon briodol o ran arferion gorau e.e. Cyber Essentials, ISO27001.

Mae gan Lywodraeth Cymru bolisïau a gweithdrefnau ar waith i reoli risg seiberddiogelwch yn rhagweithiol, gan weithio gyda'r Ganolfan Seiberddiogelwch Genedlaethol i ddiogelu ein hasedau digidol a'n seilwaith TGCh. Mae risgiau diogelwch (gan gynnwys seiber) yn cael eu trafod yn y Bwrdd Diogelwch gan yr Uwch-berchennog Risg Gwybodaeth (enwebai diogelwch ar lefel Bwrdd) a'r Prif Swyddog Diogelwch. Mae ExCo a minnau'n cael sesiynau briffio diogelwch drwy gydol y flwyddyn.

**Tabl 1: Digwyddiadau sy'n dod o fewn y meini prawf ar gyfer adrodd i Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth (ICO) (adroddwyd)**

| Blwyddyn | Digwyddiadau a adroddwyd i ICO | Camau a gymerwyd gan ICO |
|---|---|---|
| 2023-2024 | 2 | 0 |
| 2024-2025 | 0 | 0 |

**Tabl 2: Crynodeb o ddigwyddiadau eraill yn ymwneud â data personol a ddiogelir**

Yn y tabl isod nodir digwyddiadau nad yw'r Rheolydd Data yn barnu eu bod yn perthyn i'r meini prawf ar gyfer adrodd i Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth, ond sy'n cael eu cofnodi'n fewnol.

| Math | Natur y digwyddiad | 2024-25 | 2023-24 |
|---|---|---|---|
| I | Colli offer electronig, dyfeisiau neu ddogfennau papur, sydd heb gael eu diogelu'n ddigonol, o safleoedd diogel y Llywodraeth | 2 | 0 |
| II | Colli offer electronig, dyfeisiau neu ddogfennau papur, sydd heb gael eu diogelu'n ddigonol, o'r tu allan i safleoedd diogel y Llywodraeth | 1 | 1 |
| III | Gwaredu mewn modd anniogel offer electronig, dyfeisiau neu ddogfennau papur sydd heb gael eu diogelu'n ddigonol | 1 | 1 |
| IV | Datgeliad anawdurdodedig e.e. anfon e-bost at y person anghywir | 141 | 134 |
| V | Arall | 1 | 0 |
| **Cyfanswm** | | **146** | **136** |

Mae pob datgeliad data heb ei awdurdodi yn cael ei gofnodi ac ymchwilir iddynt. Mae Llywodraeth Cymru'n cynnal proses adrodd fewnol gadarn sy'n cynnwys pob math o ddigwyddiad. Ar ôl i bob achos o dorri data gael ei adrodd, cytunir ar gamau unioni â'r rheolwyr ac mae camau gweithredu'n cael eu holrhain i sicrhau bod y camau hynny'n cael eu cwblhau. Adroddir ar bob achos o dorri data i'r Cyfarwyddwr Cyffredinol perthnasol. Lle bo angen, mae gwersi i'w dysgu ar draws y sefydliad yn rhan o'r Bwletin Diogelwch rheolaidd i'r holl staff.

Fel yr amlinellwyd yn Nhabl 2 mae nifer y digwyddiadau sy'n ymwneud â data personol wedi cynyddu 7% (o 136 i 146).

Mae'r cynnydd bach hwn i'w briodoli i gynnydd mewn datgeliadau heb eu hawdurdodi. O'r 141 o ddatgeliadau heb eu hawdurdodi, cofnodwyd 76 (54%) fel gwybodaeth a anfonwyd neu a e-bostiwyd at y derbynnydd anghywir. I roi hyn mewn cyd-destun, anfonodd Llywodraeth Cymru 1.09 miliwn o negeseuon e-bost y mis ar gyfartaledd yn ystod y cyfnod hwn.

Byddwn yn gofyn i'r holl staff gwblhau hyfforddiant diogelu data a diogelwch gorfodol ym mis Gorffennaf 2025.

## Adroddiad y Swyddog Diogelu Data

Mae metrigau diogelu data yn ystod 2024-25 yn parhau i awgrymu bod mesurau technegol a sefydliadol Llywodraeth Cymru yn effeithiol, yn gyffredinol, ar gyfer diogelu data personol a chefnogi atebolrwydd. Yn benodol, mae diogelwch o ran asedau data personol yn gadarn. Er na ellir cael gwared yn llwyr ar ddigwyddiadau diogelu data, cawsant eu hamddiffyn yn dda ac ymatebwyd iddynt yn effeithiol.

Serch hynny, mae achosion o ddiffyg cydymffurfio â deddfwriaeth diogelu data yn parhau i gael eu nodi, ac mae peidio ag ymgynghori'n llawn ag ICO o dan Erthygl 36(4) yn fater penodol. Mae angen mwy o waith i sicrhau bod pob agwedd ar ddeddfwriaeth diogelu data yn cael ei hystyried yn llawn.

O ran risg cydymffurfio, mae rheoli asedau data drwy eu rhoi mewn categorïau gwahanol, ynghyd â bodolaeth barhaus llawer o systemau data ac asedau data etifeddol, yn dal yn rhwystr o ran rheoli risg data yn effeithiol. Mae'n rhwystr hefyd, felly, o ran cydymffurfio â rheolau diogelu data yn gyson, yn effeithiol ac yn effeithlon.

# Atebolrwydd Lleol



Mae cyfran sylweddol o wariant Llywodraeth Cymru'n cael ei ddosbarthu i awdurdodau lleol Cymru a chyrff GIG Cymru i gyflawni amcanion polisi ac ystod o wasanaethau rheng flaen, gan gynnwys iechyd, gofal cymdeithasol ac addysg. Mae Cyfarwyddwr Cyffredinol y Grŵp Iechyd, Gofal Cymdeithasol a'r Blynyddoedd Cynnar yn Llywodraeth Cymru yn Brif Weithredwr GIG Cymru yn ogystal.

## Awdurdodau Lleol

Darperir cyllid grant i awdurdodau unedol, awdurdodau tân ac achub, awdurdodau parciau cenedlaethol a Chomisiynwyr yr Heddlu a Throseddu yng Nghymru. Yr elfen unigol fwyaf o gyllid grant yw'r setliad heb ei neilltuo blynyddol ar gyfer Awdurdodau Unedol sy'n cynnwys Grant Cynnal Refeniw a chyfran o incwm ardrethi annomestig. Pennir cwantwm y cyllid fel rhan o gylch cyllideb flynyddol Llywodraeth Cymru. Fe'i dosberthir gan ddefnyddio fformiwla sy'n adlewyrchu'r ffactorau sydd wrth wraidd angen yr awdurdodau i wario i ddarparu ystod eang o wasanaethau, gan gynnwys addysg a gofal cymdeithasol. Mae'r fformiwla'n cael ei chynnal, ei diweddaru a'i gwella drwy raglen waith barhaus gyda llywodraeth leol. Mae'r rhan fwyaf o'r cyllid yn cael ei ddosbarthu ar sail data sy'n cael ei ddiweddaru bob blwyddyn.

Wrth i'r broses o gyhoeddi'r canlyniadau fynd rhagddi, mae gwaith ar y gweill ar y fformiwla i adlewyrchu data Cyfrifiad 2021 lle bo'n briodol.

Rhoddir cyllid hefyd i awdurdodau drwy grantiau na ellir eu defnyddio ond at y dibenion penodol y maent yn cael eu darparu ar eu cyfer. Yn ogystal, mae'r Awdurdodau Unedol yn cael rhai grantiau penodol oddi wrth Adrannau Llywodraeth y DU ar gyfer swyddogaethau sydd heb eu datganoli, o'r dreth gyngor a bennir yn lleol, ac o ffioedd, taliadau a ffynonellau incwm eraill. Mae'r Awdurdodau Unedol hefyd yn cael grantiau Llywodraeth Cymru ar gyfer gwario cyfalaf a chymorth ar gyfer benthyca. Cydategir hyn gan allu'r awdurdodau eu hunain i fenthyca, grantiau gan gyrff eraill a derbyniadau cyfalaf.

Mae trefniadau tebyg yn gymwys i'r ddarpariaeth refeniw ar gyfer Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddu, a ariennir drwy gyfuniad o'r Grant Cynnal Refeniw ac incwm ardrethi domestig gan Lywodraeth Cymru, Grant yr Heddlu oddi wrth y Swyddfa Gartref, grantiau penodol, a'r dreth gyngor. Mae awdurdodau eraill yn cael eu hariannu drwy drefniadau megis grantiau penodol, ardollau a phraeseptau.

Mae pob awdurdod yn atebol am sut y mae'n defnyddio'r cyllid sydd ar gael wrth gyflawni'r swyddogaethau y mae'n gyfrifol amdanynt. Rhaid i'r Awdurdodau Unedol, cyrff yr heddlu ac Awdurdodau Tân ac Achub gael swyddog penodedig o dan Adran 151 o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 sydd â dyletswyddau statudol i sicrhau bod materion ariannol yn cael eu gweinyddu'n briodol. Mae awdurdodau yn cael eu dwyn i gyfrif drwy eu swyddogaethau craffu a thrwy atebolrwydd uniongyrchol i'w hetholwyr lleol. Mae rheoleiddwyr statudol ar gyfer rhai swyddogaethau. Mae eu materion ariannol yn cael eu llywodraethu drwy fframwaith cyfrifyddu ac archwilio statudol ac mae eu cyfrifon yn destun archwiliadau allanol blynyddol llawn.

Mae Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 yn ei gwneud yn ofynnol i gynghorau sir a chynghorau bwrdeistref sirol adolygu eu perfformiad yn rheolaidd, gan gynnwys cynnal hunanasesiad bob blwyddyn ac asesiad gan gymheiriaid bob pum mlynedd. Mae'n ofynnol iddynt ymgynghori ar yr asesiadau hyn, eu cyhoeddi, a gweithredu'n unol â hwy.

O ran cyllid a ddarperir at ddibenion penodol, yr adrannau polisi perthnasol sy'n gyfrifol am delerau ac amodau grantiau unigol. Mae'n ofynnol i'r telerau ac amodau hyn roi sylw dyladwy i Safonau Gofynnol y Ganolfan Ragoriaeth Grantiau ar gyfer Cyllid Grant. Drwy gadw at y safonau hyn dylid sicrhau cydymffurfiaeth â threfniadau llywodraethiant ac ariannol, cyfreithiau perthnasol, polisïau ac arferion da Llywodraeth Cymru. Mae'r Grŵp Llywodraeth Leol, Tai, Newid Hinsawdd a Materion Gwledig yn darparu cymharol ychydig o'r rhain, ond mae nifer y grantiau refeniw a swm y cyllid drwy grantiau penodol oddi wrth Lywodraeth Cymru yn ei gyfanrwydd yn sylweddol. Mae gwaith y dechreuwyd arno yn 2022-2023 i adolygu'r beichiau gweinyddol ar yr awdurdodau lleol o dan Raglen Lywodraethu Llywodraeth Cymru wedi parhau yn 2024-2025 gan gynnwys ffocws ar y gorbenion gweinyddol a achosir gan gyllid grant. Cafodd nifer o grantiau ar draws Llywodraeth Cymru eu cyfuno neu eu trosglwyddo i'r Setliad heb ei neilltuo.

O ran y cyllid a ddarperir gan Lywodraeth y DU mewn perthynas â swyddogaethau heb eu datganoli, cytunir ar y trefniadau ar gyfer atebolrwydd rhwng yr Awdurdodau Lleol a'r Adran berthnasol yn Llywodraeth y DU.

## Iechyd

Mae Byrddau Iechyd Lleol (BILl) yn cael eu hariannu i gomisiynu a darparu Gwasanaethau Ysbytai ac Iechyd Cymunedol ac i dalu cost cyffuriau a ragnodir gan Ymarferwyr Cyffredinol ar gyfer eu poblogaethau preswyl. Darperir cyllid hefyd i roi taliadau i gontractwyr annibynnol gan gynnwys Ymarferwyr Cyffredinol, Ymarferwyr Deintyddol Cyffredinol a Fferyllwyr. Mae cyllid ychwanegol wedi'i dargedu yn cael ei ddefnyddio i gefnogi cyflawni amcanion Llywodraeth Cymru. Darperir cyllid cyfalaf i gefnogi Rhaglen Gyfalaf Cymru Gyfan ac mae cyllid cyfalaf disgresiynol hefyd yn cael ei ddarparu i gefnogi blaenoriaethau a nodir yn lleol.

## Trefniadau Uwchgyfeirio ac Ymyrryd

Mae'r tabl canlynol yn nodi statws uwchgyfeirio ac ymyrraeth 12 corff GIG Cymru ar 31 Mawrth 2025 o'i gymharu â 31 Mawrth 2024[79].

| Sefydliad Gwasanaeth Iechyd | Statws Uwchgyfeirio ac Ymyrryd ar 31 Mawrth 2025 | Statws Uwchgyfeirio ac Ymyrryd ar 31 Mawrth 2024 |
|---|---|---|
| Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan | Lefel 4 ar gyfer cyllid, strategaeth a chynllunio.<br>Lefel 3 ar gyfer perfformiad a chanlyniadau sy'n ymwneud â pherfformiad gofal brys ac argyfwng yn Ysbyty Athrofaol y Faenor. | Lefel 4 (ymyrraeth wedi'i thargedu) ar gyfer cyllid, strategaeth a chynllunio.<br>Lefel 3 (monitro uwch) ar gyfer perfformiad a chanlyniadau sy'n ymwneud â gofal brys ac argyfwng yn Ysbyty'r Faenor. |
| Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr | Lefel 5 ar gyfer y sefydliad cyfan. | Lefel 5 (mesurau arbennig). |
| Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro | Lefel 4 ar gyfer cyllid, strategaeth a chynllunio. | Lefel 3 (monitro uwch) ar gyfer cyllid, strategaeth a chynllunio. |
| Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg | Lefel 3 ar gyfer cyllid, strategaeth a chynllunio.<br>Lefel 3 ar gyfer perfformiad a chanlyniadau sy'n ymwneud â gofal a gynlluniwyd a chanser.<br>Lefel 4 ar gyfer perfformiad a chanlyniadau mewn perthynas â gofal brys ac argyfwng. | Lefel 3 (monitro uwch) ar gyfer cyllid, strategaeth a chynllunio.<br>Lefel 4 (ymyrraeth wedi'i thargedu) ar gyfer gwasanaethau mamolaeth a newyddenedigol.<br>Lefel 4 (ymyrraeth wedi'i thargedu) ar gyfer ansawdd a llywodraethiant.<br>Lefel 4 (ymyrraeth wedi'i thargedu) ar gyfer perfformiad a chanlyniadau. |

79 Mae dolen i'r pum lefel o drefniadau llywodraethiant yma.

| Sefydliad Gwasanaeth Iechyd | Statws Uwchgyfeirio ac Ymyrryd ar 31 Mawrth 2025 | Statws Uwchgyfeirio ac Ymyrryd ar 31 Mawrth 2024 |
|---|---|---|
| Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda | Lefel 4 ar gyfer cyllid, strategaeth a chynllunio, perfformiad a chanlyniadau, gwasanaethau bregus (gan gynnwys canser ac offthalmoleg) gofal brys ac argyfwng, a heintiau sy'n gysylltiedig â gofal iechyd.<br>Lefel 3 ar gyfer arweinyddiaeth a llywodraethiant, a pherfformiad a chanlyniadau sy'n ymwneud â gofal a gynlluniwyd ac iechyd meddwl plant a phobl ifanc (CAMHS). | Lefel 4 (ymyrraeth wedi'i thargedu). |
| Bwrdd Iechyd Addysgu Powys | Lefel 4 ar gyfer cyllid, strategaeth a chynllunio. | Lefel 3 (monitro uwch) ar gyfer cyllid, strategaeth a chynllunio. |
| Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe | Lefel 4 ar gyfer cyllid, strategaeth a chynllunio.<br>Lefel 4 ar gyfer perfformiad a chanlyniadau sy'n ymwneud â chanser, gofal brys ac argyfwng a heintiau sy'n gysylltiedig â gofal iechyd.<br>Lefel 3 ar gyfer perfformiad a chanlyniadau sy'n ymwneud â gofal a gynlluniwyd, a CAMHS.<br>Lefel 3 ar gyfer gwasanaethau mamolaeth a newyddenedigol. | Lefel 3 (monitro uwch) ar gyfer gwasanaethau mamolaeth a newyddenedigol.<br>Lefel 3 (monitro uwch) ar gyfer cyllid, strategaeth a chynllunio.<br>Lefel 4 (ymyrraeth wedi'i thargedu) ar gyfer perfformiad a chanlyniadau. |
| Ymddiriedolaeth GIG Iechyd Cyhoeddus Cymru | Lefel 1 (trefniadau arferol). | Lefel 1 (trefniadau arferol). |
| Ymddiriedolaeth GIG Prifysgol Felindre | Lefel 1 (trefniadau arferol). | Lefel 1 (trefniadau arferol). |
| Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwlans Cymru | Lefel 1 (trefniadau arferol). | Lefel 1 (trefniadau arferol). |
| Iechyd a Gofal Digidol Cymru | Lefel 3 (ar gyfer perfformiad a chanlyniadau sy'n ymwneud â chyflawni rhaglenni mawr). | Lefel 1 (trefniadau arferol). |
| Addysg a Gwella Iechyd Cymru | Lefel 1 (trefniadau arferol). | Lefel 1 (trefniadau arferol). |

Mae rhagor o fanylion i'w gweld yng nghyfrifon unigol y sefydliad neu ar dudalennau Uwchgyfeirio'r GIG Trefniadau uwchgyfeirio ac ymyrryd GIG Cymru | LLYW. CYMRU

## Barn Archwilio ar ddatganiadau ariannol a rheoleidd-dra

Mae Archwilydd Cyffredinol Cymru wedi cyhoeddi barn amodol ar reoleidd-dra ar gyfer pob un o'r saith BILl sydd wedi'u hardystio ar hyn o bryd. Rhoddwyd y farn amodol ar y sail nad oedd y byrddau iechyd wedi cyflawni eu dyletswydd ariannol statudol a nodir yn adran 175 (1) o Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006, sef sicrhau nad yw gwariant y bwrdd yn fwy na swm cyfanredol y cyllid a ddyrannwyd iddo dros gyfnod o 3 blwyddyn ariannol.

Cafodd Cyfrifon Cryno GIG Cymru hefyd farn amodol ar reoleidd-dra. Nid oedd yr amodiad hwn yn adlewyrchu proses baratoi a chrynhoi'r Cyfrifon Cryno, na'r farn 'wir a theg', ond roedd yn ganlyniad i'r ffaith bod pob un o'r saith Bwrdd Iechyd Lleol wedi cynhyrchu diffygion ariannol dros gyfnod asesu'r ddyletswydd statudol 2022-23 i 2024-25.

Cyflawnodd pob un o'r tair Ymddiriedolaeth GIG yng Nghymru eu dyletswydd ariannol o dan baragraff 2 o Atodlen 4 i Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006 i sicrhau nad yw eu refeniw yn llai na digonol, gan gymryd un flwyddyn ariannol gyda'r llall, a fesurir dros gyfnod treigl o dair blynedd. Cyflawnodd y ddau Awdurdod Iechyd Arbennig eu dyletswydd flynyddol ac nid aethant y tu hwnt i'r terfynau adnoddau refeniw a ddyrannwyd iddynt.

Cafodd pob un o'r saith BILl, pob un o dair Ymddiriedolaeth y GIG yng Nghymru a'r ddau Awdurdod Iechyd Arbennig farn archwilio wir a theg ddiamod gan Archwilydd Cyffredinol Cymru mewn perthynas â'u datganiadau ariannol ar gyfer 2024-25.

## Fframwaith Cynllunio GIG Cymru 2024 i 2027

Ym mis Tachwedd 2021, ailsefydlodd Llywodraeth Cymru Fframwaith Cynllunio Cynlluniau Tymor Canolig Integredig GIG Cymru. Mae'r Fframwaith yn rhoi'r eglurder y mae ei angen i osod y sylfeini ar gyfer manteisio ar yr arloesi a'r hyn a ddysgwyd yn ystod y pandemig, ac i ddatblygu gwasanaethau cynaliadwy ar gyfer y dyfodol.

Cytunodd y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol ar Gynlluniau'r tri chorff canlynol a oedd wedyn yn cyflawni eu hail ddyletswydd ariannol:

- Ymddiriedolaeth GIG Felindre
- Ymddiriedolaeth GIG Iechyd Cyhoeddus Cymru
- Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwlans Cymru

Er nad yw'n ofyniad statudol, cyflwynodd Addysg a Gwella Iechyd Cymru ac Iechyd a Gofal Digidol Cymru Gynlluniau Tymor Canolig Integredig boddhaol.

Methodd pob BILl, ac eithrio Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg, â chyflawni ei ddyletswydd statudol i gyflwyno cynllun tair blynedd integredig y gellir ei gymeradwyo ar gyfer y cyfnod 2024 i 2027 yn y flwyddyn ariannol 2024-25. Felly, mae cynlluniau blynyddol, yn hytrach na chynlluniau tair blynedd, yn destun monitro parhaus drwy ystod o fecanweithiau, gan gynnwys trafodaethau sy'n cynnwys Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd a Gofal Cymdeithasol, Prif Weithredwyr, cyfarfodydd Ansawdd, Cynllunio a Chyflawni Integredig a'r Bwrdd Perfformiad cenedlaethol.

# Proffil Risg



Mae proffil risg Llywodraeth Cymru yn helaeth ac yn amrywiol, fel y byddid yn disgwyl, o gofio'r ystod eang o wahanol weithgareddau y mae'n ymwneud â hwy. Mae risgiau gweithredol yn codi wrth gyflawni amcanion polisi allweddol ac maent yn cael eu rheoli a'u lliniaru o ddydd i ddydd ar draws y sefydliad. Yn ogystal, mae gan Lywodraeth Cymru nifer o risgiau wrth gefn (effaith uchel ond yn annhebygol o gael eu gwireddu) sy'n deillio o'i chyfrifoldebau rheoleiddio. Enghreifftiau o'r rhain yw cyfrifoldebau yn achos brigiad o glefyd pobl neu anifeiliaid yng Nghymru a'i rhwymedigaethau o dan y gwarantau y mae'n eu gwneud o bryd i'w gilydd i gefnogi busnesau yng Nghymru.

Mae'r Gofrestr Risgiau Corfforaethol yn nodi'r risgiau "ar draws y sefydliad" a allai fygwth busnes craidd Llywodraeth Cymru a'r ffordd y mae'n gweithredu. Dogfen fewnol ydyw. Isod ceir trosolwg o newidiadau i'r Gofrestr Risgiau Corfforaethol yn ystod y flwyddyn.

Sgôr risg:
- Sgôr: 20 – 25 Lefel: Uchel iawn Natur y risg: Risgiau critigol
- Sgôr: 13 – 19 Lefel: Uchel Natur y risg: Risgiau sylweddol
- Sgôr: 5 – 12 Lefel: Canolig Natur y risg: Risgiau y gellir eu rheoli
- Sgôr: 1 – 4 Lefel: Isel Natur y risg: Risgiau dibwys

Newid yn y flwyddyn (risg weddilliol): I fyny ↑ ↔ Aros yr un peth ↓ I lawr

| Risg gorfforaethol | Sgôr risg weddilliol Ebrill 2024 | Newid yn y flwyddyn | Sgôr risg weddilliol Ebrill 2025 |
|---|---|---|---|
| Y Rhaglen Ddeddfwriaethol | 20 | ↔ | 20 |
| Diogelwch Seiber | 20 | ↔ | 20 |
| Cydraddoldeb. Amrywiaeth a Chynhwysiant | 20 | ↔ | 20 |
| Y Gymraeg | 20 | ↔ | 20 |
| Newid Hinsawdd | 20 | ↔ | 20 |
| Rheolaeth a Pherchnogaeth Cymwysiadau Busnes Etifeddol | | Ychwanegwyd Ionawr 2025 | 20 |
| Risg Ariannol | 20 | ↓ | 16 |
| Capasiti'r Gweithlu | 20 | ↓ | 16 |
| Galluogrwydd a Hyblygrwydd y Gweithlu | 16 | ↔ | 16[1] |
| Risg Ddigidol | 16 | ↔ | 16 |
| Ymateb i Ymchwiliad Cyhoeddus COVID-19 y DU | 16 | ↔ | 16 |
| Ymateb mewn Argyfwng | 16 | ↔ | 16 |
| Gwydnwch Systemau TGCh | 15 | ↔ | 15 |
| Digwyddiad Tarfu/ Parhad Busnes | 12 | ↑ | 15 |
| Diwedd y Rhaglen Cronfeydd Strwythurol | 15 | ↔ | 15 |

| Risg gorfforaethol | Sgôr risg weddilliol Ebrill 2024 | Newid yn y flwyddyn | Sgôr risg weddilliol Ebrill 2025 |
|---|---|---|---|
| Methiant Llywodraeth y DU i lynu wrth egwyddorion cyfansoddiadol sylfaenol | 20 | ↓ | 15 |
| Rheolaethau'r Ffin | 16 | ↓ | 12 |
| Cynnydd yng Nghostau Rhaglen Trawsnewid CVL | | Ychwanegwyd Medi 2024 | 12 |
| Map trywydd Cenhadaeth ein Cenedl: Safonau Uchel i Bawb (Addysg) | 12 | Ychwanegwyd Ebrill 2024 | 12 |
| Iechyd a Diogelwch | 12 | ↓ | 9 |
| Llesiant Staff | 20 | ↓ | 9 |
| Cyflawni Prosiectau | 20 | | Trosglwyddwyd i'r Log Materion, Medi 2024 |
| Dyfodol Trafnidiaeth Gyhoeddus yng Nghymru | 12 | Tynnwyd Ionawr 2025 | |

Mae'r holl risgiau corfforaethol ar y Gofrestr Risgiau Corfforaethol wedi cael eu hadolygu gan y Pwyllgor Cyllid a Gwasanaethau Corfforaethol, ExCo, y Bwrdd ac ARAC fel rhan o'n rheolaeth barhaus o risg gorfforaethol. Amlinellir isod fanylion pellach am risgiau newydd a risgiau sydd wedi'u dileu yn ystod y flwyddyn.

Ym mis Medi 2024 cafodd y risg mewn perthynas â Dyfodol Trafnidiaeth Gyhoeddus yng Nghymru ei rhannu'n ddwy risg newydd, sef 'Buddsoddi a Chynnal a Chadw Seilwaith Rheilffyrdd' a 'Rhaglen Trawsnewid Llinellau Craidd y Cymoedd (CVL)'. Yn dilyn hynny, ym mis Ionawr 2025, cymeradwyodd ExCo ddileu'r risg seilwaith a chynnal a chadw rheilffyrdd o'r Gofrestr Risgiau Corfforaethol gan fod dyraniadau cyllideb 2025-26 yn mynd i'r afael â'r risg o gyllid annigonol. Ym mis Ebrill 2025, roedd y risg sy'n ymwneud â chostau cynyddol y rhaglen trawsnewid CVL yn parhau ar y gofrestr risgiau gyda sgôr risg weddilliol o 12.

Ym mis Medi 2024 rhannwyd y gofrestr risgiau corfforaethol i wahaniaethu rhwng risgiau corfforaethol a'r risgiau hynny a oedd wedi crisialu ac sydd/a oedd bellach yn broblemau. Roedd hyn er mwyn cydnabod yn unol â'r Llyfr Oren (gweler isod) fod problemau yn aml yn gofyn am ymateb cyflymach neu eu datrys ar unwaith.

Yn ystod y flwyddyn ychwanegwyd dwy risg newydd at y Gofrestr Risgiau Corfforaethol a oedd yn parhau ar ddiwedd y flwyddyn.

- Map trywydd Cenhadaeth ein Cenedl: Safonau Uchel i Bawb (Addysg).
- Rheolaeth a Pherchnogaeth Cymwysiadau Busnes Etifeddol.

## Y Gallu i Ymdrin â Risg

Mae Llywodraeth Cymru yn cadw at y prif egwyddorion ar gyfer rheoli risg yn y llywodraeth a amlinellir yn nogfen Trysorlys Ei Fawrhydi *The Orange Book; Management of Risk – Principles and Concepts (2019, diweddarwyd 2020).*

Prif amcan polisi rheoli risg Llywodraeth Cymru yw sicrhau bod proses gyson yn bodoli ar gyfer mesur, rheoli, monitro ac adrodd ar risg ar draws y sefydliad. Ni ddylai rheoli risg yn effeithiol beri bod Llywodraeth Cymru'n ymdrechu'n ormodol i osgoi risg ac wrth fynd ar drywydd ei hamcanion, mae'n barod i gymryd risgiau sydd wedi'u hasesu, eu gwerthuso a'u rheoli'n briodol er mwyn gallu manteisio'n fwy effeithiol ar gyfleoedd wrth iddynt godi, gan dderbyn yr un pryd y gallai methiant ddigwydd.

Ym mis Medi 2024 cymeradwyodd y Bwrdd fersiwn wedi'i diweddaru o ddatganiad archwaeth risg y sefydliad. Mae gwaith yn cael ei wneud bellach i ddarparu canllawiau ymarferol i swyddogion ar integreiddio'r datganiad archwaeth risg a'r cofrestrau risg.

Yn gorfforaethol, mae'r Bwrdd yn gyfrifol am oruchwylio gweithredu polisi a phroses ar gyfer rheoli risg ac am oruchwylio a chraffu ar liniaru'r risgiau critigol sy'n wynebu Llywodraeth Cymru a allai fel arall atal neu lesteirio'r sefydliad rhag cyflawni ei hamcanion strategol. Yn bennaf, y rhain yw'r risgiau sydd mor allweddol fel na ellir eu rheoli ar lefel Grŵp, ynghyd â rhai o natur gorfforaethol y teimlid eu heffaith ar draws y sefydliad cyfan. Mae risgiau corfforaethol wedi cael eu hadolygu gan y Bwrdd ddwywaith yn y flwyddyn a chan y Pwyllgor Cyllid a Gwasanaethau Corfforaethol, ExCo ac ARAC Llywodraeth Cymru bob chwarter.

Cyfrifoldeb rheoli yw rheoli a lliniaru risg o ddydd i ddydd ac mae pob Cyfarwyddwr Cyffredinol wedi bod yn gyfrifol am reoli risg a chyfle mewn perthynas ag amcanion allweddol eu Grŵp. Cafodd risgiau grŵp eu hadolygu'n rheolaidd gan uwch-dimau rheoli a chan ARACs y Grwpiau ac fe gawsant eu llywio gan gofrestrau risg a gynhelir gan brosiectau a rhaglenni ac asesiadau risg a chofrestri risg ar lefel Adrannol. Mae'r diagram isod yn dangos y map llwybr ar gyfer uwchgyfeirio risgiau.




Cydnabyddir ar draws Llywodraeth Cymru ein bod yn parhau i ddibynnu'n helaeth ar systemau TG sy'n heneiddio nad ydynt yn rhoi dyfnder ac ehangder yr wybodaeth reoli ddibynadwy y mae arnom ei hangen ac a fyddai'n ein galluogi i reoli gweithrediadau yn fwy effeithlon ac effeithiol. Er ein bod yn rheoli hyn ar hyn o bryd drwy atebion dros dro sy'n darparu mesurau rheoli amgen, gallai hyn o hyd beryglu ein gallu i nodi risgiau wrth iddynt ddod i'r amlwg, ac mae'n bosibl ei fod yn cyfyngu ar ystod ac effeithiolrwydd y mesurau lliniaru y gellid eu rhoi ar waith fel arall i fynd i'r afael â risg. Un o nodau sylfaenol LlC2025 yw sicrhau bod ein gweithrediadau yn gadarn ac yn gwella ein gwydnwch i ymdopi â chyflymder a graddfa'r newid, yn ogystal â diogelu ein systemau ar gyfer y dyfodol.

## Prisio Benthyciadau i Fyfyrwyr

Mae Datganiad Llywodraeth Cymru o'r Sefyllfa Ariannol yn cynnwys ased benthyciadau myfyrwyr a oedd yn werth £8.9 biliwn ar 31 Mawrth 2025. Mae'r prisiad yn seiliedig ar werth presennol ad-daliadau disgwyliedig yn y dyfodol, gan ddefnyddio modelu cymhleth i ragamcanu patrymau enillion ac ad-dalu, addasu ar gyfer diffygion a newidiadau polisi, a chymhwyso disgownt i adlewyrchu gwerth amser a risg. Darperir datgeliadau ar ragdybiaethau a sensitifrwyddau allweddol yn Nodyn 6.1.

Mae prisio benthyciadau i fyfyrwyr yn broses heriol yn ei hanfod ledled y DU oherwydd natur unigryw yr asedau hyn. Mae Llywodraeth Cymru yn gweithio'n agos gyda'r Adran Addysg (DfE) a'r gweinyddiaethau datganoledig eraill i sicrhau bod modelau'n gadarn ac yn gyson â pholisi cyllido'r DU.

Elfennau allweddol y modelu yw enillion ac ad-daliadau. Ar gyfer prisiad 2024-25 (fel yn y blynyddoedd blaenorol) mae Llywodraeth Cymru wedi defnyddio'r model StEP (Llwybr Enillion Stocastig) ar gyfer yr elfennau hyn. Mae DfE wedi symud i ffwrdd oddi wrth y model StEP, ac yn 2021-22 fe gyflwynodd welliannau sylweddol i'r modelu ar gyfer enillion ac ad-daliadau. Mae Llywodraeth Cymru wedi gweithio'n agos gyda DfE i wella'r fethodoleg ac i roi'r gwelliannau hyn ar waith, gan gynnwys ymrwymo i Gytundeb Lefel Gwasanaeth ym mis Chwefror 2024 gyda DfE a'r gweinyddiaethau datganoledig eraill i gwblhau'r broses o drawsnewid pob elfen o'r model Cymreig i ymgorffori'r gwelliannau hyn.

Mae gwaith sylweddol wedi'i wneud rhwng Llywodraeth Cymru a DfE i roi sicrwydd bod y data, yr elfennau a'r fethodoleg a ddefnyddir yn y modelu newydd yn ddigon cadarn ar gyfer prisio Benthyciadau i Fyfyrwyr a chynllunio'r polisi ar eu cyfer yng Nghymru. Mae hyn wedi cynnwys sicrhau digon o baru data ar gyfer myfyrwyr Cymru mewn setiau data, a chymhwyso polisïau sy'n benodol i Gymru yn briodol. Er bod y Cytundeb Lefel Gwasanaeth yn rhag-weld yn wreiddiol y byddai'r gwaith profi yn cael ei gwblhau o fewn 2024-25, roedd cymhlethdod y broses a lefel y sicrwydd a oedd yn angenrheidiol yn golygu mai ar 14 Tachwedd 2025 y cafodd y model newydd ei gymeradwyo gan Fwrdd Goruchwylio Cyllid Myfyrwyr Llywodraeth Cymru.

Rwy'n deall bod Archwilydd Cyffredinol Cymru yn bwriadu gosod amod cyfyngiad cwmpas ar ei farn archwilio 'wir a theg' ar gyfrifon 2024-25 ar y sail nad yw wedi gallu cael digon o dystiolaeth archwilio briodol i gefnogi rhesymolrwydd yr amcangyfrif gwerth teg a'i fod o'r farn bod ansicrwydd sylweddol yn y prisiad. Fel Prif Swyddog Cyfrifyddu, rwyf wedi fy modloni bod Llywodraeth Cymru wrth baratoi'r datganiadau ariannol, yn unol â gofynion adrodd ariannol ar gyfer defnyddio amcangyfrifon wrth brisio, wedi defnyddio'r model mwyaf cadarn a dibynadwy a oedd ar gael ar adeg paratoi'r cyfrif drafft i gyfrifo'r addasiadau gwerth teg ar gyfer yr ased Benthyciadau i Fyfyrwyr. Mae naratif ychwanegol wedi'i ddarparu yn Nodyn 6.1 sy'n ymdrin â'r pontio i fodel newydd.

O ystyried mai ar 14 Tachwedd 2025 y cymeradwywyd derbyn y model ac mai 30 Tachwedd 2025 oedd y dyddiad statudol ar gyfer cyflwyno cyfrifon drafft i Archwilydd Cyffredinol Cymru, nid oedd yn ymarferol bosibl defnyddio'r fethodoleg newydd ar gyfer y prisiad fel yr oedd ar 31 Mawrth 2025. Nid oedd unrhyw fethodoleg neu fodel hyfyw a phrofedig arall ar gael i'w mabwysiadu nac i'w rhoi ar waith i baratoi cyfrifon 2024-25. Mae Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda DfE ac Archwilio Cymru (wrth i Archwilio Cymru ymgymryd â gwaith chynllunio gyda'r Swyddfa Archwilio Genedlaethol ar gyfer archwiliad 2025-26) i fynd i'r afael â'r heriau archwilio a wynebwyd yn 2024-25 mewn perthynas ag echdynnu set ddata benthycwyr o Gymru ar gyfer Benthyciadau i Fyfyrwyr.

Nid oedd modd cymhwyso'r model newydd yn ôl-weithredol i ddarparu prisiad amgen ar 31 Mawrth 2025 o ystyried y dyddiadau cau statudol a'r goblygiadau o ran adnoddau. Bydd y model wedi'i ddiweddaru yn cael ei weithredu ar gyfer 2025-26.

# Casgliad



**Dr Andrew Goodall CBE**

Ysgrifennydd Parhaol a Phrif Swyddog Cyfrifyddu

Bu'r system rheolaeth fewnol ar waith yn sefydliad am y flwyddyn sy'n dod i ben ar 31 Mawrth 2025 a hyd at ddyddiad cymeradwyo'r Adroddiad Blynyddol a'r Cyfrifon Cyfunol. Mae'n cyd-fynd â chanllawiau Trysorlys EF. Rwyf wedi adolygu'r dystiolaeth a roddwyd imi drwy fy adolygiad o effeithiolrwydd y fframwaith llywodraethiant a gallaf gymryd sicrwydd rhesymol bod y trefniadau i sicrhau llywodraethiant, rheoli risg a rheolaeth fewnol, o fewn y meysydd hynny sy'n cael eu hadolygu wedi cael eu cynllunio a'u cymhwyso'n effeithiol. Mae ar rai materion angen sylw rheoli o ran rheoli, cynllunio neu gydymffurfio, ac maent yn agored i risg cymedrol nes cael eu datrys.

Bydd Llywodraeth Cymru 2025 yn parhau i adeiladu ar ein prosesau a'n gweithdrefnau cadarn presennol, gan gryfhau a gwella ein trefniadau llywodraethiant a sicrwydd i'n helpu i ddod yn sefydliad gwasanaethau cyhoeddus rhagorol.

11 Rhagfyr 2025

# Colledion, Taliadau Arbennig a Rhoddion

Mae'r canlynol yn ddatganiad o golledion a thaliadau arbennig fel sy'n ofynnol o dan Lawlyfr Adroddiadau Ariannol y Llywodraeth, gyda datgeliadau unigol lle mae'r cyfansymiau a dynnir yn uwch na'r terfynau a bennir yn Rheoli Arian Cyhoeddus Cymru o £300,000.

## Craidd Llywodraeth Cymru

### Colledion

| | 2024-25 | 2023-24 |
|---|---|---|
| Cyfanswm y colledion | 186 | 159 |
| Cyfanswm gwerth y colledion (£000) | 32,132 | 9,401 |

| **Manylion taliadau arbennig dros £300,000:** | | |
|---|---|---|
| Colledion Storfa | Dileu stoc feddygol Ffliw Pandemig (cyffuriau gwrthfeirol | 1,029,507 |
| Hawliadau a Hepgorwyd ac a Ildiwyd | Grant i ddatblygu Canolfan Forwrol ym Mhorthcawl | 1,641,682 |
| Hawliadau a Hepgorwyd ac a Ildiwyd | Cronfa Fuddsoddi Gwyddorau Bywyd Cymru | 20,580,000 |
| Hawliadau a Hepgorwyd ac a Ildiwyd | Grant Cyfalaf – Mona Island Dairy Limited | 3,000,000 |
| Hawliadau a Hepgorwyd ac a Ildiwyd | Grant Cyfalaf – St Beunos Dairy Limited | 739,248 |
| Hawliadau a Hepgorwyd ac a Ildiwyd | Trawsnewid Trefi – Adeiladu ar gyfer y Dyfodol (WEFO) | 2,140,329 |
| Taliadau Ofer | Prynu unedau IES oherwydd darfodedigrwydd technegol dilynol | 359,622 |

### Taliadau Arbennig

| | 2024-25 | 2023-24 |
|---|---|---|
| Cyfanswm nifer y taliadau arbennig | 21 | 16 |
| Cyfanswm gwerth y Taliadau Arbennig (£000) | 353 | 13,287 |

| **Manylion taliadau arbennig dros £300,000:** |
|---|
| Dim |

Ceir rhagor o fanylion am y colledion unigol a'r taliadau arbennig a ddatgelwyd yn y Datganiad Llywodraethiant Blynyddol ar dudalennau 120 i 122.

### Colledion Grŵp a Thaliadau Arbennig

| | Nifer | £000 |
|---|---|---|
| Esgeulustod Clinigol y GIG | 943 | 104,920 |
| Niwed Personol y GIG | 292 | 5,699 |
| Setliadau Strwythuredig y GIG a reolir gan WRP | 234 | 24,136 |
| Pob colled Grŵp arall a thaliadau arbennig | 1,916 | 41,419 |
| **Cyfanswm** | **3,385** | **176,174** |

Mae'r tabl uchod yn cynnwys datgeliadau Llywodraeth Cymru o'r dudalen flaenorol.

Nid oes unrhyw golledion na thaliadau arbennig ar gyfer WGC Holdco Ltd, Cronfa Buddsoddi Cymru mewn Adfywio LLP na Gyrfa Cymru. Nid oes unrhyw golledion na thaliadau arbennig o dros £300,000 i'w datgelu'n unigol ar gyfer Grŵp Trafnidiaeth Cymru. Mae manylion colledion unigol a thaliadau arbennig dros £300,000 mewn perthynas â setliadau'r GIG wedi'u cynnwys yng nghyfrifon cyrff unigol y GIG.

Roedd gan Grŵp Banc Datblygu Cymru bum colled unigol dros £300,000 gan wneud cyfanswm o £2.6m, fel y nodir isod; mae datgeliadau yn ddarostyngedig i gyfrinachedd masnachol:

| **Manylion taliadau arbennig dros £300,000:** | | |
|---|---|---|
| Hawliadau a Hepgorwyd ac a Ildiwyd | Diddymu cwmni yn dilyn ansolfedd (gweinyddwyr ac yna datodiad) | 900,000 |
| Hawliadau a Hepgorwyd ac a Ildiwyd | Diddymu cwmni | 600,008 |
| Hawliadau a Hepgorwyd ac a Ildiwyd | Cynnig i ddileu (er ei fod wedi'i ohirio yn dilyn gwrthwynebiad) | 407,316 |
| Hawliadau a Hepgorwyd ac a Ildiwyd | Yn cael ei ddatodi | 366,440 |
| Hawliadau a Hepgorwyd ac a Ildiwyd | Diddymu cwmni | 313,707 |

## Rhoddion a wnaed

| | 2024-25 | 2023-24 |
|---|---|---|
| Cyfanswm nifer y rhoddion a wnaed | 3 | 1 |
| Cyfanswm gwerth y rhoddion (£000) | 211 | 5 |

| **Manylion y rhoddion dros £300,000:** |
|---|
| Dim |

Ni ddatgelwyd unrhyw roddion gan gyrff cyfunol eraill y Grŵp.

# Adroddiad Cydnabyddiaeth Ariannol a Staff 2024-25

## Polisi Cydnabyddiaeth Ariannol

Mae cydnabyddiaeth ariannol Uwch Weision Sifil[80] (SCS) yn cael ei phennu ar lefel Llywodraeth y DU yn dilyn cyngor oddi wrth y Corff Adolygu Cyflogau Uwch-swyddogion[81]. Mae gan Lywodraeth Cymru gyfrifoldeb dirprwyedig dros gydnabyddiaeth ariannol staff nad ydynt yn rhan o'r Uwch Wasanaeth Sifil.

Mae tâl a phensiynau'r Gweinidogion yn cael eu pennu gan Benderfyniad Bwrdd Taliadau Annibynnol y Senedd[82] ar Dâl a Lwfansau'r Aelodau[83].

## Contractau Gwasanaeth

Mae Deddf Diwygio Cyfansoddiadol a Llywodraethiant 2010 yn ei gwneud yn ofynnol i benodiadau gael eu gwneud ar sail teilyngdod a chystadleuaeth deg ac agored. Mae'r Egwyddorion Recriwtio a gyhoeddwyd gan Gomisiwn y Gwasanaeth Sifil yn nodi o dan ba amgylchiadau y gellid gwneud penodiadau fel arall.

Oni nodir hynny isod, mae'r swyddogion sy'n cael eu cynnwys yn yr adroddiad hwn yn dal swyddi sy'n benagored. Byddai penderfyniad i derfynu swydd, am resymau ac eithrio camymddygiad, yn golygu bod yr unigolyn yn cael iawndal fel y nodir yng Nghynllun Iawndal y Gwasanaeth Sifil.

Ceir gwybodaeth bellach am waith Comisiwn y Gwasanaeth Sifil yn Hafan – Comisiwn y Gwasanaeth Sifil.

## Datganiad Blynyddol Llywodraeth Cymru ar ei Pholisi Tâl

Yn unol ag egwyddorion 'Tryloywder Cydnabyddiaeth Ariannol Uwch-reolwyr yn y Sector Cyhoeddus Datganoledig yng Nghymru'[84] a gyhoeddwyd ar 7 Rhagfyr 2015, mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi datganiad ar ei pholisi tâl ar ei gwefan.[85]

Mae'r Datganiad Polisi Tâl yn ymdrin â diffiniad Llywodraeth Cymru o "swyddi uwch" a "gweithwyr sy'n derbyn y tâl isaf" a'r berthynas rhwng cydnabyddiaeth ariannol swyddi uwch a chydnabyddiaeth ariannol y gweithwyr sy'n derbyn y tâl isaf. Mae hefyd yn trafod:

a) tystiolaeth amlwg o fforddiadwyedd a gwerth am arian,

b) nifer y swyddi uwch o fewn y corff sydd â phecyn tâl o fwy na £100,000 mewn bandiau o £5,000,

80 Canllawiau Cylch Cyflog y Gwasanaeth Sifil 2024 i 2025 - GOV.UK (Saesneg yn unig)
81 Adroddiad y Corff Adolygu Uwch Gyflogau: 2024 - GOV.UK (Saesneg yn unig)
82 Bwrdd Taliadau
83 Penderfyniadau (Bwrdd Taliadau Cymru)
84 Tryloywder cydnabyddiaeth ariannol uwch reolwyr yn y sector cyhoeddus datganoledig yng Nghymru [HTML] | LLYW.CYMRU
85 Datganiadau Polisi Tâl Llywodraeth Cymru| LLYW.CYMRU

c) y ffordd o reoli talent fewnol,
d) y ffordd o ymdrin â thâl ar sail perfformiad,
e) y ffordd o roi cymorth i staff sydd ar gyflog llai,
f) y pwyntiau tâl uchaf ac isaf, a
g) y polisïau ar daliadau diswyddo sy'n weithredol a sut ac o dan ba amgylchiadau y gellir eu hamrywio.

## Cydnabyddiaeth ariannol (gan gynnwys cyflog) a hawliau pensiwn

Mae'r adran hon yn destun archwiliad ac yn cael ei chynnwys ym marn archwilio Archwilydd Cyffredinol Cymru.

Mae'r adrannau canlynol yn rhoi manylion cydnabyddiaeth ariannol a buddion pensiwn y Gweinidogion a'r Uwch Reolwyr. Mae uwch-swyddogion at ddibenion yr Adroddiad Cydnabyddiaeth Ariannol i gyd yn aelodau parhaol o Fwrdd a Phwyllgor Gweithredol Llywodraeth Cymru am y flwyddyn ariannol.

## Cydnabyddiaeth ariannol

Mae cydnabyddiaeth ariannol y Prif Weinidogion a'u timau yn y Cabinet a fu'n gwasanaethu yn ystod y flwyddyn, wedi'u nodi ar y dudalen nesaf. Adlewyrchir y costau hyn yng nghyfrifon Comisiwn y Senedd ac nid Llywodraeth Cymru. Mae cyflogau'r Gweinidogion yn cynnwys eu cyflogau fel Aelodau'r Senedd o £72,057 (2023-24: £69,958). Y cyflog sy'n daladwy i'r Gweinidogion yw'r cyflog sy'n daladwy o dan Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 fel y'i pennir gan Fwrdd Taliadau Annibynnol y Senedd.[86]

Ni chynhwysir buddion mewn nwyddau mewn perthynas â chyfrifoldebau Aelodau'r Senedd yn y tabl dros y dudalen.

86 Penderfyniadau (Bwrdd Taliadau Cymru)

## Cyfanswm ffigur cydnabyddiaeth ariannol – y Gweinidogion

| Y Gweinidogion | Cyflog 2024-25 £ | Cyflog 2023-24 £ | Buddion mewn Nwyddau 2024-25 £ | Buddion mewn Nwyddau 2023-24 £ | Buddion Pensiwn 2024-25 (i'r £1000 agosaf) £[a] | Buddion Pensiwn 2023-24 (i'r £1000 agosaf) £ | Cyfanswm 2024-25 (i'r £1000 agosaf) £ | Cyfanswm 2023-24 (i'r £1000 agosaf) £ |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Eluned Morgan**<br>Ysgrifennydd Cabinet hyd at 5 Awst 2024<br>Prif Weinidog o 6 Awst 2024 | 142,007 | 109,308 | - | - | 42,000 | 35,000 | 184,000 | 144,000 |
| **Vaughan Gething**[b]<br>Prif Weinidog hyd at 6 Awst 2024 | 55,084 | 110,718 | - | - | 15,000 | 15,000 | 71,000 | 125,000 |
| **Mark Drakeford**[b]<br>Ysgrifennydd Cabinet o 7 Awst 2024 | 73,243 | 148,508 | - | - | 28,000 | 8,000 | 101,000 | 156,000 |
| **Rebecca Evans**<br>Ysgrifennydd Cabinet | 112,588 | 109,308 | - | - | 37,000 | 28,000 | 149,000 | 137,000 |
| **Lesley Griffiths**<br>Ysgrifennydd Cabinet hyd at 16 Gorffennaf 2024 | 32,989 | 109,308 | - | - | 9,000 | 14,000 | 42,000 | 123,000 |
| **Jane Hutt**[c]<br>Trefnydd a Phrif Chwip, Ysgrifennydd Cabinet o 17 Gorffennaf 2024 | 112,588 | 109,308 | - | - | 13,000 | (22,000) | 125,000 | 87,000 |
| **Julie James**<br>Ysgrifennydd Cabinet hyd at 16 Gorffennaf 2024 Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog o 12 Medi 2024 | 95,226 | 109,308 | - | - | 35,000 | 28,000 | 130,000 | 138,000 |
| **Jeremy Miles**<br>Ysgrifennydd Cabinet hyd at 16 Gorffennaf 2024 ac o 11 Medi 2024 | 95,538 | 109,308 | - | - | 33,000 | 35,000 | 129,000 | 144,000 |
| **Mick Antoniw**<br>Cwnsler Cyffredinol hyd at 16 Gorffennaf 2024 | 32,989 | 109,308 | - | - | 10,000 | 13,000 | 43,000 | 122,000 |
| **Hannah Blythyn**<br>Gweinidog hyd at 16 Mai 2024 | 12,091 | 92,913 | - | - | 3,000 | 30,000 | 15,000 | 123,000 |
| **Dawn Bowden**<br>Gweinidog | 95,701 | 92,913 | - | - | 29,000 | 30,000 | 125,000 | 123,000 |
| **Lynne Neagle**[b]<br>Ysgrifennydd Cabinet | 112,588 | 93,398 | - | - | 41,000 | 8,000 | 154,000 | 102,000 |

| Y Gweinidogion | Cyflog 2024-25 £ | Cyflog 2023-24 £ | Buddion mewn Nwyddau 2024-25 £ | Buddion mewn Nwyddau 2023-24 £ | Buddion Pensiwn 2024-25 (i'r £1000 agosaf) £[a] | Buddion Pensiwn 2023-24 (i'r £1000 agosaf) £ | Cyfanswm 2024-25 (i'r £1000 agosaf) £ | Cyfanswm 2023-24 (i'r £1000 agosaf) £ |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Jayne Bryant**[b] Gweinidog hyd at 16 Gorffennaf 2024 Ysgrifennydd Cabinet o 17 Gorffennaf 2024 | 107,640 | 2,747 | - | - | 32,000 | 19,000 | 140,000 | 22,000 |
| **Huw Irranca-Davies**[b] Ysgrifennydd Cabinet, Dirprwy Brif Weinidog o 7 Awst 2024 | 112,588 | 2,938 | - | - | 34,000 | 19,000 | 147,000 | 22,000 |
| **Ken Skates**[b] Ysgrifennydd Cabinet | 112,588 | 3,232 | - | - | 36,000 | 27,000 | 148,000 | 30,000 |
| **Sarah Murphy** Gweinidog o 17 Mai 2024 | 83,610 | - | - | - | 25,000 | - | 109,000 | - |
| **Jack Sargeant** Gweinidog o 18 Gorffennaf 2024 | 67,402 | - | - | - | 22,000 | - | 89,000 | - |
| **Vikki Howells** Gweinidog o 11 Medi 2024 | 53,167 | - | - | - | 18,000 | - | 71,000 | - |

a Cyfrifir gwerth y buddion pensiwn a gronnwyd yn ystod y flwyddyn fel (y cynnydd gwirioneddol mewn pensiwn wedi'i luosi ag 20) llai (y cyfraniadau a wnaed gan yr unigolyn). Nid yw'r cynnydd gwirioneddol yn cynnwys cynnydd oherwydd chwyddiant neu unrhyw gynnydd neu ostyngiad oherwydd trosglwyddo hawliau pensiwn.

b Roedd gan yr Aelodau hyn o'r Senedd swyddi Gweinidogol gwahanol yn y flwyddyn ariannol flaenorol, ac am gyfnodau na fyddent o bosibl wedi bod yn flwyddyn ariannol lawn.

c Nid yw'r aelod hwn yn cronni pensiwn bellach ers 14 Rhagfyr 2024.

Roedd Elisabeth Velina Jones yn ddarpar Gwnsler Cyffredinol o 7 Awst 2024 tan 11 Medi 2024. Ei thâl am ei chyfnod oedd £11,007 a'i thâl cyfwerth ag amser llawn cymaradwy oedd £112,588. Ni thalodd i mewn i bensiwn yn ystod y cyfnod hwn.

Mae "Un o Weinidogion Cymru" yn berson a benodir o dan adran 48 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006. Yn y Cabinetau a oedd yn gwasanaethu yn 2024-25 cyfeirir at "Un o Weinidogion Cymru" fel "Ysgrifennydd Cabinet". Mae "Un o Ddirprwy Weinidogion Cymru" yn berson a benodir o dan adran 50 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006. Yn y Cabinet a oedd yn gwasanaethu yn 2024-25 cyfeirir at "Un o Ddirprwy Weinidogion Cymru" fel "Gweinidog".

Mae cyflogau 'swydd-ddeiliaid' fel aelodau'r Cabinet yn daladwy mewn perthynas â'r swydd a ddelir, am y cyfnod y delir y swydd.

| Y cyflogau cyfwerth ag amser llawn ar gyfer 2024-25 yw: | |
|---|---|
| Prif Weinidog | £157,624 |
| Cwnsler Cyffredinol | £112,588 |
| Un o Weinidogion Cymru/ Ysgrifennydd Cabinet | £112,588 |
| Dirprwy Weinidog/Gweinidog | £95,701 |

## Manylion pensiwn – y Gweinidogion

| Y Gweinidogion | Pensiwn cronedig ar 31/03/2025 £000 | Pensiwn cronedig ar 31/03/2024 £000 | Cynnydd gwirioneddol mewn pensiwn yn 65 oed ar 31/03/2025 £000 | CETV ar 31/03/2025 £000 | CETV ar 31/03/24 (wedi'i ailddatgan) £000[a] | Cynnydd gwirioneddol mewn CETV ar 31/03/2025 £000 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Eluned Morgan** Ysgrifennydd Cabinet hyd at 5 Awst 2024 Prif Weinidog o 6 Awst 2024 | 20-25 | 15-20 | 2.5-5.0 | 292 | 242 | 24 |
| **Vaughan Gething** Prif Weinidog hyd at 6 Awst 2024 | 40-45 | 40-45 | 0-2.5 | 479 | 465 | 6 |
| **Mark Drakeford** Ysgrifennydd Cabinet o 7 Awst | 40-45 | 35-40 | 0-2.5 | 685 | 671 | 20 |
| **Rebecca Evans** Ysgrifennydd Cabinet | 30-35 | 30-35 | 0-2.5 | 362 | 323 | 13 |
| **Lesley Griffiths** Ysgrifennydd Cabinet hyd at 16 Gorffennaf 2024 | 50-55 | 50-55 | 0-2.5 | 919 | 903 | 7 |
| **Jane Hutt**[b] Trefnydd a Phrif Chwip Ysgrifennydd Cabinet o 17 Gorffennaf 2024 | 80-85 | 75-80 | 0-2.5 | 1,111 | 1,088 | 8 |
| **Julie James** Ysgrifennydd Cabinet tan 16 Gorffennaf 2024 Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog o 12 Medi 2024 | 30-35 | 30-35 | 0-2.5 | 570 | 538 | 28 |
| **Jeremy Miles** Ysgrifennydd Cabinet hyd at 16 Gorffennaf 2024 ac o 11 Medi 2024 | 20-25 | 15-20 | 0-2.5 | 251 | 216 | 15 |
| **Mick Antoniw** Cwnsler Cyffredinol hyd at 16 Gorffennaf 2024 | 40-45 | 40-45 | 0-2.5 | 707 | 692 | 8 |
| **Hannah Blythyn** Gweinidog hyd at 16 Mai 2024 | 15-20 | 15-20 | 0-2.5 | 145 | 143 | 0 |
| **Dawn Bowden** Gweinidog | 15-20 | 10-15 | 0-2.5 | 297 | 251 | 24 |
| **Lynne Neagle** Ysgrifennydd Cabinet | 45-50 | 40-45 | 2.5-5.0 | 716 | 650 | 24 |

| Y Gweinidogion | Pensiwn cronedig ar 31/03/2025 £000 | Pensiwn cronedig ar 31/03/2024 £000 | Cynnydd gwirioneddol mewn pensiwn yn 65 oed ar 31/03/2025 £000 | CETV ar 31/03/2025 £000 | CETV ar 31/03/24 (wedi'i ailddatgan) £000[a] | Cynnydd gwirioneddol mewn CETV ar 31/03/2025 £000 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Jayne Bryant** Gweinidog hyd at 16 Gorffennaf 2024 Ysgrifennydd Cabinet o 17 Gorffennaf 2024 | 15-20 | 15-20 | 0-2.5 | 166 | 139 | 9 |
| **Huw Irranca-Davies** Ysgrifennydd Cabinet, Dirprwy Brif Weinidog o 7 Awst 2024 | 15-20 | 10-15 | 0-2.5 | 264 | 219 | 23 |
| **Ken Skates** Ysgrifennydd Cabinet | 30-35 | 25-30 | 0-2.5 | 324 | 287 | 13 |
| **Sarah Murphy** Gweinidog o 17 Mai 2024 | 5-10 | - | 0-2.5 | 49 | 35 | 4 |
| **Jack Sargeant** Gweinidog o 18 Gorffennaf 2024 | 10-15 | - | 0-2.5 | 77 | 68 | 1 |
| **Vikki Howells** Gweinidog o 11 Medi 2024 | 15-20 | - | 0-2.5 | 159 | 146 | 6 |

a Mae'r symiau a ddangosir yn CETV ym mis Mawrth 2024 wedi'u hailddatgan i adlewyrchu'r newid i ffactorau actiwaraidd CETV a gafodd eu hadolygu yn dilyn prisiad 2023 a'u diweddaru ar 31 Gorffennaf 2024.

b Nid yw'r aelod hwn bellach yn cronni pensiwn ers 14 Rhagfyr 2024.

Mae'r Senedd yn darparu cynllun â buddion diffiniedig, a lywodraethir gan adran 18 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998. Mae adran 20 (4) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, ac Atodlen 11 iddi, yn sicrhau dilyniant yn y Cynllun. Nid yw Deddf Llywodraeth Cymru 2006 wedi effeithio ar statws cyfreithiol y Cynllun.

Mae'r Cynllun yn darparu buddion i Aelodau'r Senedd a Deiliaid Swyddi. Mae pob Aelod o'r Senedd yn aelod o'r Cynllun o'r dyddiad y mae'n dechrau yn y Senedd oni bai ei fod yn dewis yn benodol peidio â bod yn rhan ohono. Nid yw'r Gweinidogion yn derbyn cyfandaliad awtomatig. Mae ganddynt yr opsiwn i drosi rhan o'u pensiwn yn gyfandaliad yn gyfnewid am lai o bensiwn.

Cyflwynwyd Cynllun Pensiwn Enillion Cyfartalog Gyrfa ym mis Mai 2016. Roedd aelodau a oedd yn 55 oed neu'n hŷn ar 1 Ebrill 2012 yn destun 'Gwarchodaeth Drosiannol' ac roedd eu buddion yn parhau i gael eu cyfrifo ar sail eu cyflog terfynol am bum mlynedd yn ychwanegol, hyd at 5 Mai 2021.

Ym mis Rhagfyr 2018, dyfarnodd y Llys Apêl fod y 'warchodaeth drosiannol' a gynigir i rai aelodau o gynlluniau'r barnwyr a diffoddwyr tân, wedi arwain at wahaniaethu anghyfreithlon. Ar 15 Gorffennaf 2019, gwnaeth Prif Ysgrifennydd y Trysorlys ddatganiad gweinidogol ysgrifenedig yn cadarnhau, gan fod 'gwarchodaeth drosiannol' yn cael ei gynnig i aelodau o holl brif gynlluniau pensiwn y gwasanaethau cyhoeddus, fod angen dileu'r gwahaniaeth mewn triniaeth o'r holl gynlluniau ar gyfer aelodau â gwasanaeth perthnasol.

Bwrdd Taliadau Annibynnol y Senedd sy'n gyfrifol am reolau Cynllun Pensiwn yr Aelodau. Ar ôl ystyried barn y Bwrdd Pensiynau, cytunodd y Bwrdd y dylid mabwysiadu rhwymedi i ddileu'r gwahaniaethu yn rheolau Cynllun Pensiwn yr Aelodau o ganlyniad i'r darpariaethau gwarchodaeth drosiannol yr oeddent yn eu cynnwys ar hyn o bryd.

Ymgynghorodd y Bwrdd â'r Aelodau yr effeithir arnynt a Chomisiwn y Senedd ar rwymedi arfaethedig. Mae'r Aelodau yr effeithir arnynt wedi cael cynnig dewis ar unwaith i aros yn y Cynllun CARE neu i ddychwelyd i'r adran cyflog terfynol ar gyfer cyfnod y rhwymedi 6 Mai 2016 – 6 Mai 2021. Nid oes unrhyw benderfyniad y maent yn ei wneud wedi'i adlewyrchu yn y ffigurau hyn. Bydd unrhyw newid i fudd-daliadau o ganlyniad i'r rhwymedi yn cael ei adlewyrchu yn y datgeliadau y flwyddyn nesaf pan fydd yr holl Aelodau yr effeithir arnynt wedi cael y cyfle i wneud eu dewis.

O ddechrau'r Chweched Senedd mae pob aelod yn y Cynllun Enillion Cyfartalog Gyrfa.

Cynhaliwyd prisiad actiwaraidd ar 1 Ebrill 2023. Ar ôl i'r prisiad gael ei gwblhau, gostyngodd cyfradd cyfraniad cyflogwyr sy'n daladwy gan y Senedd o 19.9% i 18% o gyflogau cyfanredol yr Aelodau o 1 Ebrill 2024. Roedd hyn yn adlewyrchu gwelliannau yn lefel ariannu'r cynllun a newidiadau yn rhagolygon y farchnad. Cyfraniad yr Aelod yw 10.5% o'r cyflog.

Mae'r Oedran Ymddeol Arferol yn gysylltiedig ag Oedran Pensiwn y Wladwriaeth (neu 65, p'un bynnag sydd uchaf). Bydd unrhyw bensiwn Cyflog Terfynol a gronnir cyn 6 Mai 2021 yn parhau i fod yn daladwy ar yr Oedran Ymddeol Arferol o 65.

## Cofrestr Buddiannau

Cyhoeddir Cofrestr Buddiannau Gweinidogion Cymru sy'n datgelu buddiannau perthnasol ar wefan Llywodraeth Cymru. www.llyw.cymru/buddiannau-preifat-perthnasol-y-gweinidogion

Mae'r datganiad o fuddiannau, nodi gwrthdaro buddiannau posibl neu wirioneddol a rheoli unrhyw wrthdaro o'r fath yn cael ei wneud yn unol â Chod y Gweinidogion. www.llyw.cymru/cod-y-gweinidogion

## Cyfanswm ffigur cydnabyddiaeth ariannol

Mae'r Llawlyfr Adroddiadau Ariannol (FReM) yn ei gwneud yn ofynnol i bob un o Adrannau'r Llywodraeth Ganolog gynnwys Cyfanswm Ffigur Cydnabyddiaeth Ariannol ynghyd â ffigur cymharol ar gyfer blynyddoedd blaenorol o fewn yr adroddiad ar gydnabyddiaeth ariannol. Mae cyfanswm y gydnabyddiaeth ariannol yn cynnwys cyflog gan gynnwys lwfansau sy'n destun trethiant y DU, taliadau bonws a buddion mewn nwyddau yn ogystal â ffigur buddion pensiwn. Mae'r adroddiad hwn yn seiliedig ar daliadau cronedig a wnaed gan Lywodraeth Cymru ac mae wedi'i gofnodi yn y cyfrifon hyn. Mae'r buddion pensiwn wedi eu cyfrifo gan ddefnyddio'r fethodoleg a ddefnyddir i gyfrifo gwerthoedd pensiwn at ddibenion treth. O ganlyniad, gall ffactorau eraill ddylanwadu ar y ffigurau megis unigolyn sy'n penderfynu gwneud cyfraniadau ychwanegol neu ffactorau prisio sy'n effeithio ar y cynllun pensiwn yn ei gyfanrwydd. Nid yw'r symiau a ddatgelir felly yng Nghyfanswm Ffigur Cydnabyddiaeth Ariannol yn adlewyrchu cyfraniadau pensiwn a wneir ar gyfer unigolyn neu bensiynau a delir i unigolyn mewn unrhyw un flwyddyn. Mae'r fethodoleg hon yn gymwys i bob un o adrannau'r llywodraeth gan gynnwys cyrff y GIG.

## Cyfanswm cydnabyddiaeth ariannol Uwch-swyddogion Llywodraeth Cymru

| Uwch-swyddogion | Cyflog[a] 2024-25 £000 | Cyflog 2023-24 £000 | Buddion pensiwn[b] 2024-25 £000 | Buddion pensiwn 2023-24 £000 | Cyfanswm 2024-25 £000 | Cyfanswm 2023-24 £000 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Andrew Goodall**[c] Ysgrifennydd Parhaol | 240-245 | 230-235 | 30-35 | 5-10 | 270-275 | 240-245 |
| **Judith Paget**[d] Cyfarwyddwr Cyffredinol | 225-230 | 225-230 | 80-85 | (85)-(90) | 305-310 | 140-145 |
| **Tracey Burke** Cyfarwyddwr Cyffredinol | 140-145 | 135-140 | 55-60 | 50-55 | 195-200 | 185-190 |
| **Andrew Slade** Cyfarwyddwr Cyffredinol | 140-145 | 135-140 | 90-95 | 40-45 | 230-235 | 175-180 |
| **Sioned Evans**[e] Cyfarwyddwr Cyffredinol | 130-135 | 30-35 | 150-155 | 25-30 | 285-290 | 55-60 |
| **Tim Moss**[f] Cyfarwyddwr Cyffredinol a Phrif Swyddog Gweithredu | 135-140 | 130-135 | 75-80 | 90-95 | 215-220 | 220-225 |
| **David Richards**[g] Cyfarwyddwr Priodoldeb a Moeseg | 60-65 | 55-60 | 20-25 | 20-25 | 85-90 | 80-85 |
| **Nia James**[h] Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cyfreithiol | 95-100 | 20-25 | 90-95 | 75-80 | 190-195 | 100-105 |
| **Amelia John**[i] Hyrwyddwr Cydraddoldeb y Bwrdd | 80-85 | 95-100 | 85-90 | 45-50 | 165-170 | 145-150 |
| **Dom Houlihan**[j] Cyfarwyddwr Adnoddau Dynol | 110-115 | 35-40 | 80-85 | 85-90 | 195-200 | 125-130 |
| **Gawain Evans**[k] Cyfarwyddwr Cyllid | 40-45 | 110-115 | 5-10 | 25-30 | 45-50 | 140-145 |
| **Dean Medcraft**[l] Cyfarwyddwr Cyllid | 105-110 | - | 70-75 | - | 180-185 | - |
| **Rachel Garside-Jones**[m] Cyfarwyddwr Swyddfa'r Prif Weinidog a Chyflawni | 5-10 | - | 5-10 | - | 15-20 | - |
| **Aled Edwards**[n] Cyfarwyddwr Anweithredol | 10-15 | 10-15 | - | - | 10-15 | 10-15 |
| **Carys Williams** Cyfarwyddwr Anweithredol | 10-15 | 10-15 | - | - | 10-15 | 10-15 |

| Uwch-swyddogion | Cyflog[a] 2024-25 £000 | Cyflog 2023-24 £000 | Buddion pensiwn[b] 2024-25 £000 | Buddion pensiwn 2023-24 £000 | Cyfanswm 2024-25 £000 | Cyfanswm 2023-24 £000 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Mike Usher**[o] Cyfarwyddwr Anweithredol | 10-15 | 0-5 | - | - | 10-15 | 0-5 |
| **Mutale Merrill**[p] Cyfarwyddwr Anweithredol | 10-15 | - | - | - | 10-15 | - |

a Cafodd pob uwch-swyddog ar delerau ac amodau Llywodraeth Cymru ddyfarniad cyflog o 5% ar gyfer 2024-25.

b Cyfrifir gwerth y buddion pensiwn a gronnwyd yn ystod y flwyddyn fel (y cynnydd gwirioneddol mewn pensiwn wedi'i luosi ag 20) llai (y cyfraniadau a wnaed gan yr unigolyn). Nid yw'r cynnydd gwirioneddol yn cynnwys cynnydd oherwydd chwyddiant neu unrhyw gynnydd neu ostyngiad oherwydd trosglwyddo hawliau pensiwn. Yn nodweddiadol, lle ceir gwerthoedd negyddol, mae hyn oherwydd bod yr unigolyn yn aelod o'r cynllun cyflog terfynol (classic/classic plus/premium) sydd wedi trosglwyddo i alpha. Cyfrifir pensiwn cyflog terfynol person mewn cyflogaeth drwy gyfeirio at eu cyflog a hyd eu gwasanaeth. Bydd y pensiwn yn cynyddu o un flwyddyn i'r llall yn rhinwedd unrhyw godiad cyflog yn ystod y flwyddyn. Lle nad oes codiad cyflog neu godiad bach yn unig, efallai na fydd y cynnydd mewn pensiwn oherwydd gwasanaeth ychwanegol yn ddigonol i wrthbwyso'r cynnydd mewn chwyddiant – hynny yw, mewn termau real, gall gwerth y pensiwn leihau, ac o'r herwydd ceir gwerthoedd negyddol.

c Mae Andrew Goodall wedi'i secondio o Fwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan ac yn gyson â thelerau trefniant y secondiad hwnnw mae wedi aros ar Delerau ac Amodau'r Bwrdd Iechyd. Dechreuodd ei secondiad i Lywodraeth Cymru yn ei swydd flaenorol fel Cyfarwyddwr Cyffredinol y Grŵp Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol a Phrif Weithredwr GIG Cymru ar 8 Mehefin 2014. Ar ôl cael ei benodi'n Ysgrifennydd Parhaol, yn gyson â chyngor gan Swyddfa'r Cabinet sy'n arwain ar holl ymarferion recriwtio Ysgrifennydd Parhaol, rhoddwyd cytundeb secondiad newydd ar waith gyda'r Bwrdd Iechyd a ddaw i ben ar 31 Hydref 2026. Dewisodd Andrew Goodall ddychwelyd i drefniadau Pensiwn y GIG o 1 Gorffennaf 2023 a rhoi'r gorau i'w drefniant pensiwn ar 31 Rhagfyr 2024. Yn dilyn Cylchlythyr Cyflog Iechyd Cymru 09/2025 i Weithredwyr y GIG, cafodd Andrew Goodall ddyfarniad cyflog o 5% ar gyfer 2024-25. Rhoddodd Andrew Goodall y gorau i gyfrannu at gynllun pensiwn y GIG ar 31 Rhagfyr 2024.

d Penodwyd Judith Paget yn Gyfarwyddwr Cyffredinol, y Grŵp Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol ar 1 Mehefin 2023 ar ôl cystadleuaeth allanol; cyn hynny roedd yn ymgymryd â'r rôl ar sail dros dro. Cafodd Judith Paget ei secondio o Fwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan a pharhaodd ar delerau ac amodau'r Bwrdd Iechyd nes iddi gael ei throsglwyddo i delerau ac amodau Llywodraeth Cymru fel cyflogai ar 1 Rhagfyr 2023. Yn dilyn Cylchlythyr Cyflog Iechyd Cymru 01/2024 ar gyfer Gweithredwyr y GIG, cafodd Judith ddyfarniad cyflog o 5% ar gyfer 2023-24 i 30 Tachwedd 2023. Ei chyflog Cyfwerth ag Amser Llawn cymaradwy gyda Llywodraeth Cymru yn 2023-24 oedd £215,000-£220,000 y flwyddyn. Mae buddion pensiwn 2023-24 ar gyfer Judith Paget yn ymwneud â threfniadau Pensiwn y GIG hyd at 30 Tachwedd 2023, a threfniadau Pensiwn y Gwasanaeth Sifil o 1 Rhagfyr 2024.

e Penodwyd Sioned Evans yn Brif Swyddog Gweithredu, y Grŵp Gwasanaethau Corfforaethol ac Arolygiaethau o 31 Mawrth 2025 a'i chyflog cyfatebol Cyfwerth ag Amser Llawn cymaradwy yw £135,000-140,000. Yn 2023-24 fe'i penodwyd yn Gyfarwyddwr Cyffredinol, Gwasanaethau Cyhoeddus a'r Gymraeg ar ôl cystadleuaeth allanol o 1 Ionawr 2024; ei chyflog Cyfwerth ag Amser Llawn cymaradwy oedd £125,000-£130,000 y flwyddyn.

f Gadawodd Tim Moss Lywodraeth Cymru ar 30 Mawrth 2025. Ei gyflog Cyfwerth ag Amser Llawn oedd £135,000-140,000 y flwyddyn.

g Gwnaeth David Richards gais am ymddeoliad rhannol o 1 Medi 2021 ac fe gymeradwywyd ei gais. O'r dyddiad hwnnw mae ei gyflog a'i oriau gwaith wedi'u gostwng. Ei gyflog cyfwerth ag amser llawn cymaradwy yw £120,000-£120,000 y flwyddyn.

h Cafodd Nia James ei phenodi'n Gyfarwyddwr Gwasanaethau Cyfreithiol dros dro ar ôl ymarfer recriwtio Dyrchafiad Dros Dro mewnol o 1 Ionawr 2024. Ei chyflog cyfwerth ag amser llawn cymaradwy ar gyfer 2023-24 oedd £95,000-£100,000 y flwyddyn. Estynnwyd y trefniant Dyrchafiad Dros Dro tan 31 Rhagfyr 2025. Yn sgil cymryd rhan yng Nghynllun Aberthu Cyflog Car Gwyrdd Llywodraeth Cymru ar gyfer yr holl staff, sy'n golygu gwneud taliadau misol, mae cyfanswm y gydnabyddiaeth a ddatgelir uchod yn cynnwys budd-dal mewn nwyddau o £600 ar gyfer 2024-25 a £200 ar gyfer 2023-24.

i Daeth penodiad sefydlog 2 flynedd Amelia John fel Hyrwyddwr Cydraddoldeb y Bwrdd, i ben ar 31 Rhagfyr 2024. Ei chyflog Cyfwerth ag Amser Llawn cymaradwy yw £110,000-£115,000 y flwyddyn.

j Penodwyd Dom Houlihan yn Gyfarwyddwr Adnoddau Dynol o 20 Tachwedd 2023 ar ôl proses benodi gystadleuol. Ei gyflog cyfwerth ag amser llawn yw £105,000- £110,000 y flwyddyn.

k Ymadawodd Gawain Evans â Lywodraeth Cymru ar 2 Gorffennaf 2024. Roedd y gydnabyddiaeth ariannol am y cyfnod yn cynnwys £10,563 adeg ymadael am wyliau blynyddol a gronnwyd heb eu cymryd eto, yn unol â thelerau ac amodau contractiol. Ei gyflog Cyfwerth ag Amser Llawn cymaradwy oedd £115,000-£120,000 y flwyddyn.

l Penodwyd Dean Medcraft yn Gyfarwyddwr Cyllid ar 1 Mehefin 2024. Ei gyflog Cyfwerth ag Amser Llawn cymaradwy yw £120,000-£125,000 y flwyddyn gyda Lwfans Dyletswyddau Dros Dro am ddwy flynedd sy'n cyfateb i Gyfwerth ag Amser Llawn o £5,000-£10,000 y flwyddyn.

m Penodwyd Rachel Garside-Jones yn Gyfarwyddwr – Swyddfa'r Prif Weinidog a Chyflawni ar 7 Mawrth 2025. Ei chyflog Cyfwerth ag Amser Llawn cymaradwy yw £110,000-£115.00 y flwyddyn.

n Ymestynnwyd contract Aled Edwards ym mis Medi 2024 tan 31 Gorffennaf 2026.

o Penodwyd Mike Usher yn Gyfarwyddwr Anweithredol i Fwrdd Llywodraeth Cymru ar 1 Chwefror 2024.

p Penodwyd Mutale Merrill yn Gyfarwyddwr Anweithredol i Fwrdd Llywodraeth Cymru ar 1 Ebrill 2024.

## Cofrestr Buddiannau

Cyhoeddir Cofrestr Buddiannau Llywodraeth Cymru sy'n datgelu buddiannau perthnasol uwch-swyddogion ar wefan Llywodraeth Cymru. Uwch-swyddogion: cofrestr o fuddiannau | LLYW. CYMRU

Mae'r datganiad o fuddiannau, nodi gwrthdaro buddiannau posibl neu wirioneddol a rheoli unrhyw wrthdaro o'r fath yn cael ei wneud yn unol â Chod y Gwasanaeth Sifil, Polisi Datganiad Buddiannau Llywodraeth Cymru, telerau contractiol penodiadau Cyfarwyddwyr Anweithredol a Chylch Gorchwyl y Bwrdd[87]. Ceir rhagor o wybodaeth am reoli buddiannau yn y Datganiad Llywodraethiant ar dudalen 118.

87 Cylch gorchwyl Bwrdd Llywodraeth Cymru [HTML] | LLYW. CYMRU

## Manylion pensiwn – Uwch-swyddogion Llywodraeth Cymru

| Swyddogion | Pensiwn cronedig adeg oedran pensiwn fel yr oedd ar 31/03/25 a'r cyfandaliad cysylltiedig[a] £000 | Cynnydd gwirioneddol mewn pensiwn a chyfandaliad cysylltiedig adeg oedran pensiwn £000 | CETV ar 31/3/2025 £000 | CETV ar 31/3/2024 £000 | Cynnydd gwirioneddol mewn CETV ar 31/3/2025 £000 |
|---|---|---|---|---|---|
| **Andrew Goodall**[b] Ysgrifennydd Parhaol | 70-75 ynghyd â chyfandaliad o 200-205 | 2.5-5 cyfandaliad 0.0-2.5 | 1,756 | 1,569 | 60 |
| **Judith Paget** Cyfarwyddwr Cyffredinol | 5-10 | 5-7.5 | 108 | 26 | 62 |
| **Tracey Burke** Cyfarwyddwr Cyffredinol | 55-60 | 2.5-5 | 1,050 | 920 | 38 |
| **Andrew Slade** Cyfarwyddwr Cyffredinol | 60-65 ynghyd â chyfandaliad o 150-155 | 2.5 - 5 ynghyd â chyfandaliad o 2.5-5 | 1,311 | 1,192 | 65 |
| **Sioned Evans** Cyfarwyddwr Cyffredinol | 45-50 ynghyd â chyfandaliad o 105-110 | 7.5-10 ynghyd â chyfandaliad o 12.5-15 | 1,048 | 859 | 146 |
| **Tim Moss** Cyfarwyddwr Cyffredinol a Phrif Swyddog Gweithredu | 40-45 ynghyd â chyfandaliad o 100-105 | 2.5-5 ynghyd â chyfandaliad o 2.5-5 | 981 | 876 | 59 |
| **David Richards** Cyfarwyddwr Priodoldeb a Moeseg | 0-5 a chyfandaliad o 0-5 | 0-2.5 ynghyd â chyfandaliad o 0-2.5 | 78 | 54 | 18 |
| **Nia James** Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cyfreithiol | 40-45 | 2.5-5 | 895 | 792 | 67 |
| **Amelia John** Hyrwyddwr Cydraddoldeb y Bwrdd | 30-35 ynghyd â chyfandaliad o 80-85 | 2.5-5 ynghyd â chyfandaliad o 5-7.5 | 771 | 688 | 78 |
| **Dom Houlihan** Cyfarwyddwr Adnoddau Dynol | 30-35 | 2.5-5 | 349 | 282 | 35 |
| **Gawain Evans** Cyfarwyddwr Cyllid | 55-60 ynghyd â chyfandaliad o 145-150 | 0-2.5 ynghyd â chyfandaliad o 0 | 1,338 | 1,324 | 2 |

| Swyddogion | Pensiwn cronedig adeg oedran pensiwn fel yr oedd ar 31/03/25 a'r cyfandaliad cysylltiedig[a] £000 | Cynnydd gwirioneddol mewn pensiwn a chyfandaliad cysylltiedig adeg oedran pensiwn £000 | CETV ar 31/3/2025 £000 | CETV ar 31/3/2024 £000 | Cynnydd gwirioneddol mewn CETV ar 31/3/2025 £000 |
|---|---|---|---|---|---|
| **Dean Medcraft** Cyfarwyddwr Cyllid | 55-60 | 2.5-5 | 1,192 | 1,084 | 66 |
| **Rachel Garside-Jones** Cyfarwyddwr Swyddfa'r Prif Weinidog a Chyflawni | 40-45 | 0-2.5 | 811 | 802 | 8 |

a Adroddwyd am unrhyw aelodau yr effeithiwyd arnynt gan Rwymedi Pensiynau'r Gwasanaeth Cyhoeddus yng nghynllun 2015 ar gyfer y cyfnod rhwng 1 Ebrill 2015 a 31 Mawrth 2022-23, ond fe'u hadroddir yn y cynllun etifeddol ar gyfer yr un cyfnod yn 2023-24. Mae cyfrifo buddion (a CETVs cysylltiedig) ar 31 Mawrth 2023 a 31 Mawrth 2024 yn adlewyrchu'r ffaith bod y gwasanaeth rhwng 1 Ebrill 2015 a 31 Mawrth 2023 wedi'i 'rolio'n ôl' i Brif Gynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil ar 1 Hydref 2023. Sut mae'r cyfnod pontio ar gyfer pensiynau'r gwasanaeth cyhoeddus yn effeithio ar eich pensiwn - GOV.UK (www.gov.uk).

b Dewisodd Andrew Goodall ddychwelyd i drefniadau Pensiwn y GIG o 1 Gorffennaf 2023. Rhoddodd y gorau i gyfrannu at ei drefniant pensiwn ar 31 Rhagfyr 2024.

Mae datgeliad penodol sy'n ofynnol gan Hysbysiad Pensiwn Cyflogwr 727 wedi'i hepgor yn unol ag Erthygl 21 o GDPR y DU.

## Cyflog

Mae 'cyflog' yn cynnwys cyflog gros; goramser; hawliau neilltuedig ar gyfer pwysoliad Llundain neu lwfansau Llundain; lwfansau recriwtio a chadw; lwfansau swyddfa breifat ac unrhyw lwfansau eraill i'r graddau eu bod yn destun treth y DU.

Mae'r adroddiad hwn yn seiliedig ar daliadau a wneir gan Lywodraeth Cymru ac eithrio'r Gweinidogion fel y nodir uchod.

Mae gan Uwch-weision Sifil o fewn Llywodraeth Cymru hawl gontractiol i gael eu hystyried am daliad amrywiol ar sail perfformiad. Mae unrhyw daliadau a wneir yn cael eu talu ar ddiwedd mis Gorffennaf bob blwyddyn, ond ni wnaed unrhyw daliadau. Rôl y Pwyllgor Pobl a Chydnabyddiaeth Ariannol yw sicrhau bod polisi tâl uwch Llywodraeth y DU yn cael ei gymhwyso a chymeradwyo unrhyw ddyfarniadau a goruchwylio gweithrediad fframwaith rheoli perfformiad yr Uwch Wasanaeth Sifil. Mae'r Pwyllgor Pobl a Chydnabyddiaeth Ariannol yn cynnwys yr Ysgrifennydd Parhaol, y Cyfarwyddwyr Cyffredinol, y Cyfarwyddwyr Anweithredol a'r Cyfarwyddwr Adnoddau Dynol.

## Buddion mewn nwyddau

Mae gwerth ariannol y buddion mewn nwyddau yn cynnwys unrhyw fuddion a ddarperir gan y cyflogwr ac y mae Cyllid a Thollau Ei Fawrhydi yn eu trin fel enillion trethadwy, ac yn cael ei nodi i'r £100 agosaf. Y buddion mewn nwyddau a aseswyd ar gyfer y flwyddyn 2024-25 oedd £600 (2023-24: £200) mewn perthynas â chyfrannu i'r cynllun aberthu cyflog Car Gwyrdd.

## Gwerthoedd Trosglwyddo sy'n Gyfwerth ag Arian Parod

Gwerth Trosglwyddo Cyfwerth ag Arian Parod (CETV) yw gwerth wedi'i gyfalafu buddion y cynllun pensiwn a gronnwyd gan aelod ar adeg benodol, wedi ei asesu gan actwari. Y buddion a gaiff eu prisio yw buddion cronedig yr aelod ac unrhyw bensiwn amodol i briod sy'n daladwy o'r cynllun. Mae CETV yn daliad a wneir gan gynllun neu drefniant pensiwn i ddiogelu buddion pensiwn mewn cynllun neu drefniant pensiwn arall pan fydd yr aelod yn gadael cynllun ac yn dewis trosglwyddo'r buddion a gronnwyd eisoes yn y cynllun blaenorol. Mae'r ffigurau pensiwn a ddangosir yn ymwneud â'r buddion a gronnwyd gan yr unigolion o ganlyniad i gyfanswm eu haelodaeth o'r cynllun pensiwn, nid dim ond y gwasanaeth mewn swydd uwch sy'n destun datgelu.

Mae'r ffigurau'n cynnwys gwerth unrhyw fuddion pensiwn mewn cynllun neu drefniant arall y mae'r unigolyn wedi'u trosglwyddo i drefniadau pensiwn y Gwasanaeth Sifil. Maent hefyd yn cynnwys unrhyw fuddion pensiwn ychwanegol a gronnwyd i'r aelod oherwydd iddynt brynu buddion pensiwn ychwanegol ar eu cost eu hunain.

Mae CETVs yn cael eu cyfrifo yn unol â Rheoliadau Cynlluniau Pensiwn Galwedigaethol (Gwerthoedd Trosglwyddo) (Diwygio) 2008, ac nid yw'n rhoi ystyriaeth i unrhyw ostyngiad gwirioneddol na phosibl mewn buddion o ganlyniad i'r Dreth Lwfans Gydol Oes a all fod yn ddyledus pan hawlir buddion pensiwn.

## Cynnydd gwirioneddol mewn CETV

Mae hyn yn adlewyrchu'r cynnydd mewn CETV a ariennir gan y cyflogwr. Nid yw'n cynnwys cynnydd yn y pensiwn cronedig oherwydd chwyddiant, cyfraniadau sy'n cael eu talu gan y gweithiwr (gan gynnwys gwerth unrhyw fuddion a drosglwyddwyd o gynllun neu drefniant pensiwn arall) ac mae'n defnyddio ffactorau prisio cyffredin y farchnad ar ddechrau ac ar ddiwedd y cyfnod.

## Lluosrifau tâl

Mae'n ofynnol i gyrff sy'n adrodd ddatgelu'r berthynas rhwng cydnabyddiaeth ariannol y cyfarwyddwr sy'n cael y tâl uchaf yn eu sefydliad a chydnabyddiaeth ariannol chwarteli isaf, canolrifol ac uchaf gweithlu'r sefydliad.

Tâl cydnabyddiaeth wedi'i fandio y Cyfarwyddwr a oedd yn cael y tâl uchaf (yr Ysgrifennydd Parhaol) yn Llywodraeth Cymru yn y flwyddyn ariannol 2024-25 oedd £240,000 – £245,000 (2023-24: £230,000 – £235,000). Roedd hyn 5.3 gwaith (2023-24: 5.6) tâl cydnabyddiaeth canolrifol y gweithlu, sef £45,600 (2023-24: £41,675).

Mae cyfanswm y gydnabyddiaeth ariannol yn cynnwys cyflog, tâl ar sail perfformiad sydd heb ei gyfuno a buddion mewn nwyddau. Nid yw'n cynnwys taliadau diswyddo gan gyflogwyr a gwerthoedd trosglwyddo pensiynau sy'n gyfwerth ag arian parod.

Dangosir y berthynas rhwng tâl y cyfarwyddwr sy'n cael y tâl uchaf a'r chwarteli isaf, canolrifol ac uchaf isod:

| Blwyddyn | | 25ain Canradd | Canolrif | 75ain Canradd |
|---|---|---|---|---|
| 2024-25 | Cymhareb Tâl (:1) | 7.2 | 5.3 | 4.1 |
| | Cydnabyddiaeth ariannol y chwartel | 33,748 | 45,600 | 58,918 |
| 2023-24 | Cymhareb Tâl (:1) | 7.2 | 5.6 | 4.5 |
| | Cydnabyddiaeth ariannol  y chwartel | 32,141 | 41,675 | 51,839 |

Mae'n ofynnol bellach i gyrff adrodd nodi canran y newid i'r tâl cydnabyddiaeth o'r flwyddyn ariannol flaenorol ar gyfer y cyfarwyddwr sy'n cael y tâl uchaf; a'r newid canrannol cyfartalog ers y flwyddyn ariannol flaenorol mewn perthynas â chyflogeion yr endid yn eu crynswth.

| | Newid canrannol tâl – y cyfarwyddwr ar y tâl uchaf | Newid canrannol cyfartalog tâl – cyflogeion yn eu crynswth |
|---|---|---|
| 2024-25 | 4.30% | 6.34% |
| 2023-24 | 6.90% | 3.76% |

Mae'r cyfrifiad gofynnol ar gyfer canran y cyfarwyddwr sy'n cael y tâl uchaf yn cymharu canolbwynt y band tâl sef 2024-25 £240,000 – £245,000 (2023-24: £230,000 – £235,000), yn hytrach na'r newid canrannol yn y cyflog gwirioneddol. Mae defnyddio pwynt canol y band i gyfrifo yn gallu ystumio'r cyfrifiad o'i gymharu â'r dyfarniad gwirioneddol a gafwyd. Mae'r newid canrannol cyfartalog i'r tâl ar gyfer cyflogeion yn eu crynswth (6.34%) yn uwch na'r dyfarniad cyflog o 5% ar gyfer 2024-25. Mae'r cyfrifiad hwn yn cynnwys staff ar secondiad a staff dro, a gall y cymysgedd o'r rhain amrywio o flwyddyn i flwyddyn yn ogystal â'r dyfarniadau cyflog sy'n gymwys i unigolion o'r fath. Y newid canrannol cyfartalog i gyflogeion ar gyflogres Llywodraeth Cymru ar gyfer 2024-25 yw 7.06%. Mae'r cynnydd mewn cyflogau staff ar gyfartaledd yn adlewyrchu newid graddol yn strwythur y sefydliad. Rhwng mis Mawrth 2024 a mis Mawrth 2025 daeth y gweithlu, yn gyffredinol, yn un a oedd yn cynnwys mwy o staff ar lefel uwch, gan fod llai o staff ar raddau Cymorth Tîm, EO a HEO a mwy a r raddau SEO, Gradd 7 a Gradd 6, hyd yn oed wrth i'r sefydliad leihau ei faint drwy'r Cynllun Ymadael Gwirfoddol. Fe wnaeth dyfarniad cyflog 2024-25 hefyd wthio pwynt SEO 3 uwchlaw £50,000, sy'n golygu bod y rhan fwyaf o'r staff ar y radd honno bellach yn ennill mwy na'r swm hwn. Er bod maint yr Uwch Wasanaeth Sifil (SCS) wedi lleihau ychydig, hysbysebwyd rhai rolau â chyflogau uwchlaw isafswm y band i ddenu ymgeiswyr, ac mae rhai secondeion ar gyflogau uchel wedi dod yn staff parhaol, gan effeithio ar gyfartaleddau cyflog. Mae'r rhan fwyaf o'r staff eisoes ar frig eu band cyflog, ond mae rhai carfannau, megis prentisiaid, wedi symud ymlaen yn sylweddol eleni.

Mae rhagor o wybodaeth am y Polisi Tâl, y broses gwneud penderfyniadau a Thâl Uwch-swyddogion ar gael yn Natganiad Polisi Tâl Llywodraeth Cymru.

## Niferoedd a Chostau Staff

Nifer cyfartalog y bobl gyfwerth ag amser llawn a gyflogwyd yn ystod y cyfnod (gan gynnwys uwch-reolwyr a chynghorwyr arbennig) oedd:

| | Staff a gyflogwyd yn barhaol | Staff eraill | Cynghorwyr Arbennig | Cyfanswm 2024-25 | Cyfanswm 2023-24 |
|---|---|---|---|---|---|
| **Cyfanswm** | **105,877** | **5,443** | **13** | **111,333** | **110,128** |
| **O'r rheini:** | | | | | |
| Llywodraeth Cymru | 5,391 | 242 | 13 | 5,646 | 5,780 |
| BILlau a chyrff y GIG | 95,023 | 5,201 | - | 100,224 | 99,232 |
| Is-gwmnïau | 5,463 | - | - | 5,463 | 5,116 |
| **O gyfanswm Llywodraeth Cymru:** | | | | | |
| Cyrff rheoleiddio a chyflawni | 743 | - | - | - | 757 |
| Tribiwnlysoedd | 33 | - | - | - | 34 |

## Cyfansoddiad staff Llywodraeth Cymru yn ôl rhywedd (heb eu harchwilio)

| | Gwrywaidd | Benywaidd |
|---|---|---|
| Aelodau Bwrdd | 50% | 50% |
| Uwch Wasanaeth Sifil | 52% | 48% |
| Yr holl staff | 39% | 61% |

Menywod yw mwy na 60% o'n gweithlu. Rydym yn parhau i wneud cynnydd o ran gwella cynrychiolaeth mewn rolau Uwch. Yn 2024-25, cynyddodd cyfran y menywod yn yr Uwch Wasanaeth Sifil o 43% i 48%. Ar lefel y Bwrdd, mae cynrychiolaeth rhywedd bellach wedi'i rannu'n gyfartal yn 50:50, o'i gymharu â 40% o fenywod y flwyddyn flaenorol.

Mae Strategaeth Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant y Gweithlu 2021-2026 yn nodi targedau a chamau gweithredu clir i fynd i'r afael â diffyg cynrychiolaeth, fel yr amlinellir yn yr adran 'Tegwch a Chynhwysiant' o dudalen 87.

## Costau staff

| Llywodraeth Cymru | Staff sydd wedi'u cyflogi'n barhaol[a] £m | Staff eraill £m | Blwyddyn yn dod i ben 31 Mawrth 2025 Cyfanswm £m | Blwyddyn yn dod i ben 31 Mawrth 2024 Cyfanswm £m |
|---|---|---|---|---|
| Cyflogau | 282 | 17 | 299 | 298 |
| Costau Nawdd Cymdeithasol | 34 | - | 34 | 33 |
| Costau Pensiwn Eraill | 87 | - | 87 | 76 |
| **Cyfanswm** | **403** | **17** | **420** | **407** |
| Adenillon o secondiadau | (2) | - | (2) | (3) |
| **Costau net staff** | **401** | **17** | **418** | **404** |

| Cyfunol | Staff sydd wedi'u cyflogi'n barhaol[a] £m | Staff eraill £m | Blwyddyn yn dod i ben 31 Mawrth 2025 Cyfanswm £m | Blwyddyn yn dod i ben 31 Mawrth 2024 Cyfanswm £m |
|---|---|---|---|---|
| Cyflogau | 5,144 | 442 | 5,586 | 5,251 |
| Costau Nawdd Cymdeithasol | 522 | 29 | 551 | 511 |
| Costau Pensiwn Eraill | 1,023 | 32 | 1,056 | 855 |
| **Cyfanswm** | **6,689** | **503** | **7,192** | **6,617** |
| Adenillon o secondiadau | (2) | - | (2) | (3) |
| **Costau net staff** | **6,687** | **503** | **7,190** | **6,614** |

[a] Er ei fod wedi'i nodi mewn categori gwahanol o ran niferoedd staff, mae cyflogau Cynghorwyr Arbennig, wedi'u cynnwys yn ffigurau costau'r Staff Eraill.

Mae cyflogau'n cynnwys cyflogau gros, y bonysau perfformio sy'n daladwy, hawliau neilltuedig i Bwysoliad Llundain neu lwfansau Llundain, lwfansau recriwtio a chadw, a lwfansau'r swyddfa breifat.

Costau'r Cynghorwyr Arbennig oedd £1,571,334 (2023-24: £1,762,883) ar gyfer y flwyddyn, gan gynnwys costau pensiwn a nawdd cymdeithasol, ac maent wedi'u cynnwys yn y ffigurau uchod.

Oherwydd ymadawiad y Prif Weinidog (blaenorol) Vaughan Gething AS ar 6 Awst 2024, daeth y contractau ar gyfer Cynghorwyr Arbennig i ben. Daeth rhai contractau Cynghorwyr Arbennig i ben hefyd pan ddaeth y Cytundeb Cydweithio â Phlaid Cymru i ben ar 17 Mai 2024.

O fewn costau cynghorwyr arbennig ar gyfer y flwyddyn, cynhwysir costau taliadau diswyddo o £202,098 yn unol â thelerau'r Contract Enghreifftiol ar gyfer Cynghorwyr Arbennig (mae hyn yn cynnwys taliadau am wyliau blynyddol nad oedd wedi'u cymryd pan ddaeth y contract i ben). Dyma gost net y taliadau diswyddo gan ystyried bod taliadau diswyddo wedi'u hadennill yn sgil ailbenodi rhai Cynghorwyr Arbennig. Ar 31 Mawrth 2025 roedd £33,554 yn dal heb ei adennill, a chafodd hwn ei ad-dalu yn 2025-26.

Roedd 28 o Gynghorwyr Arbennig yn gweithio yn ystod y cyfan neu ran o'r flwyddyn ariannol 2024-25, sy'n cyfateb i 13 o gynghorwyr arbennig cyfwerth ag amser llawn ar gyfartaledd, fel y nodir yn y tabl niferoedd staff uchod.

Cyhoeddir Cofrestr Buddiannau Llywodraeth Cymru ar gyfer Cynghorwyr Arbennig sy'n datgelu buddiannau perthnasol ar wefan Llywodraeth Cymru. Datganiadau o fuddiannau | LLYW.CYMRU Mae'r datganiad o fuddiannau, nodi gwrthdaro buddiannau posibl neu wirioneddol a rheoli unrhyw wrthdaro o'r fath yn cael ei wneud yn unol â Chod y Gwasanaeth Sifil, Polisi Datganiad Buddiannau Llywodraeth Cymru a thelerau contractiol penodiadau Cynghorwyr Arbennig. Ceir rhagor o wybodaeth am reoli buddiannau yn y Datganiad Llywodraethiant ar dudalen 118.

Mae costau nawdd cymdeithasol a phensiynau ar gyfer staff dros dro a staff ar secondiad o dan y ffigurau craidd ar gyfer staff eraill wedi cael eu cynnwys yn y cyflogau gan eu bod yn cael eu hanfonebu ar sail gros. Mae cyflogau Gweinidogion Cymru yn cael eu talu gan Gomisiwn y Senedd ac yn cael eu hadlewyrchu yn y cyfrifon hynny.

O ran nifer yr uwch-staff y mae eu cyflog yn uwch na £100k, roedd 64 o staff yr oedd eu cyflog cyfwerth ag amser llawn yn uwch na £100k ar 31 Mawrth 2025. O'r rhain, roedd 4 yn staff rhan-amser yr oedd eu henillion gwirioneddol, felly, yn is na'r trothwy o £100k, ac roedd 1 yn aelod staff amser llawn a ymunodd ar ganol y flwyddyn, gan dderbyn cyflog o lai na £100k yn y flwyddyn. Y gyfradd darged ar gyfer lefel Cyfarwyddwr yn Llywodraeth Cymru yw £113,925. Mae hyn yn gynnydd o 5% ers 2023-24. Cafodd y rhan fwyaf o Uwch Weision Sifil Llywodraeth Cymru ddyfarniad cyflog o 5% yn 2024-25 (pwynt 1 ar gyfer Cyfarwyddwyr ac fe gafodd Dirprwy Gyfarwyddwyr godiad cyflog o 1.3%/1%). Cafodd y rhan fwyaf o staff Llywodraeth Cymru islaw'r Uwch Wasanaeth Sifil ddyfarniad cyflog o 5% yn 2024-25.

## Pensiynau

Darperir buddion Pensiwn drwy drefniadau pensiwn y Gwasanaeth Sifil. Cyn 1 Ebrill 2015, yr unig gynllun oedd Prif Gynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil (PCSPS), sydd wedi'i rannu'n wahanol adrannau – mae **classic, premium a classic plus** yn darparu buddion ar sail cyflog terfynol, tra bo **nuvos** yn darparu buddion ar sail cyfartaledd gyrfa. O 1 Ebrill 2015 cyflwynwyd cynllun pensiwn newydd ar gyfer gweision sifil – y Cynllun Pensiwn Gweision Sifil ac Eraill neu **alpha**, sy'n darparu buddion ar sail cyfartaledd gyrfa. Ymunodd pob un o'r gweision sifil a oedd newydd eu penodi, a'r mwyafrif o'r rhai a oedd eisoes mewn gwasanaeth, â'r cynllun newydd.

Mae PCSPS ac **alpha** yn gynlluniau statudol heb eu hariannu. Mae cyflogeion a chyflogwyr yn gwneud cyfraniadau (mae cyfraniadau cyflogeion yn amrywio rhwng 4.6% ac 8.05%, yn dibynnu ar gyflog). Mae gweddill cost y buddion mewn taliadau yn cael ei dalu ag arian sy'n destun pleidlais gan Senedd y DU bob blwyddyn. Mae pensiynau sy'n cael eu talu yn cynyddu bob blwyddyn yn unol â'r ddeddfwriaeth Cynyddu Pensiynau. Yn hytrach na'r trefniadau buddion wedi'u diffinio, gall gweithwyr ddewis pensiwn cyfraniadau wedi'u diffinio gyda chyfraniad cyflogwr, sef cyfrif pensiwn y **partnership**.

Yn **alpha**, mae pensiwn yn cronni ar gyfradd o 2.32% o enillion pensiynadwy bob blwyddyn, ac mae'r cyfanswm a gronnwyd yn cael ei addasu bob blwyddyn yn unol â chyfradd a bennir gan Drysorlys EF. Gall yr aelodau ddewis ildio (cymudo) pensiwn am gyfandaliad hyd at y terfynau a bennir gan Ddeddf Cyllid 2004. Bydd buddion PCSPS pob aelod sy'n newid i'r cynllun **alpha** o PCSPS yn cael eu 'bancio'. O ran y rhai a gronnodd fuddion gynt fel

aelodau o un o adrannau'r PCSPS a oedd yn darparu buddion ar sail cyflog terfynol, bydd y buddion hynny'n seiliedig ar eu cyflog terfynol pan fyddant yn gadael y cynllun **alpha**.

Y pensiynau cronedig a ddangosir yn yr adroddiad hwn yw'r pensiwn y bydd gan yr aelod hawl i'w gael pan fydd yn cyrraedd oedran pensiwn arferol, neu yn union ar ôl iddo beidio â bod yn aelod gweithredol o'r cynllun os yw eisoes wedi cyrraedd oedran pensiwn arferol neu os yw'n hŷn na hynny. Yr oedran pensiwn arferol yw 60 ar gyfer aelodau'r cynlluniau classic, premium, a **classic plus**, 65 i aelodau **nuvos**, a naill ai 65 neu oedran pensiwn y wladwriaeth ar gyfer aelodau **alpha**. Mae'r ffigurau pensiwn yn yr adroddiad hwn yn dangos y pensiwn a enillwyd yn PCSPS neu **alpha**, fel y bo'n briodol. Pan fo gan swyddog fuddion yn PCSPS ac alpha, y ffigur a ddangosir yw gwerth cyfunol ei fuddion yn y ddau gynllun. Dylid nodi, er hynny, y gall rhan o'r pensiwn hwnnw fod yn daladwy o oedrannau gwahanol.

Pan gyflwynodd y Llywodraeth gynlluniau pensiwn gwasanaeth cyhoeddus newydd yn 2015, roedd trefniadau trosiannol a oedd yn trin aelodau'r cynllun presennol yn wahanol ar sail eu hoedran. Arhosodd aelodau hŷn o PCSPS yn y cynllun hwnnw, yn hytrach na symud i **alpha**. Yn 2018, canfu'r Llys Apêl fod y trefniadau trosiannol yn y cynlluniau pensiwn gwasanaeth cyhoeddus yn gwahaniaethu'n anghyfreithlon yn erbyn aelodau iau.

O ganlyniad, mae camau'n cael eu cymryd i unioni'r diwygiadau hynny yn 2015, gan wneud darpariaethau'r cynllun pensiwn yn deg i bob aelod. Mae'r datrysiad[88] pensiynau gwasanaethau cyhoeddus yn cynnwys dwy ran. Caeodd y rhan gyntaf y PCSPS ar 31 Mawrth 2022, gyda'r holl aelodau gweithredol yn dod yn aelodau o **alpha** o 1 Ebrill 2022. Mae'r ail ran yn dileu'r gwahaniaethu ar sail oedran ar gyfer cyfnod y rhwymedi, rhwng 1 Ebrill 2015 a 31 Mawrth 2022, drwy symud aelodaeth aelodau cymwys yn ystod y cyfnod hwn yn ôl i PCSPS ar 1 Hydref 2023. Gelwir hyn yn "wrthdroi".

Ar gyfer aelodau sydd yng nghwmpas rhwymedi pensiwn y gwasanaeth cyhoeddus, mae cyfrifo eu buddion at ddibenion cyfrifo eu Gwerth Trosglwyddo Cyfwerth ag Arian Parod a chyfanswm ffigur eu cydnabyddiaeth ariannol, ar 31 Mawrth 2023 a 31 Mawrth 2024, yn adlewyrchu'r ffaith bod aelodaeth rhwng 1 Ebrill 2015 a 31 Mawrth 2022 wedi'i throsglwyddo yn ôl i'r PCSPS. Er y bydd aelodau maes o law yn cael opsiwn i benderfynu a ddylai'r cyfnod hwnnw gyfrif tuag at PCSPS neu fuddion **alpha**, mae'r ffigurau'n dangos y sefyllfa wedi'i rolio'n ôl h.y., buddion PCSPS ar gyfer y cyfnod hwnnw.

Mae'r cyfrif pensiwn **partnership** yn drefniant pensiwn cyfraniad diffiniedig galwedigaethol sy'n rhan o'r Legal & General Mastertrust. Mae'r cyflogwr yn gwneud cyfraniad sylfaenol o rhwng 8% a 14.75% (yn dibynnu ar oedran yr aelod). Nid oes rhaid i'r gweithiwr gyfrannu ond, os bydd yn gwneud hynny, bydd y cyflogwr yn rhoi cyfraniad cyfatebol hyd at derfyn o 3% o gyflog pensiynadwy (yn ogystal â chyfraniad sylfaenol y cyflogwr). Mae'r cyflogwr hefyd yn cyfrannu 0.5% ychwanegol o'r cyflog pensiynadwy i dalu cost yswiriant budd risg a ddarperir yn ganolog (marwolaeth mewn swydd ac ymddeoliad oherwydd salwch.

Ceir rhagor o fanylion am drefniadau pensiwn y Gwasanaeth Sifil ar y wefan www.civilservicepensionscheme.org.uk.

Mae gweithwyr Llywodraeth Cymru yn rhan o Brif Gynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil, ac eithrio nifer bach o staff sydd wedi dewis parhau i fod yn aelodau o gynlluniau eraill y sector cyhoeddus.

Mae Prif Gynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil (PCSPS) a Chynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil ac Eraill (CSOPS) – a elwir yn 'Alpha' – yn gynllun buddion diffiniedig nas ariennir

88 www.gov.uk/government/collections/sut-maer-cyfnod-pontio-ar-gyfer-pensiynaur-gwasanaeth-cyhoeddus-yn-effeithio-ar-eich-pensiwn.cy

sy'n cynnwys nifer o gyflogwyr ac felly ni all Llywodraeth Cymru nodi ei chyfran o'r asedau a'r atebolrwyddau sylfaenol. Prisiodd Actiwari'r Cynllun y cynllun fel yr oedd ar 31 Mawrth 2020. Ceir manylion yng nghyfrifon adnoddau Swyddfa'r Cabinet.

Ar gyfer 2024-25, roedd cyfraniadau cyflogwyr o £77,712,655 yn daladwy i PCSPS/Alpha (2023-24: £71,274,576) ar y gyfradd safonol newydd o 28.97% (2023-24: 26.6 i 30.3) o enillion pensiynadwy. Mae Actiwari'r Cynllun yn adolygu cyfraniadau'r cyflogwr bob pedair blynedd yn dilyn prisiad llawn o'r cynllun. Pennir cyfraddau'r cyfraniadau i dalu cost y buddion a gronnwyd yn ystod 2024-25 i gael eu talu pan fo'r aelod yn ymddeol ac nid y buddion a dalwyd yn ystod y cyfnod hwn i bensiynwyr presennol.

Gall gweithwyr ddewis agor cyfrif pensiwn "partneriaeth", sef pensiwn cyfraniad diffiniedig galwedigaethol lle mae'r cyflogwr hefyd yn cyfrannu. Cafodd cyfraniadau cyflogwr o £313,547 (2023-24: £280,682) eu talu i'r darparwr pensiwn cyfanddeiliaid penodedig. Mae cyfraniadau cyflogwyr yn gysylltiedig ag oedran ac yn amrywio o 8 i 14.75% o enillion pensiynadwy. Mae cyflogwyr hefyd yn rhoi cyfraniad cyfatebol i weithwyr hyd at 3% o enillion. Yn ogystal, roedd cyfraniadau cyflogwr o £10,281, 0.5% (2023-24: £9,429, 0.5%) o dâl pensiynadwy, yn daladwy i'r PCSPS i dalu am y gost o ddarparu buddion cyfandaliadol yn y dyfodol os bydd gweithiwr yn marw yn y swydd neu'n ymddeol oherwydd salwch.

Nid oedd unrhyw gyfraniadau yn ddyledus i'r darparwyr pensiwn "partnership" ar ddyddiad y fantolen (2023-24: ddim). Nid oedd unrhyw gyfraniadau wedi'u rhagdalu ar y dyddiad hwnnw (2023-24: £dim).

Ymddeolodd saith (2023-24: pedwar) unigolyn yn gynnar oherwydd salwch; cyfanswm yr atebolrwyddau pensiwn ychwanegol a gronnwyd yn y flwyddyn oedd £126,537 2023-24: £2,975). Mae staff sy'n ymadael ar delerau ymddeoliad ar sail afiechyd difrifol yn aml yn cael gwell buddion pensiwn yn dibynnu ar eu hoedran a hyd eu gwasanaeth, sy'n cyfrif am y gwahaniaeth rhwng 2023-24 a 2024-25. Nid oes unrhyw atebolrwydd ariannol ar Lywodraeth Cymru am y taliad chwyddo hwn.

Dewisodd nifer bach o gyflogeion yr hen Awdurdod Datblygu gadw eu telerau ac amodau presennol a'u trefniadau pensiwn. Maent yn rhan o Gynllun Pensiwn Llywodraeth Leol, sy'n gynllun a ariennir gan sawl cyflogwr yn darparu pensiwn a buddion cysylltiedig, sydd bellach yn cael ei gyfrifo ar sail cyfartaledd gyrfa yn hytrach nag ar sail cyflog terfynol. Mae asedau'r cynllun yn cael eu dal ar wahân i asedau Llywodraeth Cymru a'u gweinyddu gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf. Dangosir atebolrwyddau Llywodraeth Cymru mewn perthynas â'r cynllun hwn yn nodyn 13 i'r cyfrifon – 'Atebolrwyddau Eraill'. Rhoddir buddion ymddeol ychwanegol yn unol â Rheoliadau Llywodraeth Leol (Iawndal am Ymddeol Cyn Pryd) 1982 a darperir y buddion hyn eu ar sail talu wrth fynd.

Cynhwysir manylion Pensiynau Byrddau Iechyd Lleol a chyrff y GIG yn eu cyfrifon.

## Adrodd ar gynlluniau iawndal y Gwasanaeth Sifil a chynlluniau eraill – pecynnau ymadael

Ar gyfer 2024-25, mae 96 (2023-24: 10) o gyflogeion wedi ymadael neu gytuno i ymadael am resymau ymadawiad gwirfoddol neu am resymau eraill rhwng 01 Ebrill 2024 a 31 Mawrth 2025. Y taliadau iawndal y cytunwyd arnynt yw £6,115,975 (2023-24: £141,361).

Talwyd costau dileu swydd a chostau ymadael eraill yn unol â darpariaethau Cynllun Iawndal y Gwasanaeth Sifil, sef cynllun statudol a wnaed o dan Ddeddf Blwydd-daliadau 1972, neu lle bo'n gymwys, yn unol â chanllawiau Swyddfa'r Cabinet ar Iawndal Effeithlonrwydd 2016. Pan fo'r adran wedi cytuno i ganiatáu ymddeoliadau cynnar, caiff y costau ychwanegol eu talu gan Lywodraeth Cymru, ac nid gan gynllun pensiwn y Gwasanaeth Sifil. Telir caiff costau ymddeol oherwydd afiechyd gan y cynllun pensiwn ac nid ydynt yn cael eu cynnwys yn y tabl.

Daeth Cynllun Ymadael Gwirfoddol (VES) 2024 Llywodraeth Cymru i ben gyda chyfanswm o 91 aelod o staff yn gadael y sefydliad erbyn 31 Awst 2024. Cyfanswm costau'r taliadau digolledu i'r staff a ymadawodd â Llywodraeth Cymru oedd £5.973m.

Agorodd y cynllun i geisiadau gan staff ar 18 Mawrth 2024 a daeth i ben ar 15 Ebrill 2024. Cafwyd 393 o geisiadau. Cytunodd y Pwyllgor Gweithredol ac Undebau Llafur ar feini prawf sgorio cyson er mwyn sicrhau bod y sefydliad yn gwarchod sgiliau a galluogrwydd hanfodol. Roedd y meini prawf dethol yn canolbwyntio ar sgorio effaith rhyddhau ar draws tri chategori: sef sgiliau allweddol, parhad busnes a pha mor hawdd fyddai dod o hyd i rywun arall i wneud y swydd. Ystyriodd y Cyfarwyddwyr Cyffredinol a'u Cyfarwyddwyr y sgoriau a gwnaethant argymhelliad ar sail gwybodaeth ynghylch pob cais.

Cyfarfu panel VES corfforaethol o dan gadeiryddiaeth Cyfarwyddwr Anweithredol, gyda chynrychiolaeth o bob rhan o'r busnes ar lefel Cyfarwyddwr, Cyfarwyddwr Cyllid, Cyfarwyddwr Adnoddau Dynol, Hyrwyddwr Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant SCS ac Undebau Llafur (fel arsylwyr), i ystyried argymhellion yn erbyn diben y cynllun; darparu sicrwydd ar y broses; ac ystyried y costau a'r amser ad-dalu sy'n gysylltiedig â'r arbedion a gynhyrchir. Argymhellodd y Panel Corfforaethol i ExCo y dylai pob aelod o staff a gafodd sgoriau isel yn y tri maen prawf ac na fyddai angen cyflogi neb arall yn eu lle, gael eu rhyddhau, h.y. bod modd arbed arian yn uniongyrchol os bydd yr unigolyn hwnnw yn gadael y sefydliad a bod ei rôl yn cael ei dileu o'n strwythurau a bod dirprwyadau staffio yn lleihau yn unol â hynny.

| Band cost y pecyn ymadael | Nifer y diswyddiadau gorfodol | Nifer yr ymadawiadau eraill y cytunwyd arnynt | Cyfanswm y pecynnau ymadael yn ôl band cost 2024-25 | Cyfanswm y pecynnau ymadael yn ôl band cost 2023-24 |
|---|---|---|---|---|
| <£10,000 | - | 2 | 2 | 4 |
| £10,000 – £25,000 | - | 10 | 10 | 5 |
| £25,000 – £50,000 | - | 26 | 26 | 1 |
| £50,000 – £100,000 | - | 55 | 55 | - |
| £100,000 – £150,000 | - | 1 | 1 | - |
| £150,000 – £200,000 | - | 1 | 1 | - |
| £200,000+ | - | 1 | 1 | - |
| **Cyfanswm nifer y pecynnau ymadael yn ôl math** | **-** | **96** | **96** | **10** |
| **Cyfanswm cost yr adnoddau £** | **-** | **-** | **6,115,975** | **141,361** |

Mae'r tabl uchod yn dangos cyfanswm cost y pecynnau ymadael y cytunwyd arnynt ac y rhoddwyd cyfrif amdanynt yn 2024-25 (rhoddir ffigurau cymharol 2023-24 hefyd). Cyfanswm y costau ymadael a dalwyd yn ystod 2024-25 oedd £6,115,975 (2023-24: £141,361). Mae'r costau uchod yn cynnwys taliadau iawndal fel y nodwyd, ac mewn rhai achosion taliadau darparwyr pensiwn cysylltiedig. Ni chafodd unrhyw unigolyn a ymadawodd o dan y cynllun elfen iawndal a oedd yn uwch na £95,000.

Mae'r costau yn y tabl yn nodi cyfanswm y gost i'r sefydliad yn dilyn unrhyw ymadawiad. Er hynny, mewn rhai achosion gallai rhai unigolion, wrth ymadael, fod wedi defnyddio eu taliadau iawndal i ddarparu mynediad cynnar at bensiwn heb ei leihau, neu i brynu pensiwn wedi'i gynyddu.

## Absenoldeb oherwydd salwch (heb ei archwilio)

| | 2024-25 | 2023-24 | 2022-23 | 2021-22 | 2020-21 |
|---|---|---|---|---|---|
| Dyddiau a gollwyd (tymor byr)<br>*O'r rheini oherwydd iechyd meddwl*[a] | 20,708<br>*4,670* | 19,074<br>- | 22,329<br>- | 21,018<br>- | 12,103<br>- |
| Dyddiau a gollwyd (tymor hir)<br>*O'r rheini oherwydd iechyd meddwl* | 25,649<br>*11,789* | 23,110<br>- | 21,408<br>- | 20,109<br>- | 14,315<br>- |
| **Cyfanswm y dyddiau a gollwyd (dros gyfnod o 12 mis)**<br>*O'r rheini oherwydd iechyd meddwl* | **46,357**<br>*16,459* | **42,184**<br>- | **43,737**<br>- | **41,127**<br>- | **26,418**<br>- |
| Cyfanswm y blynyddoedd staff | 5,610 | 5,679 | 5,435 | 5,390 | 5,235 |
| Cyfanswm y staff cyflogedig yn ystod y cyfnod (fesul pen) | 6,046 | 6,339 | 6,245 | 6,160 | 5,861 |
| Cyfanswm y staff cyflogedig heb absenoldeb yn ystod y cyfnod (fesul pen) | 3,194 | 3,486 | 3,001 | 3,259 | 3,979 |
| % y staff heb absenoldeb salwch | 53% | 55% | 48% | 53% | 68% |
| Nifer cyfartalog y dyddiau a gollwyd | 8.3 | 7.4 | 8.0 | 7.6 | 5.1 |

[a] 2024-25 yw'r flwyddyn gyntaf y bu datgeliad ychwanegol ar gyfer diwrnodau a gollwyd oherwydd iechyd meddwl, felly nid oes unrhyw ddata cymaradwy wedi'i gynnwys.

Cynyddodd y diwrnodau gwaith cyfartalog a gollwyd oherwydd absenoldeb salwch yn ystod 2024-25 i 8.3 diwrnod ar gyfartaledd. Parhaodd achosion absenoldebau ar hyd yr un patrwm â'r blynyddoedd blaenorol gydag iechyd meddwl yn brif achos absenoldeb ac yn cyfrif am 35% o absenoldebau. Salwch anadlol a phroblemau cyhyrysgerbydol sy'n cyfrif am y ddau arall o'r tri phrif achos absenoldebau, gan ddilyn y duedd yng Ngwasanaeth Sifil ehangach y DU.

Yn anffodus, mae nifer yr absenoldebau oherwydd canser wedi dyblu yn ystod y flwyddyn ddiwethaf. Mae ystod eang o fesurau cefnogol ar gael i gynorthwyo cydweithwyr sy'n byw drwy ddiagnosis, triniaeth ac adferiad. Mae hyn yn cynnwys absenoldeb arbennig â thâl am amser i ffwrdd ar gyfer llawdriniaeth a/neu driniaeth ac nid yw'n effeithio ar gofnodion absenoldeb a thâl salwch galwedigaethol.

Gwelsom 1,259 o atgyfeiriadau ac adolygiadau gan ein darparwr iechyd galwedigaethol yn ystod y flwyddyn hyd at 31 Mawrth 2025. Roedd 87% o atgyfeiriadau am resymau sy'n gysylltiedig â dirywiad mewn iechyd meddwl. O'r atgyfeiriadau hynny roedd 70% am resymau sy'n gysylltiedig â'r cartref a 19% oherwydd rhesymau sy'n gysylltiedig â'r gwaith.

Mae ein darparwyr iechyd galwedigaethol yn gallu argymell ystod eang o addasiadau a therapïau i gynorthwyo staff, gan gynnwys darparu cwnsela a sesiynau CBT. Mae llinell gymorth 24/7 ar gael hefyd i'r holl staff, a chymorth gan gymheiriaid drwy ein Cynghreiriaid Iechyd Meddwl.

Rydym yn parhau i ganolbwyntio ar ddiogelu iechyd, diogelwch a llesiant ein staff. Mae'r Bwrdd Iechyd, Diogelwch a Llesiant yn cyfarfod yn rheolaidd i drafod tueddiadau ac ymyriadau, yn ogystal â sesiynau manwl i faterion a amlygwyd, megis y broses ar gyfer rheoli absenoldeb oherwydd iechyd meddwl a'r ystod o ymyriadau sydd ar gael.

## Trosiant Staff

Cyfrifir y ffigur trosiant fel nifer y rhai sy'n gadael o fewn y cyfnod hwnnw wedi'i rannu â nifer cyfartalog y staff mewn swydd dros y cyfnod, ac ar gyfer 2024-25 mae'n 5.46% (2023-24 5.21%) ar gyfer Llywodraeth Cymru.

Mae staff yn cael eu cynnwys fel rhai sy'n gadael os ydynt yn gadael Llywodraeth Cymru heb unrhyw fwriad i ddychwelyd e.e. ymddeoliad, diswyddo cynnar. Nid yw staff ar secondiadau neu fenthyciadau y tu allan i Lywodraeth Cymru wedi'u cynnwys yn nifer cyfartalog y staff yn eu swyddi am yr amser y maent ar fenthyg neu secondiad.

# Crynodeb o’r Alldro Adnoddau

| CWMPAS | Cyllideb 2024-25 Gwariant net £m | Alldro 2024-25 Gwariant net £m | Alldro o’i gymharu â’r Gyllideb Amrywiant £m |
|---|---|---|---|
| Iechyd a Gofal Cymdeithasol | 12,966 | 12,831 | 135 |
| Tai a Llywodraeth Leol | 6,240 | 6,152 | 88 |
| Addysg | 4,142 | 3,775 | 367 |
| Trafnidiaeth | 1,871 | 1,745 | 126 |
| Newid Hinsawdd a Materion Gwledig | 827 | 792 | 35 |
| Yr Economi, Ynni a Chynllunio | 902 | 745 | 157 |
| Cyfiawnder Cymdeithasol | 157 | 154 | 3 |
| Gwasanaethau Canolog a Gweinyddu | 426 | 418 | 8 |
| Y Comisiwn Etholiadol | 2 | 2 | - |
| **Cyfanswm y gofynion Adnoddau a Chyfalaf** | **27,533** | **26,614** | **919** |
| **Incwm** | **1,380** | **1,246** | **134** |
| **Gwariant gros** | **28,913** | **27,860** | **1,054** |

O'r cyfanswm tanwariant adnoddau o £919m (3%) ar gyfer 2024-25, mae 72% (£663m) yn ymwneud â thanwariannau DEL Adnoddau Anghyllidol a Gwariant a Reolir yn Flynyddol, yn bennaf mewn perthynas â phrisiadau asedau ariannol ac atebolrwyddau sy'n gysylltiedig â mynegeion y farchnad megis Cronfa Risg Cymru ac atebolrwyddau eraill o ran darpariaeth y GIG, asedau Cymorth i Brynu – Cymru, a'r portffolio Benthyciadau i Fyfyrwyr; ynghyd â dibrisiant y Rhwydwaith Ffyrdd Strategol a phrisiad ychwanegiadau i'r rhwydwaith.

Mae'r Crynodeb o Alldro Adnoddau yn nodi alldro Llywodraeth Cymru yn erbyn y cyfansymiau rheoli a gymeradwywyd yng nghynnig yr Ail Gyllideb Atodol ar gyfer 2024-25 'Crynodeb o'r Gofynion Adnoddau a Chyfalaf'. Fel y nodir ar dudalen 11 darperir adroddiad blynyddol manylach ar yr alldro terfynol yn erbyn y rheolaethau lefel is sy'n cael eu gweithredu a'u gorfodi gan Drysorlys EF a balans Cronfa Wrth Gefn Cymru gan gynnwys symiau a gariwyd ymlaen o alldro DEL Cymru ar ôl i Weinidogion Cymru gyflwyno Cyfrifon Cyfunol Llywodraeth Cymru i Bwyllgor Cyllid y Senedd a'u cyhoeddi ar wefan Llywodraeth Cymru Cyllid y Llywodraeth | Is-bwnc | LLYW.CYMRU.

Cwmpas y Comisiwn Etholiadol: Mae Deddf Senedd ac Etholiadau (Cymru) 2020 yn darparu i'r Comisiwn Etholiadol gael ei ariannu o Gronfa Gyfunol Cymru ar gyfer gweithgareddau mewn perthynas ag etholiadau datganoledig yng Nghymru. Mae adran 129 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 yn nodi'r gyfraith mewn perthynas â thynnu taliadau allan o Gronfa Gyfunol Cymru. Nid yw is-adran 129(4) yn cynnwys y Comisiwn Etholiadol fel corff taledig. Felly, rhaid i un o'r cyrff a restrir yn is-adran 129(4) fod yn gyfrifol yn weinyddol am dalu'r Comisiwn Etholiadol o'r cronfeydd y maent yn eu cael oddi wrth Gronfa Gyfunol Cymru. Gan i Weinidogion Cymru gytuno y byddai Llywodraeth Cymru yn gwneud hynny, mae'r gyllideb yn cael ei phleidleisio i Weinidogion Cymru ond yn cael ei chlustnodi ar gyfer y Comisiwn Etholiadol.

## Esboniad o Amrywiannau

Mae'r esboniadau isod yn canolbwyntio ar feysydd o amrywiant sylweddol, yn hytrach na'r holl amrywiannau a nodwyd; mae trothwy o £5m wedi'i gymhwyso.

## Iechyd a Gofal Cymdeithasol – Tanwariant o £135m (1.0%)

Mae'r tanwariant yn cynnwys tanwariant DEL Refeniw o £16m, tanwariant DEL Cyfalaf o £25m, tanwariant DEL Adnoddau Anghyllidol o £4m a thanwariant Gwariant a Reolir yn Flynyddol (AME) o £90m.

Mae'r tanwariant DEL Refeniw o £16m yn cynnwys alldro'r GIG ar gyfer 2024-25, sy'n wariant refeniw cyfunol o £124m gyda chwech o'r saith Bwrdd Iechyd mewn diffyg. Yn dilyn ymarfer ailflaenoriaethu'r gyllideb yn ystod y flwyddyn ar draws y MEG a dyrannu cyllid ychwanegol i'r MEG, cafodd y diffyg hwn ei reoli i gyflawni alldro o orwariant o £9m yn erbyn cyllidebau Cyflenwi Gwasanaethau Craidd y GIG. Roedd y tanwariannau a oedd yn gwrthbwyso hynny y tu allan i gyllidebau Cyflenwi Gwasanaethau Craidd y GIG yn cynnwys: tanwariant o £11m ar Gyllidebau Cefnogi Plant – yn bennaf oherwydd tanwariannau bach ar y cynnig Gofal Plant, a arweinir gan y galw, ac ar y Grant Plant a Chymunedau, ac oedi yn y prosiect Bwndeli Babanod; £6m ar draws y cyllidebau iechyd meddwl a chamddefnyddio sylweddau, yn bennaf oherwydd oedi wrth weithredu rhaglenni a thanwariannau amrywiol ar draws ystod o weithgareddau o dan £5m.

Mae'r tanwariant DEL Cyfalaf o £25m yn ymwneud yn bennaf â thanwariant yn erbyn cyllideb IFRS 16 oherwydd llithriant mewn trefniadau lesoedd ar draws nifer o sefydliadau'r GIG. Roedd y prif raglenni cyfalaf yn y MEG Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, gan gynnwys y Rhaglen Gyfalaf i Gymru Gyfan, yn mantoli'r cyfrifon yn fras ar gyfer 2024-25.

Mae'r tanwariant o £90m mewn AME i'w briodoli i raddau helaeth i'r canlynol: tanwariant amhariadau o £34m oherwydd llithriant prosiectau a goramcangyfrif amhariadau ar gyfer rhai o brosiectau'r GIG sy'n destun prisiadau tacluso; tanwariant o £49m ar gyllideb darpariaethau'r GIG gyda £23m ohono'n deillio o broses arafach na'r disgwyl o drosglwyddo hawliadau yng Nghronfa Risg Cymru o atebolrwyddau dibynnol i ddarpariaethau, a thua £26m yn ymwneud â thaliadau is nag a ragamcanwyd o darpariaethau eraill y GIG; tanwariant o £2m ar ddarpariaethau dadfeilio IFRS 16; a'r £5m sy'n weddill yn cynnwys amryw o symudiadau bach eraill.

## Tai a Llywodraeth Leol – Tanwariant o £88m (1.4%)

Mae'r tanwariant net cyffredinol o £88m yn cynnwys tanwariant DEL Refeniw o £2m, tanwariant DEL Cyfalaf o £10m, tanwariant Trafodiadau Ariannol Cyfalaf o £59m, tanwariant AME o £17m.

Mae'r tanwariant DEL Cyfalaf o £10m yn ymwneud yn bennaf â thanwariant o £47m yn erbyn y gyllideb Diogelwch Adeiladau, sy'n deillio o lithriant mewn hawliadau am waith cyweirio yn ymwneud â diogelwch rhag tân. Mae tanwariannau pellach oherwydd llithriant yn cynnwys £13m yn erbyn Iechyd a Thai ar gyfer y Gronfa Tai â Gofal; £12m yn erbyn Tir mewn perthynas â'r Gronfa Datblygu Tir ac Adeiladau, a £13m yn erbyn Cynllun Cartrefi Clyd Nyth, sy'n adlewyrchu oedi o ran rhoi camau ar waith yn ystod blwyddyn gyntaf y contract newydd. Cafodd y tanwariannau hyn eu gwrthbwyso'n rhannol gan £29m o wariant y prosiect Trawsnewid Trefi a ddygwyd ymlaen, £17m o ddyraniadau grant ychwanegol i Awdurdodau Lleol o dan y Lwfans Atgyweiriadau Mawr, £16m a ddyrannwyd i gynlluniau Grant Tai Cymdeithasol cyflym, £5m yn erbyn y Cynllun Cymorth Ariannol Brys i gynorthwyo â hawliadau llifogydd, a £6m o gyllid ychwanegol i ymdrin â phwysau cyfalaf Awdurdodau Lleol.

Mae'r tanwariant o £59m ar Drafodiadau Ariannol Cyfalaf yn ymwneud yn bennaf â chynlluniau Cymorth i Brynu – Cymru a Cymorth i Aros, a hynny'n bennaf oherwydd adbrynu benthyciadau Cymorth i Brynu yn gynnar a thanwariant ar Cymorth i Aros oherwydd i lefelau is na'r disgwyl fanteisio ar fenthyciadau yn 2024-25.

Mae'r tanwariant AME o £17m yn ymwneud yn bennaf â chynllun Cymorth i Brynu – Cymru. Rhagwelir enillion gwerth teg ar gyfer y portffolio benthyciadau ecwiti ar gyfer y flwyddyn ariannol, mae amrywiannau yn y rhaniad o enillion wedi'u gwireddu ar gyfer gwarediadau (DEL) ac enillion heb eu gwireddu ar gyfer newidiadau'r farchnad (AME) ar y portffolio hwnnw pan gaiff ei brisio ar ddiwedd y flwyddyn ariannol yn creu amrywiannau i'r rhagolwg AME.

## Addysg – Tanwariant o £367m (8.9%)

Mae'r tanwariant net cyffredinol o £367m yn cynnwys gorwariannau dibwys o ran DEL Refeniw, DEL Cyfalaf Cyffredinol a DEL Cyfalaf Trafodiadau Ariannol sy'n gwneud cyfanswm o lai na £1m, tanwariant DEL Adnoddau Anghyllidol o £169m a thanwariant AME o £199m.

Mae'r rhan fwyaf o'r tanwariant o £169m yn y DEL Adnoddau Anghyllidol yn ymwneud â benthyciadau i fyfyrwyr, ac mae ffactorau economaidd yn effeithio'n sylweddol ar brisiad y portffolio. Mae'r tanwariant yn ymwneud yn bennaf â darpariaethau wrth gefn ar gyfer y costau stoc a RAB sydd wedi'u cynnwys yn rhan o'r rhagolwg cyllidebol ar gyfer unrhyw newidiadau yn yr allbynnau o'r model Benthyciadau i Fyfyrwyr (Llwybr Enillion Stocastig – StEP) fel rhan o'r cyfrifon diwedd blwyddyn.

Mae'r tanwariant AME o £199m yn cynnwys tanwariant o £98m yn erbyn AME Adnoddau a £101m yn erbyn AME Cyfalaf ac mae'n adlewyrchu'r datganiad terfynol ar gyfer y flwyddyn ariannol gan y Cwmni Benthyciadau i Fyfyrwyr a oedd yn dangos bod lefel is na'r disgwyl o fenthyciadau ffioedd dysgu a graddau meistr wedi'i rhoi. Roedd swm y llog sy'n cael ei ychwanegu at Fenthyciadau Myfyrwyr ar ddiwedd y flwyddyn ariannol hefyd yn is nag a ragfynegwyd pan osodwyd y cyllidebau a'r rhagolygon yn gynharach yn y flwyddyn. Mae hyn yn cael ei lywio gan symudiadau cyfraddau llog yn yr economi ehangach.

Mae'r tanwariant AME Adnoddau yn ymwneud yn bennaf â'r ffaith fod Mynegai Prisiau Manwerthu (RPI) mis Mawrth 2025 a ddefnyddiwyd i brisio cyfrifon diwedd y flwyddyn yn uwch na'r swm a ragwelwyd pan baratowyd y rhagolygon cyllidebol terfynol ym mis Ionawr 2025.

## Trafnidiaeth – Tanwariant o £126m (6.7%)

Mae'r tanwariant yn cynnwys gorwariant DEL Refeniw o £1m, tanwariant DEL Cyfalaf o £43m, gorwariant DEL Adnoddau Anghyllidol o £114m a thanwariant Gwariant a Reolir yn Flynyddol (AME) o £198m.

Cyfrannodd sawl elfen at y tanwariant DEL Cyfalaf o £43m ac roedd yr amrywiannau mwyaf arwyddocaol ar gyfer: Cymorth Gwasanaethau Rheilffyrdd (£28m) a hynny'n bennaf oherwydd oedi o ran y dyddiad cychwyn ar gyfer rhai o lesoedd cerbydau Trafnidiaeth Cymru; y Rhwydwaith Ffyrdd Strategol (£6m) a Diogelwch ar y Ffyrdd (£5m) sydd i gyd yn bennaf oherwydd llithriant mewn prosiectau a achoswyd gan oedi yn y broses gaffael a ffactorau economaidd; yn yr achosion hyn bydd parhad y rhaglen yn 2025-26 yn cael ei reoli o fewn y dyraniadau presennol.

Y rheswm dros y gorwariant DEL Adnoddau Anghyllidol o £114m yw canlyniad yr ailbrisiad pum mlynedd llawn o'r Rhwydwaith Ffyrdd Strategol, gan gynnwys newid i'r fethodoleg a ddefnyddir mewn elfen o'r Rhwydwaith, gan arwain at gost dibrisiant ychwanegol o £115m.

Y rheswm dros y tanwariant AME o £198m oedd na ddefnyddiwyd y gyllideb ar gyfer amhariadau a amcangyfrifwyd ar gyfer dau gynllun ffyrdd. Cwblhawyd un cynllun ond pan gafodd ei brisio wrth ei drosglwyddo o Asedau sy'n cael eu Hadeiladu i'r Rhwydwaith Ffyrdd Strategol, ni arweiniodd at amhariad. Disgwylir i'r ail gynllun gael ei gwblhau yn 2025-26.

## Newid Hinsawdd a Materion Gwledig – Tanwariant o £35m (4.2%)

Mae'r tanwariant yn cynnwys tanwariant DEL Refeniw o £19m, tanwariant DEL Cyfalaf o £25m, gorwariant Trafodiadau Ariannol Cyfalaf o £9m, a gorwariannau dibwys o ran DEL Adnoddau Anghyllidol a Gwariant a Reolir yn Flynyddol (AME) sy'n llai na £1m.

Mae'r tanwariant DEL Refeniw o £19m yn deillio o symudiadau ar groniadau'r flwyddyn flaenorol ac arbedion yn ystod y flwyddyn, a gafodd eu gyrru gan weithgareddau a arweinir gan y galw, oedi mewn prosesau caffael, a bylchau adnoddau ar draws y MEG. Mae hyn yn cynnwys tanwariant o £9m sy'n deillio o ofynion grantiau arian parod is nag a ragfynegwyd ar gyfer rhai Cyrff a Noddir gan Lywodraeth Cymru. Cafodd elfennau o danwariant eu hailddyrannu i gynorthwyo â blaenoriaethau a ddaeth i'r amlwg yn ystod y flwyddyn, yn benodol taliadau iawndal TB ac Awdurdodau Parciau Cenedlaethol.

Cyfrannodd sawl elfen at y tanwariant Cyfalaf o £25m. Mae'r amrywiannau mwyaf arwyddocaol yn ymwneud ag Effeithlonrwydd Adnoddau a'r Economi Gylchol, yn bennaf oherwydd llithriant mewn prosiectau a achoswyd gan oedi yn y broses gaffael a ffactorau economaidd, Cynlluniau Buddsoddi Gwledig a Rheolaethau'r Ffin. Mae'r tanwariant ar Gynlluniau Buddsoddi Gwledig yn adlewyrchu'r ffaith fod lefel is nag a ragwelwyd wedi manteisio ar y cynllun. Cafodd y tanwariannau hyn eu gwrthbwyso'n rhannol gan ddyraniadau cyfalaf yn ystod y flwyddyn i gynorthwyo â gwaith adfer ar ôl llifogydd yn sgil stormydd, yn ogystal â phrosiectau a ariannwyd drwy gyfleuster benthyciadau Rhaglen Gyllid Cymru.

Y rheswm dros y gorwariant o £9m mewn Cyfalaf Trafodion Ariannol oedd y dyraniad ychwanegol ar gyfer Digarbon, y cynllun benthyciadau datgarboneiddio.

## Yr Economi, Ynni a Chynllunio – Tanwariant o £157m (17.4%)

Mae'r tanwariant yn cynnwys tanwariant DEL Refeniw o £56m, tanwariant DEL Adnoddau Anghyllidol o £9m, tanwariant DEL Cyfalaf o £19m, gorwariant Cyfalaf Trafodiadau Ariannol o £8m a thanwariant AME o £81m.

Mae'r tanwariant DEL Refeniw yn ymwneud yn bennaf â thanwariant o £44m ar gyfer Banc Datblygu Cymru mewn perthynas â pherfformiad incwm llog a darpariaethau Colled Credyd Disgwyliedig is na'r rhagolwg ar gyfer ei bortffolio benthyciadau; cododd tanwariant o £21m hefyd ar Ynni Gwyrdd gan na wireddwyd y risgiau gwariant a nodwyd yn y rhagolygon. Cafodd hyn ei wrthbwyso'n bennaf gan orwariant o £8m ar Cadw ar gyfer gwelliannau i asedau treftadaeth a gafodd eu gosod fel traul; rhagwelwyd cyfalafu wrth gynllunio'r gyllideb.

Mae'r tanwariant DEL Adnoddau Anghyllidol yn ymwneud yn bennaf â chostau amhariadau a dibrisiant o fewn portffolios, sef £8m ar gyfer eiddo a £6m ar gyfer Cadw, wedi'u gwrthbwyso gan orwariant o £6m yn y portffolio Busnes a Datblygu Rhanbarthol. Effeithiwyd ar y rhain gan weithgareddau'n ymwneud ag adolygiadau ystadau bob pum mlynedd a phrisiadau eiddo blynyddol.

Mae tanwariant DEL Cyfalaf yn codi ar draws nifer o linellau gwariant, gan gynnwys llithriant o £16m ar raglenni diogelu'r dyfodol o fewn Busnes Cymru, tanwariant ar raglenni Seilwaith TGCh (Ymestyn Band Eang Cyflym), tanwariant o £9m ar gyfer Busnes a Rhanbarthau, yn bennaf oherwydd llithriant ychwanegol ar raglenni morglawdd Caergybi, a thanwariant o £8m ar fargeinion Dinesig a Thwf yn dilyn oedi ym mhrosiectau'r Gogledd, ynghyd â thanwariant ar Ynni Gwyrdd, Cadw, Arloesi mewn Busnes a Thwristiaeth. Cafodd y tanwariannau hyn eu gwrthbwyso'n bennaf gan amrywiant ar alldro gweithgarwch benthyciadau a buddsoddiadau Banc Datblygu Cymru, cyfanswm o £35m, a gorwariant o £10m ar brosiectau Seilwaith Eiddo sydd â'r nod o sicrhau capasiti grid mewn nifer o safleoedd allweddol.

Mae'r gorwariant Trafodiadau Ariannol Cyfalaf yn ymwneud yn bennaf ag alldro diwedd y flwyddyn ar gyfer benthyciadau a buddsoddiadau o fewn Banc Datblygu Cymru sy'n gwneud cyfanswm o £11m, ac amrywiannau amrywiol ar draws gweithgareddau sydd o dan £5m.

Roedd y tanwariant AME o £81m yn deillio'n bennaf o £50m o risgiau gwariant a nodwyd yn y rhagolygon ar gyfer Ynni Gwyrdd na chawsant eu gwireddu, a thanwariant o £21m ar gyfer costau amhariadau is na'r disgwyl yn y portffolio eiddo. Arweiniodd prisiad pensiynau Gyrfa Cymru at danwariant o £16m yn y gyllideb. Gan ei fod yn aelod o wyth o wahanol gynlluniau pensiwn llywodraeth leol yng Nghymru, gall y symudiad prisio fod yn anwadal iawn o flwyddyn i flwyddyn. Cafodd y tanwariannau hyn eu gwrthbwyso gan orwariant o £18m ar alldro cyllideb Banc Datblygu Cymru, sy'n ymwneud yn bennaf â cholledion heb eu gwireddu ar brisiad blynyddol asedau buddsoddi gwerth teg.

## Cyfiawnder Cymdeithasol – Tanwariant o £3m (1.9%)

Mae'r tanwariant net yn cynnwys tanwariant DEL Refeniw o £2m, tanwariant DEL Cyfalaf o £1m ac amrywiannau cyfunol dibwys ar gyfer mathau eraill o gyllideb, sydd ymhell o dan £1m.

Er bod yr amrywiannau net o dan £5m, mae'r tanwariant DEL Refeniw yn sefyllfa net o gynilion, pwysau a chyfleoedd a nodwyd. Yn bennaf, roedd yr arbedion yn cynnwys £9m yn erbyn y BEL Cynhwysiant Ariannol gan gynnwys y Gronfa Cymorth Dewisol sy'n gronfa a arweinir gan y galw; mae'r cynllunio ariannol yn pwysleisio'r angen i gael cyllideb ddigonol i ddiwallu'r galw posibl. O'r arbedion hyn, darparwyd cyllid ychwanegol yn ystod y flwyddyn i sawl BEL, gan gynnwys y BEL Cymunedau Cydlynus, a adroddodd am orwariant o £7m i ddarparu cymorth ychwanegol i wasanaethau digartrefedd Awdurdodau Lleol, gan gydnabod y gostyngiad yn y cyllid sydd ar gael gan Lywodraeth y DU yn 2025-26. Roedd y cyllid ychwanegol hwn yn helpu awdurdodau lleol i gynorthwyo gwesteion i symud ymlaen i lety amgen ac i atal y risg o ddigartrefedd.

## Gwasanaethau Canolog a Gweinyddu – Tanwariant o £8m (1.9%)

Mae'r tanwariant yn cynnwys tanwariant DEL Adnoddau Anghyllidol o £3m a thanwariant Gwariant a Reolir yn Flynyddol (AME) o £5m, gydag amrywiannau cyfunol dibwys ar gyllidebau eraill yn dod i lai nag £1m.

Mae'r AME yn y MEG yn cynnwys newidiadau prisio mewn atebolrwyddau pensiwn gan eu bod yn destun prisiad actiwaraidd cymhleth bob blwyddyn ac yn gallu bod yn anwadal. Mae'r amrywiant o danwariant o £5m yn deillio o wahaniaethau rhwng prisiadau'r cynllun pensiwn actiwaraidd a ragwelir a'r rhai manwl a ddarperir ar ôl diwedd y flwyddyn ariannol i lywio'r cyfrifon statudol a'r alldro terfynol.

## Incwm – £134m yn llai na'r gyllideb

Mae'r amrywiant cwmpas incwm i'r gyllideb yn ymwneud yn bennaf â £81m ar gyfer Benthyciadau i Fyfyrwyr, ac mae ffactorau economaidd yn effeithio'n sylweddol ar brisiad y portffolio. Adroddir am amrywiant o £78m yn erbyn Llog Effeithiol Benthyciadau i Fyfyrwyr yn 2024-25. Y gyfradd log a godir fel arfer yw'r Mynegai Prisiau Manwerthu a hyd at 3%, yn dibynnu ar amgylchiadau ac incwm myfyriwr. Er hynny, yn ystod rhai cyfnodau cymhwysir cap ar log i sicrhau na chodir tâl uwch ar fyfyrwyr na'r cyfartaledd a geir yn y farchnad fasnachol. Mae'r amrywiant yn codi gan fod angen amcangyfrif effaith newidiadau yn yr RPI yn ystod y flwyddyn ariannol ar gyfer cyllidebu a rhagfynegi. Er hynny, roedd swm y llog sy'n cael ei ychwanegu at Fenthyciadau i Fyfyrwyr ar ddiwedd y flwyddyn ariannol yn is nag a ragwelwyd pan bennwyd cyllidebau a rhagolygon yn gynharach yn y flwyddyn.

Mae £20m pellach yn ymwneud ag incwm tybiannol i adlewyrchu gwerth brechlynnau Covid sy'n cael eu darparu am ddim i Gymru gan Lywodraeth y DU. Defnyddir amcangyfrifon i bennu disgwyliadau'r gyllideb yn seiliedig ar lefelau brechu tebygol a'r gost i bob brechlyn. Mae'r lefel alldro is yn 2024-25 i'w briodoli yn bennaf i ddefnyddio llai o'r brechlyn Covid yn 2024-25, o'i gymharu â'r blynyddoedd blaenorol.

Mae'r amrywiannau cwmpasoedd incwm sy'n weddill yn ymwneud yn bennaf ag amrywiannau dibwys ar ad-daliadau benthyciadau ac incwm llog.

# Rhestr o eirfa'r gyllideb

**Terfyn Gwariant Adrannol (DEL):** Terfyn y gyllideb amlflwyddyn ar gyfer Llywodraeth Cymru a bennir gan Drysorlys Ei Fawrhydi mewn Adolygiadau o Wariant. Mae'r DEL wedi'i rannu'n ddosbarthiadau gan gynnwys y rhai isod.

**DEL Adnoddau Cyllidol (Refeniw):** Mae'r gyllideb DEL Adnoddau Cyllidol yn sgorio'r rhan fwyaf o wariant cyfredol yr adran ac mae'n cynnwys costau staff, grantiau a threuliau eraill.

**DEL Adnoddau Anghyllidol:** Mae'r gyllideb DEL Adnoddau Anghyllidol yn sgorio gwariant cyfredol Llywodraeth Cymru mewn perthynas ag amhariadau a dibrisiant penodol. Mae'r cyllidebau hyn wedi'u clustnodi ac ni ellir eu defnyddio i gyllido gwariant DEL Adnoddau Cyllidol.

**DEL Cyfalaf:** Mae cyllidebau cyfalaf yn cwmpasu gwariant sydd, yn bennaf, yn arwain at ased ffisegol naill ai ar fantolen Llywodraeth Cymru neu ar fantolen trydydd parti.

**DEL Trafodiadau Ariannol Cyfalaf:** Diffinnir Trafodiadau Ariannol mewn cyfrifon cenedlaethol fel trafodiadau mewn asedau ariannol ac atebolrwyddau ariannol, megis benthyca neu drafodiadau ecwiti. O ganlyniad, mae trafodiadau ariannol gyda chyrff y tu allan i ffin gyllidebu Llywodraeth Cymru yn sgorio i'r gyllideb Cyfalaf DEL i adlewyrchu'r effaith hon ar ddyled net y sector cyhoeddus. Mae ad-daliadau trafodiadau ariannol yn gyffredinol yn arwain at ad-daliad dilynol yn y dyfodol i Drysorlys EF.

**Gwariant a Reolir yn Flynyddol (AME):** Mae'r cyllidebau hyn yn ymdrin â gwariant na all yn rhesymol fod yn destun cyfyngiadau cadarn, amlflwyddyn yn yr un ffordd â DEL. Maent felly'n cael eu hadolygu ddwywaith y flwyddyn fel rhan o brosesau Cyllideb ac Adroddiad Rhag-gyllidebol Trysorlys Ei Fawrhydi. Mae AME fel rheol yn cynnwys rhaglenni sy'n fawr, yn wamal a/neu'n ymateb i'r galw.

## Nodiadau

| Cyllid a dynnwyd o Gronfa Gyfunol Cymru | Alldro 2024-25 £m | Alldro 2023-24 £m |
|---|---|---|
| Awdurdodwyd i'w dalu o Gronfa Gyfunol Cymru | 25,297 | 23,986 |
| Cyllid a dynnwyd i lawr | 24,500 | 23,560 |
| **Cyllid heb ei dynnu i lawr** | **797** | **426** |

Mae'r nodyn hwn yn dangos 'yr arian a dynnwyd i lawr' sef y swm a dynnwyd mewn arian parod o Gronfa Gyfunol Cymru yn y flwyddyn, ac unrhyw symiau a gariwyd ymlaen a dynnwyd o Gronfa Gyfunol Cymru ac sydd heb eu defnyddio o'r flwyddyn flaenorol 'y bernir eu bod wedi'u tynnu', yn erbyn y cyfanswm rheoli y pleidleisiwyd arno yn y gyllideb ar gyfer symiau a awdurdodwyd i'w talu i Lywodraeth Cymru o Gronfa Gyfunol Cymru o dan adran 125(1)(c) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006.

| Cysoni'r Alldro a CSoCNE | Alldro 2024-25 £m | Alldro 2023-24 £m |
|---|---|---|
| **Alldro Adnoddau Net** | **26,614** | **24,288** |
| Llai: Addasiadau i gyfalaf a benthyciadau | (2,877) | (2,850) |
| Addasiad incwm ychwanegol nad yw'n arian parod | - | - |
| Addasiadau eraill | 39 | (23) |
| **Gwariant yn ôl y CSoCNE** | **23,776** | **21,415** |

Mae'r cysoniad hwn yn esbonio'r gwahaniaeth rhwng yr alldro cyllidebol yn y Crynodeb o Alldro Adnoddau a Datganiad Cyfunol o Wariant Net Cynhwysfawr (CSoCNE) y datganiadau ariannol, sy'n cysylltu'r Alldro Adnoddau â'r datganiadau ariannol.

Mae'r Crynodeb o Alldro Adnoddau yn cael ei lunio yn erbyn y fframwaith cyllidebu – sy'n debyg, ond yn wahanol, i'r Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol (IFRS) fel y'i cymhwysir gan Lawlyfr Adrodd Ariannol (FReM) Trysorlys EF sy'n nodi sut y mae'n rhaid paratoi'r CSoCNE.

Mae'r addasiadau Cyfalaf a Benthyciadau yn dileu o'r Alldro Adnoddau adnoddau cyfalaf sy'n ymwneud â thrafodiadau adnoddau cyfalaf a adroddwyd yn y Datganiad o'r Sefyllfa Ariannol nad ydynt yn pasio drwy'r CSoCNE.

Mae addasiadau eraill yn ymwneud yn bennaf â thrafodiadau sy'n cael eu trin yn wahanol rhwng y fframwaith cyllidebu a'r cyfrifon.

| Cysoni adnoddau i'r gofyniad am arian parod | Cyllideb 2024-25 £m | Alldro 2024-25 £m | Alldro o'i gymharu â'r Gyllideb £m | Alldro 2023-24 £m |
|---|---|---|---|---|
| **Alldro Adnoddau Net** | **27,533** | **26,614** | **919** | **24,288** |
| Llai: Cyrff a ddynodwyd o dan a126A o Ddeddf Llywodraeth Cymru – Trafodiadau adnoddau yn unig | - | (742) | 742 | (485) |
| Llai: Trafodiadau nad ydynt yn arian parod | | | | |
| Dibrisiant | (725) | (346) | (379) | (167) |
| Amhariadau ac addasiadau gwerth teg | (1,538) | (62) | (1,476) | 506 |
| Symudiadau heb fod yn arian parod mewn darpariaethau | (163) | (81) | (82) | (159) |
| Llai: Symudiadau mewn balansau gweithio | - | (219) | 219 | (8) |
| Llai: Addasiad incwm ychwanegol nad yw'n arian parod | - | - | - | - |
| Eraill | 190 | (745) | 935 | (565) |
| **Gofyniad arian parod net** | **25,297** | **24,419** | **878** | **23,410** |

Mae'r Crynodeb o Alldro Adnoddau yn cael ei lunio yn erbyn y fframwaith cyllidebu ar sail gwariant adnoddau, yn hytrach nag ar sail arian parod. Mae'r cysoniad hwn yn esbonio'r gwahaniaeth rhwng yr Alldro Adnoddau i'r gofyniad net am arian parod. Y gofyniad net am arian parod yw'r swm a dynnir fel cyllid o Gronfa Gyfunol Cymru yn y flwyddyn (a ddangosir yn y nodyn Cyllid a dynnwyd o Gronfa Gyfunol Cymru), llai unrhyw symiau a dynnwyd ar ddiwedd y flwyddyn ariannol sydd heb eu defnyddio.

Mae'r addasiad ar gyfer 'Cyrff a ddynodwyd o dan a126A o Ddeddf Llywodraeth Cymru – trafodiadau adnoddau yn unig' yn dileu o'r Alldro Adnoddau y gwahaniaeth rhwng yr alldro adnoddau ar gyfer cyrff grŵp dynodedig Llywodraeth Cymru, a'r cyllid a ddarperir iddynt o Gronfa Gyfunol Cymru drwy Lywodraeth Cymru.

Mae'r addasiadau i symiau 'heb fod yn arian parod' a 'Symudiadau mewn balansau gweithio' yn ymwneud â'r addasiadau yn natganiad Llywodraeth Cymru am lif arian parod lle y codir trafodiadau ar adnoddau ond nad eir iddynt mewn arian parod.

Yr addasiadau 'Eraill' ar gyfer 2024-25 yn bennaf yw'r gwahaniaeth rhwng trafodiadau cyfalaf Llywodraeth Cymru yn yr Alldro Adnoddau, a'r llif arian sy'n gysylltiedig â hwy.

**Dr Andrew Goodall CBE**
Ysgrifennydd Parhaol
a Phrif Swyddog Cyfrifyddu
11 Rhagfyr 2025

# Tystysgrif ac adroddiad Archwilydd Cyffredinol Cymru i'r Senedd

## Barn amodol ar y datganiadau ariannol

Rwy'n tystio fy mod wedi archwilio datganiadau ariannol Llywodraeth Cymru a'r Grŵp ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2025 o dan Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006.

Mae'r datganiadau ariannol yn cynnwys y Crynodeb o Alldro Adnoddau; ar gyfer Llywodraeth Cymru ac ar gyfer y Grŵp: y Datganiad o Wariant Net Cynhwysfawr, y Datganiad o Sefyllfa Ariannol, y Datganiad o Lif Arian, y Datganiad o Newidiadau yn Ecwiti Trethdalwyr; a nodiadau cysylltiedig, gan gynnwys y polisïau cyfrifyddu perthnasol.

Y fframwaith adrodd ariannol a gymhwyswyd wrth eu paratoi yw'r gyfraith berthnasol a'r safonau cyfrifyddu rhyngwladol a fabwysiadwyd yn y DU fel y'u dehonglwyd ac y'u haddaswyd gan Lawlyfr Adrodd Ariannol Trysorlys EF.

Yn fy marn i, ac eithrio effeithiau posibl y mater a ddatgelwyd yn y paragraff Sail barn amodol, ym mhob ffordd berthnasol, mae'r datganiadau ariannol:

- yn rhoi darlun gwir a theg o sefyllfa materion Llywodraeth Cymru a'r Grŵp ar 31 Mawrth 2025 ac o'u gofyniad arian parod net, alldro adnoddau net a'u costau gweithredu net, ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar y dyddiad hwnnw;
- wedi'u paratoi'n briodol yn unol â safonau cyfrifyddu rhyngwladol a fabwysiadwyd gan y DU fel y'u dehonglwyd ac y'u haddaswyd gan Lawlyfr Adrodd Ariannol Trysorlys EF; ac
- wedi eu paratoi'n briodol yn unol â chyfarwyddiadau Trysorlys EF a gyhoeddwyd o dan Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006.

## Sail barn amodol

Mae gan yr ased benthyciad myfyrwyr werth teg amcangyfrifedig o £8.9bn ar y Datganiad o Sefyllfa Ariannol ar 31 Mawrth 2025.

Yn seiliedig ar fy ngwaith ar y model cyfredol, y data a'r rhagdybiaethau sylfaenol, ynghyd â data dangosol cynnar o brofion yr Adran Addysg o'r model newydd sydd i'w weithredu yn 2025-26, nodais ansicrwydd sylweddol ynghylch rhesymolrwydd yr amcangyfrif gwerth teg a'r enillion neu'r colledion cysylltiedig ar werth teg a gydnabyddir yn y Datganiad o Wariant Net Cynhwysfawr.

Nid oeddwn yn gallu cael digon o dystiolaeth archwilio briodol i gefnogi'r amcangyfrif gwerth teg hwn. Felly, nid oeddwn yn gallu penderfynu a oedd angen unrhyw addasiadau i'r symiau hyn.

## Barn ar reoleidd-dra

Yn fy marn i, ym mhob ystyr perthnasol:

- mae'r Crynodeb o'r Alldro Adnoddau yn cyflwyno'r alldro yn erbyn y symiau a awdurdodwyd gan y Senedd ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2025 yn briodol ac yn dangos nad aethpwyd dros y cyfansymiau hynny; ac
- mae'r incwm a'r gwariant a gofnodwyd yn y datganiadau ariannol wedi'u cymhwyso at y dibenion a fwriadwyd gan y Senedd ac mae'r trafodiadau ariannol a gofnodwyd yn y datganiadau ariannol yn cydymffurfio â'r awdurdodau sy'n eu llywodraethu.

Cynhaliais fy archwiliad yn unol â'r gyfraith berthnasol a'r Safonau Rhyngwladol ar Archwilio yn y DU (ISAs (Y DU)) a Nodyn Ymarfer 10 'Archwilio datganiadau ariannol a rheoleidd-dra cyrff y sector cyhoeddus yn y Deyrnas Unedig.' Disgrifir fy nghyfrifoldebau o dan y safonau hynny ymhellach yn yr adran o'm tystysgrif sy'n nodi cyfrifoldebau'r archwilydd am archwilio'r datganiadau ariannol.

Mae fy staff a minnau'n annibynnol ar y corff yn unol â'r gofynion moesegol sy'n berthnasol i'm harchwiliad o'r datganiadau ariannol yn y DU, gan gynnwys Safon Foesegol y Cyngor Adrodd Ariannol, ac rwyf wedi cyflawni fy nghyfrifoldebau moesegol eraill yn unol â'r gofynion hyn. Credaf fod y dystiolaeth archwilio rydw i wedi'i chael yn ddigonol ac yn briodol i ddarparu sail i'm barn.

## Casgliadau sy'n ymwneud â busnes gweithredol

Wrth archwilio'r datganiadau ariannol, rwyf wedi dod i'r casgliad bod defnyddio sail gyfrifyddu busnes gweithredol i baratoi'r datganiadau ariannol yn briodol.

Yn seiliedig ar y gwaith yr wyf wedi'i gyflawni, nid wyf wedi adnabod unrhyw ansicrwydd perthnasol mewn perthynas â digwyddiadau neu amodau a all, yn unigol neu ar y cyd, fwrw amheuaeth sylweddol ar allu'r corff i barhau i fabwysiadu'r sail gyfrifyddu busnes gweithredol am gyfnod o ddeuddeng mis o leiaf o'r dyddiad pan awdurdodir cyhoeddi'r datganiadau ariannol.

Caiff fy nghyfrifoldebau a chyfrifoldebau'r Prif Swyddog Cyfrifyddu mewn perthynas â busnes gweithredol eu disgrifio yn yr adrannau perthnasol o'r adroddiad hwn.

Caiff y sail gyfrifyddu busnes gweithredol ar gyfer Llywodraeth Cymru a'r Grŵp ei mabwysiadu gan ystyried y gofynion a nodir yn Llawlyfr Adrodd Ariannol y Llywodraeth a gyhoeddwyd gan Drysorlys EF, sy'n ei gwneud yn ofynnol i endidau fabwysiadu'r sail gyfrifyddu busnes gweithredol wrth baratoi'r datganiadau ariannol lle disgwylir y bydd y gwasanaethau a ddarperir ganddynt yn parhau i'r dyfodol.

## Gwybodaeth arall

Mae'r wybodaeth arall yn cynnwys yr wybodaeth a gynhwysir yng Nghyfrifon Cyfunol Llywodraeth Cymru heblaw am y datganiadau ariannol, yr Adroddiad Cydnabyddiaeth Ariannol a Staff, a fy adroddiad archwilydd arnynt. Y Prif Swyddog Cyfrifyddu sy'n gyfrifol am yr wybodaeth arall yng Nghyfrifon Cyfunol Llywodraeth Cymru. Nid yw fy marn ar y datganiadau ariannol yn cwmpasu'r wybodaeth arall a, heblaw i'r graddau a nodir yn benodol fel arall yn fy adroddiad, nid wyf yn mynegi unrhyw fath o gasgliad sicrwydd ar yr wybodaeth arall honno. Fy nghyfrifoldeb yw darllen yr wybodaeth arall ac, wrth wneud hynny, ystyried a yw'r wybodaeth arall yn berthnasol anghyson â'r datganiadau ariannol neu'r wybodaeth a gafwyd wrth gyflawni'r archwiliad, neu'n ymddangos fel arall pe ba wedi cael ei chamddatgan yn berthnasol. Os wyf yn canfod anghysondebau perthnasol o'r fath neu wybodaeth berthnasol o'r fath sy'n ymddangos fel pe bai wedi cael ei chamddatgan yn berthnasol mae'n ofynnol i mi benderfynu a yw hyn yn achosi camddatganiad perthnasol yn y datganiadau ariannol eu hunain. Yn seiliedig ar y gwaith rydw i wedi'i wneud, os wyf yn dod i'r casgliad bod yr wybodaeth arall hon wedi'i chamddatgan yn berthnasol, mae'n ofynnol i mi adrodd y ffaith honno.

Nid oes unrhyw beth gennyf i'w adrodd yn hyn o beth.

## Barn ar faterion eraill

Yn fy marn i, mae'r rhan o'r Adroddiad Cydnabyddiaeth Ariannol a Staff sydd i'w harchwilio wedi cael ei pharatoi'n briodol yn unol â chyfarwyddiadau Trysorlys EF a wnaed o dan Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006.

Yn fy marn i, yn seiliedig ar y gwaith a wnaed yn ystod fy archwiliad:

- mae'r rhannau o'r Adroddiad Atebolrwydd a gaiff eu harchwilio wedi cael eu paratoi'n briodol yn unol â chyfarwyddiadau Trysorlys EF a wnaed o dan Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006;
- mae'r wybodaeth a roddir yn yr Adroddiad Perfformiad a'r Adroddiad Atebolrwydd ar gyfer y flwyddyn ariannol y paratowyd y datganiadau ariannol ar ei chyfer yn gyson â'r datganiadau ariannol ac yn unol â'r gofynion cyfreithiol cymwys.

## Materion y cyflwynaf adroddiad arnynt drwy eithriad

Yng ngoleuni'r wybodaeth a'r ddealltwriaeth am y corff a'i amgylchedd a gafwyd yn ystod yr archwiliad, nid wyf wedi nodi camddatganiadau perthnasol yn yr Adroddiad Perfformiad a'r adroddiad Atebolrwydd.

Mewn perthynas â'r cyfyngiadau yn unig wrth dderbyn tystiolaeth briodol ddigonol fel y disgrifir yn yr adran Sail barn amodol uchod:

- Nid wyf wedi cael yr holl wybodaeth ac esboniadau y mae eu hangen arnaf ar gyfer fy archwiliad.

Nid oes gennyf unrhyw beth i'w adrodd mewn perthynas â'r materion canlynol y cyflwynaf adroddiad i chi arnynt os yw'r canlynol yn berthnasol yn fy marn i:

- ni chadwyd cofnodion cyfrifyddu digonol gan y rhiant neu ni chafwyd ffurflenni sy'n ddigonol ar gyfer fy archwiliad o ganghennau nad ymwelodd fy staff â nhw;
- nid yw'r datganiadau ariannol a'r rhan o'r Adroddiad Cydnabyddiaeth Ariannol a gaiff ei harchwilio yn gyson â'r cofnodion a'r ffurflenni cyfrifyddu;
- nid yw gwybodaeth a nodir gan Drysorlys EF ynghylch cydnabyddiaeth ariannol a thrafodiadau eraill wedi cael ei datgelu;
- nid yw datgeliadau penodol ynghylch cydnabyddiaeth ariannol a nodir gan Lawlyfr Adrodd Ariannol Llywodraeth a gyhoeddwyd gan Drysorlys EF wedi cael eu gwneud neu nid yw rhannau o'r Adroddiad Cydnabyddiaeth Ariannol a Staff sydd i'w harchwilio yn gyson â'r cofnodion a'r ffurflenni cyfrifyddu; neu
- nid yw'r Datganiad Llywodraethu'n adlewyrchu cydymffurfiaeth â chanllawiau Trysorlys EF.

Rwy'n adrodd trwy eithriad nad oedd un uwch swyddog wedi rhoi cydsyniad ynghylch datgelu gwybodaeth a nodir gan Drysorlys EF ynghylch cydnabyddiaeth ariannol a thrafodiadau. Derbyniodd Llywodraeth Cymru geisiadau'r uwch swyddog ac o ganlyniad nid yw'r Adroddiad Cydnabyddiaeth Ariannol a Staff yn cynnwys yr wybodaeth hon.

## Cyfrifoldebau'r Prif Swyddog Cyfrifyddu am y datganiadau ariannol

Fel yr esbonnir yn fanylach yn y Datganiad o Gyfrifoldebau'r Swyddog Cyfrifyddu, y Prif Swyddog Cyfrifyddu sy'n gyfrifol am:

- gadw cofnodion cyfrifyddu priodol;
- paratoi Cyfrifon Cyfunol Llywodraeth Cymru 2024-25 yn unol â'r fframwaith adrodd ariannol perthnasol ac am fod wedi'i argyhoeddi eu bod yn rhoi darlun gwir a theg;
- sicrhau bod Cyfrifon Cyfunol Llywodraeth Cymru 2024-25 a'r datganiadau ariannol yn eu cyfanrwydd yn deg, yn gytbwys ac yn ddealladwy;
- sicrhau rheoleidd-dra trafodiadau ariannol;

- pa bynnag reolaethau mewnol sy'n angenrheidiol ym marn y Prif Swyddog Cyfrifyddu i alluogi paratoi datganiadau ariannol heb unrhyw gamddatganiad perthnasol, boed hynny drwy dwyll neu wall;
- asesu gallu Llywodraeth Cymru a'r Grŵp i barhau fel busnes gweithredol, gan ddatgelu, fel y bo'n gymwys, faterion sy'n ymwneud â'r busnes gweithredol a defnyddio sail gyfrifyddu busnes gweithredol oni bai fod y Prif Swyddog Cyfrifyddu yn rhagweld na fydd y gwasanaethau a ddarperir gan Lywodraeth Cymru a'r Grŵp yn parhau i gael eu darparu yn y dyfodol.

## Cyfrifoldebau'r archwilydd am archwilio'r datganiadau ariannol

Fy nghyfrifoldeb i yw archwilio'r datganiadau ariannol, eu hardystio ac adrodd arnynt yn unol â Deddf Llywodraeth Cymru 2006.

Fy amcanion yw cael sicrwydd rhesymol ynghylch p'un a yw'r datganiadau ariannol yn eu cyfanrwydd yn rhai heb unrhyw gamddatganiad perthnasol, boed hynny trwy dwyll neu wall, a chyhoeddi adroddiad archwilydd sy'n cynnwys fy marn.

Mae sicrwydd rhesymol yn lefel uchel o sicrwydd ond nid yw'n gwarantu y bydd archwiliad a gynhelir yn unol â'r Safonau Rhyngwladol ar Archwilio yn y DU bob tro yn canfod camddatganiad perthnasol pan fo'n bodoli. Gall camddatganiadau ddeillio o dwyll neu wall ac fe'u hystyrir yn berthnasol os, yn unigol neu gyda'i gilydd, gellid yn rhesymol ddisgwyl iddynt ddylanwadu ar benderfyniadau economaidd defnyddwyr a wneir ar sail y datganiadau ariannol hyn.

Mae afreoleidd-dra, gan gynnwys twyll, yn golygu achosion o ddiffyg cydymffurfio â deddfau a rheoliadau. Rwy'n dylunio gweithdrefnau yn unol â'm cyfrifoldebau, a amlinellir uchod, i ganfod camddatganiadau perthnasol mewn perthynas ag afreoleidd-dra, gan gynnwys twyll.

Roedd fy ngweithdrefnau yn cynnwys y canlynol:

- Holi'r rheolwyr, y Pennaeth Archwilio Mewnol a'r rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu, gan gynnwys cael ac adolygu dogfennaeth ategol mewn perthynas â pholisïau a gweithdrefnau Llywodraeth Cymru a'r Grŵp sy'n ymwneud ag:
  - adnabod, gwerthuso a chydymffurfio â deddfau a rheoliadau a pha un a oeddent yn ymwybodol o unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio;
  - canfod ac ymateb i'r risgiau o dwyll a pha un a oes ganddynt wybodaeth am unrhyw dwyll gwirioneddol, tybiedig neu honedig; a hefyd
  - y rheolaethau mewnol a sefydlwyd i liniaru risgiau sy'n gysylltiedig â thwyll neu ddiffyg cydymffurfio â deddfau a rheoliadau.
- Ystyried fel tîm archwilio sut a ble y gallai twyll ddigwydd yn y datganiadau ariannol ac unrhyw ddangosyddion posibl o dwyll. Fel rhan o'r drafodaeth hon, nodais y risg o dwyll mewn perthynas â rheolwyr yn diystyru rheolaethau, sy'n cael ei hystyried yn risg sylweddol ym mhob corff a archwilir.
- Cael dealltwriaeth am fframwaith awdurdod Llywodraeth Cymru a'r Grŵp yn ogystal â fframweithiau cyfreithiol a rheoleiddiol eraill y mae Llywodraeth Cymru a'r Grŵp yn gweithredu oddi mewn iddynt, gan ganolbwyntio ar y deddfau a'r rheoliadau hynny a gafodd effaith uniongyrchol ar y datganiadau ariannol neu a gafodd effaith sylfaenol ar weithrediadau Llywodraeth Cymru a'r Grŵp.
- Cael dealltwriaeth am berthnasoedd partïon cysylltiedig.

Yn ychwanegol at yr uchod, roedd fy ngweithdrefnau i ymateb i risgiau a ganfuwyd yn cynnwys y canlynol:

- adolygu'r datgeliadau yn y datganiad ariannol a phrofi yn erbyn dogfennaeth ategol i asesu cydymffurfiaeth â deddfau a rheoliadau perthnasol a drafodir uchod;
- holi rheolwyr, y Prif Swyddog Cyfrifyddu (fel y rhai sy'n gyfrifol am Lywodraethu) ynghylch ymgyfreitha a hawliadau gwirioneddol a phosibl;
- darllen cofnodion cyfarfodydd y Bwrdd a phwyllgorau perthnasol eraill;
- wrth fynd i'r afael â'r risg o dwyll trwy reolwyr yn diystyru rheolaethau, profi priodoldeb cofnodion dyddlyfr ac addasiadau eraill; asesu a yw'r dyfarniadau a wnaed wrth lunio amcangyfrifon cyfrifyddu'n rhoi arwydd o duedd bosibl; a gwerthuso rhesymeg fusnes unrhyw drafodiadau arwyddocaol sy'n anarferol neu y tu allan i gwrs arferol busnes.

Fe wnes i hefyd gyfleu deddfau a rheoliadau dynodedig perthnasol a risgiau posibl o dwyll i holl aelodau'r tîm archwilio ac aros yn effro i unrhyw arwyddion o dwyll neu ddiffyg cydymffurfio â deddfau a rheoliadau trwy gydol yr archwiliad.

Effeithir ar y graddau y mae fy ngweithdrefnau'n gallu canfod afreolaidd-dra, gan gynnwys twyll, gan yr anhawster cynhenid o ran canfod afreolaidd-dra, effeithlonrwydd rheolaethau Llywodraeth Cymru a'r Grŵp, a natur, amseriad a hyd a lled y gweithdrefnau archwilio a gyflawnwyd.

Ceir disgrifiad pellach o gyfrifoldebau'r archwilydd am gyfer archwilio'r datganiadau ariannol ar wefan y Cyngor Adrodd Ariannol [www.frc.org.uk/auditorsresponsibilities](http://www.frc.org.uk/auditorsresponsibilities). Mae'r disgrifiad hwn yn rhan o'm hadroddiad archwilio.

## Cyfrifoldebau eraill yr archwilydd

Mae'n ofynnol i mi gael tystiolaeth ddigonol i roi sicrwydd rhesymol bod y Crynodeb o'r Alldro Adnoddau yn cyflwyno'r alldro yn erbyn y symiau a awdurdodwyd gan y Senedd ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2025 yn briodol ac yn dangos nad aethpwyd dros y cyfansymiau hynny.

Mae'n ofynnol i mi hefyd gael tystiolaeth sy'n ddigon i roi sicrwydd rhesymol bod y gwariant a'r incwm a gofnodwyd yn y datganiadau ariannol wedi cael eu cymhwyso at y dibenion a fwriadwyd gan y Senedd a bod y trafodiadau ariannol a gofnodwyd yn y datganiadau ariannol yn cydymffurfio â'r awdurdodau sy'n eu llywodraethu.

Rwy'n cyfathrebu â'r rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu ynghylch, ymhlith pethau eraill, cwmpas ac amseriad arfaethedig yr archwiliad a chanfyddiadau archwilio arwyddocaol, gan gynnwys unrhyw ddiffygion arwyddocaol mewn rheolaeth fewnol yr wyf yn eu nodi yn ystod fy archwiliad.

Gweler fy adroddiad ar dudalennau 174 i 175.

**Adrian Crompton**
Archwilydd Cyffredinol Cymru
15 Rhagfyr 2025

1 Cwr y Ddinas
Stryd Tyndall
Caerdydd
CF10 4BZ

Mae Archwilydd Cyffredinol Cymru wedi ardystio ac adrodd ar y cyfrifon hyn yn y ffurf y cawsant eu drafftio'n wreiddiol. Cyfieithiad o'r fersiwn Saesneg gwreiddiol yw'r fersiwn hwn. Llywodraeth Cymru sydd yn gyfrifol am gywirdeb y cyfieithiad, nid yr Archwilydd Cyffredinol.

# Adroddiad yr Archwilydd Cyffredinol i'r Senedd

## Cyflwyniad

O dan Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, rwy'n gyfrifol am archwilio, ardystio ac adrodd ar ddatganiadau ariannol Llywodraeth Cymru a'r Grŵp.

Yn yr adroddiad hwn ar ddatganiadau ariannol Llywodraeth Cymru a'r Grŵp 2024-25, nodais y rhesymau a'r cyd-destun ar gyfer fy marn wir a theg amodol o ran yr ased benthyciadau i fyfyrwyr.

## Rhoi barn wir a theg amodol ar ased benthyciadau i fyfyrwyr

Rwyf wedi rhoi fy marn wir a theg amodol ar ased benthyciadau i fyfyrwyr Llywodraeth Cymru oherwydd ni allaf benderfynu a yw'r amcangyfrif gwerth teg ar ddiwedd y flwyddyn yn rhesymol.

Mae'r ased benthyciadau i fyfyrwyr yn amcangyfrif o werth benthyciadau i fyfyrwyr y disgwylir iddynt gael eu had-dalu. Fe'i cyfrifir gan ddefnyddio proses fodelu gymhleth ac roedd yn werth £8.9bn ar 31 Mawrth 2025.

Hyd yn hyn, mae Llywodraeth Cymru wedi addasu ffeiliau modelu a ddarparwyd rai blynyddoedd yn ôl gan Adran Addysg Lloegr (DfE) i lunio ei hamcangyfrif. Mae DfE wedi bod yn defnyddio techneg modelu ystadegol newydd a data mwy diweddar yn ystod y blynyddoedd diwethaf. Rwyf wedi adrodd am fy mhryderon o'r blaen ynghylch y defnydd parhaus o fodel sy'n heneiddio i Bwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg Llywodraeth Cymru yn fy Adroddiadau Archwilio Cyfrifon 2022-23 a 2023-24 – ni wnes i roi amod ar fy marn archwilio darlun gwir a theg o ran y mater hwn ar gyfer unrhyw un o'r blynyddoedd ariannol hynny. Mae'r camau gweithredu y mae Llywodraeth Cymru wedi bod yn eu cymryd a'i sefyllfa bresennol wrth symud i fodel mwy diweddar wedi'u nodi isod.

Ymrwymodd Llywodraeth Cymru i Gytundeb Lefel Gwasanaeth (CLG) gyda DfE er mwyn symud i'r model mwy diweddar yn 2024-25. Mae'r dull hwn hefyd yn cael ei ddatblygu gan Ogledd Iwerddon a Llywodraeth yr Alban gyda'r DfE o dan CLG ar y cyd ac mae'n rhan o'r gwelliant parhaus o ragfynegi a phrisio Benthyciadau i Fyfyrwyr. Y bwriad oedd i bob cenedl symud ar gyfer y flwyddyn ariannol 2024-25. Fodd bynnag, penderfynodd Gogledd Iwerddon a'r Alban beidio â symud a defnyddio'r model hybrid ym mis Ionawr/Chwefror 2025, a Llywodraeth Cymru ym mis Mawrth 2025. Gan gyfeirio at gymhlethdodau'r model a chyfyngiadau adnoddau DfE fel ffactorau allweddol, fe wnaeth Llywodraeth Cymru ddod i'r casgliad na fyddent yn gallu profi a sicrhau ansawdd yr elfennau methodoleg newydd mewn pryd i'w cynnwys yn natganiadau ariannol 2024-25. Heb ddewis arall hyfyw ar gael, defnyddiodd Llywodraeth Cymru y model a oedd ar gael ar y pryd i gynhyrchu'r datganiadau ariannol drafft.

Fodd bynnag, parhaodd y gwaith o brofi'r model newydd trwy 2025, gan alluogi cynhyrchu data dangosol ddiwedd mis Tachwedd 2025 yn barod ar gyfer cyflwyniadau cyllideb atodol 2025-26 a chyllideb 2026-27. Roedd profion digonol o'r model wedi'u diweddaru wedi'u cynnal erbyn 14 Tachwedd 2025 er mwyn i Lywodraeth Cymru lofnodi'n swyddogol derbyn y model ar gyfer 2025-26, ond fel y nodwyd uchod, nid oedd ar gael i ganiatáu paratoi cyfrifon erbyn y dyddiad cyflwyno statudol sef 30 Tachwedd 2025.

Mae arwyddion o brofion sampl y DfE o'r model newydd ynghyd â chanfyddiadau fy ngwaith archwilio ar yr hen fodel wedi codi pryderon sylweddol ynghylch rhesymolrwydd yr amcangyfrif ar 31 Mawrth 2025 a'r enillion/colledion canlyniadol mewn blwyddyn ar werth teg. Mae'r dystiolaeth yn dangos bod y model ystadegol a'r data enillion sydd ar gael i Lywodraeth Cymru i'w defnyddio ar gyfer paratoi cyfrifon 2024-25 yn debygol o orddatgan enillion ac ad-daliadau gyrfa yn berthnasol ac felly gwerth yr ased.

Yn ogystal, eleni, mae data benthycwyr Myfyrwyr Cymru o'r Cwmni Benthyciadau Myfyrwyr wedi cael ei echdynnu gan DfE ar sail y DU nid yn ôl gwlad. Gan fod y data yn cael ei echdynnu a'i fewnforio i'r modelu ar un adeg benodol, mae'r DfE wedi cadarnhau nad yw'n bosibl rhedeg echdyniad o Fyfyrwyr Cymru yn unig yn ôl-weithredol. O ganlyniad, nid ydym wedi gallu cael digon o sicrwydd priodol ynghylch ei gyflawnrwydd a'i gywirdeb. Bydd fy nhîm yn gweithio gyda'r DfE i sicrhau bod y data hwn ar gael yn 2025-26.

Mae'r pryderon hyn yn ddigon arwyddocaol i mi fethu â dod i'r casgliad ar resymolrwydd gwerth ased benthyciadau i fyfyrwyr ar 31 Mawrth 2025 ac yn absenoldeb amcangyfrif amgen, rhaid i mi osod barn amodol ar sail yr ansicrwydd hwnnw. Rhaid i mi hefyd benderfynu a yw gwariant net Llywodraeth Cymru wedi aros o fewn cyfanswm y rheolaeth gyllideb flynyddol fel y datgelir yn y Grynodeb o Alldro Adnoddau. Oherwydd yr ansicrwydd ynghylch gwerth teg y benthyciadau i fyfyrwyr ar 31 Mawrth 2025 ac, o ganlyniad, ynghylch yr enillion/colledion yn y flwyddyn a fyddai'n effeithio ar wariant net, nid wyf yn gallu penderfynu a fyddai cyfanswm y rheolaeth gyllideb flynyddol wedi ei gyrraedd. O ganlyniad, mae goblygiadau posibl i'm barn ar reoleidd-dra ond nid wyf yn gallu eu meintioli. Felly, mae fy marn ar reoleidd-dra yn parhau i fod yn ddiamod.

## Ystyriaethau ehangach

Mae'n galonogol bod Llywodraeth Cymru yn bwriadu mabwysiadu'r model newydd yn 2025-26 ac rwy'n nodi'r gwaith sylweddol sydd ei angen ac sydd wedi'i wneud hyd yma i gyflawni'r model cymhleth hwn gydag adnoddau cyfyngedig. Mae amcangyfrif cadarn yn hanfodol nid yn unig ar gyfer adrodd ariannol, ond hefyd ar gyfer gwerth am arian ac ystyriaethau polisi.

Amlygodd fy adroddiad Cyllid Myfyrwyr fod Llywodraeth Cymru wedi amcangyfrif yn 2015-16 y byddai'n adennill 81c am bob £1 a oedd yn ddyledus drwy fenthyciadau i fyfyrwyr. Erbyn 2019-20 roedd yr amcangyfrif hwnnw wedi gostwng i 65c. Er nad oes gennyf ddata tebyg ar gyfer 2024-25, ar hyn o bryd mae ad-daliadau gwirioneddol tua 50% o'r rhai a ragwelir ar hyn o bryd o dan y model presennol. Felly, mae'n debygol y bydd y model newydd yn arwain at adolygiad ar i lawr sylweddol o'r ased benthyciadau i fyfyrwyr yn 2025-26 y gallai gael goblygiadau ar bolisi cyllid i fyfyrwyr yn y dyfodol.

Hyd yn hyn mae Trysorlys EF wedi ariannu'r cynlluniau benthyciadau i fyfyrwyr yn llawn ar y sail bod costau'n debyg ar draws y pedair cenedl.

Mae trafodaethau'n parhau rhwng Llywodraeth Cymru a Thrysorlys EF fel rhan o'r cylch cyllidebol blynyddol arferol ar gyfer Amcangyfrifon Atodol i sicrhau bod digon o adnoddau cyllidebol yn cael eu darparu ar gyfer y golled ar werth teg a amcangyfrifir ar gyfer 2025-26. Disgwylir cadarnhad gan Drysorlys EF ym mis Ionawr 2026.

**Adrian Crompton**
Archwilydd Cyffredinol Cymru
15 Rhagfyr 2025

# Datganiadau Ariannol

## Datganiad Cyfunol o Wariant Net Cynhwysfawr ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2025

| | Nodyn | Y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2025 | | Y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2024 | |
|---|---|---|---|---|---|
| | | Craidd LlC £m | Grŵp LlC £m | Craidd LlC £m | Grŵp LlC £m |
| Incwm o werthu nwyddau a gwasanaethau | 2 | (71) | (389) | (59) | (359) |
| Incwm gweithredol arall | 2 | (214) | (619) | (591) | (1,004) |
| **Cyfanswm incwm gweithredu** | | **(285)** | **(1,008)** | **(650)** | **(1,363)** |
| Costau staff | 3 | 418 | 7,175 | 404 | 6,602 |
| Gwariant | 3 | 23,555 | 17,312 | 22,043 | 15,867 |
| Cost darpariaeth | 3 | 278 | 297 | 280 | 309 |
| **Cyfanswm gwariant gweithredu** | | **24,251** | **24,784** | **22,727** | **22,778** |
| **Gwariant net am y flwyddyn** | | **23,966** | **23,776** | **22,077** | **21,415** |
| **Gwariant net cynhwysfawr arall:** Eitemau na chânt eu hailddosbarthu i gostau gweithredu net: | | | | | |
| (Elw)/colled net ar ailbrisio eiddo, offer, cyfarpar a buddsoddiadau | | 884 | 892 | (121) | (108) |
| (Elw)/colled actiwaraidd ar atebolrwyddau cynlluniau pensiwn | | (2) | (31) | 12 | 14 |
| **Gwariant net cynhwysfawr am y flwyddyn** | | **24,848** | **24,637** | **21,968** | **21,321** |

Mae'r Nodiadau ar dudalennau 183 i 226 yn rhan o'r cyfrifon hyn.

# Datganiad Cyfunol o’r Sefyllfa Ariannol ar 31 Mawrth 2025

| | Nodyn | Ar 31 Mawrth 2025 | | Ar 31 Mawrth 2024 | |
|---|---|---|---|---|---|
| | | Craidd LlC £m | Grŵp LlC £m | Craidd LlC £m | Grŵp LlC £m |
| **Asedau anghyfredol:** | | | | | |
| Eiddo, offer a chyfarpar | 4 | 22,155 | 30,381 | 23,163 | 31,133 |
| Asedau anniriaethol | 5 | 50 | 131 | 36 | 115 |
| Asedau ariannol | 6 | 11,470 | 9,875 | 10,738 | 9,173 |
| Symiau derbyniadwy drwy fasnach a symiau derbyniadwy eraill | 8 | 11 | 278 | 14 | 218 |
| Asedau hawl-i-ddefnyddio | 15 | 39 | 745 | 42 | 636 |
| **Cyfanswm asedau anghyfredol** | | **33,725** | **41,410** | **33,993** | **41,275** |
| **Asedau cyfredol:** | | | | | |
| Asedau sydd wedi’u dosbarthu fel rhai a ddelir i’w gwerthu | | - | 2 | - | 1 |
| Asedau ariannol | 6 | 393 | 393 | 292 | 292 |
| Stocrestri | 7 | 247 | 379 | 222 | 352 |
| Symiau derbyniadwy drwy fasnach a symiau derbyniadwy eraill | 8 | 382 | 810 | 390 | 792 |
| Arian parod a’r hyn sy’n cyfateb i arian parod | 9 | 111 | 1,444 | 244 | 1,562 |
| **Cyfanswm asedau cyfredol** | | **1,133** | **3,028** | **1,148** | **2,999** |
| **Cyfanswm asedau** | | **34,858** | **44,438** | **35,141** | **44,274** |
| **Atebolrwyddau cyfredol:** | | | | | |
| Symiau taladwy drwy fasnach a symiau taladwy eraill | 10 | (1,898) | (3,285) | (1,751) | (3,059) |
| Darpariaethau | 11 | (380) | (450) | (348) | (412) |

# Datganiad Cyfunol o'r Sefyllfa Ariannol ar 31 Mawrth 2025 (parhad)

| | Nodyn | Ar 31 Mawrth 2025 | | Ar 31 Mawrth 2024 | |
|---|---|---|---|---|---|
| | | Craidd LlC £m | Grŵp LlC £m | Craidd LlC £m | Grŵp LlC £m |
| Atebolrwyddau eraill | 13 | - | - | - | - |
| **Cyfanswm yr atebolrwyddau cyfredol** | | **(2,278)** | **(3,735)** | **(2,099)** | **(3,471)** |
| **Cyfanswm asedau, llai atebolrwyddau cyfredol** | | **32,580** | **40,703** | **33,042** | **40,803** |
| **Atebolrwyddau anghyfredol:** | | | | | |
| Symiau taladwy drwy fasnach a symiau taladwy eraill | 10 | (628) | (1,402) | (550) | (1,204) |
| Darpariaethau | 11 | (1,483) | (1,539) | (1,436) | (1,475) |
| Atebolrwyddau eraill | 13 | (27) | (26) | (27) | (28) |
| **Cyfanswm yr atebolrwyddau anghyfredol** | | **(2,138)** | **(2,967)** | **(2,013)** | **(2,707)** |
| **Cyfanswm asedau, llai cyfanswm atebolrwyddau** | | **30,442** | **37,736** | **31,029** | **38,096** |
| **Ecwiti trethdalwyr a chronfeydd wrth gefn eraill** | | | | | |
| Cronfa gyffredinol | | 17,219 | 22,274 | 16,873 | 21,612 |
| Cronfa ailbrisio wrth gefn | | 13,223 | 15,462 | 14,156 | 16,484 |
| **Cyfanswm ecwiti** | | **30,442** | **37,736** | **31,029** | **38,096** |

Mae'r Nodiadau ar dudalennau 183 i 226 yn rhan o'r cyfrifon hyn.

**Dr Andrew Goodall CBE**
Ysgrifennydd Parhaol a Phrif Swyddog Cyfrifyddu

11 Rhagfyr 2025

# Datganiad Cyfunol o Lifoedd Arian Parod ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2025

| | Nodyn | Y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2025 | | Y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2024 | |
|---|---|---|---|---|---|
| | | Craidd LlC £m | Grŵp LlC £m | Craidd LlC £m | Grŵp LlC £m |
| **Llifoedd arian parod o weithgareddau gweithredu:** | | | | | |
| Gwariant gweithredu net | | (23,966) | (23,776) | (22,077) | (21,415) |
| Darpariaethau a ddefnyddiwyd | 11 | (197) | (203) | (121) | (143) |
| Addasiadau ar gyfer trafodiadau nad ydynt yn arian parod | | 712 | 1,366 | (17) | 504 |
| Symudiadau mewn cyfalaf gweithio heblaw arian parod | 14 | 219 | 173 | 8 | (288) |
| Arall | | 3 | 16 | (13) | 12 |
| **(All-lif) arian parod net o weithgareddau gweithredu** | | **(23,229)** | **(22,424)** | **(22,220)** | **(21,330)** |
| **Llifoedd arian parod o weithgareddau buddsoddi:** | | | | | |
| Prynu eiddo, offer a chyfarpar | | (335) | (1,099) | (456) | (1,296) |
| Prynu eiddo, offer a chyfarpar – addasiadau ar gyfer ychwanegiadau nad ydynt yn arian parod mewn perthynas â PFI ar y fantolen a threfniadau consesiwn gwasanaeth eraill | | 93 | 167 | 185 | 185 |
| Prynu asedau anniriaethol | | (28) | (51) | (14) | (43) |
| Enillion yn sgil gwaredu eiddo, offer a chyfarpar | | 3 | 5 | 1 | 2 |
| Enillion yn sgil gwaredu asedau datblygu | | 6 | 6 | 20 | 21 |
| Prynu asedau datblygu | | (32) | (32) | (13) | (13) |
| Rhoi benthyciadau a buddsoddiadau | | (1,229) | (1,206) | (1,184) | (1,148) |
| Ad-dalu benthyciadau | | 337 | 341 | 411 | 423 |
| **(All-lif) arian parod net o weithgareddau buddsoddi** | | **(1,185)** | **(1,869)** | **(1,050)** | **(1,869)** |

# Datganiad Cyfunol o Lifoedd Arian Parod ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2025 (parhad)

| | Nodyn | Y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2025 | | Y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2024 | |
|---|---|---|---|---|---|
| | | Craidd LlC £m | Grŵp LlC £m | Craidd LlC £m | Grŵp LlC £m |
| **Llifoedd arian parod o weithgareddau cyllido:** | | | | | |
| O Gronfa Gyfunol Cymru – wedi'i dynnu yn y flwyddyn | | 24,500 | 24,500 | 23,554 | 23,554 |
| Cronfa Gyfunol Cymru - blwyddyn flaenorol wedi'i had-dalu | | (150) | (150) | - | - |
| Elfen gyfalaf taliadau mewn perthynas â lesoedd a PFI ar y fantolen, a threfniadau consesiwn gwasanaeth eraill | | (16) | (122) | (16) | (95) |
| **Cyllido net** | | **24,334** | **24,228** | **23,538** | **23,459** |
| **Cynnydd/(gostyngiad) net mewn arian parod a'r hyn sy'n cyfateb i arian parod yn y cyfnod cyn addasiadau ar gyfer derbyniadau a thaliadau i Gronfa Gyfunol Cymru** | | **(80)** | **(65)** | **268** | **260** |
| Incwm sy'n daladwy i Gronfa Gyfunol Cymru | | (53) | (53) | (52) | (52) |
| **Cynnydd net/(gostyngiad) mewn arian parod a'r hyn sy'n cyfateb i arian parod yn y cyfnod ar ôl addasiadau ar gyfer derbyniadau a thaliadau i Gronfa Gyfunol Cymru** | **9** | **(133)** | **(118)** | **216** | **208** |
| **Arian parod a'r hyn sy'n cyfateb i arian parod ar ddechrau'r flwyddyn** | **9** | **244** | **1,562** | **28** | **1,354** |
| **Arian parod a'r hyn sy'n cyfateb i arian parod ar ddiwedd y flwyddyn** | **9** | **111** | **1,444** | **244** | **1,562** |

Mae'r Nodiadau ar dudalennau 183 i 226 yn rhan o'r cyfrifon hyn.

# Datganiad o Newidiadau yn Ecwiti Trethdalwyr ar 31 Mawrth 2025

| Grŵp Llywodraeth Cymru | Cronfa Gyffredinol £m | Cronfa Ailbrisio wrth Gefn £m | Cyfanswm Cronfeydd wrth Gefn £m |
|---|---|---|---|
| **Balans ar 31 Mawrth 2023** | **19,627** | **16,458** | **36,085** |
| Pontio i IFRS 16 | (34) | - | (34) |
| Cronfa Gyfunol Cymru – arian a dynnwyd | 23,554 | - | 23,554 |
| Cronfa Gyfunol Cymru – arian y bernir ei fod wedi'i dynnu | 6 | - | 6 |
| Addasiad (taladwy)/derbyniadwy Cronfa Gyfunol Cymru[a] | (150) | - | (150) |
| Gwariant net am y flwyddyn | (21,415) | - | (21,415) |
| Enillion a cholledion ailbrisio | - | 108 | 108 |
| Trosglwyddiadau rhwng cronfeydd wrth gefn | 87 | (87) | - |
| Addasiadau eraill | (63) | 5 | (58) |
| **Balans ar 31 Mawrth 2024** | **21,612** | **16,484** | **38,096** |
| Pontio i IFRS 16 | - | - | - |
| Cronfa Gyfunol Cymru – arian a dynnwyd | 24,500 | - | 24,500 |
| Cronfa Gyfunol Cymru – arian y bernir ei fod wedi'i dynnu | - | - | - |
| Addasiad (taladwy)/derbyniadwy Cronfa Gyfunol Cymru[a] | (81) | - | (81) |
| Gwariant net am y flwyddyn | (23,776) | - | (23,776) |
| Enillion a cholledion ailbrisio | - | (892) | (892) |
| Trosglwyddiadau rhwng cronfeydd wrth gefn | 129 | (129) | - |
| Addasiadau eraill | (110) | (1) | (111) |
| **Balans ar 31 Mawrth 2025** | **22,274** | **15,462** | **37,736** |

a Mae addasiad (taladwy)/derbyniadwy Cronfa Gyfunol Cymru yn cynnwys cyllid a dynnwyd na chafodd ei wario yn 2024-25 o £81m (2023-24: £150m).

b Mae addasiadau eraill yn adlewyrchu'n bennaf enillion pensiwn Craidd Llywodraeth Cymru a £29m o enillion pensiwn endidau cyfunol.

# Datganiad o Newidiadau yn Ecwiti Trethdalwyr 31 Mawrth 2025 (parhad)

| Craidd Llywodraeth Cymru | Cronfa Gyffredinol £m | Cronfa Ailbrisio wrth Gefn £m | Cyfanswm Cronfeydd wrth Gefn £m |
|---|---|---|---|
| **Balans ar 31 Mawrth 2023** | **15,608** | **14,040** | **29,648** |
| Cronfa Gyfunol Cymru – arian a dynnwyd | 23,554 | - | 23,554 |
| Cronfa Gyfunol Cymru – arian y bernir ei fod wedi'i dynnu | 6 | - | 6 |
| Addasiad (taladwy)/derbyniadwy Cronfa Gyfunol Cymru[a] | (150) | - | (150) |
| Gwariant net am y flwyddyn | (22,077) | - | (22,077) |
| Enillion a cholledion ailbrisio | - | 121 | 121 |
| Trosglwyddiadau rhwng cronfeydd wrth gefn | 5 | (5) | - |
| Addasiadau eraill | (73) | - | (73) |
| **Balans ar 31 Mawrth 2024** | **16,873** | **14,156** | **31,029** |
| Cronfa Gyfunol Cymru – arian a dynnwyd | 24,500 | - | 24,500 |
| Cronfa Gyfunol Cymru – arian y bernir ei fod wedi'i dynnu | - | - | - |
| Addasiad (taladwy)/derbyniadwy Cronfa Gyfunol Cymru[a] | (81) | - | (81) |
| Gwariant net am y flwyddyn | (23,966) | - | (23,966) |
| Enillion a cholledion ailbrisio | - | (884) | (884) |
| Trosglwyddiadau rhwng cronfeydd wrth gefn | 49 | (49) | - |
| Addasiadau eraill[b] | (156) | - | (156) |
| **Balans ar 31 Mawrth 2025** | **17,219** | **13,223** | **30,442** |

a Mae addasiad (taladwy)/derbyniadwy Cronfa Gyfunol Cymru yn cynnwys cyllid a dynnwyd na chafodd ei wario yn 2024-25 o £81m (2023-24: £150m).
b Mae addasiadau eraill yn cynnwys asedau seilwaith a drosglwyddwyd oddi ar y fantolen o £96m, ffi pensiynau o £2m a Derbyniadau Ychwanegol y Gronfa Gyfunol o £58m.

Mae'r Nodiadau ar dudalennau 183 i 226 yn rhan o'r cyfrifon hyn.

# Nodiadau i'r Cyfrifon

## 1. Datganiad o Bolisïau Cyfrifyddu

Mae'r datganiadau ariannol cyfunol wedi'u paratoi yn unol â Llawlyfr Adroddiadau Ariannol y Llywodraeth (FReM). Mae'r polisïau cyfrifyddu a gynhwysir yn FReM yn cymhwyso Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol (IFRS) fel y maent wedi'u haddasu neu eu dehongli ar gyfer cyd-destun y sector cyhoeddus. Pan fo FReM yn caniatáu dewis o bolisi cyfrifyddu, dewiswyd y polisi cyfrifyddu y bernir ei fod fwyaf priodol i amgylchiadau penodol Llywodraeth Cymru at ddibenion rhoi golwg gywir a theg.

Disgrifir y polisïau penodol sydd wedi cael eu mabwysiadu gan Lywodraeth Cymru (ar gyfer y gweithgarwch adroddadwy) yn Atodiad A neu fel troednodiadau i'r nodyn perthnasol. Maent wedi cael eu cymhwyso'n gyson wrth ymdrin ag eitemau y bernir eu bod yn berthnasol i'r cyfrifon.

Yn ogystal â'r prif ddatganiadau a baratoir o dan IFRS, mae FReM hefyd yn caniatáu i Lywodraeth Cymru baratoi prif ddatganiadau ychwanegol. Cynhwysir y Crynodeb o Alldro Adnoddau sy'n dangos alldro gwirioneddol yn erbyn y gyllideb a nodiadau ategol sy'n cysoni alldro i wariant gweithredu net, a'r gofyniad adnoddau i arian parod, yn yr Adroddiad Atebolrwydd.

### 1.1 Confensiwn Cyfrifyddu

Mae'r datganiadau ariannol hyn wedi'u paratoi ar sail croniadau o dan y confensiwn cost hanesyddol, wedi'u haddasu i gyfrif am ailbrisio eiddo, offer a chyfarpar, asedau datblygu ac asedau ac atebolrwyddau ariannol penodol.

### 1.2 Dyfarniadau Cyfrifyddu Beirniadol a Ffynonellau Amcangyfrif Allweddol

Mae paratoi'r datganiadau ariannol hyn yn gofyn i reolwyr wneud dyfarniadau, amcangyfrifon a rhagdybiaethau sy'n effeithio ar gymhwyso polisïau a symiau adroddedig o asedau ac atebolrwyddau, incwm a gwariant. Mae'r dyfarniadau a wneir a'r ffynonellau amcangyfrif yn cael eu datgelu ym mhob polisi cyfrifyddu perthnasol yn Atodiad A. Mae'r asesiadau hyn yn seiliedig ar ffactorau hanesyddol a ffactorau eraill y credir eu bod yn rhesymol, y mae eu canlyniadau yn sail i wneud dyfarniadau. Mae'r amcangyfrifon a'r rhagdybiaethau sylfaenol yn cael eu hadolygu yn barhaus. Mae'r meysydd perthnasol o farn ac amcangyfrif yn cynnwys:

- Incwm Gweithredu – gweler Nodyn 2 a pholisi cyfrifyddu A.1.
- Gwariant, gan gynnwys Gwariant Grantiau – gweler Nodyn 3 a pholisi cyfrifyddu A.2.
- Asedau'r Rhwydwaith Ffyrdd a Rheilffyrdd – gweler Nodyn 4.1 a pholisïau cyfrifyddu A.4 ac A.5.
- Asedau Ariannol, gan gynnwys Benthyciadau i Fyfyrwyr a Cymorth i Brynu - Cymru – gweler Nodyn 6 a pholisi cyfrifyddu A.6.
- Darpariaethau, gan gynnwys Cronfa Risg Cymru – gweler Nodyn 11 a pholisi cyfrifyddu A.12.

## 1.3 Sail Cyfuno

Mae'r datganiadau ariannol yn adlewyrchu'r asedau a'r atebolrwyddau cyfunol a chanlyniadau endidau o fewn ffin gyfrifyddu gyfuno Llywodraeth Cymru. Mae'r ffin gyfrifyddu ar gyfer cyfuno yn cynnwys is-ymgymeriadau fel sy'n ofynnol o dan FReM, lle y'u dynodir i'w cyfuno drwy offeryn statudol a lle y maent yn uwch na throthwy de minimis ar gyfer perthnasedd.

Bydd yr holl endidau o fewn is-grŵp yn cael eu cyfuno:

- Os yw rhiant-endid yr is-grŵp yn ddarostyngedig i orchymyn dynodi sy'n gymwys ar gyfer y flwyddyn ariannol; ac
- Os yw'r is-grŵp cyfan yn uwch na'r trothwy de minimis cyfuno ar gyfer perthnasedd.

Mae'r ffin gyfrifyddu gyfuno hefyd yn cynnwys is-ymgymeriadau uwch na throthwy de minimis a oedd wedi cael eu cyfuno ar sail Safonau Cyfrifyddu Grŵp IFRS cyn i Orchmynion Dynodi gael eu cyflwyno yng Nghymru (yn effeithiol o 2017-18), ac nad yw'r broses ddynodi wedi dod i ben eto ar eu cyfer. Diben hyn yw cadw cysondeb yn achos cyflwyniad cyfuno'r Grŵp tra bo prosiect alinio Llywodraeth Cymru yn mynd rhagddo.

Ers i Orchmynion Dynodi gael eu cyflwyno, ychwanegir endidau at y ffin gyfrifyddu gyfuno dim ond os ydynt wedi'u dynodi ac yn berthnasol.

Mae is-gwmnïau yn cael eu cyfuno o ddatganiadau ariannol drafft os nad oes datganiadau terfynol ar gael. Mae trafodiadau rhwng endidau a gynhwysir yn y cyfuno'n cael eu dileu.

Darperir gwybodaeth bellach am yr endidau o fewn y ffin gyfuno yn yr Adroddiad Perfformiad sy'n cyd-fynd â'r Datganiadau Ariannol hyn, gweler tudalennau 58 i 61.

## 2. Incwm Gweithredu

| | Y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2025 | | Y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2024 | |
|---|---|---|---|---|
| | **Craidd LlC £m** | **Grŵp LlC £m** | **Craidd LlC £m** | **Grŵp LlC £m** |
| **Incwm o werthu nwyddau a gwasanaethau:** | | | | |
| Incwm o eiddo a buddsoddiadau | 60 | 68 | 50 | 57 |
| Incwm Trafnidiaeth Cymru | - | 271 | - | 260 |
| Arall | 11 | 50 | 9 | 42 |
| | **71** | **389** | **59** | **359** |
| **Incwm gweithredu arall nad yw'n incwm yr UE:** | | | | |
| Incwm iechyd[a] | 169 | 556 | 190 | 589 |
| Arall | 40 | 57 | 26 | 40 |
| | **209** | **613** | **216** | **629** |
| **Incwm gweithredu arall yr UE:** | | | | |
| Rhaglenni Cronfeydd Strwythurol Ewropeaidd | (1) | (1) | 333 | 333 |
| Y Polisi Amaethyddol Cyffredin | (1) | (1) | 37 | 37 |
| Incwm arall yr UE | 7 | 8 | 5 | 5 |
| | **5** | **6** | **375** | **375** |
| **Cyfanswm** | **285** | **1,008** | **650** | **1,363** |

a Cynhwysir o fewn incwm gweithredu craidd nad yw'n incwm yr UE 'incwm iechyd' £12.3m (2023-24: £36.7m) o wariant mewn perthynas â defnyddio nwyddau traul COVID-19 gan gynnwys brechlynnau, pecynnau profion llif unffordd a meddyginiaethau a drosglwyddwyd i Lywodraeth Cymru o Adrannau eraill Llywodraeth y DU, heb unrhyw gost ynghlwm wrthynt, fel rhan o'r ymateb ehangach i'r pandemig COVID-19 a dosbarthu rhai cyflenwadau penodol a gaffaelwyd gan Lywodraeth y DU.

# 3. Gwariant

| | Y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2025 | | Y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2024 | |
|---|---|---|---|---|
| | Craidd LlC £m | Grŵp LlC £m | Craidd LlC £m | Grŵp LlC £m |
| **Gwariant** | | | | |
| Grantiau[a] | 22,698 | 10,338 | 21,879 | 10,175 |
| Nwyddau a gwasanaethau[b] | 384 | 5,856 | 433 | 5,456 |
| Costau staff | 418 | 7,175 | 404 | 6,602 |
| (Enillion)/colledion gwerth teg net ar asedau ariannol yn ôl gwerth teg drwy SOCNE[c] | 9 | 37 | (508) | (500) |
| Dileadau'r polisi benthyciadau i fyfyrwyr | 38 | 38 | 28 | 28 |
| PFI a threfniadau consesiwn gwasanaeth eraill | 29 | 40 | 27 | 37 |
| Dibrisiant asedau sefydlog | 331 | 782 | 156 | 563 |
| Amorteiddio | 15 | 34 | 11 | 32 |
| (Elw)/Colled ar warediadau | (2) | (12) | (13) | (22) |
| Amhariadau | 53 | 194 | 30 | 91 |
| Eitemau eraill nad ydynt yn arian parod | - | 5 | - | 7 |
| | **23,973** | **24,487** | **22,447** | **22,469** |
| **Darpariaethau** | | | | |
| Cynnydd mewn darpariaethau | 278 | 297 | 280 | 309 |
| **Cyfanswm** | **24,251** | **24,784** | **22,727** | **22,778** |

a Mae gwariant grantiau yn cynnwys grantiau heb eu neilltuo a grantiau wedi'u neilltuo, a gwahanol fathau o gynlluniau grant. Mae rhagor o wybodaeth am wariant grantiau a'r mathau o grantiau a weinyddir gan Lywodraeth Cymru ar gael ar dudalennau 26 i 29 o'r Adroddiad Perfformiad.

b Cynhwysir o fewn Nwyddau a Gwasanaethau Craidd £12.3m (2023-24: £36.7m) o wariant mewn perthynas â defnyddio nwyddau traul COVID-19 gan gynnwys brechlynnau, pecynnau profion llif unffordd a meddyginiaethau a drosglwyddwyd i Lywodraeth Cymru o Adrannau eraill Llywodraeth y DU, heb unrhyw gost ynghlwm wrthynt, fel rhan o'r ymateb ehangach i'r pandemig COVID-19 a dosbarthu rhai cyflenwadau penodol a gaffaelwyd gan Lywodraeth y DU.

c Mae benthyciadau myfyrwyr ac asedau ariannol Cymorth i Brynu Cymru yn cael eu mesur fel gwerth teg drwy'r Ddatganiad o Wariant Net Cynhwysfawr. Mae'r golled gwerth teg net o £9m yn cynnwys colled gwerth teg o £34m ar fenthyciadau myfyrwyr ac elw gwerth teg o £25m ar asedau ariannol eraill. Mae rhagor o fanylion i'w cael yn Nodyn 6.

## Costau Staff

Mae dadansoddiad llawn o gostau staff, gan gynnwys niferoedd staff a gwybodaeth gysylltiedig, wedi'i ddarparu yn Adroddiad Atebolrwydd y ddogfen hon ar dudalennau 152 i 159.

## Ffioedd Archwilio

Y swm sy'n daladwy i Archwilydd Cyffredinol Cymru am roi barn ar ddatganiadau ariannol cyfunol Llywodraeth Cymru ar gyfer 2024-25 yw 2024-25 yw £482,822 (2023-24: £450,000[a]). Mae hyn wedi'i gynnwys yn y Nwyddau a'r Gwasanaethau a ddatgelir uchod.

Cynhwysir uchod hefyd ffioedd a godwyd gan Archwilydd Cyffredinol Cymru mewn perthynas â chyfrifon eraill a baratowyd gan Weinidogion Cymru fel a ganlyn:

| | Y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2025 £ | Y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2024 £ (Ailddatgan) |
|---|---|---|
| Cyfrif Cryno'r GIG[a] | 28,662 | 28,155 |
| Cyfrif Ardrethi Annomestig Cenedlaethol[a] | 9,702 | 9,530 |
| Cyfrif y Llywodraeth Gyfan | 14,948 | 15,000 |
| Cronfa Gyfunol Cymru | 25,307 | 23,300 |

Datgelir ffioedd archwilio cyrff cyfunol o fewn eu cyfrifon unigol.

a Ailddatganwyd o'r flwyddyn flaenorol i adlewyrchu'r costau gwirioneddol yr aethpwyd iddynt yn hytrach nag amcangyfrifon ffioedd.

# 4. Eiddo, Offer a Chyfarpar

| | Seilwaith Asedau[a] £m | Tir £m | Adeiladau gan gynnwys Anheddau £m | Offer a Chyfarpar[b] £m | Taliadau ar gyfrif ac Asedau sy'n cael eu Hadeiladu £m | Cyfanswm £m |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Cost neu brisiad ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2024** | | | | | | |
| Ar 1 Ebrill 2023 | 27,547 | 403 | 3,478 | 1,510 | 2,317 | 35,255 |
| Ychwanegiadau | 130 | - | 36 | 98 | 1,032 | 1,296 |
| Gwarediadau | (130) | (1) | (2) | (88) | - | (221) |
| Trosglwyddiadau | - | - | - | - | - | - |
| Amhariadau | - | (3) | (43) | (13) | (2) | (61) |
| Ailbrisiadau | (18) | (13) | 96 | - | - | 65 |
| Ailddosbarthwyd fel rhai a ddelir i'w gwerthu | - | (1) | (1) | (6) | - | (8) |
| Ailddosbarthiadau | 283 | - | 204 | 84 | (580) | (9) |
| Ailddosbarthwyd i asedau hawl-i-ddefnyddio | - | - | (1) | - | - | (1) |
| **Ar 31 Mawrth 2024** | **27,812** | **385** | **3,767** | **1,585** | **2,767** | **36,316** |
| **Dibrisiant ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2024** | | | | | | |
| Ar 1 Ebrill 2023 | 3,864 | - | 183 | 944 | - | 4,991 |
| Codwyd tâl yn y flwyddyn | 198 | - | 124 | 154 | - | 476 |
| Gwarediadau | (130) | - | (1) | (87) | - | (218) |
| Trosglwyddiadau | - | - | - | - | - | - |
| Amhariadau | - | - | (10) | - | - | (10) |
| Ailbrisiadau | (35) | - | (8) | - | - | (43) |
| Ailddosbarthiadau | - | - | - | (6) | - | (6) |
| Ailddosbarthwyd i asedau hawl-i-ddefnyddio | - | - | (1) | (6) | - | (7) |
| **Ar 31 Mawrth 2024** | **3,897** | **-** | **287** | **999** | **-** | **5,183** |
| **Swm cario ar 31 Mawrth 2024** | **23,915** | **385** | **3,480** | **586** | **2,767** | **31,133** |
| Swm cario ar 31 Mawrth 2023 | 23,683 | 403 | 3,295 | 566 | 2,317 | 30,264 |
| **Cyllido asedau ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2024** | | | | | | |
| Dan berchnogaeth | 23,279 | 382 | 3,384 | 586 | 2,287 | 29,918 |
| PFI ar y fantolen a threfniadau consesiwn gwasanaeth eraill | 636 | 3 | 96 | - | 480 | 1,215 |
| **Ar 31 Mawrth 2024** | **23,915** | **385** | **3,480** | **586** | **2,767** | **31,133** |

# 4. Eiddo, Offer a Chyfarpar (parhad)

| | Seilwaith Asedau[a] £m | Tir £m | Adeiladau gan gynnwys Anheddau £m | Offer a Chyfarpar[b] £m | Taliadau ar gyfrif ac Asedau sy'n cael eu Hadeiladu £m | Cyfanswm £m |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Cost neu brisiad ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2025** | | | | | | |
| Ar 1 Ebrill 2024 | **27,812** | **385** | **3,767** | **1,585** | **2,767** | **36,316** |
| Ychwanegiadau | 142 | - | 21 | 142 | 794 | 1,099 |
| Gwarediadau | (141) | (2) | (7) | (132) | - | (282) |
| Trosglwyddiadau | (115) | - | 2 | - | (1) | (114) |
| Amhariadau | - | (2) | (164) | (11) | (9) | (186) |
| Ailbrisiadau | (1,132) | 11 | 97 | - | - | (1,024) |
| Ailddosbarthwyd fel rhai a ddelir i'w gwerthu | - | (2) | - | (9) | - | (11) |
| Ailddosbarthiadau | 748 | - | 343 | 86 | (1,181) | (4) |
| Ailddosbarthwyd i asedau hawl-i-ddefnyddio | - | - | - | - | - | - |
| **Ar 31 Mawrth 2025** | **27,314** | **390** | **4,059** | **1,661** | **2,370** | **35,794** |
| **Dibrisiant ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2025** | | | | | | |
| Ar 1 Ebrill 2024 | **3,897** | **-** | **287** | **999** | **-** | **5,183** |
| Codwyd tâl yn y flwyddyn | 377 | - | 144 | 162 | - | 683 |
| Gwarediadau | (141) | - | (5) | (132) | - | (278) |
| Trosglwyddiadau | (19) | - | - | - | - | (19) |
| Amhariadau | - | - | (25) | - | - | (25) |
| Ailbrisiadau | (110) | - | (10) | - | - | (120) |
| Ailddosbarthiadau | 3 | - | (5) | - | - | (2) |
| Ailddosbarthwyd i asedau hawl-i-ddefnyddio | - | - | - | (9) | - | (9) |
| **Ar 31 Mawrth 2025** | **4,007** | **-** | **386** | **1,020** | **-** | **5,413** |
| **Swm cario ar 31 Mawrth 2025** | **23,307** | **390** | **3,673** | **641** | **2,370** | **30,381** |
| **Cyllido asedau ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2025** | | | | | | |
| Dan berchnogaeth | 22,583 | 387 | 3,576 | 641 | 1,723 | 28,910 |
| PFI ar y fantolen a threfniadau consesiwn gwasanaeth eraill | 724 | 3 | 97 | - | 647 | 1,471 |
| **Ar 31 Mawrth 2025** | **23,307** | **390** | **3,673** | **641** | **2,370** | **30,381** |
| **Adran graidd ar 31 Mawrth 2025** | **20,582** | **37** | **179** | **32** | **1,325** | **22,155** |
| **Cyrff Iechyd ac is-gwmnïau ar 31 Mawrth 2025** | **2,725** | **353** | **3,494** | **609** | **1,045** | **8,226** |
| Adran graidd ar 31 Mawrth 2024 | 21,663 | 34 | 107 | 30 | 1,329 | 23,163 |
| Cyrff Iechyd ac is-gwmnïau ar 31 Mawrth 2024 | 2,252 | 351 | 3,373 | 556 | 1,438 | 7,970 |

a Mae asedau seilwaith yn cynnwys Asedau Rhwydwaith fel y nodir yn Nodyn 4.1 ar gyfer Rhwydweithiau Ffyrdd a Rheilffyrdd, ac asedau seilwaith eraill fel yr ased Fibrespeed.

b Mae Offer a Chyfarpar yn cynnwys Technoleg Gwybodaeth, Gosodiadau a Ffitiadau, Offer a Pheiriannau a Chyfarpar Trafnidiaeth.

## Tir ac Adeiladau, gan gynnwys Anheddau

Mae tir ac adeiladau, gan gynnwys anheddau a thir ac adeiladau rhydd-ddaliadol, yn cael eu dal adeg y prisiad gan gael eu hasesu yn ôl gwerth teg/gwerth y farchnad ar gyfer eu defnydd presennol. O fewn y categori hwnnw, mae asedau arbenigol yn cael eu prisio drwy gyfeirio at ddull cost amnewid ddibrisiedig. Gwerth y farchnad sydd i asedau a ddelir i'w gwe.

Cynhelir prisiadau proffesiynol allanol bob pum mlynedd ar gyfer y rhan fwyaf o ystad Llywodraeth Cymru, ac yn flynyddol ar gyfer asedau penodol (sef, fel arfer, asedau yn y portffolio safleoedd strategol). Yn y blynyddoedd ariannol rhwng y prisiadau pum mlynedd ffurfiol, mae tir ac adeiladau rhydd-ddaliadol yn cael eu haddasu gan ddefnyddio'r mynegeion diweddaraf sydd ar gael ym mis Mawrth bob blwyddyn ariannol i ddarparu amcangyfrif rhesymol o werth. Fodd bynnag, pan fydd asedau'n cael eu caffael neu'n cael eu newid yn sylweddol, mae'n arferol bod prisiad cyfredol yn cael ei gomisiynu.

Cafodd y rhan fwyaf o dir ac adeiladau rhydd-ddaliadol Craidd Llywodraeth Cymru asesiad prisio pum mlynedd ar 31 Mawrth 2025, gan Syrfewyr Siartredig Avison Young. Cafodd y prisiadau a oedd yn destun adolygiad blynyddol eu paratoi'n bennaf ar 28 Chwefror 2025 gan Alder King. Caiff yr holl asedau eu prisio yn unol â safonau RICS ar gyfer adrodd ariannol fel y'u cyhoeddwyd yn eu hatodiad ar gyfer y DU o'r safonau byd-eang (y Llyfr Coch).

Mae ffigurau Grŵp Llywodraeth Cymru yn cynnwys Tir ac Adeiladau'r Byrddau Iechyd Lleol ac Ymddiriedolaethau'r GIG a gafodd eu hailbrisio gan Asiantaeth y Swyddfa Brisio gyda dyddiad dod i rym o 1 Ebrill 2022. Mae'r prisiad wedi'i baratoi yn unol â thelerau Safonau Prisio Sefydliad Brenhinol y Syrfewyr Siartredig, 6ed argraffiad. Mae'r Byrddau Iechyd Lleol ac Ymddiriedolaethau'r GIG yn cymhwyso'r model ailbrisio a nodir yn IAS 16 fel y mae wedi'i addasu gan FReM.

Mae tir ac adeiladau nad ydynt yn arbenigol yn cael eu dal ar werth y farchnad at eu defnydd presennol; mae adeiladau arbenigol yn cael eu dal ar gost adnewyddu wedi'i dibrisio. Cymhwysir mynegeio yn y blynyddoedd rhwng prisiadau pum mlynedd.

## 4.1 Asedau'r Rhwydwaith – Eiddo, Offer a Chyfarpar

| | Y Rhwydwaith Ffyrdd £m | Asedau'r Rhwydwaith – Rheilffyrdd £m | Cyfanswm £m |
|---|---|---|---|
| **Cost neu brisiad ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2025** | | | |
| Ar 1 Ebrill 2024 | 25,522 | 2,252 | 27,774 |
| Ychwanegiadau | 141 | 1 | 142 |
| Gwarediadau | (141) | - | (141) |
| Trosglwyddiadau | (115) | - | (115) |
| Amhariadau | - | - | - |
| Ailbrisiadau | (1,026) | (106) | (1,132) |
| Ailddosbarthwyd fel rhai a ddelir i'w gwerthu | - | - | - |
| Ailddosbarthiadau | 171 | 577 | 748 |
| **Ar 31 Mawrth 2025** | **24,552** | **2,724** | **27,276** |
| **Dibrisiant ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2025** | | | |
| Ar 1 Ebrill 2024 | 3,871 | 1 | 3,872 |
| Codwyd tâl yn y flwyddyn | 312 | 64 | 376 |
| Gwarediadau | (141) | - | (141) |
| Trosglwyddiadau | (19) | - | (19) |
| Amhariadau | - | - | - |
| Ailbrisiadau | (46) | (64) | (110) |
| Ailddosbarthiadau | 3 | - | 3 |
| **Ar 31 Mawrth 2025** | **3,980** | **1** | **3,981** |
| **Swm cario ar 31 Mawrth 2025** | **20,572** | **2,723** | **23,295** |
| **Swm cario ar 31 Mawrth 2024** | **21,651** | **2,251** | **23,902** |
| Adran graidd ar 31 Mawrth 2025 | 20,572 | - | 20,572 |
| Cyrff Iechyd ac is-gwmnïau ar 31 Mawrth 2025 | - | 2,723 | 2,723 |

### Y Rhwydwaith Ffyrdd

Mae rhwydwaith ffyrdd Llywodraeth Cymru yn cynnwys ffyrdd A mawr a elwir yn gefnffyrdd, a thraffyrdd. Mae'n cael ei drin fel un ased seilwaith a chaiff ei brisio ar Gost Amnewid Ddibrisiedig gan ddefnyddio model y System Prisio Asedau Awdurdodau Ffyrdd (RAAVS). Cynhaliwyd y prisiad llawn diwethaf o'r rhwydwaith ar 31 Mawrth 2025 gan AtkinsRéalis UK Limited ac fe'i cynhelir bob pum mlynedd. Effaith y prisiad ar 31 Mawrth 2025 oedd gostyngiad i'r gwerth net ar y llyfrau o £980m. Oherwydd lefel uwch o fanylder y data cost sydd ar gael, roedd yn bosibl yn y cylch prisio hwn fabwysiadu methodoleg well sy'n caniatáu cyfradd newydd ar gyfer pob un o'r mathau o ddylunio ffyrdd.

Mae prisiadau interim yn defnyddio cyfres o gostau safonol i brisio cydrannau unigol y rhwydwaith ffyrdd, a mynegeion i ailbrisio'r rhain yn flynyddol.

Mae'r mynegeion allweddol ym mhrisiad y model RAAVS yn sensitif i ansicrwydd macroeconomaidd.

Gallai anwadaliadau yn y mynegeion hynny yn y dyfodol effeithio ar brisiad yr asedau hyn mewn cyfnodau adrodd dilynol. Mae'r dadansoddiad sensitifrwydd isod yn adlewyrchu'r effaith ar y prisiad Cost Amnewid Ddibrisiedig yn sgil newid pwynt canran yn y mynegeion allweddol.

| | Cost Amnewid Ddibrisiedig Cost (-) £m | Cost Amnewid Ddibrisiedig Cost (+) £m |
|---|---|---|
| Mynegai Baxter – 1% / +1% | (194) | 194 |
| Mynegai BEAMA – 1% / +1% | (1) | 1 |

Ar 21 Mawrth 2025, cyhoeddodd y Swyddfa Ystadegau Gwladol (SYG) seibiant i Fynegai Prisiau Cynhyrchwyr ONS (PPI) a Mynegeion Prisiau Cynhyrchwyr Gwasanaethau (SPPI) oherwydd mater a nodwyd gyda'r dulliau cysylltu cadwyn a ddefnyddir i gyfrifo'r mynegeion hyn. Mae'r mater yn effeithio ar y blynyddoedd o 2008 ymlaen, gyda'r effaith fwyaf ar gyfraddau blynyddol o 2020 hyd heddiw. I gael rhagor o wybodaeth gweler y datganiad canlynol gan SYG: Cyfraddau twf allbwn a mewnbwn dethol Mynegeion Prisiau Cynhyrchwyr a Mynegeion Prisiau Cynhyrchwyr Gwasanaethau – Y Swyddfa Ystadegau Gwladol.

Gallai'r mater hwn effeithio ar fynegai Baxter sy'n cael ei gymhwyso i brisio'r palmant ffordd a strwythurau, i adlewyrchu symudiadau chwyddiant mewn costau adeiladu. Gweinyddir mynegai Baxter gan y Gwasanaeth Gwybodaeth Costau Adeiladu (BCIS). Ar hyn o bryd mae BCIS yn asesu effaith diweddariadau SYG i'r mynegeion sydd eisoes wedi'u cyhoeddi ac nid yw wedi cyhoeddi penderfyniad eto ynghylch yr effaith ar fynegai Baxter. Nid yw'n sicr eto a fydd BCIS yn rhyddhau diweddariadau i fynegeion a gyhoeddwyd yn flaenorol neu a fyddant yn aros yn ddigyfnewid. Adeg paratoi'r cyfrifon, nid oes unrhyw ddiwygiadau wedi'u cyhoeddi i fynegai Baxter. Mae'r prisiad ffyrdd ar 31 Mawrth 2025 yn adlewyrchu amcangyfrif rheoli rhesymol yn seiliedig ar yr amodau hysbys a'r data sydd ar gael ar y dyddiad adrodd. Bydd unrhyw ddiwygiadau posibl i'r mynegai Baxter yn cael eu hystyried mewn cyfnodau adrodd dilynol.

### Y Rhwydwaith Rheilffyrdd

Trafnidiaeth Cymru (TrC) sy'n rheoli'r ased rhwydwaith rheilffyrdd a elwir yn Llinellau Craidd y Cymoedd, sy'n cynnwys llinellau Aberdâr, Coryton, Merthyr Tudful, Rhymni a Threherbert. Mae'n cael ei drin fel un ased seilwaith ac yn cael ei brisio ar Gost Amnewid Ddibrisiedig gan ddefnyddio model prisio a gafodd ei greu gan TrC gyda chymorth AtkinsRéalis UK Limited (priswyr proffesiynol) gan ddefnyddio data a ddarparwyd gan TrC. Cynhaliwyd y prisiad llawn diwethaf o'r rhwydwaith ar 31 Mawrth 2022 a chaiff ei gynnal o leiaf bob pum mlynedd. Cymhwysir mynegeion mewnbwn i restr brisiau safonol o gydrannau'r rhwydwaith mewn cyfnodau interim.

Er mwyn cynhyrchu'r prisiad hwn mae angen defnyddio rhagdybiaethau, amcangyfrifon a barn broffesiynol. Ystyrir mai'r rhagdybiaethau allweddol yn y prisiad yw: bywyd asedau a gweddill bywydau asedau cydrannau'r rhwydwaith, addasiad iawndal tir a ffactor risg. Ceir manylion llawn y rhagdybiaethau a'r ansicrwydd amcangyfrif yng nghyfrifon TrC: Adroddiad Blynyddol a Datganiadau Ariannol | Trafnidiaeth Cymru.

Mae'r dadansoddiad sensitifrwydd canlynol yn adlewyrchu'r ffynonellau allweddol o ansicrwydd amcangyfrif yn y prisiad, gan ddangos effaith newidiadau mewn rhagdybiaethau ynghylch gwerth cyffredinol ased Llinellau Craidd y Cymoedd.

- Mae **Senario 1** yn dangos effaith cynnydd neu leihad o 10% yng ngweddill bywydau asedau cydrannau'r rhwydwaith rheilffyrdd cyfatebol modern.
- Mae **Senario 2** yn dangos yr effaith pe bai'r addasiad iawndal tir (45% fel arfer) yn cynyddu neu'n lleihau 10%; h.y. addasiad iawndal o 35% neu 55% yn y drefn honno.
- Mae **Senario 3** yn dangos effaith addasiad i'r ffactor risg a gymhwysir i'r prisiadau DRC cyffredinol, sef 37.8% ar hyn o bryd, yn ôl cynnydd neu leihad o 10%, gan ddangos ffactorau risg o 47.8% a 27.8% i bob pwrpas.

| Math | Cost Amnewid Dibrisiedig Cost (-) £m | Cost Amnewid Ddibrisiedig Cost (+) £m |
|---|---|---|
| Senario 1 | (209) | 209 |
| Senario 2 | (43) | 43 |
| Senario 3 | (152) | 152 |

Mae'r model yn cymhwyso mynegeio i gyfraddau uned mewn blynyddoedd rhwng ailasesiadau llawn o gyfraddau uned. Y mynegai a ddefnyddir yw CPI-H ar gyfer tir a CPI ar gyfer pob categori arall o asedau.

Ceir rhagor o wybodaeth am brisio a dibrisiant Asedau'r Rhwydwaith yn Atodiad A – Polisïau Cyfrifyddu A.4 ac A.5.

## 4.2 Asedau Treftadaeth Anweithredol

Mae Llywodraeth Cymru yn dal asedau treftadaeth anweithredol lle mae'r gwerth diwylliannol, addysgol a hanesyddol yn annhebygol o gael ei adlewyrchu'n llawn mewn gwerth ariannol sy'n deillio o fecanwaith neu bris y farchnad. Mae'r asedau hyn yn arbenigol eu natur a naill ai ni ellir sicrhau prisiadau dibynadwy, neu ni ellid eu sicrhau ond am bris gormodol. Nid yw Llywodraeth Cymru felly'n cyfalafu'r asedau hyn yn y cyfrifon.

Mae asedau treftadaeth anweithredol Llywodraeth Cymru yng ngofal Cadw yn cynnwys:

- Cestyll a thai canoloesol.
- Safleoedd crefyddol, safleoedd Rhufeinig.
- Safleoedd ôl-ganoloesol a diwydiannol.
- Safleoedd cynhanesyddol.
- Copïau digidol neu recordiadau o luniau, arolygon.
- Casgliadau o eitemau hynafol.

Ceir rhagor o wybodaeth yn Adroddiad Blynyddol Cadw: Beth a wnawn ni | Cadw.

# 5. Asedau Anniriaethol

| | Technoleg Gwybodaeth | | | |
|---|---|---|---|---|
| | Ar 31 Mawrth 2025 | | Ar 31 Mawrth 2024 | |
| | Craidd LlC £m | Grŵp LlC £m | Craidd LlC £m | Grŵp LlC £m |
| **Cost neu brisiad ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2025** | | | | |
| Ar 1 Ebrill 2024 | 113 | 292 | 99 | 263 |
| Ychwanegiadau | 28 | 51 | 14 | 43 |
| Gwarediadau | (5) | (15) | - | (17) |
| Ailddosbarthiadau | - | (3) | - | 3 |
| **Ar 31 Mawrth 2025** | **136** | **325** | **113** | **292** |
| **Amorteiddiad ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2025** | | | | |
| Ar 1 Ebrill 2024 | 77 | 177 | 66 | 159 |
| Codwyd tâl yn y flwyddyn | 14 | 34 | 11 | 32 |
| Gwarediadau | (5) | (14) | - | (13) |
| Ailddosbarthiadau | - | (3) | - | (1) |
| **Ar 31 Mawrth 2025** | **86** | **194** | **77** | **177** |
| **Swm cario ar 31 Mawrth 2025** | **50** | **131** | **36** | **115** |
| Swm cario ar 31 Mawrth 2024 | 36 | 115 | 33 | 104 |

# 6. Asedau Ariannol – Buddsoddiadau a Benthyciadau

| | Benthyciadau i Fyfyrwyr £m | Cyfalaf Difidend Cyhoeddus Ymddiriedolaethau'r GIG £m | Asedau Ariannol Eraill Asedau £m | Cyfanswm £m |
|---|---|---|---|---|
| **Balans ar 31 Mawrth 2023** | **7,052** | **-** | **1,196** | **8,248** |
| Ychwanegiadau | 914 | - | 234 | 1,148 |
| Gwarediadau/dileadau | - | - | - | - |
| Ad-daliadau benthyciadau | (225) | - | (198) | (423) |
| Amhariadau | - | - | (3) | (3) |
| Addasiad gwerth teg | - | - | - | - |
| (Enillion)/colledion gwerth teg net ar asedau ariannol yn ôl gwerth teg drwy SOCNE (gweler nodyn 3 Gwariant)[b] | 492 | - | 37 | 529 |
| Dileadau polisi | (28) | - | - | (28) |
| Ailddosbarthu | - | - | - | - |
| Addasiadau | (27) | - | 21 | (6) |
| **Balans ar 31 Mawrth 2024**[a] | **8,178** | **-** | **1,287** | **9,465** |
| Ychwanegiadau | 963 | - | 259 | 1,222 |
| Gwarediadau/dileadau | - | - | - | - |
| Ad-daliadau benthyciadau | (220) | - | (121) | (341) |
| Amhariadau | - | - | (1) | (1) |
| Addasiad gwerth teg | - | - | - | - |
| (Enillion)/colledion gwerth teg net ar asedau ariannol yn ôl gwerth teg drwy SOCNE (gweler nodyn 3 Gwariant)[b] | (34) | - | (3) | (37) |
| Dileadau polisi | (38) | - | - | (38) |
| Ailddosbarthu | - | - | - | - |
| Addasiadau | - | - | (2) | (2) |
| **Balans ar 31 Mawrth 2025**[a] | **8,849** | **-** | **1,419** | **10,268** |
| **Craidd Llywodraeth Cymru yn unig** | | | | |
| **Ar 31 Mawrth 2025** | **8,849** | **265** | **2,749** | **11,863** |
| **Ar 31 Mawrth 2024** | **8,178** | **258** | **2,594** | **11,030** |

a Cynhwysir yn y balans a gariwyd ymlaen £393m (2023-24: £292m) sy'n ddyledus o fewn blwyddyn.

b Mae asedau ariannol Cymorth i Brynu – Cymru yn cael eu mesur yn ôl gwerth teg drwy Ddatganiad o Wariant Net Cynhwysfawr. Gellir priodoli colled gwerth teg benthyciadau myfyrwyr yn 2024-25 o £34m (2023-24: £492m elw gwerth teg) yn bennaf i'r diweddariad yn setiau data benthycwyr y Cwmni Benthyciadau i Fyfyrwyr. Ar gyfer 2024-25, defnyddiwyd data ar gyfer blwyddyn ariannol 2023-24, ac yn 2023-24 defnyddiwyd data ar gyfer blwyddyn ariannol 2021-22. Gellir hefyd priodoli'r golled gwerth teg yn rhannol i gynnydd o 0.2% yng nghyfradd gostyngiad Trysorlys EF (minws 1.05% 2023-24 i minws 0.85% 2024-25). Nodir manylion pellach mesuriad gwerth teg benthyciadau i fyfyrwyr a'r cysylltiad â risgiau isod. Mae asedau ariannol Cymorth i Brynu – Cymru yn cael eu mesur yn ôl gwerth teg drwy Ddatganiad o Wariant Net Cynhwysfawr. Mae rhagor o wybodaeth am falans agor a chau ased ariannol Cymorth i Brynu – Cymru a'r lefel hierarchaeth ar gyfer mesur gwerth teg i'w gweld yng nghyfrifon Banc Datblygu Cymru PLC.

## Gwerth Enwol

Mae'r tabl isod yn rhoi cysoniad rhwng gwerth cario a gwerth enwol benthyciadau i fyfyrwyr a roddwyd.

| | Benthyciadau i Fyfyrwyr £m |
|---|---|
| **Balans ar 31 Mawrth 2023** | **8,078** |
| Ychwanegiadau | 914 |
| Ad-daliadau | (225) |
| Llog | 605 |
| Dileadau polisi | (28) |
| **Balans ar 31 Mawrth 2024** | **9,344** |
| Ychwanegiadau | 963 |
| Ad-daliadau | (220) |
| Llog | 666 |
| Dileadau polisi | (37) |
| **Balans ar 31 Mawrth 2025** | **10,716** |
| | |
| **Addasiadau/amhariadau cau ar gyfer gwerth teg:** | |
| **Ar 31 Mawrth 2025** | **(1,867)** |
| Ar 31 Mawrth 2024 | (1,166) |
| | |
| **Gwerth cario:** | |
| **Ar 31 Mawrth 2025** | **8,849** |
| Ar 31 Mawrth 2024 | 8,178 |

Trafodir cysylltiad y Grŵp â risgiau amrywiol sy'n gysylltiedig â'r offerynnau ariannol yn y polisïau cyfrifyddu yn A.7.

Y cysylltiad mwyaf â risg credyd ar ddiwedd y cyfnod adrodd yw swm cario pob dosbarth o ased ariannol a grybwyllir uchod.

Mae'r dileadau polisi yn cynnwys symiau a ddilëwyd gan y Cwmni Benthyciadau i Fyfyrwyr mewn perthynas â chanslo'n rhannol, oedran, marwolaeth, methdaliad a methu â gweithio.

## 6.1 Benthyciadau i Fyfyrwyr

Mae benthyciadau i fyfyrwyr mewn addysg uwch ac addysg bellach yn tarddu o Lywodraeth Cymru ac yn cael eu cydnabod ganddi.

### Benthyciadau i fyfyrwyr

O dan IFRS 9, mae benthyciadau i fyfyrwyr yn cael eu cydnabod yn ôl gwerth teg drwy'r Datganiad o Wariant Net Cynhwysfawr (SOCNE). Wrth bennu gwerth teg benthyciadau i fyfyrwyr, mae Llywodraeth Cymru wedi defnyddio model llif arian parod wedi'i ddisgowntio (gweler isod) sy'n cynnwys yr holl lifoedd arian parod disgwyliedig, gan gynnwys y llog y disgwylir iddo ddod i law. O ganlyniad, cydnabyddir bellach un symudiad gwerth teg yn y Datganiad o Wariant Net Cynhwysfawr.

Wrth ystyried dibynadwyedd y mewnbynnau a ddefnyddir wrth benderfynu ar werth teg, mae benthyciadau i fyfyrwyr wedi'u categoreiddio fel mewnbynnau lefel 3 o dan y safonau cyfrifyddu, a ddiffinnir fel hyn: *If one or more of the significant inputs is not based on observable market data, the instrument is included as level 3*. Mae gwerth teg benthyciadau i fyfyrwyr, felly, yn cael ei gyfrifo gan ddefnyddio model ariannu Llwybr Enillion Stocastig (StEP) a ddarperir gan Adran Addysg Llywodraeth y DU.

Cyfrifir gwerth teg benthyciadau newydd hefyd gan ddefnyddio'r model StEP sy'n defnyddio data am ddemograffeg myfyrwyr addysg uwch er mwyn darogan y tebygolrwydd y byddant yn ad-dalu benthyciadau. Mae sawl amrywiad o'r model, wedi'u haddasu ar gyfer benthycwyr sy'n cymryd gwahanol fathau o fenthyciadau: benthyciadau cyn 2012 ac ar ôl 2012 (benthyciadau Israddedig, Rhan-amser a Meistr a Doethuriaeth Ôl-raddedig). Mae'r modelau i gyd yn dibynnu ar set gymhleth o ragdybiaethau, ac yn arbennig enillion benthycwyr. Modelau hirdymor yw'r rhain, ond maent yn defnyddio rhagolygon hirdymor a byrdymor diweddaraf (adeg y modelu) y Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol (OBR) ar gyfer RPI, cyfraddau sylfaenol a thwf enillion. Wrth eu natur, mae gwerth y llyfrau benthyciadau i fyfyrwyr yn ansicr gan eu bod yn dibynnu i raddau helaeth ar amgylchiadau macroeconomaidd ac enillion graddedigion dros y 30 mlynedd nesaf, yn ogystal â nifer o ragdybiaethau cymhleth eraill. Mae'r rhagdybiaethau a ddefnyddir yn y modelau ad-dalu'n cael eu hadolygu'n ffurfiol bob blwyddyn ac mae'r symiau'n adlewyrchu'r amcangyfrif fel yr oedd ar 31 Mawrth 2025.

Mae Llywodraeth Cymru yn defnyddio 1 pwynt canran o gynnydd/gostyngiad ar gyfer holl amodau economaidd dadansoddi sensitifrwydd benthyciadau myfyrwyr. Yn ein barn ni, mae defnyddio 1 pwynt canran o gynnydd neu ostyngiad: er enghraifft ar gyfer newidyn 9%, effaith cymhwyso 8% neu 10% ar gyfer pob newidyn, yn rhoi dadansoddiad cliriach a symlach o effaith symudiadau yn y newidynnau, yn enwedig mewn blynyddoedd lle mae llawer o anwadalrwydd mewn amodau economaidd.

### Pontio rhwng Modelau

Ym mis Chwefror 2024, ymunodd Llywodraeth Cymru â Chytundeb Lefel Gwasanaeth gyda'r Adran Addysg i ddatblygu a chynnal Model Benthyciadau Myfyrwyr Cymru, ar y cyd â'r gweinyddiaethau datganoledig eraill. Mae'r Adran Addysg wedi disodli'r model StEP blaenorol â model newydd sy'n cynnwys gwelliannau methodolegol.

Mae elfennau'r model newydd yn cael eu cyflwyno'n raddol, a chafodd prisiad 2024-25 ei gynnal mewn modd 'hybrid' gan ddefnyddio'r cydrannau newydd ar gyfer newydd-ddyfodiaid a gwariant, a'r model presennol ar gyfer enillion ac ad-daliadau. Yn 2023-24 cafodd y modelau eu darparu gan yr Adran Addysg a'u haddasu i'w defnyddio ar gyfer myfyrwyr Cymru. Roedd hyn yn cynnwys eu diweddaru â data amrywiol a phenderfynyddion wedi'u diweddaru. O dan y Cytundeb Lefel Gwasanaeth, mae'r Adran

Addysg wedi darparu'r addasiadau a'r diweddariadau hyn ar gyfer 2024-25 a Llywodraeth Cymru wedi cymeradwyo allbynnau'r model ac wedi derbyn perchnogaeth dros asedau'r modelau terfynol.

Disgwylir i'r trosglwyddiad llawn i fodel sy'n defnyddio'r pedair cydran newydd ddigwydd tua diwedd 2025, ar ôl i waith profi boddhaol gael ei gwblhau. Nod y model newydd yw cysoni methodolegau rhwng y pedair gweinyddiaeth o ran cymaroldeb ac effeithlonrwydd, yn ogystal â gwella cywirdeb rhagolygon gan ddefnyddio technegau methodolegol mwy modern a data newydd am enillion.

Fel yn achos y model StEP presennol, mae'r model newydd yn cynnwys pedwar is-fodel – model newydd-ddyfodiaid, model gwariant, model enillion a model ad-daliadau, i rag-weld canlyniadau ar gyfer myfyrwyr sy'n benthyca.

- Mae'r model newydd-ddyfodiaid yn defnyddio data'r Cwmni Benthyciadau i Fyfyrwyr ynghylch myfyrwyr o Gymru, ynghyd â rhagolygon poblogaeth y Swyddfa Ystadegau Gwladol, yn fewnbwn i rag-weld newidiadau o ran y myfyrwyr a fydd yn dod i mewn i'r system yn y blynyddoedd i ddod.
- Mae'r model gwariant wedi'i sefydlu i ragfynegi gwariant benthyciadau a benthyciadau cynnal a chadw ar gyfer benthycwyr sy'n byw yng Nghymru gan ddefnyddio data SLC hanesyddol a gwybodaeth am bolisi benthyciadau myfyrwyr Cymru.
- Mae'r model enillion yn cyfrifo "llwybrau" enillion ar gyfer benthycwyr unigol ar ôl iddynt raddio, gan ddefnyddio newidynnau mewnbwn megis lefel y cwrs, domisil a'r pwnc a astudiwyd i amcangyfrif enillion yn y blynyddoedd i ddod.
- Mae'r model ad-daliadau wedyn yn defnyddio rhagolygon macroeconomaidd megis chwyddiant y Mynegai Prisiau Manwerthu (RPI), cyfraddau llog cyfradd ddisgownt Trysorlys EF a thwf enillion i rag-weld yr ad-daliadau yn unol â phob "llwybr" enillion.

Mae dadansoddiad rhagarweiniol o brofion sampl yn dangos bod y fethodoleg newydd ar gyfer enillion ac ad-daliadau yn perfformio'n well na'r model StEP o ran rhagfynegi enillion, gyda gwell cywirdeb a llai o duedd. Mae rhagolygon enillion y fethodoleg newydd yn cyd-fynd â data gwirioneddol ar draws meysydd pwnc, rhywedd, a lefelau cwrs, ac mae gwall absoliwt canolrifol yn cael ei leihau'n sylweddol. Bydd newid i ddefnyddio'r model newydd ar gyfer 2025-26 yn cael effaith ar werth teg y llyfr benthyciadau. Amcangyfrifir y bydd yr effaith bosibl yn fwy na £2bn, a hynny'n bennaf oherwydd rhagolygon is o ran enillion ac ad-daliadau.

### Newidynnau Allweddol

Disgrifir isod y **newidynnau** allweddol a'r rhagdybiaethau a ddefnyddir yn y model. Yn ogystal, meintiolir sensitifrwydd llyfrwerth net benthyciadau i fyfyrwyr, ar 31 Mawrth 2025, i bob newidyn.

Mae'r dadansoddiad o sensitifrwydd ar gyfer 2024-25 wedi'i gyfrifo gyda phwynt canran +/- 1 wedi'i gymhwyso i gyfradd ddisgownt Trysorlys Ei Fawrhydi, ac i dwf enillion o 2024-25, i 2029-30 (y tymor byrrach) a dychwelyd i'r rhagdybiaethau sylfaenol o 2030-31 ymlaen (y tymor hwy). Mae hwn yn newid o'r dadansoddiad o sensitifrwydd ar gyfer 2023-24, lle y cymhwyswyd pwynt canran +/- 1 i gyfradd ddisgownt a thwf enillion Trysorlys Ei Fawrhydi ar gyfer y gyfres amser gyfan. Diben arfaethedig y dadansoddiad o sensitifrwydd yw ystyried rhagdybiaethau a allai newid yn rhesymol yn y tymor byr. Fel rhan o'r adolygiad parhaus o'r dadansoddiad sensitifrwydd, barnwyd bod y cyfnod byrrach yn cynrychioli sioc economaidd yn y tymor byr yn fwy cywir yn hytrach na newid parhaus yn y ffordd y mae'r economi yn gweithio.

Mae'r dadansoddiad sensitifrwydd a ddatgelir isod yn adlewyrchu'r effeithiau ar fenthyciadau Israddedigion amser llawn yn unig. Mae gradd Meistr ôl-raddedig wedi'i heithrio o'r dadansoddiad sensitifrwydd gan fod y benthyciadau hyn wedi'u modelu gan ddefnyddio canrannau dileu o ddim ar gyfer RAB a stoc yn y cyfrifiadau gwerth teg, felly ni fyddai prisiad y benthyciadau hyn yn cael ei effeithio gan y newidiadau mewn rhagdybiaethau sydd wedi'u cynnwys yn y dadansoddiad sensitifrwydd ar gyfer benthyciadau Israddedigion.

**Cyfradd ddisgownt:** Mae Llywodraeth Cymru wedi ystyried yr egwyddorion o dan IFRS 9 ac wedi defnyddio'r gyfradd uchaf sy'n perthyn i'r benthyciad myfyrwyr neu'r gyfradd fel y'i nodir ym mhapur diweddaraf System Gwariant Cyhoeddus (PES) Trysorlys Ei Fawrhydi, sef RPI minws 0.85% (2023-24: minws 1.05%). Yn 2023-24, defnyddiwyd cyfradd ddisgownt hollt i fodelu Benthyciadau Myfyrwyr. Mae hyn wedi parhau yn 2024-25, gyda 0.05% (2023-24: minws 0.05%) yn cael ei ddefnyddio o 2030-31. Hon yw cyfradd ddisgownt hirdymor Trysorlys EF, sef cost benthyca hirdymor y Llywodraeth. Ar gyfer pob 1 pwynt canran o gynnydd yng nghyfradd ddisgownt Trysorlys EF bydd gostyngiad o £332.2m; yn llyfrwerth net y llyfr benthyciadau i fyfyrwyr; bydd gostyngiad o 1 pwynt canran yn golygu cynnydd o £352.2m.

**Chwyddiant RPI:** Mae'r model yn defnyddio cyfraddau RPI yn unol â rhagolygon tymor byr yr OBR (Mawrth 2025) tan 2029-30, a phenderfynyddion economaidd hirdymor yr OBR o 2030-31 ymlaen. Mae'r rhagolwg RPI hirdymor yn sefydlogi ar gyfradd o 2.00% o 2030-31. Gellir galluogi darpariaethau deddfwriaethol er mwyn lleihau dros dro yr uchafswm llog sy'n daladwy ar fenthyciadau i fyfyrwyr Cynllun 2 a Chynllun 3. Bydd cynnydd o 1 pwynt canran yn yr RPI a ragwelir yn arwain at ostyngiad o £924.2m yn llyfrwerth net y llyfr benthyciadau i fyfyrwyr; bydd gostyngiad o 1 pwynt canran yn arwain at gynnydd o £888.4m yn y llyfrwerth net.

**Enillion graddedigion:** Mae'r model yn rhagdybio y bydd twf enillion enwol cyfartalog tymor byr yn unol â rhagolygon tymor byr yr OBR (Mawrth 2025) tan 2029-30, a phenderfynyddion economaidd hirdymor yr OBR o 2030-31 ymlaen. Tybir y bydd twf enillion hirdymor yn gyfradd o 3.71% rhwng 2033-34 a 2035-36, a 3.83% o 2036-37. Ar gyfer pob cynnydd o 1 pwynt canran mewn enillion graddedigion, bydd llyfrwerth net y llyfr benthyciadau i fyfyrwyr yn cynyddu £368.0m; bydd gostyngiad o 1 pwynt canran yn arwain at ostyngiad o £387.8m yn llyfrwerth net benthyciadau myfyrwyr.

**Trothwy enillion graddedigion:** Y trothwy ad-dalu ar gyfer yr holl fenthyciadau ar ôl 2012 yn 2024-25 oedd £27,295 y flwyddyn. Ar gyfer 2025-26 bydd hyn yn newid i £28,470 y flwyddyn. Gellir gweld y trothwyon ad-dalu ar gyfer benthyciadau ar ôl 2012 yma. Mae benthyciadau myfyrwyr ar ôl 2012 yn cael eu haddasu yn flynyddol yn unol ag RPI. Ar gyfer benthyciadau cyn 2012 (Cynllun 1), trothwy enillion 2024-25 oedd £24,990 y flwyddyn. Fel penderfyniad polisi, nid yw hyn wedi bod yn destun dadansoddiad sensitifrwydd.

**Dosbarthiad Incwm Graddedigion:** Mae'r model yn rhagdybio y bydd dosbarthiadau incwm graddedigion yn y dyfodol yn debyg i rai graddedigion yn y gorffennol ac fe'u seilir ar ddata hanesyddol yr Arolwg o'r Llafurlu (2000-2015), Arolwg Panel Cartrefi Prydain (1991-2009) a data gweinyddol a ddelir gan y Cwmni Benthyciadau i Fyfyrwyr (2024). Ni fu hyn yn destun dadansoddiad sensitifrwydd.

**Dileu'n rhannol:** Mae dileu'n rhannol yn bolisi gan Lywodraeth Cymru sy'n gymwys i fenthyciadau cynnal a chadw, lle y gellir cymhwyso dilead o hyd at £1,500 wrth gael yr ad-daliad cyntaf yn erbyn y benthyciad os nad oes gan y myfyriwr unrhyw daliadau, costau, treuliau neu gosbau heb eu talu mewn perthynas â'r benthyciad neu os ydynt yn torri cytundeb y benthyciad. Fel penderfyniad polisi, ni fu hyn yn destun dadansoddiad sensitifrwydd.

**Cyfraddau sylfaenol:** Mae'r model yn rhagdybio y bydd cyfraddau sylfaenol Banc Lloegr yn cyd-fynd â rhagolygon yr OBR. Ceir cyfraddau tymor byr (hyd at 2030) o fis Mawrth 2025; ceir cyfraddau tymor hir o fis Mai 2024. Mae cap cyfradd sylfaenol tymor hir yn cael ei gymhwyso i gyfraddau llog Cynllun 1 pan fydd y gyfradd sylfaenol yn isel a'r gyfradd RPI yn gymharol uchel; bydd cynnydd yn y rhagolwg cyfradd sylfaenol yn cynyddu'r gwerth cario ymlaen yn yr achos hwn.

Bydd cynnydd o 1 pwynt canran yn y gyfradd sylfaenol yn arwain at gynnydd o £3.7m yn llyfrwerth y llyfr benthyciadau i fyfyrwyr; bydd gostyngiad o 1 pwynt canran yn arwain at ostyngiad o £4.3m.

Mae data hanesyddol dros y deng mlynedd diwethaf yn dangos sut mae newidiadau diweddar i dwf enillion, cyfraddau RPI a chyfraddau sylfaenol yn cymharu â'r lefelau presennol a'r rhagolygon hirdymor:

- Rhagdybiaeth hirdymor yr OBR ar gyfer **twf enillion** ar hyn o bryd yw 3.83%. Adeg y modelu, 5.08% oedd rhagolwg yr OBR ar gyfer cyfartaledd y flwyddyn ariannol o dwf enillion yn 2024-25; yn y deg blwyddyn ariannol flaenorol, roedd ffigurau alldro'r Swyddfa Ystadegau Gwladol yn amrywio rhwng 1.80% a 6.90%.
- Rhagdybiaeth hirdymor yr OBR ar gyfer **RPI** ar hyn o bryd yw 2.00%. Ar adeg y modelu, 3.2% oedd RPI mis Mawrth yn 2024-25; yn y deg blwyddyn ariannol flaenorol roedd ffigurau alldro'r Swyddfa Ystadegau Gwladol yn amrywio rhwng 0.90% ac 13.50%.
- Ar hyn o bryd rhagwelir y bydd rhagdybiaeth hirdymor yr OBR ar gyfer **cyfraddau sylfaenol** yn codi i 4.24% yn 2073-74. Adeg y modelu, roedd rhagolwg yr OBR ar gyfer y gyfradd sylfaenol yn 4.93% ar gyfartaledd yn ystod 2024-25; yn ystod y deg blwyddyn ariannol flaenorol, roedd yr alldroadau yn amrywio rhwng 0.10% a 5.25%.
- Yn ystod y blynyddoedd diwethaf, mae'r **gyfradd ddisgownt** wedi newid o 3.7% yn 2015, i 0.7% i'w defnyddio o 31 Mawrth 2021 ymlaen. I'w defnyddio o 31 Mawrth 2022 ymlaen, cyhoeddwyd y gyfradd ddisgownt am y tro cyntaf mewn dwy ran. Mae'r cyfraddau disgownt ers hynny wedi'u crynhoi yn y tabl isod:

| Dyddiad dod i rym | Cyfradd Disgownt (hyd at 2030) | Cyfradd Disgownt (o 2030 ymlaen) |
|---|---|---|
| 31 Mawrth 2022 | -1.1% | -0.2% |
| 31 Mawrth 2023 | -1.3% | -0.2% |
| 31 Mawrth 2024 | -1.05% | -0.05% |
| 31 Mawrth 2025 | -0.85% | 0.05% |

Defnyddir nifer o ragdybiaethau eraill yn y model, ond nid yw newid y rhain i ganlyniadau rhesymol eraill yn cael effaith sylweddol ar werth y llyfrau benthyciadau. Mae llawer o'r rhagdybiaethau yn annibynnol ar ei gilydd, er y gallent newid ar yr un pryd.

Gellir dod o hyd i ddata ar y newidynnau allweddol uchod, gan gynnwys rhai hanesyddol, ar wefannau'r Swyddfa Ystadegau Gwladol (www.ons.gov.uk); y Swyddfa'r Cyfrifoldeb Cyllidebol (www.obr.uk); a Banc Lloegr (www.bankofengland.co.uk). Gwybodaeth ystadegol am Fyfyrwyr.

Mae benthyciadau ar gael ar wefan y Cwmni Benthyciadau i Fyfyrwyr (y datganiad ystadegol diweddaraf: Benthyciadau myfyrwyr ar gyfer addysg uwch ac addysg bellach – GOV.UK (www.gov.uk)).

## 6.2 Cyfalaf Difidend Cyhoeddus Ymddiriedolaethau'r GIG

Cynrychiolir buddsoddiad Llywodraeth Cymru yn Ymddiriedolaethau'r GIG gan Gyfalaf Difidend Cyhoeddus (PDC). Delir PDC yn unol â dehongliad FReM o IFRS 9 ar gost hanesyddol, llai amhariadau, yn gyson â blynyddoedd blaenorol. Adeg cyfuno Ymddiriedolaethau'r GIG caiff y buddsoddiad PDC ei ddileu.

## 6.3 Asedau Ariannol Eraill

Mae Llywodraeth Cymru yn rhoi offerynnau ariannol, yn enwedig benthyciadau, i gyrff eraill y sector cyhoeddus yng Nghymru a chyllid a benthyciadau i fusnesau i gefnogi datblygu economaidd. Mae'r benthyg hwn yn digwydd fel rhan o'i gweithgareddau arferol ac nid yw Llywodraeth Cymru yn ymgymryd ag unrhyw weithgarwch masnachu yn yr offerynnau ariannol hyn. Fel offerynnau dyled syml delir y mwyafrif o asedau ariannol Craidd Llywodraeth Cymru ar gyfer casglu llif arian parod contractiol, ac felly maent yn cael eu dal yn ôl cost wedi'i hamorteiddio o dan IFRS 9. Mae asedau ariannol Cymorth i Brynu – Cymru yn cael eu dal yn ôl gwerth teg drwy

Ddatganiad o Wariant Net Cynhwysfawr, ac maent yn cael eu dileu o gyfrif Craidd Llywodraeth Cymru wrth i Fanc Datblygu Cymru gael ei gyfuno. Ni ddelir unrhyw asedau ariannol perthnasol yn ôl gwerth teg drwy Wariant Net Cynhwysfawr Cyfunol Arall yng nghyfrif Craidd Llywodraeth Cymru.

Mae gwerth teg llyfr benthyciadau rhannu ecwiti Cymorth i Brynu – Cymru o £363m (31 Mawrth 2024: £355m) yn cael ei gyfrifo drwy nodi llifoedd arian a ragwelir yn y dyfodol a disgowntio'r rhain ar gyfradd briodol. Mae'r cyfrifiad hwn yn defnyddio nifer o ragdybiaethau, yn enwedig rhagolwg ar gyfer y Mynegai Prisiau Tai (HPI) yn y dyfodol, cyfradd ddisgownt yn seiliedig ar ystod o fondiau tai tebyg â phroffiliau risg tebyg i'r portffolio HtBW a phroffil adbryniadau benthyciadau. Mae'r model yn defnyddio data trafodiadau arsylwadwy a data rhagolwg HPI, a ddarperir drwy ddadansoddiad annibynnol o'r farchnad, i rag-weld y gyfradd HPI hirdymor yng Nghymru. Ceir rhagor o fanylion am fodel gwerth teg Cymorth i Brynu – Cymru yng nghyfrifon Banc Datblygu Cymru.

Cynhwysir yn 'Asedau Ariannol Eraill' ar 31 Mawrth 2025 £21.9m (31 Mawrth 2024: £21.9m) o fuddsoddiad ym Maes Awyr Rhyngwladol Caerdydd Cyfyngedig (CIAL) drwy WGC Holdco Limited a benthyciad o £36m gan Lywodraeth Cymru i CIAL gan gynnwys llog o £8.8m sydd wedi'i gyfalafu ar y benthyciad, nad yw'n ddyledus i Lywodraeth Cymru eto (31 Mawrth 2024: benthyciad o £26.3m a llog o £5.7m.) Mae'r balansau hyn yn adlewyrchu'r buddsoddiad a'r benthyciadau i'r maes awyr net dileadau ac amhariadau o ganlyniad i effaith pandemig COVID-19 ar y diwydiant hedfan yn 2020-21.

Yn dilyn datganiad ysgrifenedig ar 22 Gorffennaf 2024 yn amlinellu strategaeth hirdymor Gweinidogion Cymru ar gyfer Maes Awyr Caerdydd a phecyn buddsoddi arfaethedig o £206m, cyfeiriwyd y buddsoddiad arfaethedig at yr Awdurdod Cystadleuaeth a Marchnadoedd (CMA) ar 15 Awst 2024. Cyhoeddodd y CMA ei adroddiad ar y pecyn buddsoddi arfaethedig ar 2 Hydref 2024. Ar ôl ystyried yr adborth gan y CMA a'r holl bartïon â buddiant, mireiniodd Llywodraeth Cymru fanylion technegol y buddsoddiad arfaethedig. Cafodd manylion pecyn cymhorthdal a gymeradwywyd gan Weinidogion Cymru ar gyfer Maes Awyr Caerdydd, sef hyd at £205.2m dros 10 mlynedd, eu lanlwytho i gronfa ddata tryloywder cymorthdaliadau'r DU ym mis Ebrill 2025, a chafodd y taliad cyntaf o £20m ei wneud ym mis Ebrill 2025. I gael rhagor o wybodaeth, gweler y datganiad ysgrifenedig canlynol gan Weinidogion Cymru: Datganiad Ysgrifenedig: Diweddariad ar Becyn Buddsoddi Llywodraeth Cymru ar gyfer Maes Awyr Caerdydd (9 Gorffennaf 2025) | LLYW. CYMRU.

Ar 25 Mehefin 2025, cafodd Llywodraeth Cymru wybod bod Maes Awyr Bryste yn herio penderfyniad Gweinidogion Cymru i wneud y buddsoddiad cymhorthdal hwn drwy apelio i'r Tribiwnlys Apêl Cystadleuaeth (CAT). Mae crynodeb o brif seiliau'r her gyfreithiol wedi'i gyhoeddi ar wefan CAT www.catribunal.org.uk/. Bydd Llywodraeth Cymru yn amddiffyn yr her gyfreithiol hon. Mae gwrandawiad wedi'i drefnu ar gyfer 9 Chwefror 2026. Nid yw'n glir eto pa mor hir y gallai gymryd i'r her gyfreithiol ddod i'w chasgliad.

Mae'r asedau ariannol Grŵp eraill ac eithrio'r rhai â Maes Awyr Rhyngwladol Caerdydd a nodir uchod yn cynnwys: Buddiannau ariannol Llywodraeth Cymru mewn cyd-fentrau, benthyciadau a buddsoddiadau eraill, benthyciadau Buddsoddi i Arbed gydag Awdurdodau Lleol a chyrff cyhoeddus eraill £978m (2023-24: £809m); ac asedau a ddelir gan Fanc Datblygu Cymru PLC £414m (2023-24: £424m) ac asedau ariannol Grŵp eraill £6m (2023-24: £6m).

# 7. Stocrestri

| | Ar 31 Mawrth 2025 | | Ar 31 Mawrth 2024 | |
|---|---|---|---|---|
| | Craidd LlC £m | Grŵp LlC £m | Craidd LlC £m | Grŵp LlC £m |
| Asedau datblygu | 222 | 222 | 200 | 200 |
| Cyffuriau | 22 | 62 | 19 | 57 |
| Defnyddiau traul eraill | 3 | 95 | 3 | 95 |
| **Cyfanswm** | **247** | **379** | **222** | **352** |

# 8. Symiau Derbyniadwy drwy Fasnach a Symiau Derbyniadwy Eraill

| | Ar 31 Mawrth 2025 | | Ar 31 Mawrth 2024 | |
|---|---|---|---|---|
| | **Craidd LlC £m** | **Grŵp LlC[a] £m** | **Craidd LlC £m** | **Grŵp LlC[a] £m** |
| **Symiau sy'n ddyledus cyn pen un flwyddyn:** | | | | |
| Symiau derbyniadwy drwy fasnach | 202 | 504 | 129 | 416 |
| Treth arall | 14 | 14 | 14 | 14 |
| Rhagdaliadau ac incwm cronnus | 166 | 292 | 247 | 362 |
| | **382** | **810** | **390** | **792** |
| **Symiau sy'n ddyledus ar ôl mwy nag un flwyddyn:** | | | | |
| Symiau derbyniadwy drwy fasnach | 2 | 212 | 3 | 185 |
| Rhagdaliadau | - | 5 | - | 4 |
| Symiau derbyniadwy eraill | 9 | 61 | 11 | 29 |
| | **11** | **278** | **14** | **218** |
| **Cyfanswm** | **393** | **1,088** | **404** | **1,010** |

a Wedi'i gynnwys yng nghyfanswm derbyniadau Grŵp drwy fasnach mae£317m (2023-24: £268m) o fenthyciadau a ddelir ar gost amortedig gan Fanc Datblygu Cymru PLC. Mae cynnwys ffigurau mewn symiau derbyniadwy drwy fasnach yn adlewyrchu'r ffordd y cânt eu trin yn y cyfrifon archwiliedig sylfaenol gan fod trafodiadau benthyciadau ar gyfer Banc Datblygu Cymru yn rhan o'u busnes craidd.

# 9. Arian Parod a'r Hyn sy'n Cyfateb i Arian Parod

| | Ar 31 Mawrth 2025 | | Ar 31 Mawrth 2024 | |
|---|---|---|---|---|
| | Craidd LlC £m | Grŵp LlC £m | Craidd LlC £m | Grŵp LlC £m |
| **Balans ar 1 Ebrill** | **244** | **1,562** | **28** | **1,354** |
| Newid net mewn balansau arian parod a'r hyn sy'n cyfateb i arian parod | (133) | (118) | 216 | 208 |
| **Balans ar 31 Mawrth** | **111** | **1,444** | **244** | **1,562** |
| **Roedd y balansau canlynol yn cael eu dal yn:** | | | | |
| Gwasanaeth Bancio'r Llywodraeth | 111 | 202 | 238 | 330 |
| Banciau masnachol ac arian parod mewn llaw | - | 1,242 | 6 | 1,232 |
| **Cyfanswm** | **111** | **1,444** | **244** | **1,562** |

# 10. Symiau Taladwy drwy Fasnach a Symiau Taladwy Eraill

| | Ar 31 Mawrth 2025 | | Ar 31 Mawrth 2024 | |
|---|---|---|---|---|
| | Craidd LlC £m | Grŵp LlC £m | Craidd LlC £m | Grŵp LlC £m |
| **Symiau sy'n ddyledus cyn pen un flwyddyn:** | | | | |
| Trethi a nawdd cymdeithasol | 11 | 118 | 11 | 101 |
| Symiau taladwy drwy fasnach a symiau taladwy eraill | 1,367 | 2,434 | 1,120 | 2,177 |
| Incwm Gohiriedig yr Undeb Ewropeaidd | - | - | 6 | 6 |
| Croniadau eraill ac incwm gohiriedig | 401 | 515 | 435 | 514 |
| Symiau sy'n daladwy i Gronfa Gyfunol Cymru | 103 | 103 | 164 | 164 |
| Rhwymedigaethau o dan PFI a threfniadau consesiwn gwasanaeth eraill | 11 | 20 | 10 | 18 |
| Rhwymedigaethau o dan lesoedd | 5 | 95 | 5 | 79 |
| | **1,898** | **3,285** | **1,751** | **3,059** |
| **Symiau sy'n ddyledus ar ôl mwy nag un flwyddyn:** | | | | |
| Symiau taladwy drwy fasnach a symiau taladwy eraill | 4 | 4 | 4 | 4 |
| Croniadau eraill ac incwm gohiriedig | - | 18 | - | 35 |
| Rhwymedigaethau o dan PFI a threfniadau consesiwn gwasanaeth eraill | 578 | 741 | 496 | 590 |
| Rhwymedigaethau o dan lesoedd | 46 | 639 | 50 | 575 |
| | **628** | **1,402** | **550** | **1,204** |
| **Cyfanswm** | **2,526** | **4,687** | **2,301** | **4,263** |

# 11. Darpariaethau ar gyfer Atebolrwyddau a Thaliadau

| | Ar 31 Mawrth 2025 | | Ar 31 Mawrth 2024 | |
|---|---|---|---|---|
| | Craidd LlC £m | Grŵp LlC £m | Craidd LlC £m | Grŵp LlC £m |
| **Balans ar 1 Ebrill** | **1,784** | **1,887** | **1,638** | **1,736** |
| Darparwyd yn y flwyddyn | 451 | 490 | 426 | 472 |
| Darpariaethau nad oes mo'u hangen ac a adferwyd | (173) | (184) | (146) | (166) |
| Trosglwyddo | (2) | (1) | (13) | (12) |
| Darpariaethau a ddefnyddiwyd yn y flwyddyn | (197) | (203) | (121) | (143) |
| **Balans ar 31 Mawrth** | **1,863** | **1,989** | **1,784** | **1,887** |
| **Dadansoddi amseriad disgwyliedig llifoedd wedi'u disgowntio:** | | | | |
| Dim hwyrach nag un flwyddyn | 380 | 450 | 348 | 412 |
| Hwyrach nag un flwyddyn a dim hwyrach na phum mlynedd | 611 | 642 | 593 | 612 |
| Hwyrach na phum mlynedd | 872 | 897 | 843 | 863 |
| **Balans ar 31 Mawrth** | **1,863** | **1,989** | **1,784** | **1,887** |

## Grŵp Llywodraeth Cymru yn unig

| | Arall £m | Cronfa Risg Cymru[a] £m | Cyfanswm £m |
|---|---|---|---|
| **Dadansoddi amseriad disgwyliedig llifoedd wedi'u disgowntio:** | | | |
| Dim hwyrach nag un flwyddyn | 88 | 362 | 450 |
| Hwyrach nag un flwyddyn a dim hwyrach na phum mlynedd | 31 | 611 | 642 |
| Hwyrach na phum mlynedd | 25 | 872 | 897 |
| **Cyfanswm** | **144** | **1,845** | **1,989** |

a Cynhelir Cronfa Risg Cymru fel rhan o Bartneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru gan Ymddiriedolaeth GIG Felindre, y mae ei chyfrifon i'w gweld yn www.felindre.gig.cymru/amdanom-ni/cyhoeddiadau/.

## 11.1 Darpariaethau Craidd Llywodraeth Cymru

Mae Darpariaethau Craidd Llywodraeth Cymru yn cynnwys:

### Darpariaethau Iechyd

Mae gan Lywodraeth Cymru ddarpariaethau sy'n gysylltiedig ag iechyd, ar gyfer Cynllun Cymorth Gwaed Heintiedig Cymru (WIBSS) ac ad-daliadau Cronfa Risg Cymru (WRP) a ddisgwylir yn y dyfodol.

Mae WIBSS yn darparu un cynllun symlach o daliadau cymorth ex gratia i unigolion a'u teuluoedd y mae hepatitis C a HIV wedi effeithio arnynt wedi iddynt gael eu trin â gwaed halogedig yng Nghymru. Ar 25 Mawrth 2021 cyhoeddwyd trefniadau cymorth ariannol ychwanegol wedi'u hôl-ddyddio hyd at fis Ebrill 2019 (i sicrhau cydraddoldeb ar draws pedwar cynllun y DU) ar gyfer buddiolwyr presennol. Y balans ar ddarpariaeth WIBSS, ar 31 Mawrth 2025, yw £129.2m (2023-24: £115.6m).

Mae darpariaethau WIBSS yn seiliedig ar y cyfraddau taliadau cydradd newydd gyda chodiad chwyddiant CPI yn cael ei gymhwyso i lifoedd arian parod yn y dyfodol. Mae'r rhain wedyn yn cael eu disgowntio yn ôl y cyfraddau a gyhoeddir bob blwyddyn ym mhapur PES Trysorlys EF. Ers 2021-22, mae taliadau blynyddol yn cael eu chwyddo gan y cyfraddau chwyddiant CPI a gynhwysir yn y papur PES a gyhoeddir bob mis Rhagfyr. Mae'r newid o'r mynegeion CPIH i CPI yn cyd-fynd â gwledydd eraill y DU ers cyflwyno'r taliadau cydradd. Cafodd y taliadau eu codi i'r cyfraddau newydd am y tro cyntaf yn 2021-22 (gan gynnwys elfennau wedi'u hôl-ddyddio o 2018-19 ymlaen).

Ar 21 Mai 2024, cyhoeddodd Llywodraeth y DU sefydlu Awdurdod Iawndal Gwaed Heintiedig (IBCA), yn ychwanegol at y cynllun WIBSS sefydledig, ac fe gyhoeddodd fanylion cynllun iawndal amlinellol. Cyhoeddodd Llywodraeth y DU hefyd y byddai iawndal interim pellach o £210,000 yn cael ei wneud i'r bobl heintiedig fyw hynny a oedd wedi'u cofrestru ag un o'r pedwar Cynllun Cymorth Gwaed Heintiedig yn y DU. Gofynnwyd i WIBSS weinyddu'r taliadau hyn ar ran Llywodraeth y DU ar gyfer hawlwyr cymwys yng Nghymru. Yr elfen o gyfanswm darpariaeth WIBSS sy'n ymwneud â chynllun iawndal interim IBCA ar 31 Mawrth 2025 yw £14.3m.

Rhagwelir y caiff cyfanswm atebolrwyddau WIBSS eu trosglwyddo i IBCA ar ddyddiad trosglwyddo Ionawr 2027, pan fydd IBCA yn cyflwyno'r Cynllun Iawndal Gwaed Heintiedig, a fydd yn rhoi iawndal ariannol i ddioddefwyr gwaed heintiedig ledled y DU.

Mae WRP yn helpu cyrff GIG Cymru gyda rheoli risg a setlo hawliadau y mae anghydfod yn eu cylch ar gyfer honiadau o esgeuluster meddygol neu esgeuluster fel cyflogwr. Balans WRP ar 31 Mawrth 2025 yw £1,712m (2023-24: £1,649m). Mae cyrff GIG Cymru yn darparu ar gyfer rhwymedigaethau cyfreithiol neu ddeongliadol ar gyfer esgeuluster clinigol, anafiadau personol a chostau amddiffyn y mae eu hamseru neu eu swm yn ansicr ar ddyddiad y fantolen ar sail yr amcangyfrif gorau o'r gwariant sydd ei angen i setlo'r rhwymedigaeth. Ariennir hawliadau drwy Wasanaethau Cronfa Risg Cymru (WRPS) sy'n derbyn dyraniad brigdor blynyddol gan Lywodraeth Cymru i dalu am gost ceisiadau am ad-daliad a gyflwynir i'r Pwyllgor WRPS bob deufis. Mae unrhyw ddiffyg yn cael ei fodloni'n uniongyrchol gan aelodau ar sail rhannu risg y cytunwyd arni.

Gwneir amcangyfrifon sylweddol mewn perthynas â hawliadau sydd ar y gweill am esgeuluster clinigol ac anafiadau personol. Darperir rhagdybiaethau o ran y canlyniad tebygol, yr atebolrwyddau posibl ac amseriad yr hawliadau ymgyfreitha hyn gan gynghorwyr cyfreithiol annibynnol.

Gwneir darpariaeth ar gyfer achosion tebygol ac achosion sicr yn unol ag IAS 37. Mae'r ddarpariaeth ar gyfer achosion tebygol ac achosion sicr yn seiliedig ar amcangyfrifon achos o hawliadau unigol a dderbyniwyd

gan Wasanaethau Cyfreithiol a Risg Partneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru. Mae'r cyfreithwyr yn amcangyfrif gwerth yr achos gan gynnwys ffioedd amddiffyn, gan ddefnyddio barn broffesiynol a thrwy gael cyngor gan gwnsler. Yna caiff prisiadau eu disgowntio ar gyfer yr elfennau colli yn y dyfodol gan ddefnyddio disgwyliad oes unigol a thablau actiwaraidd Adran Actiwari'r Llywodraeth (tablau Ogden) a Chyfradd Ddisgownt Anafiadau Personol o minws 0.25%.

Mae atebolrwyddau'r dyfodol ar gyfer achosion penodol a thebygol sydd â thebygolrwydd o 95%-100% a 50%-94% yn y drefn honno yn cael eu dal fel darpariaeth ar y fantolen. Fel arfer, mae achosion yn cymryd nifer o flynyddoedd i'w setlo, yn enwedig ar gyfer achosion gwerth uchel lle mae angen cyfnod datblygu i sefydlu hyd a lled yr anaf a achoswyd.

Mae'r rhan fwyaf o hawliadau gwerth uchel (>£1m) yn cael eu setlo gyda Gorchymyn Talu Cyfnodol (PPO) lle telir rhan neu'r cyfan o werth terfynol y setliad dros oes yr hawliwr. Pan fydd achosion yn cael eu setlo gyda threfniant PPO, crëir darpariaeth unigol drwy luosi gwerth talu blynyddol cysylltiedig mynegai'r hawlwyr â nifer y blynyddoedd o ddisgwyliad oes. Mae nifer y blynyddoedd o ddisgwyliad oes yn cael ei ddisgowntio yn ôl lluosyddion tabl Ogden gan ddefnyddio cyfradd ddisgownt enwol Trysorlys EF ar gyfer darpariaethau cyffredinol a gyhoeddir yn flynyddol ym mhapur PES, ynghyd â ffactor chwyddiant. Mae Cronfa Risg Cymru yn rhan o Gydwasanaethau GIG Cymru, a gynhelir gan Ymddiriedolaeth GIG Felindre ac mae rhagor o fanylion am gyfrifo darpariaethau a'r gorchmynion talu cyfnodol wedi'u cynnwys yng nghyfrifon Ymddiriedolaeth GIG Felindre.

Yn unol â Chyfarwyddyd Gweinidogol a ddyroddwyd ar 18 Rhagfyr 2019, mae Llywodraeth Cymru wedi cymryd camau i gefnogi amgylchiadau lle'r oedd rheolau treth pensiynau wedi effeithio ar staff clinigol a oedd eisiau gweithio oriau ychwanegol, ac mae wedi penderfynu bod staff clinigol sy'n aelodau o Gynllun Pensiwn y GIG ac sydd, o ganlyniad i waith a wnaed ym mlwyddyn dreth 2019-20, yn wynebu talu treth ar dwf eu budd-daliadau pensiwn GIG, yn cael dewis bod Cynllun Pensiwn y GIG yn talu'r tâl hwn a bod eu pensiwn yn cael ei leihau pan fyddant yn ymddeol. Bydd swm cyfatebol yn cael ei dalu pan fyddant yn ymddeol gan sicrhau eu bod yn cael iawndal llawn am effaith y didyniad. Bydd y cynllun hwn yn cael ei ariannu'n llawn gan Lywodraeth Cymru heb unrhyw gost net i Gyflogwyr y GIG. Roedd gan staff clinigol tan 31 Mawrth 2022 i ddewis y cynllun hwn a gallent wneud newidiadau hyd at 31 Gorffennaf 2026. Ar 31 Mawrth 2025, y balans ar y ddarpariaeth yw £12.6m (2023-24: £11.8m).

## 11.2 Darpariaethau Grŵp Llywodraeth Cymru

Mae Darpariaethau Grŵp Llywodraeth Cymru yn cynnwys y darpariaethau Craidd a nodir uchod, a darpariaethau a ddelir gan endidau cyfunol. Darpariaethau eraill y GIG yw'r rhain yn bennaf, gan gynnwys pensiynau a darpariaethau ar gyfer y £25,000 cyntaf o hawliadau esgeuluster clinigol nad yw'n cael ei ad-dalu gan Gronfa Risg Cymru.

# 12. Atebolrwyddau Dibynnol

| | Ar 31 Mawrth 2025 | | Ar 31 Mawrth 2024 | |
|---|---|---|---|---|
| | **Craidd LlC £m** | **Grŵp LlC £m** | **Craidd LlC £m (Ailgyflwyno)** | **Grŵp LlC £m (Ailgyflwyno)** |
| Hawliadau Cyfreithiol – honiadau o esgeuluster meddygol/esgeuluster cyflogwr | 1,099 | 1,144 | 1,161 | 1,184 |
| Rhwymedigaethau contractiol posibl o dan Ddeddf WDA 1975 | 10 | 10 | 10 | 10 |
| Hawliadau cyfreithiol a chontractiol eraill[a] | 1,553 | 1,553 | 1,336 | 1,348 |
| **Cyfanswm** | **2,662** | **2,707** | **2,507** | **2,542** |

a Hawliadau cyfreithiol a chontractiol eraill wedi'u hailgyflwyno i gynnwys at atebolrwydd dibynnol y cynllun noddi ar gyfer Wcráin o £0.1m ar 31 Mawrth 2025 (2023-24: £12m).

## (i) Hawliadau Cyfreithiol – honiadau o esgeuluster meddygol neu esgeuluster fel cyflogwr

Mae hyn yn adlewyrchu'r ffaith bod rhaid i Lywodraeth Cymru o dan Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 dalu atebolrwyddau Cronfa Risg Cymru os bydd cyrff y GIG yn peidio â bodoli. Cynhwysir hefyd atebolrwyddau dibynnol sy'n ymwneud â hawliadau cyfreithiol o dan Gynllun Atebolrwyddau Presennol y Cynllun ar gyfer Indemniad Ymarfer Meddygol Cyffredinol.

## (ii) Hawliadau cyfreithiol a chontractiol eraill

Mae hawliadau cyfreithiol a chontractiol eraill yn cynnwys hawliadau cyfreithiol a chontractiol sydd ar y gweill ac atebolrwyddau dibynnol sy'n gysylltiedig ag indemniadau a gwarantau contractiol.

Ar 31 Mawrth 2025, roedd atebolrwydd dibynnol o £901m (2023-24: £901m) yn parhau mewn cysylltiad â chynllun Model Buddsoddi Cydfuddiannol Canolfan Ganser newydd Felindre (nVCC). Mae Llywodraeth Cymru wedi dyroddi nodyn addewidiol i Ymddiriedolaeth GIG Prifysgol Felindre ynghylch y bwriad i ddyroddi Llythyrau Cymeradwyo Cyllid ar gyfer Taliadau Gwasanaeth Blynyddol dros gyfnod o 25 mlynedd. Disgwylir i hyn ddechrau yn 2026-27. Mae Llywodraeth Cymru wedi dyroddi nodyn addewidiol i Ymddiriedolaeth GIG Prifysgol Felindre ynghylch y bwriad i ddyroddi Llythyrau Cymeradwyo Cyllid ar gyfer Taliadau Gwasanaeth Blynyddol dros gyfnod o 25 mlynedd. Disgwylir i hyn ddechrau yn 2026-27.

Ar 31 Mawrth 2025, cynhwysir atebolrwydd dibynnol o £540m (2023-24: £311m) mewn perthynas â chynlluniau Model Buddsoddi Cydfuddiannol Addysg gyda Chyngor Sir y Fflint a Choleg Caerdydd a'r Fro (CAVC). Dyroddodd Llywodraeth Cymru nodiadau addewidiol ynghylch y bwriad i ddyroddi Llythyrau Cymeradwyo Cyllid ar gyfer cyfraniadau i Daliadau Gwasanaeth Blynyddol dros gyfnod o 25 mlynedd. Disgwylir i hyn ddechrau yn 2025-26 ar gyfer Cyngor Sir y Fflint ac yn 2027-28 ar gyfer Choleg Caerdydd a'r Fro. Ar 31 Mawrth 2024, roedd £140m o'r atebolrwydd dibynnol yn ymwneud â phrosiect Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf; nid yw hynny'n cael ei ddatgelu mwyach gan fod Llythyrau Cymeradwyo Cyllid wedi'u cyhoeddi yn ystod 2024-25.

Bu cynnydd o £2m yng ngwerth yr atebolrwyddau dibynnol presennol ar gyfer indemniadau neu warantau contractiol masnachol oherwydd ffactorau chwyddiant. Ni chyhoeddwyd unrhyw warantau newydd.

## 12.1 Atebolrwyddau Dibynnol Heb eu Meintioli

**Atebolrwyddau Dibynnol Cyfrinachol na ellir eu Meintioli**

Mae gan Lywodraeth Cymru atebolrwyddau dibynnol na ellir eu meintioli, nad oes modd eu datgelu oherwydd cyfrinachedd a braint gyfreithiol. Ar hyn o bryd nid oes sicrwydd ynghylch yr amseriad na'r all-lif ariannol, os oes rhai o gwbl, ac o'r herwydd ni ellir meintioli'r effaith ariannol.

## 12.2 Atebolrwyddau Dibynnol Annhebygol

Cyflwynir atebolrwyddau dibynnol yma lle bernir bod y tebygolrwydd o drosglwyddo budd economaidd mewn setliad yn annhebygol. Oherwydd hyn, nid ydynt yn bodloni meini prawf IAS 37 i'w datgelu yn y datganiadau ariannol, ond fe'u cyflwynir yma at ddibenion tryloywder. Mae'r rhain yn ymwneud yn bennaf â sefyllfaoedd lle mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i warantau neu indemniadau, ond lle nad oes arwyddion ar hyn o bryd y bydd y rhain yn cael eu defnyddio. Er bod yr holl gamau lliniaru wedi'u cymryd ac y byddant yn cael eu cymryd i leihau'r risg a'r cysylltiad â'r risg, ni ellir dileu'r risg yn llwyr. Os ystyrir bod hynny'n briodol, mae atebolrwyddau dibynnol yr ystyrir bod y tebygolrwydd y byddant yn digwydd yn fwy nag annhebygol yn cael eu datgelu yn Nodyn 12 uchod.

Yn 2019 cytunodd Llywodraeth Cymru i sicrwyddau, gwarantiadau, indemniadau a cholledion posibl y gellir eu meintioli (sydd wedi'u datgelu) a rhai na ellir eu meintioli o dan y 'Cytundeb Grant' â'i ddarparwr gwasanaethau rheilffyrdd (Rheilffyrdd Trafnidiaeth Cymru Cyfyngedig) a'r cytundeb hepgor atebolrwydd â'r Adran Drafnidiaeth.

**Atebolrwyddau Dibynnol Annhebygol y gellir eu Meintioli**

Dim.

**Atebolrwyddau Dibynnol Annhebygol na ellir eu Meintioli**

**Atebolrwyddau Dibynnol Cyfrinachol na ellir eu Meintioli**

Mae gan Lywodraeth Cymru atebolrwyddau dibynnol annhebygol na ellir eu meintioli, nad oes modd eu datgelu oherwydd cyfrinachedd a braint gyfreithiol. Ar hyn o bryd nid oes sicrwydd ynghylch yr amseriad na'r all-lif ariannol, os oes rhai o gwbl, ac o'r herwydd ni ellir meintioli'r effaith ariannol.

**Gwasanaethau Rheilffyrdd**

Mae Llywodraeth Cymru wedi darparu indemniad i'r darparwr gwasanaethau rheilffyrdd yn erbyn newidiadau gan yr Adran Drafnidiaeth i daliadau cynlluniedig ar gyfer mynediad i draciau. Yn yr un modd mae Llywodraeth Cymru wedi'i hindemnio gan yr Adran Drafnidiaeth.

Mae Llywodraeth Cymru wedi rhoi gwarant mewn perthynas â chyflogeion Network Rail sy'n ymuno â Trafnidiaeth Cymru ac sy'n aros yn y Cynllun Pensiwn Rheilffyrdd os bydd unrhyw ddiffygion yn cael eu creu ar gyfer adran newydd y cynll.

**Model Buddsoddi Cydfuddiannol yr A465**

Ar 28 Hydref 2020, ymrwymodd Llywodraeth Cymru i gontract â Cymoedd y Dyfodol (Future Valleys Project Co Limited) i ddylunio, adeiladu, ariannu a gweithredu cynllun i ddeuoli'r A465 rhwng Dowlais a Hirwaun (Rhannau 5 a 6). Er bod risgiau sylweddol wedi'u trosglwyddo i Cymoedd y Dyfodol, fel rhan o'r contract, mae rhai ohonynt yn dal i fod yn nwylo Llywodraeth Cymru. Mae'r rhain yn cynnwys costau ychwanegol cyfyngedig sy'n gysylltiedig â phandemig, hawliau ategol a diffygion cudd posibl sy'n ymwneud â strwythurau penodol sy'n bodoli eisoes os caiff unrhyw rai eu darganfod.

Cytunodd Llywodraeth Cymru i sicrwydd, indemniadau a cholledion posibl na ellir eu meintioli mewn perthynas â'r tri phwynt canlynol o dan y contract gyda Cymoedd y Dyfodol.

Ar ddiwedd y contract, mae Llywodraeth Cymru wedi indemnio Cymoedd y Dyfodol yn erbyn:

- Tâl diswyddo os nad yw rheoliadau TUPE yn gymwys ac os nad yw cynigion cyflogaeth yn cael eu gwneud i Staff Cyd-ddarparwyr Prosiect/Darparwyr Gwasanaethau;
- Newidiadau perthnasol yn y gyfraith; ar achosion o newidiadau diffiniedig penodol yn y gyfraith, mae'r partïon yn cytuno i addasu'r Tâl Gwasanaeth Blynyddol yn unol â hynny; a
- Risg na ellir ei hyswirio; os na ellir yswirio rhai risgiau, mae'r partïon yn cyfarfod i adolygu sut y bydd y risg yn cael ei rhannu. Os na cheir cytundeb, gellir terfynu'r cytundeb mewn ffordd sy'n debyg i Force Majeure, neu mae Llywodraeth Cymru yn cymryd risg yswiriant.

**Model Buddsoddi Cydfuddiannol Addysg – CAVC – Gweithred Ddibyniaeth**

Ar 26 Mawrth 2025, seliodd Llywodraeth Cymru Weithred Ddibyniaeth i ddarparu sicrwydd i fenthycwyr sy'n buddsoddi yng nghynllun Model Buddsoddi Cydfuddiannol CAVC. Er nad yw Llywodraeth Cymru yn llofnodwr uniongyrchol i Gytundeb y Prosiect, mae'r Weithred Ddibyniaeth yn gosod rhwymedigaethau cyfochrog penodol ar Lywodraeth Cymru, mewn amgylchiadau lle mae diffygdaliad gan Sefydliad Addysg Bellach yn cael ei sbarduno o dan Gytundeb y Prosiect. O ganlyniad, mae nifer bach o risgiau yn parhau gyda Llywodraeth Cymru.

Cytunodd Llywodraeth Cymru i sicrwydd, indemniadau a cholledion posibl na ellir eu meintioli mewn perthynas â'r chwe phwynt canlynol.

Mae Llywodraeth Cymru wedi indemnio Cwmni'r Prosiect yn erbyn:

- Tâl diswyddo os nad yw rheoliadau TUPE yn gymwys ac nad yw cynigion cyflogaeth yn cael eu gwneud i Staff Darparwyr Prosiect y Cwmni/Gwasanaethau;
- Cyfyngiadau i'r safle o dan y trefniadau lesio presennol y tir gyda Chyngor Bro Morgannwg;
- Costau oherwydd atal gwaith, o dan gyfraith statudol, mewn perthynas â darganfod ffosilau neu hynafiaethau;
- Newidiadau perthnasol yn y gyfraith; ar achosion o newidiadau diffiniedig penodol yn y gyfraith, mae'r partïon yn cytuno i addasu'r Tâl Gwasanaeth Blynyddol yn unol â hynny;
- Risg na ellir ei hyswirio; os na ellir yswirio rhai risgiau, mae'r partïon yn cyfarfod i adolygu sut y bydd y risg yn cael ei rhannu. Os na cheir cytundeb, gellir terfynu'r cytundeb mewn ffordd sy'n debyg i Force Majeure, neu mae Llywodraeth Cymru yn cymryd risg yswiriant; a
- Chostau eithriadol gweithgareddau sy'n uwch na'r rhagdybiaethau sylfaenol yn achos pandemig.

**Gwarantau**

O dan amgylchiadau arbennig mae Llywodraeth Cymru yn gweithredu fel gwarantwr ar gyfer y cyrff a noddir ganddi neu mewn perthynas â gwaith seilwaith cyhoeddus. Gwerth y gwarantau hyn ar 31 Mawrth 2025 oedd £54m (2023-24: £53m).

### Indemniadau

Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i indemnio sefydliadau Trosglwyddo Stoc Tai rhag canlyniadau ariannol tynnu'r Cynllun Lliniaru Treth ar Werth yn ôl neu ei ddiwygio yn y dyfodol.

Mae'r atebolrwyddau yn cwmpasu deg sefydliad am £419m (2023-24: £419m) ac mae cyfnod yr atebolrwydd yn amrywio. Nid oes unrhyw bryderon ar hyn o bryd ynghylch parhad y cynllun, a bernir bod y posibilrwydd y bydd yr atebolrwydd yn aeddfedu yn rhy annhebygol i gael ei gynnwys fel atebolrwydd dibynnol.

Mae Cynllun Indemniad y Llywodraeth yn darparu indemniadau i alluogi Llyfrgell Genedlaethol Cymru, Amgueddfa Cymru, a sefydliadau cymwys eraill i gael benthyg gwrthrychau a gweithiau celf. Bernir bod y tebygolrwydd y gweithredir ar y gwarantau hyn yn rhy annhebygol i gael ei gynnwys fel atebolrwydd dibynnol. Gwerth y gwarantau hyn ar 31 Mawrth 2025 oedd £44m (2023-24: £46m).

### Llythyrau Cysur

Mae Llywodraeth Cymru wedi dyroddi llythyr sicrwydd Busnes Gweithredol i Gronfa Buddsoddi Cymru mewn Adfywio (RIFW) ar gyfer atebolrwyddau o £1m yn y dyfodol. O gofio lefel sylweddol y cronfeydd wrth gefn yn RIFW, bernir ei bod yn annhebygol y bydd yr atebolrwydd hwn yn codi.

Mae Llywodraeth Cymru wedi dyroddi llythyr sicrwydd Busnes Gweithredol i Trafnidiaeth Cymru i gwmpasu atebolrwyddau presennol ac yn y dyfodol sy'n codi yn unol â'r Cytundeb Rheoli (rhwng Llywodraeth Cymru a Trafnidiaeth Cymru) a'r llythyrau Cylch Gwaith cyfnodol y mae Llywodraeth Cymru yn eu dyroddi i Trafnidiaeth Cymru.

Mae Llywodraeth Cymru wedi dyroddi llythyr sicrwydd Busnes Gweithredol i Ganolfan Ragoriaeth Fyd-Eang ar gyfer Rheilffyrdd (GCRE) i gwmpasu atebolrwyddau presennol ac yn y dyfodol sy'n codi yn unol â'r Cytundeb Rheoli (rhwng Llywodraeth Cymru a GCRE) a'r llythyrau Cylch Gwaith cyfnodol y mae Llywodraeth Cymru yn eu dyroddi i GCRE.

# 13. Atebolrwyddau Eraill

| | Ar 31 Mawrth 2025 | | Ar 31 Mawrth 2024 | |
|---|---|---|---|---|
| | Craidd LlC £m | Grŵp LlC £m | Craidd LlC £m | Grŵp LlC £m |
| Diffygion cronfeydd pensiwn | 16 | 16 | 18 | 18 |
| Y Gronfa Benthyciadau Gwladol (yn ddyledus ar ôl pum mlynedd)[a] | 11 | 10 | 9 | 10 |
| Arall | - | - | - | - |
| **Cyfanswm** | **27** | **26** | **27** | **28** |

a Balansau'r Gronfa'r Benthyciadau Gwladol yw Cronfeydd Benthyciadau Gwladol a gafodd eu benthyg ymlaen gan Ysgrifennydd Gwladol Cymru yn wreiddiol i Gorfforaeth Datblygu'r Canolbarth. Cafodd y rhain eu trosglwyddo wedyn i Fwrdd Datblygu Cymru Wledig (DBRW) yn yr 1980au; ac i Awdurdod Datblygu Cymru pan ddiddymwyd DBRW yn 1998. Ers i Awdurdod Datblygu Cymru gael ei ddiddymu yn 2006, Llywodraeth Cymru sy'n gyfrifol am ad-dalu'r prifswm a llog.

# 14. Symudiadau mewn Cyfalaf Gweithio heblaw Arian Parod

| | Ar 31 Mawrth 2025 | | Ar 31 Mawrth 2024 | |
|---|---|---|---|---|
| | **Craidd LlC £m** | **Grŵp LlC £m** | **Craidd LlC £m** | **Grŵp LlC £m** |
| (Cynnydd)/gostyngiad mewn stocrestri (ac eithrio asedau datblygu) | (3) | (5) | 3 | 1 |
| **(Cynnydd)/gostyngiad mewn symiau derbyniadwy:** | | | | |
| Cyfredol | 8 | (18) | 83 | 74 |
| Anghyfredol | 3 | (60) | 17 | 10 |
| **Cynnydd/(gostyngiad) mewn symiau taladwy:** | | | | |
| Cyfredol | 147 | 226 | 54 | (199) |
| Anghyfredol | 78 | 198 | 177 | 443 |
| Llai symudiadau mewn symiau taladwy mewn perthynas â lesoedd a PFI ar y fantolen a threfniadau consesiwn gwasanaeth eraill a | (78) | (233) | (174) | (466) |
| Addasiad arall | (1) | - | (1) | - |
| Llai symudiadau yn y cyflenwad Cronfa Gyfunol Cymru sy'n daladwy | 69 | 69 | (144) | (144) |
| Llai symudiadau yn yr incwm Cronfa Gyfunol Cymru sy'n daladwy | (4) | (4) | (7) | (7) |
| | **219** | **173** | **8** | **(288)** |

# 15. Lesoedd

## 15.1 Asedau Hawl-i-Ddefnyddio

| | Ar 31 Mawrth 2024 | | |
|---|---|---|---|
| | Tir ac Adeiladau £m | Arall £m | Cyfanswm £m |
| **Cost neu brisiad** | | | |
| Ar 1 Ebrill 2023 | 231 | 309 | 540 |
| Ailddosbarthiadau | 1 | - | 1 |
| Ychwanegiadau | 30 | 293 | 323 |
| Ailbrisiadau | - | - | - |
| Dadgydnabod | (14) | (1) | (15) |
| Ailfesur | 2 | - | 2 |
| **Ar 31 Mawrth 2024** | **250** | **601** | **851** |
| **Dibrisiant** | | | |
| Ar 1 Ebrill 2023 | 29 | 102 | 131 |
| Ailddosbarthiadau | (2) | (1) | (3) |
| Codwyd tâl yn y flwyddyn | 28 | 59 | 87 |
| Ailbrisiadau | - | - | - |
| **Ar 31 Mawrth 2024** | **55** | **160** | **215** |
| **Swm cario ar 31 Mawrth 2024** | **195** | **441** | **636** |
| Adran graidd ar 31 Mawrth 2024 | 42 | - | 42 |
| Cyrff iechyd ac is-gwmnïau ar 31 Mawrth 2024 | 153 | 441 | 594 |

## 15.1 Asedau Hawl-i-Ddefnyddio (parhad)

| | Ar 31 Mawrth 2025 | | |
|---|---|---|---|
| | Tir ac Adeiladau £m | Arall £m | Cyfanswm £m |
| **Cost neu brisiad** | | | |
| Ar 1 Ebrill 2024 | 250 | 601 | 851 |
| Ailddosbarthiadau | - | - | - |
| Ychwanegiadau | 48 | 162 | 210 |
| Ailbrisiadau | - | - | - |
| Dadgydnabod | (9) | (9) | (18) |
| Ailfesur | 1 | - | 1 |
| **Ar 31 Mawrth 2025** | **290** | **754** | **1,044** |
| **Dibrisiant** | | | |
| Ar 1 Ebrill 2024 | 55 | 160 | 215 |
| Ailddosbarthu | (8) | (6) | (14) |
| Codwyd tâl yn y flwyddyn | 26 | 72 | 98 |
| Ailbrisiadau | - | - | - |
| **Ar 31 Mawrth 2025** | **73** | **226** | **299** |
| **Swm cario ar 31 Mawrth 2025** | **217** | **528** | **745** |
| Adran graidd ar 31 Mawrth 2025 | 39 | - | 39 |
| Cyrff iechyd ac is-gwmnïau ar 31 Mawrth 2025 | 178 | 528 | 706 |

## 15.2 Atebolrwyddau Lesoedd

### Dadansoddiad aeddfedrwydd

| | Ar 31 Mawrth 2025 | | Ar 31 Mawrth 2024 | |
|---|---|---|---|---|
| | Craidd LlC £m | Grŵp LlC £m | Craidd LlC £m | Grŵp LlC £m |
| **Tir ac adeiladau** | | | | |
| Dim hwyrach nag un flwyddyn | 6 | 27 | 6 | 27 |
| Hwyrach nag un flwyddyn a dim hwyrach na phum mlynedd | 22 | 87 | 22 | 85 |
| Hwyrach na phum mlynedd | 26 | 94 | 31 | 96 |
| | **54** | **208** | **59** | **208** |
| Llai'r elfen log | (3) | (19) | (4) | (15) |
| **Gwerth presennol y rhwymedigaethau** | **51** | **189** | **55** | **193** |
| Arall | | | | |
| Dim hwyrach nag un flwyddyn | - | 87 | - | 68 |
| Hwyrach nag un flwyddyn a dim hwyrach na phum mlynedd | - | 294 | - | 223 |
| Hwyrach na phum mlynedd | - | 236 | - | 230 |
| | **-** | **617** | **-** | **521** |
| Llai'r elfen log | - | (72) | - | (60) |
| **Gwerth presennol y rhwymedigaethau** | **-** | **545** | **-** | **461** |
| **Cyfanswm gwerth presennol y rhwymedigaethau** | **51** | **734** | **55** | **654** |
| Cyfredol | 5 | 95 | 5 | 79 |
| Anghyfredol | 46 | 639 | 50 | 575 |

## 15.3 Symiau a gydnabyddir mewn Datganiad o Wariant Net Cynhwysfawr

| | Ar 31 Mawrth 2025 | | Ar 31 Mawrth 2024 | |
|---|---|---|---|---|
| | Craidd LlC £m | Grŵp LlC £m | Craidd LlC £m | Grŵp LlC £m |
| Cost llog | 1 | 17 | 1 | 10 |
| Incwm is-lesoedd | (1) | (1) | (2) | (2) |
| Cost ar gyfer lesoedd gwerth isel a thymor byr | 1 | 6 | 2 | 7 |

## 15.4 Symiau a gydnabyddir mewn Datganiad o Lifoedd Arian Parod

| | Ar 31 Mawrth 2025 | | Ar 31 Mawrth 2024 | |
|---|---|---|---|---|
| | Craidd LlC £m | Grŵp LlC £m | Craidd LlC £m | Grŵp LlC £m |
| Cyfanswm all-lif arian parod ar gyfer lesoedd | 6 | 107 | 6 | 82 |

# 16. Ymrwymiadau Cyfalaf ac Ymrwymiadau Eraill

## 16.1 Ymrwymiadau Cyfalaf

Mae'r nodyn hwn yn datgelu ymrwymiadau cyfalaf o dan 'gontractau annileadwy' nad ydynt wedi'u cynnwys fel arall yn y datganiadau ariannol hyn.

| | Ar 31 Mawrth 2025 | | Ar 31 Mawrth 2024 | |
|---|---|---|---|---|
| | Craidd LlC £m | Grŵp LlC £m | Craidd LlC £m | Grŵp LlC £m |
| Eiddo, offer a chyfarpar, ac asedau anniriaethol | 18 | 288 | 41 | 461 |
| Buddsoddiadau a benthyciadau | - | - | - | - |
| **Cyfanswm** | **18** | **288** | **41** | **461** |

Er cysondeb, mae Llywodraeth Cymru wedi cymhwyso'r un diffiniad o 'gontractau annileadwy' i ymrwymiadau cyfalaf yn y datgeliad hwn ag a gymhwysir yn Nodyn 16.3 ar gyfer ymrwymiadau ariannol eraill.

## 16.2 Ymrwymiadau o dan PFI a Threfniadau Consesiwn Gwasanaeth Eraill

Mae'r Byrddau Iechyd Lleol wedi adrodd wyth contract PFI o fewn eiddo, offer a chyfarpar, sydd ar y fantolen. Daeth dau gontract PFI ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan i ben yn 2024-25. Nid oes unrhyw gontractau â chyfanswm ymrwymiad unigol o fwy na £500m. Cynhwysir manylion y cynlluniau unigol yng nghyfrifon statudol y Bwrdd Iechyd Lleol unigol.

Ar 28 Mawrth 2024, ymrwymodd Ymddiriedolaeth GIG Prifysgol Felindre i gontract yn ymwneud â Chanolfan Ganser newydd Felindre (nVCC) o dan y Model Buddsoddi Cydfuddiannol ag Acorn Velindre Limited (Project Co) a fydd yn gyfrifol am adeiladu (ac ariannu) yr ysbyty newydd ac yna ei gynnal dros gyfnod consesiwn o 25 mlynedd. Mae'r trefniant contractiol hwn yn bodloni'r diffiniad o drefniant consesiwn gwasanaeth ac mae i'w gyfrif ar y fantolen. Mae rhagor o wybodaeth am y trefniant hwn ar gael yng nghyfrifon Ymddiriedolaeth GIG Prifysgol Felindre. Datgelir atebolrwydd dibynnol Craidd Llywodraeth Cymru mewn perthynas â'r trefniant hwn yn Nodyn 12.

### 16.2.1 Ddim ar y fantolen

**Contract PFI Bute Avenue**

Ers 2000 mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i dalu £5.1m bob blwyddyn, yn gysylltiedig â'r mynegai, i'r prif gontractwr sy'n gysylltiedig â phrosiect Bute Avenue (PFI), tan fis Tachwedd 2025. Mae'r partner yn y sector preifat yn cynnal rhwydwaith ffyrdd Bute Avenue am 25 o flynyddoedd (o 2000/01). Ar ôl y cyfnod hwn caiff y ffordd ei throsglwyddo i Gyngor Sir Caerdydd. Nid yw'r ffordd yn ased i Lywodraeth Cymru. Y cyfanswm a godwyd yn y Datganiad o Wariant Net Cynhwysfawr mewn perthynas â thrafodiadau PFI nad ydynt ar y fantolen oedd £12.4m (2023-24: £12.5m); ac mae'r taliadau y mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo iddynt fel a ganlyn:

| | Ar 31 Mawrth 2025 £m | Ar 31 Mawrth 2024 £m |
|---|---|---|
| Dim hwyrach nag un flwyddyn | 13 | 13 |
| Hwyrach nag un flwyddyn a dim hwyrach na phum mlynedd | - | 13 |
| Hwyrach na phum mlynedd | - | - |
| **Cyfanswm** | **13** | **26** |

### 16.2.2 Ar y fantolen

**Contract PFI yr A55**

Cynhelir rhwydwaith ffyrdd yr A55 gan gontractwyr am gyfnod o 30 o flynyddoedd (o 1998), ac ar ôl hynny bydd perchnogaeth yr A55 yn mynd yn ôl i Lywodraeth Cymru.

Mae'r ffordd yn cael ei thrin fel un o asedau Llywodraeth Cymru ac mae'r taliadau unedol yn cynnwys dwy elfen – taliadau lesoedd wedi'u priodoli a thaliadau gwasanaeth.

Y cyfanswm a godwyd yn y Datganiad o Wariant Net Cynhwysfawr mewn perthynas ag elfen gwasanaeth PFI ar y fantolen neu drafodiadau consesiynau gwasanaeth eraill oedd £11.4m (2023-24: £12.9m). Mae cyfanswm y rhwymedigaethau yn y dyfodol o dan PFI yr A55 wedi'u rhoi yn y tabl isod am bob un o'r cyfnodau hyn.

| | Ar 31 Mawrth 2025 £m | Ar 31 Mawrth 2024 £m |
|---|---|---|
| **Isafswm taliadau lesoedd** | | |
| Dim hwyrach nag un flwyddyn | 12 | 12 |
| Hwyrach nag un flwyddyn a dim hwyrach na phum mlynedd | 36 | 48 |
| Hwyrach na phum mlynedd | - | - |
| | **48** | **60** |
| Llai'r elfen log | (3) | (5) |
| **Cyfanswm** | **45** | **55** |

| | Ar 31 Mawrth 2025 £m | Ar 31 Mawrth 2024 £m |
|---|---|---|
| **Elfennau gwasanaeth sy'n ddyledus yn y dyfodol** | | |
| Dim hwyrach nag un flwyddyn | - | 7 |
| Hwyrach nag un flwyddyn a dim hwyrach na phum mlynedd | - | (2) |
| Hwyrach na phum mlynedd | - | 1 |
| **Cyfanswm** | **-** | **6** |

### Model Buddsoddi Cydfuddiannol yr A465

Ar 28 Hydref 2020, ymrwymodd Llywodraeth Cymru i gontract â Cymoedd y Dyfodol i ddylunio, adeiladu, ariannu a gweithredu cynllun i ddeuoli'r A465 rhwng Dowlais a Hirwaun (Rhannau 5 a 6). Ymrwymwyd i'r contract o dan Fodel Buddsoddi Cydfuddiannol Llywodraeth Cymru.

Mae'r trefniant contractiol hwn yn bodloni'r diffiniad o drefniant consesiwn gwasanaeth ac mae i'w gyfrif ar y fantolen.

Mae'r prosiect yn cynnwys elfen adeiladu (wedi'i rhannu'n bum cam), ac yn y cyfnod hwnnw bydd Cymoedd y Dyfodol (Future Valleys Project Co Limited) yn gyfrifol am droi'r A465 o Ddowlais Top i Hirwaun yn ffordd ddwy lôn ym mhob cyfeiriad.

Daw'r cytundeb i ben 30 mlynedd ar ôl cwblhau'r cyfnod adeiladu terfynol ym mis Mai 2025, ac yn ystod y cyfnod hwnnw bydd Cymoedd y Dyfodol yn gweithredu ac yn cynnal Rhannau 5 a 6 o'r A465. Bydd Taliadau Gwasanaeth Blynyddol yn daladwy gan Lywodraeth Cymru i Cymoedd y Dyfodol o ddyddiad cwblhau cam cyntaf yr adeiladu ym mis Gorffennaf 2025, hyd at ddiwedd y cytundeb.

Cyfanswm y swm a godwyd yn y Datganiad o Wariant Net Cynhwysfawr mewn perthynas â'r Taliadau Gwasanaeth Blynyddol o dan drefniant consesiwn gwasanaeth MIM yr A465 oedd £3.6m (2023-24: £dim).

Nodir cyfanswm yr ymrwymiadau o dan drefniant consesiwn gwasanaeth Model Buddsoddi Cydfuddiannol yr A465 yn y tabl isod.

| | Ar 31 Mawrth 2025 £m | Ar 31 Mawrth 2024 £m |
|---|---|---|
| **Taliadau gwasanaeth blynyddol sy'n ddyledus yn y dyfodol** | | |
| Dim hwyrach nag un flwyddyn | 41 | 11 |
| Hwyrach nag un flwyddyn a dim hwyrach na phum mlynedd | 188 | 177 |
| Hwyrach na phum mlynedd | 1,300 | 1,267 |
| **Cyfanswm** | **1,529** | **1,455** |

Mae ased sy'n cael ei adeiladu o £545m (2023-24: £452m) ac atebolrwydd cysylltiedig o £545m (2023-24: £452m) wedi cael eu cydnabod ar 31 Mawrth 2025 (wedi'u cynnwys yn Nodiadau 4 a 10).

## 16.3 Ymrwymiadau Ariannol Eraill

Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i 'gontractau annileadwy' (nad ydynt yn lesoedd, yn gontractau PFI nac yn drefniadau consesiwn gwasanaeth eraill ) ar gyfer gwasanaethau. Dyma'r taliadau y mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo iddynt, wedi'u dadansoddi yn ôl y cyfnod y mae'r ymrwymiad yn dod i ben ynddo:

| | Ar 31 Mawrth 2025 | | Ar 31 Mawrth 2024 | |
|---|---|---|---|---|
| | Craidd LlC £m | Grŵp LlC £m | Craidd LlC £m | Grŵp LlC £m |
| Dim hwyrach nag un flwyddyn | 28 | 82 | 26 | 91 |
| Hwyrach nag un flwyddyn a dim hwyrach na phum mlynedd | 8 | 8 | 8 | 62 |
| Hwyrach na phum mlynedd | - | - | - | - |
| **Cyfanswm** | **36** | **90** | **34** | **153** |

Wedi'i gynnwys o fewn ymrwymiadau ariannol eraill mae £54m (2023-24: £119m) o ymrwymiadau Rheilffyrdd Trafnidiaeth Cymru Cyfyngedig (TfWRL) ar gyfer taliadau sefydlog ar gyfer mynediad i draciau, depo a gorsafoedd. Mae Rheilffyrdd Trafnidiaeth Cymru Cyfyngedig wedi asesu'r taliadau hyn fel rhai nad ydynt yn bodloni'r diffiniad o les o dan IFRS 16, felly maent wedi'u cynnwys fel ymrwymiadau ariannol eraill.

## 17. Trafodiadau Partïon Cysylltiedig

Mae Llywodraeth Cymru yn cael y rhan fwyaf o'i chyllid gan Gronfa Gyfunol Cymru.

Mae Llywodraeth Cymru yn ariannu Awdurdodau Lleol Cymru, Cyrff y GIG yng Nghymru, is-gyrff a Chyrff a Noddir. Ystyrir y cyrff hyn yn bartïon cysylltiedig y mae Llywodraeth Cymru wedi cael amryw o drafodiadau perthnasol â hwy yn ystod y cyfnod.

Nid oes unrhyw rai o Weinidogion Cymru, staff rheoli allweddol na phartïon cysylltiedig eraill wedi ymgymryd ag unrhyw drafodiadau partïon cysylltiedig â Llywodraeth Cymru yn ystod y flwyddyn, ac eithrio fel y nodir isod:

Mae Jane Hutt (Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyfiawnder Cymdeithasol, y Trefnydd a'r Prif Chwip), Mark Drakeford (Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a'r Gymraeg) a Vaughan Gething (cyn Brif Weinidog) yn aelodau o Undeb Credyd Caerdydd a'r Fro, a gafodd £35,922 o gyllid grant yn 2024-25.

Mae Jayne Bryant (Ysgrifennydd y Cabinet dros Lywodraeth Leol a Thai) yn aelod o Fanc Cymunedol Smart Money Cymru, a gafodd £104,475 o gyllid grant yn 2024-25.

Mae Jeremy Miles (Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd a Gofal Cymdeithasol) yn aelod o Undeb Credyd Celtic, a gafodd £223,431 o gyllid grant yn 2024-25 ac a ad-dalodd £16,500 o gyllid benthyciad.

Mae Sarah Murphy (y Gweinidog Iechyd Meddwl a Llesiant) yn aelod o Undeb Credyd Casnewydd, a gafodd gyllid grant o £146,832 yn 2024-25.

Huw Irranca-Davies (y Dirprwy Brif Weinidog ac Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd a Materion Gwledig) yw Is-lywydd Clwb Bechgyn a Merched Nant-y-moel a gafodd £36,355 o gyllid grant yn 2024-25. Mae aelod agos o'i deulu (fel y'i diffinnir gan IAS24 Partïon Cysylltiedig) yn Uwch-reolwr Ymddiriedolaeth Natur De a Gorllewin Cymru a gafodd £34,534 o gyllid grant yn ystod y flwyddyn.

Mae priod Jane Hutt (Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyfiawnder Cymdeithasol, y Trefnydd a'r Prif Chwip) yn Ymddiriedolwr a Chyfarwyddwr Cyngor ar Bopeth Caerdydd a'r Fro a gafodd £28,976 o gyllid grant. Mae'n ymesgusodi o unrhyw drafodaethau am gyllid Llywodraeth Cymru.

Aled Edwards (Cyfarwyddwr Anweithredol) yw Cadeirydd Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog a gafodd £5,791,897 o gyllid grant yn 2024-25.

Mae Mutale Merrill (Cyfarwyddwr Anweithredol) yn Aelod o Fwrdd Panel Cynghori Is-Sahara a gafodd £349,000 o gyllid grant yn 2024-25 ac mae hefyd yn Aelod o Fwrdd Cymdeithas Tai Hafod a gafodd £6,438,094 o gyllid grant yn 2024-25.

Mae Mike Usher (Cyfarwyddwr Anweithredol) yn Aelod o Fwrdd Tai Hedyn Ltd (Cartrefi Dinas Casnewydd gynt) a gafodd £20,081,571 o gyllid grant ac £18,200,000 o fuddsoddiad benthyciad yn 2024-25. Cafodd Llywodraeth Cymru £115,930 o incwm (incwm rhent yn bennaf) gan Gartrefi Dinas Casnewydd yn 2024-25.

Mae partner Tracey Burke (Cyfarwyddwr Cyffredinol) yn un o lywodraethwyr Coleg Caerdydd a'r Fro a gafodd £22,136,251 (cyllid grant yn bennaf) yn 2024-25. Mae ei phartner hefyd yn Gadeirydd Bwrdd Llywodraethwyr Prifysgol Metropolitan Caerdydd a gafodd £2,900,072 (eto, cyllid grant yn bennaf) yn 2024-25.

Er bod trafodiadau partïon cysylltiedig wedi'u nodi a'u datgelu uchod ar gyfer Gweinidogion ac Uwch-swyddogion, sef trafodiadau rhwng Llywodraeth Cymru ac endidau y mae gan yr unigolion berthynas parti cysylltiedig â hwy, ni fyddent hwy wedi ymwneud yn uniongyrchol â'r broses gaffael i ddyfarnu contractau na'r broses o ddyfarnu unrhyw grantiau.

Datgelir trafodiadau partïon cysylltiedig Cyrff y GIG yng Nghymru ac is-gyrff eraill yn eu cyfrifon cyhoeddedig eu hunain.

## 17.1 Canlyniadau Cwmnïau Cyfunol o dan Berchnogaeth Llwyr

| | Y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2025 | | Y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2024 | |
|---|---|---|---|---|
| | Elw/(Colled) £m | Cyfalaf Cyfrannau a Chronfeydd Wrth Gefn £m | Elw/(Colled) £m | Cyfalaf Cyfrannau a Chronfeydd Wrth Gefn £m |
| Grŵp Banc Datblygu Cymru[a] | 19 | 380 | 38 | 356 |
| Cronfa Buddsoddi Cymru mewn Adfywio (LLP) | 5 | 55 | 2 | 50 |
| WGC Holdco Limited | - | 22 | (3) | 22 |
| Dewis Gyrfa Career Choices Cyfyngedig | 3 | 34 | 2 | 6 |
| Grŵp Trafnidiaeth Cymru | (32) | 1,400 | (33) | 1,478 |

a Buddsoddiad o 49,999 o gyfranddaliadau £1 cyffredin, 25c wedi'i ran-dalu.

Mae'r cyfrifon hyn wedi'u cyfuno gan ddefnyddio ffigurau drafft os nad oes cyfrifon terfynol ar gael, gan nad ydynt yn sylweddol wahanol i'r rhai a ddatgelwyd.

## 17.2 Mân Is-gyrff a Buddiannau Eraill

Cynhwysir y Cyd-fentrau canlynol gan Lywodraeth Cymru yn y cyfrifon cyfunol:

- Canolfan Gynadledda Ryngwladol Cymru – Mae Llywodraeth Cymru yn berchen ar 50% o'r cyfalaf cyfranddaliadau a ddyroddwyd ar gyfer Canolfan Gynadledda Ryngwladol Cymru, ac mae'r 50% arall yn cael ei ddal gan Westy Hamdden y Celtic Manor.
- Airbus Endeavr Wales (EADS Foundation Wales gynt) – cyd-fuddiant mewn cwmni cyfyngedig drwy warant. Delir perchnogaeth ar y cyd gydag Airbus Defence and Space Ltd (gynt Cassidian Holdings Limited) a Phrifysgol Caerdydd.

Ni chynhwysir y buddiannau canlynol gan Lywodraeth Cymru yn y cyfrifon cyfunol:

Adrannau Anweinidogol Llywodraeth Cymru – yn ddarostyngedig i orchymyn dynodi ond yn amherthnasol at ddibenion cyfuno:

- Awdurdod Cyllid Cymru.

Is-gwmnïau a Chyrff Hyd Braich Llywodraeth Cymru – yn ddarostyngedig i orchymyn dynodi ond yn amherthnasol at ddibenion cyfuno:

- Comisiwn Dylunio Cymru (DCFW Limited)
- Hybu Cig Cymru Cyf/Meat Promotion Wales Limited
- Diwydiant Cymru (Sector Development Wales Partnership Limited)[89]
- Hwb Gwyddorau Bywyd Cymru
- Y Ganolfan Gwasanaethau Cyhoeddus Digidol[90]
- Yr Academi Genedlaethol ar gyfer Arweinyddiaeth Addysgol (Dysgu Proffesiynol ac Addysg Arweinyddiaeth Cymru o 1 Medi 2025 a elwir yn Dysgu)
- Comisiynydd Plant Cymru
- Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru
- Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru
- Comisiynydd y Gymraeg
- Cwmni Egino Limited
- GCRE Limited[91]
- Adnodd Cyfyngedig (Cwmni Adnoddau Addysg Dwyieithog)
- Estyn (Prif Arolygydd Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru)
- Cymwysterau Cymru
- Cyngor y Gweithlu Addysg
- Llais (Corff Llais y Dinesydd Cymru).

Is-gwmnïau Llywodraeth Cymru nad ydynt yn ddarostyngedig i orchymyn dynodi ac sy'n amherthnasol at ddibenion cyfuno:

- Welsh Development Management Limited
- Trydan Gwyrdd Cymru Cyf.

Diddymwyd International Business Wales Limited a oedd gynt yn is-gwmni i Lywodraeth Cymru ar 19 Tachwedd 2024.

### Y Cwmni Benthyciadau i Fyfyrwyr (Student Loans Company Limited)

Mae Llywodraeth Cymru yn dal un gyfran â gwerth enwol o £1. Delir cyd-berchnogaeth gyda'r Adran Addysg, Llywodraeth yr Alban a Llywodraeth Gogledd Iwerddon. Mae'r gyfran yn rhoi daliad o 5% yn y cwmni i Lywodraeth Cymru.

### Elusennau'r GIG

Mae Elusennau'r GIG yng Nghymru yn is-gyrff i'r Byrddau Iechyd Lleol ac Ymddiriedolaethau'r GIG. Nid ydynt yn ddarostyngedig i orchymyn dynodi ac maent yn amherthnasol at ddibenion cyfuno.

Gellir dod o hyd i Gyfrifon Statudol endidau a nodir yn 17.1 a 17.2 ar eu gwefannau eu hunain neu ar wefan Tŷ'r Cwmnïau: www.gov.uk/government/organisations/companies-house.cy.

89 Ar 2 Hydref 2025 yn dilyn adolygiad, bydd Llywodraeth Cymru, ar ddiwedd cyfnod presennol cytundeb y Llywodraeth, yn dileu ei hun fel unig warantwr Diwydiant Cymru ac yn diddymu'r cwmni.
90 Ar 18 Medi 2025 cyhoeddodd Gweinidogion Cymru y bydd swyddogaethau'r Ganolfan yn cael eu hintegreiddio o fewn Llywodraeth Cymru. Disgwylir i hyn gael ei gyflawni erbyn mis Ebrill 2026.
91 Mae gweithgarwch GCRE yn 2024-25 yn fwy na'r lefel perthnasedd ar gyfer cydgrynhoi ond yn ansylweddol i Grŵp Llywodraeth Cymru yn ei gyfanrwydd. Er ei fod wedi'i ddynodi ar gyfer cydgrynhoi a'i ddosbarthu gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol fel endid Llywodraeth Ganolog ym mis Medi 2024, mae buddsoddiad ariannol preifat yn cael ei geisio ar gyfer dyfodol hirdymor yr endid hwn, a disgwylir y bydd yn cael effaith ar ddosbarthiad yn y dyfodol.

## 18. Digwyddiadau wedi'r Cyfnod Adrodd

### Maes Awyr Rhyngwladol Caerdydd

Mae Maes Awyr Rhyngwladol Caerdydd yn is-gwmni i Lywodraeth Cymru drwy WGC Holdco Limited. Cafodd manylion pecyn cymhorthdal a gymeradwywyd gan Weinidogion Cymru ar gyfer Maes Awyr Caerdydd, sef hyd at £205.2m dros 10 mlynedd, eu lanlwytho i gronfa ddata tryloywder cymorthdaliadau'r DU ym mis Ebrill 2025, a chafodd y taliad cyntaf o £20m ei wneud ym mis Ebrill 2025. Ar 25 Mehefin 2025, cafodd Llywodraeth Cymru wybod bod Maes Awyr Bryste yn herio penderfyniad Gweinidogion Cymru i wneud y buddsoddiad cymhorthdal hwn drwy apelio i'r Tribiwnlys Apêl Cystadleuaeth (CAT). Mae rhagor o wybodaeth wedi'i chynnwys yn Nodyn 6.3.

### Safle Rheolaethau'r Ffin (BCP) Caergybi

Ym mis Mai 2025, cyhoeddodd Llywodraeth y DU Ddealltwriaeth Gyffredin â'r Undeb Ewropeaidd (UE) gyda'r bwriad o drafod 'Ardal Glanweithdra a Ffytoiechydol Gyffredin' a allai, pe cytunid arni, yn eithrio llawer o fewnforion anifeiliaid byw a nwyddau rhag gwiriadau glanweithdra a ffytoiechydol (SPS) ar y ffin. O ganlyniad, cyhoeddodd Gweinidogion Cymru ym mis Mehefin 2025 na fyddent yn bwrw ymlaen â chamau terfynol comisiynu a staffio terfynol BCP Caergybi, a gynhwysir yn Nodyn 4 o'r cyfrifon hyn fel ased sy'n cael ei adeiladu o £45.6m ar 31 Mawrth 2025. Bydd y penderfyniad yn cael ei adolygu nes y bydd manylion terfynol y cytundeb â'r UE yn hysbys. Caiff cynlluniau tymor hwy eu gwneud wedyn ar gyfer safle Caergybi. Yn y cyfamser, fe'i delir yn barod ac ar gael fel cyfleuster BCP posibl. I gael rhagor o wybodaeth, gweler y datganiad ysgrifenedig canlynol gan Weinidogion Cymru: Datganiad Ysgrifenedig: Rheolaethau Ffiniau ar fewnforion i Gymru o Iwerddon (24 Mehefin 2025) | LLYW. CYMRU.

## 19. Awdurdodwyd i'w Cyhoeddi

Awdurdodod y Prif Swyddog Cyfrifyddu y datganiadau ariannol hyn i'w cyhoeddi ar 11 Rhagfyr 2025.

# Atodiad A – Polisïau Cyfrifyddu

## A.1 Incwm Gweithredu

Mae incwm gweithredu yn cyfeirio'n uniongyrchol at weithgareddau gweithredu Grŵp Llywodraeth Cymru. Cyfrifwyd am holl refeniw Llywodraeth Cymru sy'n dod o fewn cwmpas IFRS 15 Refeniw o Gontractau â Chwsmeriaid yn unol â'r Safon, fel y mae wedi'i haddasu a'i dehongli gan FReM. Mae refeniw yn cael ei fesur yn ôl gwerth teg y gydnabyddiaeth sy'n dderbyniadwy, ac fe'i cydnabyddir ar yr adeg pan ddarperir nwydd neu wasanaeth, neu dros yr amser hwnnw.

### A.1.1 Incwm o Werthu Nwyddau a Gwasanaethau

Mae refeniw teithwyr Trafnidiaeth Cymru (TrC) wedi'i gynnwys o fewn incwm o werthu nwyddau a gwasanaethau. Refeniw teithwyr yw'r symiau y cytunwyd arnynt fel y'u priodolir i Rheilffyrdd Trafnidiaeth Cymru gan systemau dyrannu incwm y Rail Settlement Plan Limited, yn bennaf mewn perthynas â derbyniadau teithwyr. Mae gwybodaeth bellach am ffynonellau incwm TrC i'w gweld yng nghyfrifon Grŵp Trafnidiaeth Cymru.

### A.1.2 Incwm Gweithredu arall nad yw'n Incwm yr UE

Mae incwm iechyd yn cael ei gynnwys o fewn incwm gweithredu arall nad yw'n incwm yr UE. Mae gwybodaeth bellach am ffynonellau o incwm iechyd i'w gweld yng Nghyfrifon Cryno'r GIG.

### A.1.3 Incwm Gweithredu arall yr UE

Mae refeniw o'r Undeb Ewropeaidd mewn perthynas â rhaglenni, cronfeydd a mentrau Ewropeaidd yn cael ei ddwyn i gyfrif yn unol â grantiau sy'n daladwy mewn perthynas â'r symiau hyn ac fe'i dangosir yn Nodyn 2. Mae'r cronfeydd yn cael eu talu i Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru. Mae'r cronfeydd hyn yn cael eu trosglwyddo wedyn i'r adran berthnasol yn Llywodraeth Cymru ac fe gyfrifir amdanynt yn Nodyn 3.

## A.2 Gwariant

### A.2.1 Grantiau

Mae grantiau sy'n daladwy, neu a delir, yn cael eu cofnodi fel gwariant yn y cyfnod y mae'r digwyddiad neu'r gweithgarwch sy'n rhoi hawl i'r grant yn digwydd ac maent yn cynnwys amcangyfrifon ar gyfer hawliadau nad ydynt wedi dod i law eto. Pan fydd cyfryngwr yn gweithredu fel asiant wrth ddosbarthu'r grant ar ran Llywodraeth Cymru, cydnabyddir grantiau sy'n daladwy pan fydd gan dderbynnydd y grant hawl i'r grant.

Mae cyllid i Gyrff a Noddir gan Lywodraeth Cymru drwy Gymorth Grant yn cael ei adrodd ar sail arian parod yn y cyfnod y gwneir taliadau. Mae cyllid Cymorth Grant a ddarperir i endidau cyfunol o fewn Grŵp Llywodraeth Cymru yn cael ei ddileu adeg cyfuno. Mae'r Crynodeb o Alldro Adnoddau yn cynnwys canlyniadau Cyrff a Noddir gan Lywodraeth Cymru ar sail alldro adnoddau.

### A.2.2 Gwariant Gweithredu Arall

Cydnabyddir gwariant gweithredu arall ar gyfer nwyddau neu wasanaethau pan fyddant wedi dod i law, ac i ba raddau. Mae'r gwariant hwn yn cael ei fesur yn ôl gwerth teg y gydnabyddiaeth sy'n daladwy.

### A.2.3 Treth ar Werth (TAW)

Mae Llywodraeth Cymru yn adennill rhai elfennau ar TAW ar gyfer gwasanaethau busnes a gwasanaethau sy'n cael eu contractio allan. Yn achos gwariant arall ar nwyddau a gwasanaethau cofnodir y rhain yn gynhwysol o TAW.

## A.3 Buddion i Gyflogeion

### A.3.1 Buddion Tymor Byr i Gyflogeion

Cydnabyddir cyflogau a thaliadau sy'n gysylltiedig â chyflogaeth yn y cyfnod pan geir y gwasanaeth oddi wrth gyfleogeion.

### A.3.2 Pensiynau

Cynhwysir y mwyafrif o gyflogeion presennol a blaenorol Llywodraeth Cymru yn narpariaethau Prif Gynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil (PSPCS) a ddisgrifir yn yr Adroddiad Atebolrwydd.

Nid yw elfennau buddion diffiniedig y cynllun yn cael eu hariannu. Mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod cost ddisgwyliedig yr elfennau hyn ar sail systematig a rhesymol dros y cyfnod y mae'n elwa ar wasanaethau cyflogeion drwy dalu i Brif Gynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil (PCSPS) symiau a gyfrifir ar sail gronnus. Mae'r atebolrwydd i dalu buddion yn y dyfodol yn gost i PCSPS. O ran y cynlluniau cyfraniadau diffiniedig, mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod y cyfraniadau sy'n daladwy am y flwyddyn. Cydnabyddir yr holl enillion a cholledion actiwaraidd sy'n deillio o addasiadau profiadau a newidiadau mewn rhagdybiaethau actiwaraidd drwy gronfeydd wrth gefn yn y cyfnod y maent yn codi.

Mae rhai o gyn-staff Awdurdod Datblygu Cymru, staff presennol Banc Datblygu Cymru a staff Dewis Gyrfa yn cymryd rhan mewn nifer o Gynlluniau Pensiwn Llywodraeth Leol yng Nghymru sy'n gynlluniau a ariennir gan aml-gyflogwr. Mae rhai o staff Llywodraeth Cymru'n cyfrannu at: Gynlluniau'r Adran Iechyd a'r Ymddiriedolaeth Lles Nyrsys.

Mae cyflogeion cyrff iechyd yn cymryd rhan yng nghynllun pensiwn y GIG. Mae gwybodaeth am y cynllun hwn i'w gweld yng Nghyfrifon Cryno'r GIG.

Mae cyflogeion Trafnidiaeth Cymru yn cymryd rhan yng Nghynllun Pensiwn y Rheilffyrdd. Mae gwybodaeth am y cynllun hwn i'w gweld yng Nghyfrifon Trafnidiaeth Cymru.

Mae'r polisïau cyfrifyddu manwl a'r datgeliadau o atebolrwyddau/asedau pensiwn cyflogwyr sydd wedi'u cynnwys yng Nghyfrif Cyfunol Llywodraeth Cymru ar gyfer endidau cyfunol i'w gweld yng Nghyfrifon Cryno'r GIG (Cynllun Pensiwn NEST a'r GIG), cyfrifon Grŵp Trafnidiaeth Cymru (cyfraniad diffiniedig a'r Cynllun Pensiwn Rheilffyrdd), cyfrifon Grŵp Banc Datblygu Cymru (cyfraniad diffiniedig a Chynllun Pensiwn Llywodraeth Leol) a chyfrifon Career Choices Dewis Gyrfa Ltd (Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol).

### A.3.3 Costau Ymadael yn Gynnar

Mae'n ofynnol i Lywodraeth Cymru dalu cost ychwanegol buddion y tu hwnt i fuddion PCSPS arferol mewn perthynas â chyflogeion sy'n ymddeol yn gynnar. Mae Llywodraeth Cymru yn darparu yn llawn am y gost hon pan fo'r rhaglen ymddeoliad cynnar wedi'i chyhoeddi ac mae'n rhwymo. Caiff Llywodraeth Cymru, o dan rai amgylchiadau, setlo rhywfaint neu'r cyfan o'i hatebolrwydd ymlaen llaw drwy wneud taliad i Wasanaeth Bancio'r Llywodraeth ym Manc Lloegr i gredydu'r Bleidlais Blwydd-daliadau Sifil. Mae trefniadau tebyg yn bodoli ar gyfer cyflogeion Cyrff Iechyd sy'n ymddeol yn gynnar.

Ar gyfer cyflogeion cyn uno a chyn-weithwyr yr hen Awdurdod Datblygu Cymru yng Nghynllun Pensiwn Rhondda Cynon Taf, mae Llywodraeth Cymru yn talu cost ychwanegol buddion y cynllun mewn perthynas â gweithwyr sy'n ymddeol yn gynnar.

## A.4 Eiddo, Offer a Chyfarpar

### A.4.1 Asedau'r Rhwydwaith

Mae asedau'r rhwydwaith yn cael eu prisio ar gost amnewid ddibrisiedig (DRC) yn unol â'r canllawiau yn FReM ar gyfer asedau arbenigol nad oes prisiadau marchnad ar gael ar eu cyfer. Er mwyn cynhyrchu'r prisiadau hyn mae angen defnyddio rhagdybiaethau, amcangyfrifon a barn broffesiynol.

Ar gyfer y rhwydwaith ffyrdd, y model a ddefnyddir i gynhyrchu'r prisiad yw'r System Prisio Asedau Awdurdodau Ffyrdd (RAAVS).

Ar gyfer y rhwydwaith rheilffyrdd mae'r gwaith ar y model a ddefnyddir i gynhyrchu'r prisiad yn cael ei wneud gan TrC gyda chefnogaeth gan AtkinsRéalis UK Limited (priswyr proffesiynol) gan ddefnyddio data a ddarperir gan TrC.

Cynhelir prisiadau llawn o asedau'r rhwydwaith bob pum mlynedd fan bellaf. Mae prisiadau interim yn defnyddio cyfres o gostau safonol i brisio cydrannau unigol o asedau'r rhwydwaith a mynegeion i ailbrisio'r rhain yn flynyddol. Mae dyddiad y prisiad llawn diwethaf ar gyfer Asedau'r Rhwydwaith wedi'i gynnwys yn Nodyn 4.1.

### A.4.2 Y Rhwydwaith Ffyrdd

Cydnabyddir bod y rhwydwaith cefnffyrdd yn ased seilwaith unigol yn unol â'r canllawiau cymwys a amlinellir yn FReM. Er hynny, mae'n cynnwys pedair elfen neilltuol y cyfrifir amdanynt yn wahanol: tir; palmant ffordd; strwythurau (megis pontydd a chwlfertau); a chyfathrebu (megis arwyddion negeseuon newidiol).

Mae'r elfen palmant ffordd yn cael ei phrisio gan ddefnyddio cyfraddau y cytunwyd arnynt i nodi cost adnewyddu gros mathau cymwys o ffyrdd ar sail adeiladu newydd ar safle maes gwyrdd. Caiff y cyfraddau hyn eu hailbrisio'n flynyddol gan ddefnyddio mynegeion i adlewyrchu prisiau cyfredol.

Caiff strwythurau eu prisio gan ddefnyddio cyfraddau y cytunir arnynt i nodi cost amnewid mathau cymwys o strwythur ar safle maes gwyrdd lle mae'r rhain ar gael; ond caiff strwythurau arbennig, sy'n tueddu i fod yn unigryw eu natur, eu prisio gan ddefnyddio costau penodol sy'n cael eu diweddaru i'r prisiau cyfredol.

Caiff cyfathrebu ei brisio gan ddefnyddio cyfraddau y cytunir arnynt i nodi cost amnewid mathau cymwys o gyfathrebu.

Caiff tir ei brisio gan ddefnyddio cyfraddau Asiantaeth y Swyddfa Brisio wedi'u rhannu â gwerthoedd Awdurdod Lleol a gwerthoedd gwledig/trefol. Mae'r prisiad hefyd yn cynnwys asesiad o gostau iawndal prynu tir.

Caiff yr holl waith cynnal a chadw sy'n cynnal potensial gwasanaeth y rhwydwaith ffyrdd ei gyfalafu. Mae gwariant olynol sy'n ychwanegu at wasanaeth neu oes y rhwydwaith ffyrdd yn cael ei gyfalafu.

Mae ffyrdd newydd yn cael eu hailgategoreiddio o Asedau sy'n cael eu Hadeiladu pan fydd y manylion strwythurol wedi'u darparu gan yr awdurdod Asiant i'w mewnbynnu i'r model, a allai fod beth amser ar ôl i'r ffordd agor.

Cyfeirir at drosglwyddo'r cyfrifoldeb dros gynnal a chadw darnau o'r ffordd fel rhan o'r rhwydwaith cefnffyrdd i rwydwaith yr Awdurdod Lleol neu oddi wrtho fel 'creu statws cefnffordd' neu 'dynnu statws cefnffordd' yn eu trefn. Mae 'creu statws cefnffordd' neu 'dynnu statws cefnffordd' oddi wrth yr Awdurdodau Lleol neu ei roi iddynt yn cael ei drin fel trosglwyddiad oddi wrth adrannau llywodraeth eraill neu iddynt. Ymdrinnir â ffyrdd a strwythurau y tynnwyd eu statws fel gwarediadau o safbwynt cyfrifyddu heb unrhyw gost ynghlwm wrthynt.

Mae'r elw neu'r golled gysylltiedig yn cael eu prosesu drwy'r gronfa gyffredinol.

Y ffactorau mynegeio a gymhwysir i'r model yw:

- Palmant Ffordd a Strwythurau – Mynegai Baxter.
- Cyfathrebu – Mynegai BEAMA.
- Tir – Mynegeion tir a gynhyrchir gan Asiantaeth y Swyddfa Brisio.

Cymerir symudiadau ar i fyny o ran gwerth i'r gronfa ailbrisiadau. Mae symudiadau ar i lawr o ran gwerth yn cael eu gosod yn erbyn unrhyw falans credyd a ddelir yn y gronfa ailbrisiadau nes i'r credyd ddod i ben a chânt eu gosod fel traul wedyn yn y Datganiad o Wariant Net Cynhwysfawr.

## A.4.3 Y Rhwydwaith Rheilffyrdd

Caiff ased rhwydwaith rheilffyrdd Llinellau Craidd y Cymoedd (CVL) ei chydnabod yn ased seilwaith unigol yn unol â'r canllawiau perthnasol a amlinellir yn FReM. Er hynny, mae'n cynnwys chwe elfen neilltuol y cyfrifir amdanynt yn wahanol: gwrthgloddiau; strwythurau; trydaneiddio, offer a signalau; eiddo gweithredol; traciau; a thelathrebu.

Cyfrifir y gost amnewid ddibrisiedig (DRC) drwy bennu cost amnewid gros ar gyfer rhwydwaith CVL yn gyntaf. Yna caiff y gost amnewid gros ei haddasu (neu ei "dibrisio") i adlewyrchu amcangyfrif gorau'r rheolwyr o gyflwr a chapasiti rhwydwaith CVL; y gost amnewid gros hon wedi'i haddasu yw'r gost amnewid ddibrisiedig.

Pennir y gost amnewid gros yn unol â chanllawiau a gyhoeddwyd gan Sefydliad Brenhinol y Syrfewyr Siartredig.

Mae'r canllawiau'n gofyn am ragdybiaethau penodol gan gynnwys:

- ased cyfatebol modern sy'n cael ei drin fel rhwydwaith sydd yn union yr un fath o ran swyddogaeth, graddfa a chysylltedd, ond a adeiladwyd gan ddefnyddio manylebau a dulliau modern; ac
- adeiladu ar unwaith ar safle maes gwyrdd.

Er mwyn pennnu'r prisiad DRC terfynol, addasir y gwerth amnewid gros i adlewyrchu amcangyfrif gorau'r rheolwyr o fywydau defnyddiol yr asedau sy'n weddill, gan ystyried cyflwr a chapasiti'r rhwydwaith.

Y ffactorau mynegeio a gymhwysir i'r model yw:

- Tir – Y Mynegai Prisiau Defnyddwyr gan gynnwys costau tai perchen-feddianwyr (CPIH).
- Adeiladau – Mynegai Prisiau Defnyddwyr

Caiff yr holl adnewyddiadau sy'n cadw potensial gwasanaeth y rhwydwaith rheilffyrdd eu cyfalafu. Mae gwariant olynol sy'n ychwanegu at wasanaeth neu oes yr ased CVL yn cael ei gyfalafu.

Cynhwysir gwelliannau ac adnewyddiadau i'r ased CVL fel un swm ar gost fel asedau sy'n cael eu hadeiladu, hyd nes y cânt eu defnyddio, pryd y caiff yr ased ei drosglwyddo i gategori'r Rhwydwaith Rheilffyrdd a'i brisio yn ôl DRC.

Cymerir symudiadau ar i fyny o ran gwerth i'r gronfa ailbrisiadau. Mae symudiadau ar i lawr o ran gwerth yn cael eu gosod yn erbyn unrhyw gredyd a ddelir yn y gronfa ailbrisiadau nes i'r credyd ddod i ben a chânt eu gosod fel traul wedyn yn y Datganiad o Wariant Net Cynhwysfawr.

## A.4.4 Tir ac Adeiladau (gan gynnwys Anheddau)

Mae Llywodraeth Cymru a'i chyrff cysylltiedig yn cyfalafu eiddo rhydd-ddaliadol lle mae'n cael ei gadw i'w ddefnyddio gan y corff ei hun. Caiff tir ac adeiladau rhydd-ddaliadol eu dal ar werth y farchnad agored at ddefnydd presennol; yr eithriad yw eiddo o natur arbenigol a gedwir ar gost amnewid ddibrisiedig. Mae tir ac adeiladau'n cael eu prisio gan ddefnyddio prisiadau proffesiynol naill ai bob pum mlynedd, neu'n flynyddol, gyda mynegeion priodol yn y blynyddoedd rhwng hynny ar gyfer prisiadau nad ydynt yn flynyddol. Mae Llywodraeth Cymru yn defnyddio mynegai misol y Banc Data Eiddo Buddsoddi (IPD) ar gyfer mynegeion Canolbarth Lloegr a Chymru.

### A.4.5 Offer a Chyfarpar

Mae offer a chyfarpar (sy'n cynnwys offer a pheiriannau, offer cludiant, technoleg gwybodaeth a gosodiadau a ffitiadau), yn cael eu cario ar gost hanesyddol fel procsi ar gyfer gwerth cyfredol. Gan mai oes ddefnyddiol fer sydd i'r dosbarthiadau hyn o asedau, dim ond am bris gormodol y gellid cael ailbrisiadau dibynadwy o'r asedau hyn. Ni ddefnyddir unrhyw amcangyfrif arwyddocaol wrth brisio'r dosbarthiadau hyn o asedau.

Y lefel isaf ar gyfer cyfalafu asedau unigol ac asedau wedi'u grwpio yw £5,000.

### A.4.6 Asedau Treftadaeth

Mae Llywodraeth Cymru yn dal nifer o asedau treftadaeth anweithredol lle mae'r gwerth diwylliannol, addysgol a hanesyddol yn annhebygol o gael ei adlewyrchu'n llawn mewn gwerth ariannol sy'n deillio o fecanwaith neu bris y farchnad. Mae'r asedau hyn yn arbenigol eu natur a naill ai ni ellir sicrhau prisiadau dibynadwy, neu ni ellid eu sicrhau ond am bris gormodol. Nid yw Llywodraeth Cymru, felly'n cyfalafu'r asedau hyn yn y cyfrifon.

Mae'r holl asedau treftadaeth gweithredol yn cael eu cyfalafu yn y Datganiad o'r Sefyllfa Ariannol fel rhan o Eiddo, Offer a Chyfarpar (gweler Nodyn 4).

## A.5 Dibrisiant

### A.5.1 Y Rhwydwaith Ffyrdd

Mae'r gost dibrisiant ar gyfer y rhwydwaith ffyrdd yn cynnwys tair elfen:

i. tâl cynnal a chadw blynyddol;

ii. amcangyfrif o'r dirywiad parhaol yng nghyflwr y rhwydwaith yn y flwyddyn (a gyfrifwyd gan y model cyfrifiadur ar sail y data diweddaraf am gyflwr y rhwydwaith y cyfeirir ato yn y nodyn asedau anghyfredol uchod); a

iii. dibrisiant wedi'i gyfrifo o'r strwythurau a chyfathrebu.

Cyfrifir am ddibrisiant mewn perthynas â'r palmant ffordd drwy gyfeirio at y potensial gwasanaeth a asesir gan arolygon cyflwr a gyflawnir dros y rhwydwaith cyfan fel rhan o raglen dreigl sy'n cwmpasu pob darn o'r ffordd bob pum mlynedd. Defnyddir arolygon defflectograff i asesu cyflwr strwythurol palmentydd hyblyg. Mae maint y gwyriad yn ymwneud â chryfder haenau'r palmant sydd, wedi'i brosesu gyda data adeiladu a thraffig yn rhoi oes weddilliol (mewn blynyddoedd). Nid oes modd mesur oes weddilliol ar balmentydd concrid felly defnyddir dull arall. Y gost dibrisiant flynyddol ar gyfer arwynebedd y ffordd yw gwerth y potensial gwasanaeth a ddisodlwyd drwy'r rhaglen cynnal a chadw, plws neu lai unrhyw addasiad sy'n deillio o'r arolwg cyflwr blynyddol.

Mae'r elfennau nenbont, wal gynnal, rafft seilbyst a chyfathrebu'n cael eu dibrisio gan ddefnyddio'r dull llinell syth sy'n cael ei gymhwyso i'r costau adnewyddu wedi'u hailbrisio, a hefyd yn cael eu harchwilio bob pum mlynedd i nodi unrhyw newidiadau eraill.

Bydd pontydd, ceuffosydd a thwneli yn cael eu dibrisio ar sail gylchol gyda gwerth y strwythur yn cael ei rannu dair ffordd:

- nid yw 20% yn dibrisio.
- nid yw 15% yn dibrisio yn unionlin dros 20 mlynedd ac yna caiff ei adnewyddu (yn adlewyrchu gwaith cynnal a chadw cylchol).
- mae 65% yn dibrisio yn unionlin dros oes 120 mlynedd.

Nid yw tir yn cael ei ddibrisio.

Dangosir oes cydrannau ffyrdd yn yr amrediadau canlynol:

| | |
|---|---|
| Arwynebedd y rhwydwaith | hyd at 20 o flynyddoedd |
| Strwythurau'r rhwydwaith | 20 i 120 o flynyddoedd |
| Cyfathrebu'r rhwydwaith | 2 i 15 o flynyddoedd |
| Tir | heb ei ddibrisio |

### A.5.2 Y Rhwydwaith Rheilffyrdd

Mae cydrannau'r rhwydwaith rheilffyrdd yn cael eu dibrisio dros eu bywydau economaidd defnyddiol sy'n weddill; mae'r rhain fel arfer yn gyfartaleddau wedi'u pwysoli ar gyfer ystod o gydrannau, o ystyried cymhlethdod y strwythurau hyn. Crynhoir y cyfartaleddau wedi'u pwysoli isod:

| | |
|---|---|
| Gwrthgloddiau | 92 o flynyddoedd |
| Strwythurau | 26 o flynyddoedd |
| Signalau | 12 o flynyddoedd |
| Trydaneiddio a pheiriannau | 44 o flynyddoedd |
| Eiddo gweithredol | 30 o flynyddoedd |
| Traciau | 14 o flynyddoedd |
| Telathrebu | 20 o flynyddoedd |

Mae hon yn farn feirniadol sy'n seiliedig ar y data sydd ar gael. Mae angen barn ofalus mewn rhai achosion, yn enwedig ar gyfer cydrannau nad ydynt yn cael eu hadnewyddu'n aml, megis strwythurau a gwrthgloddiau. Mae rhai cydrannau'n gallu cael oes hir iawn; fodd bynnag ar gyfer y prisiad hwn, mae'r oes yn cael ei chapio ar 100 mlynedd oherwydd ansicrwydd cynhenid y tu hwnt i'r cyfnod hwnnw.

Adolygir dulliau dibrisiant, oes ddefnyddiol a gwerthoedd gweddilliol ar ddyddiad pob Datganiad o Sefyllfa Ariannol.

### A.5.3 Asedau Eraill

Darperir dibrisiant yn ôl cyfraddau a gyfrifir i ddileu gwerth asedau nad ydynt yn ddiriaethol ac eiddo arall, asedau eiddo, offer a chyfarpar drwy randaliadau cyfartal dros eu hoes ddefnyddiol a amcangyfrifir.

| | |
|---|---|
| Anheddau | Gweddill oes |
| Adeiladau rhydd-ddaliadol | hyd at 85 o flynyddoedd |
| Offer, peiriannau a chyfarpar trafnidiaeth | 5 i 15 o flynyddoedd |
| Technoleg gwybodaeth | 3 i 10 o flynyddoedd |
| Asedau meddalwedd anniriaethol | 2 i 10 o flynyddoedd |
| Gosodiadau a ffitiadau | 3 i 20 o flynyddoedd |

Nid yw tir rhydd-ddaliadol ac asedau sydd wrthi'n cael eu hadeiladu yn cael eu dibrisio. Mae amhariadau asedau sefydlog diriaethol yn cael eu cynnwys yn y Datganiad o Wariant Net Cynhwysfawr yn y cyfnod y maent yn codi.

## A.6 Asedau ariannol

Mae asedau ariannol yn cael eu cydnabod pan fydd Llywodraeth Cymru yn dod yn rhan o gontract yr offeryn ariannol. Mae asedau ariannol yn cael eu datgydnabod pan fydd yr hawliau contractiol wedi dod i ben neu pan fo'r ased wedi'i drosglwyddo.

Cyfrifir am yr holl asedau ariannol yn unol ag IFRS 9 Offerynnau Ariannol, fel y mae wedi'i addasu a'i ddehongli gan FReM. Ar sail cydnabyddiaeth gychwynnol, mae'r holl asedau ariannol yn cael eu mesur yn ôl gwerth teg.

### A.6.1 Mesur Dilynol – Cost wedi'i Hamorteiddio

**Asedau Ariannol Eraill**

Mae Llywodraeth Cymru yn rhoi benthyciadau a chyllid ad-daladwy i gwmnïau grŵp, gan gynnwys Banc Datblygu Cymru, cyrff eraill y sector cyhoeddus a chwmnïau'r sector preifat at ddibenion datblygu economaidd neu amcanion gweithredu polisi. Delir yr asedau ariannol hyn at ddibenion casglu taliadau contractiol

y prifswm ac unrhyw log sydd i'w godi, ac fe'u delir yn ôl cost wedi'i hamorteiddio yn unol ag IFRS 9. Mae colledion credyd disgwyliedig yn cael eu cydnabod lle maent yn berthnasol.

Cyfrifir am fenthyciadau a wneir gan Fanc Datblygu Cymru yn unol ag IRS 9 lle mae offerynnau dyled a ddelir i gasglu taliadau contractiol y prifswm a'r llog yn cael eu dal yn ôl cost wedi'i hamorteiddio. Nodir manylion llawn polisïau cyfrifyddu Banc Datblygu Cymru ar gyfer asedau ariannol, gan gynnwys colledion credyd disgwyliedig, yng nghyfrifon Banc Datblygu Cymru.

## A.6.2 Mesur Dilynol – Gwerth Teg drwy Ddatganiad o Wariant Net Cynhwysfawr

**Benthyciadau i Fyfyrwyr**

Yn unol â'r ffordd y mae FReM yn cymhwyso IFRS 9, mae benthyciadau i fyfyrwyr yn cael eu categoreiddio fel benthyciadau a symiau derbyniadwy ac yn cael eu cario yn ôl gwerth teg drwy Ddatganiad o Wariant Net Cynhwysfawr. Nodir esboniad manwl o'r dull gweithredu ar gyfer prisio yn Nodyn 6.

Polisi cyfrifyddu Llywodraeth Cymru yw cydnabod ychwanegiad at y llyfr benthyciadau myfyrwyr pan fydd y Cwmni Benthyciadau i Fyfyrwyr (SLC) wedi rhoi'r benthyciad i'r myfyriwr.

Cesglir ad-daliadau benthyciadau gan SLC a Chyllid a Thollau Ei Fawrhydi (CThEF). Yn achos ad-daliadau a wneir drwy SLC, mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod y taliad pan fydd SLC wedi cael yr arian parod a diweddaru cofnod y benthyciwr. Yn achos ad-daliadau a gesglir drwy'r system drethi, cydnabyddir hyn pan ddaw'r symiau sy'n ddyledus i Lywodraeth Cymru am y flwyddyn ariannol yn ôl amcangyfrif CThEF i law. Dangosir gwerthoedd benthyciadau i fyfyrwyr yn net o ddiddymiadau a amcangyfrifir yn y dyfodol ac maent yn cael eu hadolygu'n flynyddol.

**Cymorth i Brynu – Cymru**

Mae benthyciadau Cymorth i Brynu – Cymru a reolir gan Fanc Datblygu Cymru yn fenthyciadau rhannu ecwiti ac fe'u delir yn ôl gwerth teg drwy'r Datganiad o Wariant Net Cynhwysfawr. Ceir rhagor o fanylion am fodel gwerth teg Cymorth i Brynu – Cymru yn Nodyn 6 a chyfrifon Banc Datblygu Cymru.

## A.6.3 Buddsoddiadau Ecwiti

Mae buddsoddiadau mewn is-endidau grŵp yn cael eu cadw ar gost yn unol â Datganiadau Ariannol Unigol IAS 27, fel y'u haddaswyd gan FReM. Delir buddsoddiadau mewn cyd-fentrau ar werth teg.

Mae buddsoddiadau ecwiti Banc Datblygu Cymru yn cael eu dal yn ôl gwerth teg drwy Ddatganiad o Wariant Net Cynhwysfawr.

## A.6.4 Cyfalaf Difidend Cyhoeddus Ymddiriedolaethau'r GIG

Cynrychiolir buddsoddiad Llywodraeth Cymru yn Ymddiriedolaethau'r GIG gan Gyfalaf Difidend Cyhoeddus sy'n cael ei ddal ar gost hanesyddol llai amhariadau, yn unol â dehongliad FReM o IFRS 9. Wrth gyfuno Cyfrifon Cryno'r GIG, mae'r buddsoddiad Cyfalaf Difidend Cyhoeddus yn cael ei ddileu.

# A.7 Offerynnau Ariannol

Mae IFRS 7 Offerynnau Ariannol yn ei gwneud yn ofynnol datgelu gwybodaeth sy'n caniatáu i'r defnyddiwr werthuso arwyddocâd offerynnau ariannol ar berfformiad ariannol, a natur a graddau ei gysylltiad â risgiau allweddol sy'n deillio o offerynnau ariannol.

Gan fod y mwyafrif o adnoddau Llywodraeth Cymru yn cael eu talu gan Gronfa Gyfunol Cymru, mae i offerynnau ariannol rôl fwy cyfyngedig wrth greu risg nag a fyddai'n gymwys i gorff o faint tebyg nad yw'n gorff sector cyhoeddus.

## A.7.1 Risg Credyd

Amcan Llywodraeth Cymru yw adfer dyled yn llawn, ac rydym yn mynd ar drywydd hynny yn weithgar. Y polisi yw defnyddio gweithdrefnau rheoli credyd arferol ar gyfer rheoli'r risg o ddiffygdaliad gan ddyledwyr masnach drwy swyddogaeth Cyfrifon Derbyniadwy. Oherwydd natur a gwerth dyledwyr bernir mai bach iawn yw'r risg credyd gysylltiedig.

Cyflwynodd IFRS 9 fodel blaengar o'r credyd y disgwylir ei golli, a dull gweithredu tri cham o ran darparu ar gyfer dyledion. Oherwydd y risg credyd isel, mae'r colledion credyd a ddisgwylir o dan gamau 1 a 2 i Lywodraeth Cymru yn amherthnasol. Gwneir darpariaethau cam 3 ar gyfer dyledion amheus pan fydd dyledion dros 6 mis oed.

Mae gan Lywodraeth Cymru rwymedigaeth statudol i roi benthyciadau i fyfyrwyr, ac ni chaniateir iddi ddal benthyciadau yn ôl ar sail statws credyd gwael. Mae dod i gysylltiad â'r risg o beidio ag ad-dalu benthyciadau'n cael ei fonitro a chyfrifir am yr effaith yn y prisiad blynyddol.

Mae asedau ariannol eraill, heblaw offerynnau ecwiti a'r rhai a ddelir ar werth teg trwy Ddatganiad o Wariant Net Cynhwysfawr, yn cael eu hasesu ar gyfer amhariad ar bob dyddiad adrodd gan ddefnyddio'r model colled credyd disgwyliedig tri cham. Mae colledion credyd disgwyliedig yn cael eu cydnabod lle maent yn berthnasol. Nodir manylion llawn polisïau cyfrifyddu Banc Datblygu Cymru ar gyfer asedau ariannol, gan gynnwys colledion credyd disgwyliedig, yng nghyfrifon Banc Datblygu Cymru.

Bernir bod benthyciwr neu gwsmer yn diffygdalu pan fo tystiolaeth wrthrychol o amhariad credyd ac mae'n annhebygol y caiff rhwymedigaethau eu had-dalu. Mae'r asesiad o ddiffygdalu yn ymgorffori dyfarniad ansoddol, gan ystyried natur y berthynas (er enghraifft is-gwmni, Corff Noddedig, endid arall o'r Llywodraeth neu'r Sector Cyhoeddus) a'r tebygolrwydd o adferiad.

Gall arwyddion o ddiffygdalu gynnwys:

- Achosion ansolfedd neu ddatod ffurfiol;
- Trallod ariannol sylweddol neu dynnu cyllid trydydd parti yn ôl;
- Torri telerau contractiol neu gyfamodau; a
- Chonsesiynau a roddwyd oherwydd dirywiad credyd.

## A.7.2 Risg i'r Farchnad

Y prif risgiau yw i'r portffolio Benthyciadau i Fyfyrwyr yn sgil symudiad ar i lawr yn yr economi a allai arwain at gynnydd yn niweithdra benthycwyr, gan effeithio ar eu gallu i ad-dalu benthyciadau myfyrwyr. Effeithir ar fenthyciadau i fyfyrwyr hefyd oherwydd yr effaith negyddol bosibl wedyn ar dwf enillion graddedigion, sy'n estyn y cyfnod amser cyn i fenthyciadau gael eu had-dalu ac yn estyn y cyfnod ad-dalu. Gallai hyn effeithio ar y gwerth cario yn y cyfrifon. Gallai arwain hefyd ar gynnydd mewn diddymiadau gan ei fod yn cynyddu'r debygoliaeth na fydd rhai graddedigion o bosibl yn ad-dalu eu benthyciadau'n llawn erbyn diwedd cyfnod y benthyciad.

## A.7.3 Risg Arian Cyfred Tramor

Mae Llywodraeth Cymru yn agored i risg arian cyfred bach iawn ar ei thrafodiadau ym maes arian cyfred tramor, ac eithrio cronfeydd a ddaw i law oddi wrth yr Undeb Ewropeaidd i Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru. Nid yw dewisiadau lliniaru'r sector preifat ar gael. Er hynny, mae cyfanswm y cyllid a ddaw i law oddi wrth y Comisiwn Ewropeaidd yn cael ei reoli er mwyn sicrhau bod y cyllid sydd ar gael yn cael ei ddyrannu'n hyblyg i brosiectau, fel y gellir bodloni lefelau gwariant wedi'u targedu. Mae hawliadau cyllid oddi wrth y Comisiwn hefyd yn brydlon er mwyn cyfyngu ar oedi rhwng tynnu gwariant a'i ad-dalu.

## A.7.4 Risg y Gyfradd Llog

Asedau ariannol cyfradd amrywiadwy Llywodraeth Cymru yn bennaf yw ei benthyciadau i fyfyrwyr sydd â chap cyfradd llog a bennir yn RPI neu gyfradd sylfaenol Banc Lloegr plws 1%. Y gyfradd llog ar fenthyciadau cyn 2012 yw'r isaf o RPI a chyfradd sylfaenol Banc Lloegr plws 1%. Mae faint o log sydd i'w ad-dalu felly'n destun yn destun y gwamaliadau yn y gyfradd sylfaenol ac RPI. Mae'r tebygolrwydd y bydd Llywodraeth Cymru yn adennill gwerth enwol

benthyciadau a roddir yn cael ei gynyddu pan fydd cyfradd sylfaenol Banc Lloegr yn isel a'r gyfradd chwyddiant yn gymharol uchel, am fod y gyfradd sylfaenol yn dod i rym ar gyfer y benthyciadau hyn. Mae effaith risg y gyfradd llog ar gyfer benthyciadau i fyfyrwyr a roddir o dan gynllun cyn 2012 yn cael ei ffactora i mewn i'r gwerth cario gan fod y model ad-dalu benthyciad i fyfyrwyr yn cyfrifo effaith cyfradd llog ar lifoedd arian parod a ddisgwylir.

Mae risg ynghlwm wrth ragamcanu faint o log sy'n daladwy ac os ceir cyfraddau sylfaenol sy'n is nag RPI, amherir ymhellach ar lifoedd arian parod y dyfodol.

### A.7.5 Risg Hylifedd

Nid yw Llywodraeth Cymru yn benthyca ond oddi wrth y Gronfa Benthyciadau Gwladol, ac mae'n dibynnu'n bennaf ar gyllid a ddaw i law oddi wrth Senedd y DU drwy Gronfa Gyfunol Cymru ar gyfer ei gofynion arian parod. Nid oes rheswm dros gredu na fydd cyllid ar gael yn y dyfodol, felly ar y sail hon nid yw'n agored i risgiau hylifedd. Hefyd nid oes ganddi adneuon sylweddol, ac mae'r holl asedau ac atebolrwyddau o bwys wedi'u henwi mewn sterling, felly nid yw'n agored i risg cyfradd llog na risg cyfradd arian cyfred heblaw'r risgiau sy'n deillio o dderbyn cronfeydd oddi wrth y Comisiwn Ewropeaidd mewn Ewros.

Lle mae gwerth arian o ran amser yn berthnasol, mae darpariaethau'n cael eu disgowntio i'r gwerth presennol gan ddefnyddio darpariaethau disgownt real Trysorlys EF.

## A.8 Stocrestri

Mae asedau datblygu, gan gynnwys tir a ddelir i'w ddatblygu yn y dyfodol ac eiddo adeiledig nad oes mo'i angen at eu defnydd eu hunain, a ddelir gyda'r bwriad o'u hailwerthu yn y pen draw, yn cael eu dangos ar lefel isaf cost hanesyddol a phrisio asedau proffesiynol, gan ddileu unrhyw amhariad adeg ailbrisio i Ddatganiad o Wariant Net Cynhwysfawr. Mae gwrthdroi perthnasol yn achos amhariadau blynyddoedd blaenorol yn cael ei ddileu i'r Datganiad o Wariant Net Cynhwysfawr os oes tystiolaeth bresennol o gynnydd mewn gwerth yn deillio o wariant blynyddoedd blaenorol.

Mae stocrestri eraill yn cael eu prisio ar lefel isaf cost amnewid a gwerth gwireddadwy net. Mae Llywodraeth Cymru o'r farn nad oes gwahaniaeth o sylwedd rhwng y gost amnewid a chost hanesyddol stociau. Mae stociau sydd ag oes economaidd ddefnyddiol gyfyngedig yn cael eu dileu ar ddiwedd eu hoes.

## A.9 Symiau Derbyniadwy drwy Fasnach a Symiau Derbyniadwy Eraill

Mae symiau derbyniadwy drwy fasnach a symiau derbyniadwy eraill yn cael eu cydnabod yn wreiddiol yn ôl gwerth teg, fel rheol pris y trafodiadau. Wedi hynny, lle mae gwerth arian o ran amser yn berthnasol, fe'u delir ar gost wedi'i hamorteiddio gan ddefnyddio'r dull llog effeithiol llai amcangyfrif o amhariad tebygol. Cyfrifir amhariad o symiau derbyniadwy drwy fasnach drwy fodel colli credyd disgwyliedig.

## A.10 Arian parod a'r hyn sy'n cyfateb i arian parod

Mae balansau arian parod a balansau sy'n cyfateb i arian parod yn cael eu dadansoddi rhwng y rhai sy'n cael eu dal gyda Gwasanaeth Bancio'r Llywodraeth a'r rhai sydd mewn banciau masnachol. Mae swm cario ymlaen y balansau banc yn hafal i'w gwerth teg.

## A.11 Symiau taladwy drwy fasnach a symiau taladwy eraill

Mae symiau taladwy drwy fasnach a symiau taladwy eraill yn cael eu cydnabod i ddechrau yn ôl gwerth teg, fel rheol pris y trafodiad. Wedi hynny, lle mae gwerth arian o ran amser yn berthnasol, fe'u delir ar gost wedi'i hamorteiddio gan ddefnyddio'r dull llog effeithiol.

## A.12 Darpariaethau

Yn unol ag IAS 37 Provisions, Contingent Liabilities and Contingent Assets, gwneir darpariaethau ar gyfer rhwymedigaethau a thaliadau ar ddiwedd y flwyddyn pan fo rhwymedigaeth gyfreithiol neu ddeongliadol bresennol yn bodoli (h.y. rhwymedigaeth bresennol sy'n deillio o ddigwyddiadau yn y gorffennol), pan fo'r all-lif adnoddau y bydd eu hangen i setlo'r rhwymedigaeth yn debygol a phan fo modd gwneud amcangyfrif rhesymol o'r rhwymedigaeth.

Pan fo gwerth arian o ran amser yn berthnasol, mae darpariaethau'n cael eu disgowntio i'r gwerth presennol gan ddefnyddio cyfraddau disgownt Trysorlys EF.

## A.13 Atebolrwyddau Dibynnol

Mae atebolrwydd dibynnol yn rhwymedigaeth bosibl sy'n codi o ddigwyddiadau'r gorffennol na fydd ei bodolaeth yn cael ei gadarnhau oni bai y bydd, neu na fydd, un neu ragor o ddigwyddiadau ansicr yn digwydd yn y dyfodol nad ydynt o fewn rheolaeth Llywodraeth Cymru yn llwyr; neu'n mae'n rhwymedigaeth bresennol nad yw'n cael ei chydnabod oherwydd nad yw hi'n debygol y bydd angen taliad i setlo'r rhwymedigaeth neu oherwydd na ellir mesur swm y rhwymedigaeth mewn modd digon dibynadwy.

Datgelir atebolrwyddau dibynnol yn Nodyn 12, fel sy'n ofynnol gan IAS 37, os bernir bod y tebygolrwydd o drosglwyddo budd economaidd mewn setliad yn fwy nag annhebygol.

Datgelir atebolrwyddau dibynnol annhebygol yn Nodyn 12.2, yn unol â FReM, er mwyn bod yn dryloyw. Mae atebolrwyddau dibynnol annhebygol yn cynnwys gwarantau, indemniadau a llythyrau cysur.

## A.14 Lesoedd

Mae Llywodraeth Cymru yn cyfrif am lesoedd yn unol ag IFRS 16 Lesoedd, fel y maent wedi'u dehongli a'u haddasu gan FReM.

### A.14.1 Fel Lesddeiliad

Pan fydd les yn cael ei nodi, cydnabyddir ased hawl-i-ddefnyddio ac atebolrwydd les cyfatebol ar y dyddiad cychwyn.

Nid yw hyn yn cynnwys lesoedd tymor byr a lesoedd lle mae'r ased sylfaenol o werth isel. Ar gyfer lesoedd o'r fath, mae taliadau'r les yn cael eu cydnabod fel cost ar sail llinell syth dros gyfnod y les.

Lesoedd tymor byr yw rhai deuddeg mis neu fyrrach. Mae trothwy o £5,000 wedi'i osod ar gyfer adnabod asedau gwerth isel.

### A.14.2 Mesur Cychwynnol

Cyfrifir atebolrwydd y les yn seiliedig ar werth presennol taliadau les heb eu talu dros gyfnod cymwys y les a bennir yn unol ag IFRS 16 Lesoedd. Mae atebolrwydd y les yn cael ei ddisgowntio gan ddefnyddio cyfraddau Trysorlys EF a gyhoeddir ym mhapurau'r Arolwg o Wariant Cyhoeddus fel y gyfradd fenthyca gynyddrannol.

Mae'r ased hawl-i-ddefnyddio yn cael ei fesur yn ôl cost i ddechrau, sy'n cynnwys swm cychwynnol atebolrwydd y les, ynghyd ag unrhyw gostau uniongyrchol cychwynnol yr eir iddynt ac amcangyfrif o'r costau i adfer yr ased sylfaenol, llai unrhyw gymhellion les a dderbyniwyd.

### A.14.3 Mesur Dilynol

Mae atebolrwydd y les yn cael ei addasu ar gyfer cronni llog, taliadau, ailasesiadau ac addasiadau, er enghraifft mae ailarfarniadau'r asedau Hawl i ddefnyddio yn cael eu dibrisio ar sail llinell syth dros dymor cysylltiedig y les. Mae'r ased hawl-i-ddefnyddio yn cael ei leihau'n gyfnodol gan golledion amhariadau, os oes rhai, ac yn cael ei addasu ar gyfer ailfesuriadau penodol o atebolrwydd y les.

Mae asedau hawl-i-ddefnyddio yn cael eu mesur wedyn gan ddefnyddio'r model cost fel procsi ar gyfer gwerth cyfredol yn y defnydd presennol. Defnyddir y model cost fel procsi gan nad oes gwahaniaeth o bwys rhwng y prisiad a gynhyrchir gan y model cost o'i gymharu â'r model ailbrisio.

### A.14.4 Fel Lesydd

Pan fydd Llywodraeth Cymru yn gweithredu fel lesydd, penderfynir ar adeg cychwyn pob les ai les gyllid neu les weithredol yw hi. Mae taliadau les a dderbynnir o dan lesoedd gweithredol yn cael eu cydnabod fel incwm ar sail llinell syth dros gyfnod y les.

## A.15 Ymrwymiadau Cyfalaf ac Ymrwymiadau Ariannol Eraill

Mae FReM yn gofyn am ddatgelu ymrwymiadau cyfalaf ac ymrwymiadau ariannol eraill. Mae ymrwymiadau cyfalaf a ddatgelir yn Nodyn 16.1 yn 'gontractau annileadwy' nas cynhwysir fel arall yn y datganiadau ariannol. Mae ymrwymiadau ariannol eraill a ddatgelir yn Nodyn 16.3 yn 'gontractau annileadwy' nad ydynt eisoes yn cael eu cydnabod yn y Datganiad o'r Sefyllfa Ariannol nad ydynt yn lesoedd, contractau PFI, na threfniadau consesiwn gwasanaeth eraill.

Nid yw ymrwymiadau grant o fewn cwmpas y datgeliadau hyn.

## A.16 Y Fenter Cyllid Preifat a Threfniadau Consesiwn Gwasanaeth Eraill

Mae Trysorlys EF wedi pennu y bydd rhaid i gyrff llywodraeth gyfrif am gynlluniau consesiwn gwasanaeth ar gyfer seilwaith pan fo'r corff llywodraeth yn rheoli'r defnydd o'r seilwaith a'r buddiant gweddilliol yn y seilwaith ar ddiwedd y trefniant, yn unol ag egwyddorion gofynion IFRIC 12 'Service Concession Arrangements'.

Mae'r ased consesiwn gwasanaeth yn cael ei gydnabod fel eitem o eiddo, offer a chyfarpar ynghyd ag atebolrwydd i dalu amdano.

Mae'r gwasanaethau a dderbynnir o dan y contract yn cael eu cofnodi fel treuliau gweithredu.

Mae'r taliad unedol blynyddol yn cael ei rannu'n gydrannau fel a ganlyn, gan ddefnyddio technegau amcangyfrif priodol lle bo angen:

a) Taliad am werth teg y gwasanaethau a gafwyd;
b) Taliad am yr ased consesiwn gwasanaeth gan gynnwys costau cyllid; ac
c) Taliad am ddisodli

cydrannau'r ased yn ystod y contract 'amnewid ar ddiwedd cylch oes'.

Cofnodir gwerth teg gwasanaethau a dderbynnir yn y flwyddyn o dan y penawdau gwariant perthnasol o fewn costau rhaglenni.

Caiff asedau consesiwn gwasanaeth eu cydnabod fel eiddo, offer a chyfarpar:

a) pan fo'n debygol y bydd manteision economaidd sy'n gysylltiedig â'r ased yn y dyfodol yn llifo i'r sefydliad; a
b) phan ellir mesur cost yr ased yn ddibynadwy.

Mae'r meini prawf uchod i gydnabod asedau, ynghyd â thelerau ac amodau penodol y cytundeb rhwymol, yn cael eu hystyried wrth benderfynu a ddylid cydnabod yr ased consesiwn gwasanaeth yn ystod y cyfnod y mae'r ased yn cael ei adeiladu neu ei ddatblygu.

Mae asedau consesiwn gwasanaeth sydd wrthi'n cael eu hadeiladu yn cael eu cydnabod a'u prisio yn yr un modd ag asedau anghyfredol eraill o'r un math generig.

Mae asedau consesiwn gwasanaeth sydd wedi'u cwblhau yn cael eu mesur i ddechrau yn ôl gwerth teg pan ddechreuir eu defnyddio, yn unol ag egwyddorion IFRS 16. Wedyn, mae'r asedau'n cael eu mesur yn ôl gwerth teg, sy'n cael ei ddiweddaru yn unol ag egwyddorion IAS 16.

Cydnabyddir yr atebolrwydd consesiwn gwasanaeth ar yr un pryd â'r ased consesiwn gwasanaeth. Mae hyn yn cael ei fesur ar yr un swm â gwerth teg yr ased consesiwn gwasanaeth ac yn cael ei fesur o ganlyniad fel les yn unol ag IFRS 16. Cyfrifir cost ariannu flynyddol drwy gymhwyso'r gyfradd llog

ymhlyg yn y les i atebolrwydd agoriadol y les am y cyfnod a chaiff ei chodi ar y Datganiad o Wariant Net Cynhwysfawr. Mae'r elfen o'r taliad unedol blynyddol sy'n cael ei dyrannu fel rhentiad les yn cael ei chymhwyso i dalu'r gost ariannu flynyddol ac i ad-dalu atebolrwydd y les dros dymor y contract.

## A.17 Safonau cyfrifyddu newydd eu cyhoeddi nad ydynt mewn grym eto

Mae nifer o safonau a dehongliadau cyfrifyddu newydd a diwygiedig wedi cael eu cyhoeddi ond nid ydynt mewn grym eto, ac felly nid ydynt wedi cael eu mabwysiadu eto yn y datganiadau ariannol hyn. Mae'r rhain yn cael eu hystyried ar hyn o bryd gan y Bwrdd Cynghori ar Adroddiadau Ariannol (FRAB) i'w cynnwys mewn FReM yn y dyfodol. Gallai'r Safonau canlynol gael effaith ar Gyfrifon Cyfunol Llywodraeth Cymru yn y dyfodol pan gânt eu mabwysiadu:

### A17.1 IFRS 17 Contractau Yswiriant – yn effeithiol o 1 Ebrill 2025

Mae'r Bwrdd Safonau Cyfrifyddu Rhyngwladol (IASB) wedi cyhoeddi IFRS 17 Contractau Yswiriant, sy'n disodli IFRS 4 Contractau Yswiriant.

Mae'r safon newydd yn gosod disgwyliadau cliriach ar gydnabod, dosbarthu a mesur asedau ac atebolrwyddau mewn perthynas â chontractau yswiriant. Mae IFRS 17 mewn grym ar gyfer y cyfnodau cyfrifyddu sy'n dechrau ar 1 Ionawr 2023 neu wedi hynny. Mae Trysorlys EF wedi cyhoeddi canllawiau ar gymhwyso'r Safon, gan nodi ei bod yn orfodol i gyrff llywodraeth ganolog ei mabwysiadu ar 1 Ebrill 2025 ac y bydd mabwysiadu cynnar yn cael ei ganiatáu fesul achos. Ni ddisgwylir i'r newidiadau gael effaith sylweddol.

### A.17.2 Prisiad Asedau nad ydynt yn Fuddsoddiad – yn effeithiol 1 Ebrill 2025

Yn ystod 2024-25 cyhoeddodd Trysorlys EF canllawiau cymhwyso ynghylch newid y dull prisio a gymhwysir ar gyfer eiddo, offer ac offer ac asedau anniriaethol. Bydd y newidiadau yn cyflwyno'r cysyniad o asedau a ddelir ar gyfer eu gallu gweithredol, gan ddileu'r rhaniad presennol rhwng asedau arbenigol ac asedau nad ydynt yn arbenigol o FReM. Mae'r newidiadau yn weithredol o 1 Ebrill 2025 ar gyfer cyrff y llywodraeth ganolog. Ni ddisgwylir i'r newidiadau gael effaith sylweddol. Mae Trysorlys EF yn bwriadu cyhoeddi canllawiau pellach ar ystyriaethau penodol sy'n ymwneud â phrisiadau Asedau Cyfatebol Modern.

### A.17.3 IFRS 18 Cyflwyno a Datgelu mewn Datganiadau Ariannol

Mae'r Bwrdd Safonau Cyfrifyddu Rhyngwladol (IASB) wedi cyhoeddi IFRS 18 sy'n disodli IAS 1 Cyflwyno Datganiadau Ariannol. Bydd y safon hon yn cyflwyno newidiadau yn y ffordd y cyflwynir y datganiad perfformiad a'r datganiad o lifoedd arian parod. Mae IFRS 18 mewn grym ar gyfer y cyfnodau cyfrifyddu sy'n dechrau ar 1 Ionawr 2027 neu wedi hynny. Nid yw Trysorlys EF wedi cadarnhau eto sut y bydd y newidiadau yn y safon yn effeithio ar gyflwyno'r Datganiad o Wariant Net Cynhwysfawr sy'n ofynnol gan FReM. Nid yw'r dyddiad gweithredu ar gyfer cyrff y llywodraeth ganolog wedi'i gadarnhau eto.

### A.17.4 IFRS 19 Is-gwmnïau heb Atebolrwydd Cyhoeddus: Datgeliadau

Mae'r Bwrdd Safonau Cyfrifyddu Rhyngwladol (IASB) wedi cyhoeddi IFRS 19. Mae'r safon hon yn caniatáu i endidau o fewn ei chwmpas hepgor datgeliadau penodol a fyddai fel arall yn ofynnol o dan IFRS. Mae IFRS 19 mewn grym ar gyfer y cyfnodau cyfrifyddu sy'n dechrau ar 1 Ionawr 2027 neu wedi hynny. Nid yw Trysorlys EF wedi cadarnhau eto sut y bydd y safon yn cael ei chymhwyso ar gyfer cyrff llywodraeth ganolog ac nid yw wedi pennu dyddiad gweithredu eto.